

HYFFORDDIAD

ACADEMIA HILTONIENSIS
Y SHWNT CIRIAD

EDITION MILLIARDIENSIS
I
TOMUS I.

ACADEMIA HILTONIENSIS
TOMUS II.

Wybodaeth jachusol

MILLIARDIENSIS
TOMUS I.

MILLIARDIENSIS
TOMUS II.

Egwyddorion a Dyledswyddau

CREFYDD.

Egwyddor i'r Anlytbryennog i ddysgu darllain.

A B C Ch D Dd E F Ff G Ng H I L Ll M N O
P Ph R S T Th U W Y.

A a b c ch d dd e f ff g ng h i l ll m n o p ph r
f s t th u w y.

A B C Ch D Dd E F Ff G Ng H I L Ll M N O
P Ph R S T Th U W Y.

A a b c ch d dd e f ff g ng b i l ll m n o p ph r
f s t th u w y.

Y Llafarjaid, neu'r Bogeiljaid.
a e i o u w y.

Yr holl Lythyrennan eraill a elwir Cydseiniaid.

ab eb ib ob ub wb yb
ac ec ic oc uc wc yc
ach ech ich och uch wch ych
ad ed id od ud wd yd
add edd idd odd udd wdd ydd
af ef if of uf wf yf
aff eff iff off uff wff yff
ag eg ig og ug wg yg
angeng ing ong ong wng yng
al el il ol el wl yl
all ell ill oll ull wll yll
am em im om um wm ym
an en in on un wn yn
ap ep ip op up wp yp
aphephiphophophuphwph yph
ar er ir or ur wr yr
as es is os us ws ys
at et it ot ut wt yt
ath eth ith oth uth wth yth

ba be bi bo bu bw by
ca ce ci co cu cw cy
chache chi cho chu chw chy
da de di do du dw dy
dda dde ddi ddo ddu ddw ddy
fa fe fi fo fu fw fy
ffa ffe ffi ffo ffu ffw ffy
ga ge gi go gu gw gy
ha he hi ho hu hw hy
la le li lo lu lw ly
lla lle lli llo llu llw lly
ma me mi mo mu mw my
na ne ni no nu nw ny
pa pe pi po pu pw py
pha phe phi pho phuphwphy
ra re ri ra ru rw ry
sa se si so su sw sy
ta te ti to tu tw ty
tha the thi tho thu thw thy



HYFFORDDIAD

I Wybodaeth jachusol o

GWYDDORJON a DYLED SWYDDAU

GREFYDD:

SEF,

OLIADAU ac ATTEBION Ysgrythurol

Ynghylch yr ATHRAWJAETH a gynhwysir

Sng Nghatecism yr Eglwys.

genrheidjol i'w dysgu gan HEN a JEUAING C.

Y DRYDEDD RAN.

V N C Y N N W Y S

poniad helaeth a manwl o'r DEG GORCHYMMYN: Yn dangos eu Rhwymedigaeth, a'u Deunydd, a'r Usudd-dod sy'n ddyledus iddunt dan yr EFENGYL; ac yn amlygu y Dyledswyddau neillduol a orchymmynnir, a'r Peibodaau neillduol i waberddir, ym mhob GORCHYMMYN, ynghyd ag amryw Esamplau Ysgrythurol ar Droseddwyr rhyfygus o honunt.

Gan WEINIDOG o EGLWYS LOEGR.

xix. 10, 11. Mwy dymunol ynt nag aur, ie nag aur coeth lawer: elysach hefyd nâ'r mîl, ac nâ diferiad diljau mîl. Ynddunt hwy hefyd rhybuddir dy wâs: o'u cadw y mae gwobr lawer.

TH. v. 17. Na thybiwch fy nyfod i dorri'r gyfraith neu'r prophwydi: i ddaethym i dorri, ond i gyflawni.

THE FORTRESS OF
H



THE FORTRESS OF
H

H

EG

C

P

a gyn

i mi,

lived

Cw

Fydd

At

I.

fel ffir

byd

He

2. I

ldorj

y gen

H Y F F O R D D I A D

I

W Y B O D A E T H jachusol

O

E G W Y D D O R J O N a D Y L E D S W Y D D A U

C R E F Y D D.

Cwestiwn.

P A beth sy raid i chwi ddysgu, heb law Egwyddorjon y Ffydd a gynhwysir yng Ngredo'r Apostolion?

Arreb. Heb law Egwyddorjon y Ffydd a gynhwysir yn y Gredo, mi a ddylwn ddysgu'r Dyledswyddau a gynhwysir yn y 'Deg Gorchwymyn'. — Sal. cxix. 33. *Dysg i mi, O Arglywydd, fforda dy daeddrafau, a chaawäf hi byd y diwedd.*

Cw. Pa ham y dylech yn flaenaf ddysgu Egwyddorjon y Ffydd, a chyd â hynny y Dyledswyddau hefyd?

Att. O blegid,

1. Mai o Ffydd y dylai ein holl Ddyledswyddau ddysod, fel ffrwyth oddi wrth y gwrâidd; a thrwy Ffydd yn unig byddant gymmeradwy yng ngolwg Duw. — Hebr. xi. 6. — *Heb ffydd amimboffibl yw rhwng ei fod ef.*

2. Mi a ddylwn ddysgu fy Nyledswyddau, ac nid Egwyddorjon y Ffydd yn unig; ac onid è, ffydd ddiffryth a marw y gennyf. — Jago ii. 26. *Canys megis y mae'r corph heb yr osbryd.*

ysbryd yn farw, felly befyd ffydd heb weithredoedd, marw yw.

Cw. Beth yw'r Swm o'ch holl Ddyledswyddau?

Att. Swm fy holl Ddyledswyddau yw, Ofni Duw, ac ufuddhâu iddo.— Preg. xii. 13. *Swm y gwbl a glybiwyd yw, Ofna Dduw, a chadw ei orchymwynnion: canys byn yw holl ddyled dyn.*

Cw. Pa ham y dylech ufuddhâu i Dduw?

Att. Ni a ddylem ufuddhâu i Dduw,

1. Am mai efe a'n gwnaeth ni oll, a'i greadurjaid ef ydym.— Sal. c. 3. *Gwybyddwch mai'r Arglwydd sydd Dduw: efe a'n gwnaeth, ac nid ni ein bunain: ei bobl ef ydym, a defaid ei borfa.*

2. Am mai Duw yw'n Cymmwynaswr, a'n Ceidwad, ac Awdwr ein holl Drugareddau ni.— Act. xvii. 25, 28. — Gan ei fod ef yn rhoddi i bawb fywyd, ac anadl, a phob peth oll. O blegid ynddo ef yr ydym ni yn byw, yn symiad, ac yn bod.

3. Am mai Duw yw'n Peallwydd, ag lygando awdurdod i roddi Deddf neu Gyfraith i bawb, ac i farnu pawb yn ôleu hymddygiad tu ag atto. — Esay xxxiii. 22. *Canys yr Arglwydd yw ein barnwr, yr Arglwydd yw ein deddfwr, yr Arglwydd yw ein Brenin; efe a'n ceidw.* Jago iv. 4.

4. Am fod y rhai anufudd mewn cyflwr echrydus, ac yn cyfrroi Diglonedd Duw yn eu herbyn.— Eph. v. 6. *Na thwylled neb chwi â geiriau ofer: canys o blegid y pethau byn y mae digofaint Duw yn alyfod ar blant yr anafudd-dod.* Deut. xxviii. 15. Rhuf. ii. 8. 2 Thess. i. 8.

5. Am fod y rhai ufudd yn fendigedig ac yn ddedwydd; o herwydd fod Ufudd-dod yn arwydd gyffurus o'u perthynas gyfammodal â Duw, ac â'i Fâb yr Arglwydd Jesu.— Jer. vii. 23. — *Gwrandewch ar fy llef, a mi a fyddaf Dduw i chwi, a chwithbau fyddwch yn bobl i minnau; a rhadwch yn yr holl ffyrdd a orchymwynnais i chwi, fel y dyddo yn ddajonus i chwi.* — Math. xii. 30. *Canys pwys bynnag a unâ erwyllys fy Nhâd yr hwn sydd yn y nefoedd, efe yw fy mrawd i, a'm chwaer, a'm mam.* Joan x. 27. xv. 14.

Cw. Pa bethau dedwyddol mae Duw yn addo, i annog ein Hufudd-dod ni?

Att. 1. Mae Duw yn addo i gynnwys ym Bobl ddêwisol iddo ei hun, ac fel Trysorwr yw'n ei olwg, o flaen pawb eraill.— Ecsod. xix. 5. *Canwrando y gwrandewch ar fy llais, a chadw fy mrawd ymmod; chwi a fyddwch yn drysor.*



drysor priodol i mi o flaen yr holl bobloedd: canys eiddosf yr holl ddaear. A chwi a fyddwch i mi yn frenhinjaeth a offeiriad, ac yn genbedlaeth sanctaidd. Deut. vii. 6. 1 Pedr ii. 9, 10.

2. Mae Duw yn addo'n bendithio ni, a'r hyn oll a sedd-om. — Deut. xxviii. 2—6. A'r holl fendithion hyn a ddarw arnat, ac a'r h oddiwrddant, o's gwrandewi ar lais yr Arglwydd dy Dduuw. Bendigedig fyddi di yn y ddinas, a bendigedig yn y maes. Bendigedig fydd ffrwyth dy fru, a ffrwyth dy tir, a ffrwyth dy anifail di, cynnydd dy wartheg, a diadelau dy adefaid. Bendigedig fydd dy gawell, a'r h does di. Bendigedig fyddi di yn dy ddyfodiad i mewn, a bendigedig yn dy fynediad allan. Deut. iv. 40. xxix. 9. xxx, 9, 10. 1 Cron. xxii. 13. Diar. iii. 33.

3. Mae Duw yn addo fod yn ein plaid yn erbyn ein gelynjon a'n gwirthwynebwyr. — Eesod. xxiii. 22. O's gan wrando y gwrandewi ar ei lais ef, a gwneuthur y cwbl a lefarwyf, mi a fyddaf elyn i'r elynjon, ac a wrtbwynebaf dy wrthwynebwyr. — Gen. xii. 3. Bendithiaf hefyd dy fendithwyr, a'r h feillithwyr a felldigaf. Deut. xxviii. 7.

4. Mae Duw yn addo ffrwythloni'r ddaear i'n porhi a digoneidd o fara. — Esay i. 19, 20. O's byddwch ewyllysgar ac uffudd, dajoni'r tir a fwytebwch. Ond o's gwrtbodwch, ac o's anufuddabewch, a chleddyf y'ch yssir: canys genou'r Arglwydd a'i llefarodd. Deut. xxviii. 11, 12.

5. Mae Duw yn addo gwrando a derbyn ein Gweddiau, a rhoddi i ni beth bynnag a geisio m yn ôl ei Ewillys ef. — 1 Joan iii. 22. A pha beth bynnag a osynnwm, yr ydym yn ei dderbyn gando ef, o blegid ein bod yn cadw ei orchymmynnion ef, ac yn gwneuthur y perthau sydd yn rhyngu bodd yn ei olwg ef. Joan xv. 7.

6. Mae Duw'r Tâd ei hun, a Christ hefyd, yn addo amlygu ei Gariad i'r fawl a'i carant ef, ac a gadwânt ei Orchymyynnion. — Joan xiv. 21. Tr bwn sydd a'm gorcymyynnion i gando, ac yn eu cadw hwylt, efe yw'r bwn sydd yn fy ngharu i: a'r bwn sydd yn fy ngharu i, a gerir gan fy Nhâd i: a minnau a'i caraf ef, ac a'm begluraf fy bwn iddo. 23 adn. Ad. v. 32.

7. Mae Duw yn addo ein derbyn trwy Crist i Deyrnas Nefoedd, pan y tröer yr anufudd i usfern. — Dad. xxii. 14. Gwyn eu byd y rhai sy yn gwneuthur ei orchymyynnion ef,

*fel y byddo iddunt faint ym mhren y bywyd, ac y gallont
syned i mewn trwy'r pyrth i'r ddinas.* Hebr. v. 9.

Cw. A ddylech chwi usuddhau i neb arall ond i Dduw yn unig?

Att. Mae Duw ei hun yn gorchymwyn i ni usuddhau,
1. I'n Llywiawdwyr. — Rhuf. xiii. 1. *Tmddarostynged pob
enaid i'r awdurdodau goruchel.* Canys nid oes awdurdod
ond oddi wrth Ddirw: a'r awdurdodau sydd, gan Dduw y
maent wedi eu hordeinio. Dit. iii. 1. 1 Pedr ii. 13, 14.

2. I'n Hathrawon; sef, Gweinidogion yr Efengyl. — Hebr.
xiii. 17. *Ufuddbêwch i'ch blaenoriad, ac ymddyngwch.*
O blegid y maent bwyl ym gwyllo dros eich eneidian chwi,
megis rhai a fydd roid iddunt roddi cyfrif: fel y gallont
wneutbur bynnyn yn llawen, ac nid yn drist: canys aifudd i
chwi yw bynnyn.

3. I'n Rhieni. — Col. iii. 20. *T plant, ufuddbêwch i'ch
rhieni ym mhob peth: canys byn sydd yn rhyngu bodt i'r
Arglwydd yn dda.*

Cw. A ddylech usuddhau i'ch Llywiawdwyr, a'ch Athrawon, a'ch Rhieni, ym mhob peth?

Att. 1. Ni a ddylem usuddhau iddunt ym mhob peth ag nid
yw Duw yn wahardd. — 1 Pedr ii. 13, 14. *Tmddarostyngwch*
o blegid byn i bob dynol ordinbad, o berwydd yr Arglwydd:
pa un bynnag ai i'r brenin, megis goruchaf; ai i'r Llywiawdwyr,
megis trwyddo ef wedi eu danfon, er diaf ar y
drwgweithredwyr, a mawl i'r gweithredwyr da. Eph. vi. 1.

2. Ni ddylem ni usuddhau i ddynjon mewn dim ag sydd
wrthwyneb i Orchymmynnion Duw. — Act. v. 29. *A Phedr
a'r apostolion a atebasant, ac a ddywedasant, Rhaid yw
usuddhau i Dduw yn fwy nag i ddynjon.* Act. iv. 19.

Cw. Beth yw Rheol eich Ufudd-dod chwi?

Att. Nid ein dychymmygion ein hunain, na phiniynau
rhai eraill, na gorchymmynnion dynjon, ond Ewillys ddad-
guddiedig Duw yn yr Ysgrythur Lân, yw Rheol ein Hufudd-
dod. — Esay viii. 20. *At y gyfraith, ac at y dystiolaerh: oni
ddywedant yn ôl y gair hwn, bynnyn sydd am nad oes oleuni
ynndunt.* Esay xxxiv. 16. Joan v. 39.

Cw. A ellwch chwi usuddhau i Ewillys Duw yn eich
perth eich hun?

Att. 1. Tra fyddwys yng nghyflwr llygredig fy natur, heb
Râs Duw, nid wyf ddigonol o honof fy hun i gwplâu yr hyn
sydd

sydd dda.— Rhuf. vii. 18, 23. *Canys mi a wñ nad oes yn-nofi, hynny yw, yn sy ngħnawd i, ddim da yn trigo: o blegid yr ewyllysio sydd barod gennyf; eitbr cwpiau yr bñn sydd dda, nid wyf yn medru arno. Trwyf yn gweled deddf arall yn syaelodau, yn gwrtbryfela yn erbyn deddf sy meddwl, ac yn sy ngħaethiwo i ddeddf peċċoħ, yr hon sydd yn syaelodau.*

2 Cor. iii. 5. Joan xv. 5. Phil. ii. 13.

2. Nid allaf chwaith mewn ystād o Rās, tra fyddwyf mewn cnawd llygredig, dalu Ufudd-dod llwyr-ddibechod i Dduw.— Jago iii. 2. *Canys mewn llawer o bethan yr ydym ni bawb yn llitbro.* 1 Joan i. 8. Gal. v. 17.

3. Mae'n ddyledus arnas i roddi'r Ufudd-dod gorau ag allwyf i Dduw, trwy gymmorth ei Rās ef, o's mynnaf etifeddu Bywyd tragicwyddol trwy Crist Jesu.— Math. xix. 17. — O's ewyllysi fyned i mewn i'r bywyd, cadw y gor-chymmynnion. Rhuf. ii. 8. 2 Thess. i. 8. Deut. xxvii. 10.

Cw. Beth a ddylech ystyriaid ym mhellach yngħylch eich Ufudd-dod i Ewillys Duw?

Att. 1. Mi a ddylwn ystyriaid, gan mai Ewillys dad-guddiedig Duw yw Rheol ein Hufudd-dod ni, mai peth peryglus yw i ddynjon fod yn anwybodus o hono. — Sal. xcv. 10. — *Pobl gyfeiliornus yn eu calon ydynt bwj, ac nid adnabuant sy ffyrdd.* Diar. xix. 2.

2. Mi a ddylwn ystyriaid y perygl o wyro oddi wrth Ewillys ddadguddiedig Duw, Rheol ein Hufudd-dod ni, ar ôl traddodiadau fföl, neu athrawjaethau dynjon cyfeiliornus. — Col. ii. 8, 21, 22. *Edrycwrwch na bo neb yn eich anrheithio trwy philosophi, a gwâg dwyll, yn ôl traddodiad dynjon, yn ôl gwyddorion y byd, ac nid yn ôl Crist. Na chyffwrdd; ac na archwaetha; ac na theimla: y rhai ydynt oll yn Hygredigaeth wrth eu barfer; yn ôl gorchymmynnion ac athrawjaethau dynjon.* Math. xv. 3, 6, 9. Dit. i. 14.

3. Mi a ddylwn ystyriaid, fod pwy bynnag a ddilinant eu dychymmygion, a'u piniynau, neu weledigaethau eu'men-nyddiau eu hunain, yn cyfeiliorni'n refynus: canys Ewillys dadguddiedig Duw yn yr Ysgrythur Lân, yw'r Rheol a osod-wyd i bawb. — Marc xii. 24. *A'r Jesu a artebodd ac a ddywedodd wrthunt, Ond am bñn yr ydych yn cyfeiliorni, am nad ydych yn gwybod yr ysgrytburau?* — Gal. i. 8. *Pe byddai i ni, neu i angel o'r nef, esangylu i chiwi angen nā'r*

bŷn a efangylasom i chwi, bydded anathema. — 1 Dim. iv. 13. — Glyn wrth ddarllen.

4. Mi a ddylwn ystyriaid, gan mai Usudd-dod i Ewyllys Duw yw Swm ein Dyledswydd, fod y rhai anufudd yn twyllo eu hunain yn beryglus jawn: canys, er iddunt broffesu Duw-joldeb, ac arddel Duw mewn geirjau, ni ddeuant i Deyrnas Nefoedd tra fyddont yn anufudd. — Math. vii. 21. *Nid pob un sydd yn dywedud wrthyf, Arglywydd, Arglywydd, a ddaw i mewn i deyrnas nefoedd; ond yr hwn sydd yn gwneuthur ewyllys fy Nhâd yr hwn sydd yn y nefoedd.*

5. Mi a ddylwn ystyriaid, mai trwy Ffydd yng Nghrist, ac nid trwy Weithredoedd, y mae i ni gael Cyflawnháad ger bron Duw; gan nad yw bossibl i'n Hufudd-dod i Ewyllys Duw fod yn berffaith ac yn ddibeched ym y bywyd hwn. — Job ix. 2, 3. *In wir mi a wñ mai felly y mae: canys pa fodd y cyflawnheir dñn gyd â Duw? O's myn efe ymryson ag ef, ni all atreb iddo am un perh o fil.* — Gal. ii. 16. *In guybod nad ydys yn cyflawnhâu afn trwy weithredoedd y ddeddf, ond trwy ffydd Jesu Crist.* Act. xiii. 39.

Cw. Pa Reol o Usudd-dod a roddwyd i ddýn ar y cyntaf?
Ait. Heb law y Gorchymwyn pennodol a roddodd Duw i'n Rhieni cyntaf, Na swytænt o ffrwyth pren gwybodaeth da a drwg; fe roddodd Duw iddunt hefyd y Gyfraith Foesol, yn Rheol o'u Hufudd-dod dan y Cysammod Gweithredoedd.

Cw. Pa fodd y rhoddwyd y Gyfraith Foesol yn Rheol o Usudd-dod?

Ait. 1. Duw a roddodd y Gyfraith Foesol yn 'sgrifennedig ym meddyliau'n Rhieni cyntaf, fel y gwypent Ewyllys Duw, a'u Rhwymedigaeth o Usudd-dod iddo, trwy'r goleuni naturiol a roddodd Duw iddunt yn eu creadigaeth; megis y mae ychydig adnabyddiaeth o hono yn aros eto yn eu hiljogaeth lygredig hwynt. — 1 Cor. xi. 14. *Onid yw naturjaeth ei hun yn eich dîsgu chwi?* — Rhuf. ii. 14, 15. *Canys pan yw'r cenhedloedd, y rhai nid yw y ddeddf ganddunt, wrth naturjaeth yn gwneuthur y petbau sydd yn y ddeddf, y rhai byn, heb fod y ddeddf gandâunt, ydynt ddeddf iddunt eu hunain: y rhai sydd yn dangos gweithred y ddeddf yn 'sgrifennedig yn eu calonnau, a'u cydwylod yn cyd-dystiolaethu, a'u meddyliau yn cybuddo eu gilydd, neu yn esgusodi.*

2. O herwydd tywyllu goleuni naturjaeth, trwy Gwymp ein Rhieni cyntaf, fe roddodd Duw y Gyfraith Foesol dra-chefn

chesfn i Bobl Isræel ar ôl hynny, yn 'sgrifennedig gan Dduw ei hun ar ddwy lech a gerrig. — Ecclod. xxxi. 18. Ac efe a roddodd i Foses, wedi iddo orphen llefaru wrtho ym mynydd Sinai, ddwy lech y dystiolaeth: sef, llechan o gerrig wedieu bysgrifennu â bîs Duw.

3. Fe roddodd Duw drachefn y Gyfraith Poesol, yn 'sgrifennedig yn dra helaelth trwy ei Ysbryd es yn yr Ysgrythurau. — Hof. viii. 12. Mi a 'sgrifennais iddo bethau mawrion syngbyfraith, ac fel dieithrbeth y cyfrifwyd.

Cw. Pa fawl rhyw o Gyfreithiau a roddodd Duw trwy ddwylaw Moses i'r Juddewön?

Att. Tair. 1. Y Gyfraith Poesol. 2. Y Gyfraith Ddefodol, neu Seremoniol. 3. Y Gyfraith Farnedigaethol. — Deut. vi. 1. A dymma'r gorchymwynnion, y deddfau, a'r barnedigaethau a orchymwynnodd yr Arglwydd eich Duw eu dysgu i chwi.

Cw. Ynghylch pa bethau yr oedd y Cyfreithiau hyn?

Att. 1. Y Gyfraith Poesol a roddodd Duw i'r Juddewön, ac i bob Cenedl arall, yn Rheol o Foesau da; ac i osod thwymedigaeth ar bob dŷn i ymddwyn yn gyflawn, ac yn ddiifeisus, tu ag at Dduw a dynjon ym mhob peth. — Deut. v. 32. Edrychwech gan hynny am wneuthur fel y gorchymwynnodd yr Arglwydd eich Duw i chwi: na chiliwch i'r tu debau, nac i'r tu affwy. Diar. iii. 1.

2. Y Gyfraith Farnedigaethol a roddodd Duw i'r Juddewön, yn Rheol wladol, o Farnedigaeth ar bob achos rhwng y bobl a'i gilydd; sef, o'r jawn oedd i'w dalu am gamwedd, ac o'r côs oedd ddyledus i drofoddwyr; i gadw llywodraeth ddiderfysg a chyflawn yn eu plith. Ni rwymir neb yn gaeth dan y drefn wladol hon ym mhob peth, ond Pobl Isræel. — Lef. xxvi. 46. Dymma'r deddfau, a'r barnedigaethau, a'r cyfreithiau, y rhai a rodd yr Arglwydd rhyngddo ei hun a meibion Isræel ym mynydd Sinai trwy law Moses.

3. Y Gyfraith Ddefodol a roddodd Duw i Genedl yr Juddewön yn unig, yn Rheol o'r aberthau, a'r pethau cysgodol, ag oedd yn perthyn i wasanaeth y Deml, tra phareu i'r Addoliad hwnnw: eithr wedi cyflawni eu harwyddo cāad hwynt, a dwyn i mewn sylwedd y cysgodau hynny, ar Ddyfodiad Crist i'r byd, holl faich gorthrwm yr Ordinhhadau defodol hyn a ddirymmwyd yn gwbl. — Col. ii. 14. Gan ddielu ysgrifennolaw yr ordeiniadau, yr hon oedd i'n berbyn

yr, yr hon oedd yngwiribwyneb i ni, ac a'i cymmerodd hi oddi ar y ffordd, gan ei haelio wrth y groes. Eph. ii. 15.
Hebr. vii. 18. ix. 9. x. 1.

Cw. Dan ba Gysammod y rhoddodd Duw y Gyfraith Foesol yn Rheol o Ufudd-dod?

Att. 1. Fe roddodd Duw y Gyfraith Foesol yn Rheol o Ufudd-dod i'n Rhienicyntaf ym Mbaradwys, dan y Cysammod Gweithredoedd: canys Ufudd-dod perffaith i Gyfraith Duw oedd yr Ammod o Fywyd yn y Cysammod hwnnw.— Rhuf. x. 5. *Canys y mae Moses yn sgrifenni am y cyfawnder sydd o'r ddeddf, Mai'r dyn a wñel y perbau hynny a fydd byw trwyddunt.* Luc x. 28. Lef. xviii. 5. Gal. iii. 12.

2. Fe roddodd Duw y Gyfraith Foesol i Bobl Isräel ar fynydd Sinai, yn Rheol o Ufudd-dod dan y Cysammod Grâs; o blegid i'n Rhienicyntaf dorri'r Cysammod Gweithredoedd, fel na's gallasai neb o honunt fod mwyach yn gadwëdig trwy'r Cysammod hwnnw.— Rhuf. iii. 20. *Am hynny trwy weithredoedd y ddeddf ni chyflawnheir un cnawd.*

Cw. Onid yw Paul yn cyffelybu Cysammod Sinai i Agar, ag oedd yn gaeth hi a'i phlant? Pa fodd gan hynny yr oedd efe yn Cysammod Grâs? Gal. iv. 22—25.

Att. 1. Yr oedd y bobl mewn caethiwed o herwydd eu dallineb, heb weled y Breintjau oedd Duw yn addo; ac o blegid fod yr oruchwiliaeth neu'r weinidogaeth hynny o'r Cyfammod Grâs yn dywyllach nag yr eglurwyd ef yn ôl hynny trwy'r Efengyl: canys nid oedd y Defodau seremoniaidd a berthynent iddo ond pethau diles yn eu natur eu hunain, a chyfodau tywyll o bethau nefol.— Hebr. x. 1. *O blegid y gyfraith, yr hon sydd ganddi gysgod dajonus berban i ddyfod, ac nid gwîrddelw y perbau, ni's gall trwy yr aberthau hynny, y rhai y maent bob blwyddyn yn eu boffrymmu yn waftadol, byth berfeithio y rhai a ddêl atti.* Hebr. vii. 18. ix. 9, 10. Gal. iv. 9.

2. Yr oedd caethiwed yn perthyn i'r weinidogaeth hynny o'r Cyfammod Grâs, o herwydd jau drom yr amrywjol ddeddfa u a'r aberthau ag oedd y bobl yn rhwymedig i gyflawni; y rhai a fwriwyd oll ymmaith dan yr Efengyl.— Gal. v. 1. *Sefwch gan hynny yn y rhydd-did â'r hon y rhyddhaodd Crist ni, ac na ddalier ckwi dracbefn dan jau oaeithiwed.* Act. xv. 10.

3. Yr Isräeljaid cnawdol a gaethiwent eu hunain, gan wyrdroi'r Cyfammod Grâs megis yn Gyfammod Gweithredoedd, ac yn weinidogaeth damnedigaeth, trwy ymddiried yn eu cyflawnder eu hunain; sef, yn eu cwplâad o ddefodau a gweithredoedd y Ddeddf: yr hyn a barodd i'r Judderwôn yn ôl llaw i wrthod Crist yn Gyflawnder iddunt. — Rhuf. x.

4, 5. Canys Crist yw dirwedd y ddeddf, er cyflawnder i bob un sy'n credu. Canys y mae Moses yn lgrifennu am y cyflawnder fydd o'r ddeddf, Mai'r dyn a wnâl y petbau hynny, a fydd byw yn ddunt. 2 Cor. iii. 9. Rhuf. ix. 30 - 32.

Cw. Pa foddyd yr ymddengys yn eglurach, mai dan oruchwiliaeth y Cyfammod Grâs y rhoddwyd y Gyfraith Foesol yn Rheol o Ufudd-dod i Bobl Isräel?

Att. 1. O blegid i Dduw amlygu'r Cyfammod Grâs i'n Rhieni cyntaf, ar ôl iddunt dorri'r Cyfammod Gweithredoedd: ac nid oes i ni seddwl i Dduw dynnu ei Râs yn ôl, i wneuthur Cyfammod Gweithredoedd â'i Bobl drachefn. — Rhuf. xi. 29. Canys diedifarwus yw donjau a galwidigaeth Dduw. — Gal. iii. 15. Y brodyr, dywedud yr wyf ar wêdol, Cyd na byddo ond ammod dyn, wedi y cadarnhaer, nid yw neb yn ei ddirymmu, neu yn rhoddi atro.

2. O blegid Duw a sicrhaoedd y Cyfammod Grâs yn Gyfammod tragicwyddol, ag Abraham, ac â'i hât; ac a roddodd iddo arwydd yr Enwaediad yn insel Cyflawnder y Ffydd, yr hyn yw Swm Addewidion y Cyfammod Grâs; ac am hynny nid allai'r Gyfraith a roddwyd i Isräel lawer o amser yn ôl llaw, mo'i ddiddymmu. — Gal. iii. 16, 17. I Abraham y gwmaethbywyd yr addewidion, ac i'w hât ef. — A hyn yr wyf yn ei ddywedud, am yr ammod a gadarnhwyd o'r blaen gan Dduw yng Nghrist, nad yw y ddeddf, oedd bedwar cant a deg ar bugain o flynyddoedd wedi, yn ei ddirymmu, i wneuthur yr addewid yn ofer. Gen. xvii. 7. Rhuf. iv. 11.

3. O blegid fod yr Isräeljaid duwjol gynt yn gadwêdig, ac yn gyflawn yng ngolwg Duw yn ddiammau; eithr yr oedd yn ammhoffisbl iddunt fod selly trwy'r Cyfammod Gweithredoedd: am hynny dan y Cyfammod Grâs yr oeddynt. — Gal. iii. 11. Na cbyflawnbeir neb trwy'r ddeddf ger bron Duw, eglur yw: o blegid, Y cyflawn a fydd byw trwy ffydd.

4. O blegid fod yr Ysgrythur yn dywedud, mai yn yw un modd y mae'n Cadwediadaeth ni a'r Duwjolion gynt dan y Gyfraith; sef, trwy'r Cyfammod Gras. — Act. xv. 12. Trwy râs yr Arglwydd Jesu Crist, yr ydym ni yn credu ein bod yn gadwediad, yr un modd a bwytbau. Hebr. iv. 2.

5. O blegid fod Duw, yng Nghyfreithiau mynydd Sinai, yn addo cosio ei Gyfammod, pan gyffesai'r bobl eu hanwiredd: ac nid oes y fath Addewid i bechadurjaid yn y Cyfammod Gweithredoedd, ar ôl ei droseddu ef. — Lef. xxvi. 40, 42. O's cyffesant eu hanwiredd, ac anwiredd eu tadau, yngnid d'u camwedd yr hwn a wnaethant i'm herbyn, a besyd rodio o honum yn y gwrtbwyned i mi; minnau a gofiaf sy'n ghyfammod â Jacob, a'm cyfammod besyd ag Isaac, a'm cyfammod besyd ag Abram a gofiaf, ac a gofiaf y tir besyd.

6. O blegid fod Duw, yng Nghyfraith mynydd Sinai, yn arddel ei hun yn Dduw i Bobl Isræl, ac yn addo Trugaredd iddunt; yr hyn ni chynhwysir yn y Cyfammod Gweithredoedd i neb, ar ôl ei dorri ef. Mae Duw yn dywedud yn y Gorchymwyn Cyntaf, *Myf yw'r Arglwydd dy Dduw.* Ac yn yr Ail Orchymwyn y mae Duw yn addo Trugaredd i floedd o'r rhai a'i carant, ac a gadwânt ei orchymwynnion. Ecsod. xx. 2, 6. Deut. v. 6, 10. — A'r Pummed Gorchymwyn a roddwyd mewn addewid; *Anrhydedda dy ddad, a'i hafam;* — fel y byddo yn dda i ti, ac fel y byddech yn hirhoedlog ar y ddaear. Ecsod. xx. 12. Deut. v. 16. Eph. vi. 2, 3.

7. Dan oruchwiliaeth y Cyfammod Gras y rhoddodd Duw y Gyfraith i'r Juddewon; o blegid mai Crist, Cyfryngwr y Cyfammod Gras, oedd Gwrthdyp a Sylwedd holl Ddefodau ac Aberthau'r Gyfraith Seremoniol a roddodd Duw iddunt. — Col. ii. 17. *Y rhai ydynt gysgod pethau i ddyfod:* ond y corff sydd o Crist. Hebr. x. 1.

Cw. Pa lês sydd i ni wybod, dan ba Gyfammod yr oedd yr Juddewon gynt?

Att. 1. Mae'n llefiol i ni wybod, mai dan Weinidogaeth y Cyfammod Gras yr oedd yr Juddewon gynt; o blegid fod yr holl bethau a wnaed yn yr Eglwys Juddewig, yn ôl y portreiaid a ddangosodd Duw i Foses, yn siAMPLAU CYSGODOL o'r pethau nefolaidd a berthyn i Eglwys Duw dan yr Efengyl. — Hebr. viii. 5. *Y rhai sy yn gwasanaethu i siAMPLA a chyfod*

y pethau nefol, megis y rhybuddiwyd Moses gan Dduw; pan oedd efe ar fedr gorphen y babell; Canys, gwêl, medd efe, ar wneuthur o honot bob peth ar ôl y portreiad a ddangoswyd i ti yn y mynydd.

2. Mae'n llesiol i ni wybod, mai dan Weinidogaeth y Cyfammod Grâs yr oedd yr *Judewôn* gynt; o blegid, pan dorrwyd thai o honunt ymmaith oddi wrth y Cyfammod, fel canghennau diffrwyth o'r winwydden, i ni, y Cenhedloedd, ag oeddym fel gwinwydden wylt, gael ein himpio i mewn i'r un gwrâidd, ac i hawl o'r un breintjau cyfammodol â hwynt: yr hyn nid ydyw yn un mesur o gyffur i ni, o's nid y Cyfammod Grâs ydoedd. — Rhuf. xi. 17. Ac o's rhai o'r canghennau a dorrwyd ymmaith, a thydi yn olewydden wylt a impiwyd i mewn yn eu plith bwy, ac a'th wnaethpwyd yn gyfrannog o'r gwreiddyn, ac o frasder yr olewydden.

3. Mae'n llesiol i ni wybod, mai dan Weinidogaeth y Cyfammod Grâs yr oedd yr *Judewôn* gynt; o blegid, megis yr oedd Sêl a Gweinidogaeth y Cyfammod Grâs yn perthyn i'r *Judewôn* a'u plant bach dan yr Hên Destament; felly hefyd y mae'n ddiammau, fod Sêl a Gweinidogaeth y Cyfammod Grâs yn perthyn i'r Cristionogion a'u plant bach dan y Testament Newydd; yr hyn ni's gellir byth ei wrthddywedud, oddieithr naill ai trwy wadu, nad Cyfammod o Râs a wnaeth Duw ag *Abraham*, a Phobl *Isräel*; neu ynteu, fod Gweinidogaeth y Cyfammod Grâs, trwy Gyfryngdod Crist dan yr Efengyl, yn awr yn cau rhai allan o'r Cyfammod ag oedd yn perthyn iddo gynt; ac felly yn gwneuthur y Weinidogaeth o'r Cyfammod a roddwyd trwy Crist yn waeth nâ'r Oruchwiliaeth o hono a roddwyd trwy *Foses*, yn wrthwyneb i dystiolaeth yr Ysgrythur. — Hebr. viii. 6. *Ond yn awr efe* (sef, Crist Je-su) *a gafodd weinidogaeth mwy rhagorol, o gymaint ag y mae yn gyfryngwr cyfammod gwell, yr bwn sydd wedi ei ynod ar addewidion gwell.* — Act. ii. 39. *Canys i chwi y mae'r addewid, ac i'ch plant.*

4. Mae'n llesiol i ni wybod, mai dan Weinidogaeth y Cyfammod Grâs yr oedd yr *Judewôn* pan rhoddwyd y Gyfraith iddunt; o blegid fod rhai yn gwrrhwynebu pob Athrawjaeth ac Annogaethau yngylch y Dyledswyddau a orchymwynnir yn y Gyfraith, fel pe fyddai hynny yn perthyn i'r Cyfammod Gweithredoedd yn unig, ac yn anghytun ag Athrawjaeth Ffydd yny Cyfammod Grâs. — Rhuf. iii. 31.

Wrth hynny, a ydym ni yn gwneuthur y ddeddf yn ddirym trwy ffydd? na atto Duw: eithr yr ydym yn cadarnhau'r ddeddf. — *i Dim. i. 8. Eithr nyni a wyddom mai da yw'r gyfraith, o's arser dŷn hi yn gyfreithlon.* Rhuf. vii. 12.

5. Mae'n llesiol i ni wybod, mai dan Weinidogaeth y Cyfammod Grâs yr oedd yr *Juddewön* pan rhoddwyd y Gyfraith iiddunt; fel y dysgom ni gyflawni y Dyledswyddau a orchymynnir yn y Gyfraith, nid megis dan y Cyfammod Gweithredoed, gan ymddiried ynthunt, ond dan Ysbrydoliaeth y Cyfammod Grâs; sef, i'n holl Ufudd-dod ni fod trwy Ffydd, ac i ddyfod oddi wrth ein Ffydd yng Nghrist Jesu: canys hyn yw Diben yr holl bethau y mae'r Ysgrythur yn amlygu yn olau i ni yn awr, ag oedd yn dywyll gynt. — Rhuf. xvi. 26. *Ac yr awr hon a eglurwyd, a thwrwy ysgrythurau'r prophwydi, yn ôl gorchymwyn y trogywyddol Dâuw, a gyoeddwyd ym mhlieb yr holl genbedloedd, er mwyn ufuaddod ffydd.*

Cw. A ydyw'r Gyfraith Foesol mewn grym, ac yn Rheol o Ufudd-dod i'r Cristionogion dan yr Efengyl, a'r Cyfammod Grâs?

Att. Mae'n ddiammau, ein bod yn rhwymedig i'ufudd-hâu i'r Gyfraith Foesol hyd eithaf ag allom, dan yr Efengyl, a'r Cyfammod Grâs:

1. O blegid fod y Gyfraith yn Rheol o Ufudd-dod i'r *Juddewön* dan y Cyfammod Grâs. — Ecsod. xxxiv. 27. *Tr Arglywydd a ddywedodd wrth Foses, 'Sgrifenna it' y geirjau hyn; o blegid yn ôl y geirjau hyn y gwneuthum gyfammod â thi, ac ag Isräel.* Deut. iv. 13.

2. O blegid na ddaeth Crist i ddiistrywio'r Gyfraith hon, ond fel y caem Râs i'w chyflawni'n well. — Math. v. 17. *Na thychiuch sy nyfod i dorri'r gyfraith neu'r prophwydi: ni ddaethym i dorri, ond i gyflawni.*

3. O blegid fod Athrawjaeth yr Apostolion nid yn dirymmu, eithr yn cadarnhâu Awdurdod y Gyfraith, a Rhwymedigaeth ein Hufudd-dod iddi. — Rhuf. iii. 31. *A ydym ni yn gwneuthur y ddeddf yn ddirym trwy ffydd? na atto Duw: eithr yr ydym yn cadarnhau'r ddeddf.*

4. O blegid fod yr Efengyl yn gwahardd yr un pechodau, ac yn dysgu'r un dyledswyddau, fel ffrwythau Ffydd yng Nghrist, a gorchymwynnion y Gyfraith. — Luc xviii. 19, 20. *A'r Jesu a ddywedodd wrtho, — Ti a wyddost y gor-chymwynnion:*

*chymmynion; Na odineba, Na ladd, Na ledratia, Na ddawg
gam dyfiolaeth, Anrhydedda dy dad a' th fam.*

5. O blegid y mae'r Efengyl yn condemno holl drosedd-wyr anedfeiriol y Gyfraith. — I Cor. vi. 9, 10. *Oni wyd-och chwi, na chaiff na godinebwyr, nac eulynaddolwyr, na thorrwyr priodas, na masweddwyr, na gerrywgydwyr, na lladron, na chybyddion, na meddwon, na difenwyr, na chrib-ddeilwyr, etifeddu teyrnas Duw?*

Cw. Pa ham y rhoddir y Gyfraith yn Rheol o'n Hufudd-dod, gan na ddichon neb yn y byd hwn roddi Ufudd-dod cyflawn a' dibechod iddi?

Att. Ni roddir y Gyfraith yn Rheol o'n Hufudd-dod dan y Cyfammod Grâs, fel Ammod (neu Gondiswn) o Ffywyd a Chyflawnhâad, megis yr oedd yn y Cyfammod Gweithred-oedd: canys yn yr ystyr hynny, nid ym ni dan y Ddeddf, eithr dan Oruchwiliaeth y Cyfammod Grâs; o blegid *na chyflawnheir neb trwy'r ddeddf ger bron Duw*: Er hynny, y mae'r Ddeddf, neu'r Gyfraith, yn Rheol fuddjol o Ufudd-dod mewn amryw ystyriaethau.

Cw. Ym mha ystyriaethau y mae'r Gyfraith yn Rheol fuddjol o Ufudd-dod dan yr Efengyl?

Att. 1. Mae'r Gyfraith yn fuddjol i'n hargyoeddi o'n troseddf, ac i beri i ni weled ein pechoda. — Rhuf. iii. 20. — *Canys trwy'r ddeddf y mae adnabod pechod*. — Rhuf. vii. 7. — *Nid adnabuaswn i drachwant, oni bai dlynedud o'r ddeddf, Na thrachwanta.*

2. Mae'r Gyfraith yn fuddjol i ddangos i ni ein trueni; sef, y felldith a'r golledigaeth sy'n dysod am bechod. — Gal. iii. 10. *Canys cynnifer ag y sy o weithredoedd y ddeddf, dan felldith y maent*. Rhut. vii. 9.

3. Mae'r Gyfraith yn fuddjol i'n dychrynu o blegid eia trueni, a'n gyrru oddi wrth hunan-hyder ac ymdditied twyll-odrus yn ein gweithredoedd, i gredu yng Nghrist yn unig am Gyflawnhâad ger bron Duw. — Gal. iii. 24. *T ddeddf gan hynni oedd ein batbro ni at Crist, fel y'n cyflawnhâid trwy fydd*. — Rhuf. x. 4. *Canys Crist yw diweddf y ddeddf, er cyflawnder i bob un sy'n credu*.

4. Mae'r Gyfraith yn fuddjol i'n deffrôi i fod yn ddiolch-gar am Drugaredd Duw yng Nghrist, pan y'n hargyoeddir gan y Ddeddf o'n pechod a'n trueni. — Rhuf. vii. 24, 25. *Ys truan o ddyn wyf si! fwy a'm gwared i oddi wrth gorff*

g farwolaeth bon? Trwyf si yn diolch i Duw trwy Jesu
Grist ein Harglwydd. Gal. iii. 13. Rhuf. viii. 1, 3, 4, 34.

5. Mae'r Gyfraith yn fuddjol i'n troi oddi wrth bechod,
ac i'n rhybuddio i ymgadw rhagddo. — Sal. xix. 7, 11.
Cyfraith yr Arglwydd sydd berffaith, yn troi'r enaid: tyfis-
jolaeth yr Arglwydd sydd sicr, ac yn gwneuthur y gwir-
jon yn adroeth. *Iddunt hwy befyd y rhybuddir dy wâs.* Sal.
cxix. 104.

6. Mae'r Gyfraith yn fuddjol i ddangos pa bethau a ddy-
lem wneuthur, a pha bethau i ochelyd; fel goleuni i gyf-
arwyddo ein ffodd. — Sal. cxix. 9, 105. *Pa foddy glanhâ*
llangc ei llwybr? *Wrth ymgadw yn ôl dy air dir.* *Llusern*
yw dy air i'm traed, a llewyrch i'm llwybr. Diar. vi. 23.
Sal. xix. 8.

7. Mae'r Gyfraith yn fuddjol i ddangos y Perffeithrwydd
disrycheulyd, fel y Nôd, ag y ddylai yr holl Seintjau gyrchu
yn eu blaen ac ymestyn tu ag atto swyfwy, tra fônt yn y byw-
yd hwn. — Phil. iii. 12, 14, *Nid fel pe bawn wedi ei*
gyrhaeddyd eisiaes, neu fod eisiaes wedi fy mherffeithio:
eithr dilyn yr wyf, fel y gallwyf ymaflyd yn y petb hwn
befyd yr ymaflwyd ynnof gan Grist Jesu. *Tr ydwyf yn*
cyrchu ar y nôd, am gamp uchel at-wêdigaeth Duw yng
Ngbriſt Jesu.

Cw. Beth a ddylech ddysgu oddi wrth hyn; sef, bod y
Gyfraith Foefol yn Rheol o Usudd-dod?

Att. 1. Ni a ddylem glodfori Duw, am roddi ei Gyfraith i
ni, ag sydd gynnifer ffodd mor fuddjol. — Sal. cxlvii. 19,
20. *T mae efe yn mynegi ei eirjau i Jacob, ei ddeddfau a'i*
farnedigaerbau i Isräel. Ni wnaeth efe felly ag un genedl;
ac ni adnabuant ei farnedigaerbau ef. *Molwch yr Ar-*
glwydd. Deut. iv. 8.

2. Ni a ddylem weled mor dda yw bod dan y Cysammod
Grâs yng Nghrist; canys nid ydyw'r cyfryw dan feiddith a
chondemniad y Ddeddf, a rhwymedigaeth o Usudd-dod di-
bechod dan boen damnedigaeth: ond na feiddied neb be-
chu, o blegid y Rhydd-did hyn oddi wrth feiddith y Ddeddf.

— Rhuf. vi. 14, 15. *Canys nid arglwyddiaetha pechod*
arnoch chwi: o blegid nid ydych chwi dan y ddeddf, eithr
dan râs. *Beth wrth hynny? a bechwñ ni, o berwydd nad*
ydym dan y ddeddf, eithr dan râs? na atto Duw. Gal. iii. 24,
25. v. 13.

3. Ni a ddylem wrthod aithrawjaeth yr rhai a wthwnebant y Gyfraith Foesol; canys y mae Duw yn ei rhoddi yn Rheol o Ufudd-dod i'w Bobl gyfammodol dan yr Efengyl, ac yn addo ei 'sgrifennu yn eu calonau.—Hebr. viii. 10. O blegi d bren yw y cyfammod a ammodaf fi â rheol Isræl ar ôl y dyddjau bynni, medd yr Arglwydd; Mys i a ddodaf sy ngbyf-reithiau yn eu meddwl, ac yn eu calonau yr ysgrifennas hwynt: a mi a fyddaf iddunt hwy yn Dduw, a hwyrbau a fyddant i minnau yn bobl.

4. Ni a ddylem edrych yn ddiesgeulus, na phallom Ufudd-dod i Gyfraith Duw, ac nad ymddiriedom yn ein busudd-dod; canys trwy Crist y mae ein holl Jechydwriaeth.—Diar. vii. 2. Cadw syngorchymynion, a bydd fyw; a'm cyfraist fel cannwyll dy lygad.—Luc xvii. 10. —Gwedi i cbwi wneuthur y cwbl oll ag a orchymymynwyd i chwi, dywedwch, Gweision anfuddiol ydym.

Cw. Pa bryd y rhoddodd Duw y Gyfraith i Bobl Isræl?

Att. 1. Fe roddodd Daw y Gyfraith i Bobl Isræl, y trydydd mis ar ôl eu gwaredu allan o wlâd yr Aipht: canys dyled pawb a waredir yw, rhoddi Ufudd-dod i Dduw.—Ezra ix. 13, 14. —Wedi i Dduw rhoddi i ni ddiangfa fel byn, a dorrem ni dracbefn ei orchymymynion ef?

2. Duw a roddodd y Gyfraith i Bobl Isræl, ynglych dwy fil a banner o flynyddoedd ar ôl creadigaeth y byd, ac ynglych pymtheg cant o flynyddoedd cyn Genedigaeth Crist, ac ychwaneg nà thair mil o flynyddoedd o flaen ein dyddjau ni.

3. Fe roddodd Duw y Gyfraith i Bobl Isræl, pan yr oedd efe mewn modd arbennig yn eu cymmeryd hwy dan Gyfammod, yn Eglwys deyrnasawl iddo ei hun: canys dau rwymedigaeth o Ufudd-dod y mae Duw yn cymmeryd pobl oedd mewn Cyfammod ag ef.—Ecsod. xix. 5, 6, 8. *In aron gan hyunny, o's gan wrando y gwrandewch ar sy llais, a chadw sy ngbyfammod; chwe i a fyddwch yn drysor priodol i mi o flaen yr holl bobloed: canys eidtof si yr holl ddaear.* A chwi a fyddwch i mi yn frenhinjaeth o offeiriad, ac yn genbedlaeth sanctaidd. *Dymma'r geirianu a leseri de wrth feibion Isræl.* A'r holl bobl a gydtrebasant, os a ddywedasant, Nyni a wnaun yr byn oll a lefarodd yr Arglwydd.

Cw. Ym mha fodd y rhoddodd Duw y Gyfraith i'r Iuddewon?

Att. 1. Duw a orchymmynnodd i *Foses* baro'i a phuro'r bobl, i glywed yr Arglwydd ar fynydd *Sinai* yn llefaru : canys pa fod y dichon neb nesau at Dduw mewn ammhuredd ?

— Ecsod. xix. 9, 10, 11. *A'r Arglwydd a dywedodd wrth Foses, Wele, mi a ddeuas attat mewn cwmmwl rew, fel y clywö'r bobl pan ymddiddanwyf â thi, ac fel y credont it' byrb.* — *T'r Arglwydd besyd a dywedodd wrth Foses, Dôs at y bobl, a sancteiddia bwynt heddyw ac yfory, a golchant eu dillad : a byddant barod erbyn y trydydd dydd : o berwydd y trydydd dydd y disgyn yr Arglwydd yngolwg yr holl bobl ar fynydd *Sinai*.* Sal. xxvi. 6. Hebr. x. 22.

2. Fe orchymmynnodd Duw i osod ffîn neu derfyn o amgylch y mynydd ; ac na ryfygai neb fyned drofodd, na chyffwrdd ag ef, rhag eu distrywio : canys peryglus yw hylldremmu i bethau gwaharddedig, neu rutherford dros derfynau Cyfraith Duw. — Ecsod. xix. 12, 13. *A gosod derfyn i'r bobl o amgylch, gan ddylchedd, Gwiliwch arnoch rhag myned i synu i'r mynydd, nen gyffwrdd â'i gwrr ef : pwysynnag a gyffyrddo â'r mynydd, a leaddir yn farw.* Na chyffyrdded llaw ag ef, onid gan labuddio llabyddier ef : pa un bynnag ai dyn a'i anifail fyddo, ni chaiff fyw.

3. Duw a gymmerodd *Moses* i'r mynydd, megis yn gyfringwr rhyngho ef a'r Bobl, yn ôl eu dynuniad, ac yn dîp o Grift : canys y mae Presennoldeb digyrwng Duw yn ofnadwy i bechadurjaid. — Ecsod. xx. 18, 19. *A'r holl bobl a welsant y taranau, a'r mellt, a sain yr udgorn, a'r mynydd yn mygu : a phan welodd y bobl, ciliafant, a safasant o hirbell.* A dywedasant wrth Foses, *Llefara di wrthym ni, a myni a wrandawn : ond na lefared Duw wrthym, rhag i ni farw.* Gal. iii. 19. Gen. xxviii. 16, 17. Deut. v. 5.

4. *Moses*, wedi iddo ymprydio yn y mynydd ddeugain niwrnod, a deugain nôs, yn ôl Gorchymmyn Duw, a gafodd ddwy lech y Cyfammed, wedi eu 'sgrifennu gan Dduw ei hun.

— Ecsod. xxxiv. 28. *Ac efe a fu yno gyd â'r Arglwydd ddeugain niwrnod, a deugain nôs : ni fwyaodd fara, ac nid yfodd ddufr ; ac efe a 'sgrifennodd ar y llechau eiriau'r cyfammod, sef, y deg gair.* Ecsod. xxxi. 18. xxxii. 15, 16. xxiv. 12. Deut. ix. 9, 10.

5. Pan ddaeth *Moses* i wared o'r mynydd, a gweled y bobl yn addoli'r llo auri ; o ddigllonedd i'w pechod hwy, efe daftedd y llechau o'i law, ac a'u torrodd hwynt : ond, trwy eir-

jolaeth

jolaeth *Moses* dros y bobl, fe 'sgrifennodd Duw yr un geirjau ar lechau eraill, wedi i *Foses* ymddyrio drachefn ddeugain niwrnod, a deugain nôs, ger ei fron ef ar y mynydd. —

Ecsod. xxxii. 19. *A bu wedi dyfod o bono yn agos i'r gwersyll, iddo weled y llô, a'r dawniau: ac ennynnodd digo-saint Moses, ac efe a dasiodd y llechau o'i ddiwylaw, ac a'u torrodd hwynt is law'r mynydd.* — Ecsod. xxxiv. 1. *A dywedodd yr Arglwydd wrth Foses, Nadd it' ddwy o lechau cerrig fel y rbai cyntaf: a mi a'sgrifennaf ar y llechau y geirjau oedd ar y llechau cyntaf, y rbai a dorraist.* Deut. ix. 16 — 18. x. 1 — 4.

6. Ar ôl i *Foses* fod gyd â Duw yn y mynydd, ei wyneb a ddisgleiriodd, fel nad allai'r bobl edrych arno; ac yr oeddynt yn ofni nesâu atto, nes dodai efe lengudd ar ei wyneb. — Ecsod. xxxiv. 30, 33. *A phan welodd Aaron a holl seibion Isräel Foses, wele yr oedd croen ei wyneb ef yn disgleirio: a hwy a ofnasant nesâu atto ef.* Ac nes darfod i *Foses* lefaru writhunt, efe a roddes lengudd ar ei wyneb. 2 Cor. iii. 15, 16.

7. Fe roddodd Duw ei Gyfraith mewn dull ofnadwy jawn a gogoneddus. — Ecsod. xix. 16, 18. *A'r trydydd dydd ar y boreuddyd yr oedd taranau a mellt, a chwmmwl tew ar y mynydd, a llais yr udgorn ydoedd gryf jaren; fel y dychrynodeb yr holl bobl oedd yn y gwersyll.* A mynydd Si-nai oedd i gyd yn mygi, o herwydd disgyn o'r Arglwydd arno mewn tan: a'i fîng a ddyrchafoedd fel mîng ffwrn, a'r holl fynydd a grynodeb yn ddirfawr. — Ecsod. xxiv. 16, 17, 18. *A gogoniant yr Arglwydd a arhodd ar fynydd Si-nai, a'r cwmmwl a'i gorcheddiodd chwe diwrnod, ac efe a alwedd am Foses y seithfed dydd o ganol y cwmmwl.* A'r golwg ar ogoniant yr Arglwydd oedd fel tan yn difa ar ben y mynydd, yngolwg meibion Isräel. A Moses a aeth i ganol y cwmmwl, ac a aeth i fynu i'r mynydd: a bu Moses yn y mynydd ddeugain niwrnod, a deugain nôs. Barn. v. 5. Hebr. xii. 18 — 21.

Cw. Pa ham y rhoddodd Duw ei Gyfraith i'r Suddewon yn y fath ddull gogoneddus ac ofnadwy?

Att. 1. I ddysgu i ni ei gogonedu ef; sef, i uuddhau yn barchus i'w Gyfraith, ac yn enwêdigol i'w Efengyl ef. —

Esay xlvi. 21. — *Efe a sawrbâ'r gyfraith, ac a'i gennâ yn anrhydeddus.* — 2 Cor. iii. 9, 11. *Ac o's bu gweimido gaeth*

damnedigaeth yn ogoniant, mwy o lawer y mae gweini-dogaeth cysiarwnder yn rhagori mewn gogoniant. O blegid o's bu yr byn a ddileid yn ogoneddus, mwy o lawer y bydd yr byn sydd yn aros yn ogoneddus. Deut. xxviii. 58, 59.

2. I ddysgu i ni weled ein heisiau o Gyfryngwr rhymgom a Duw. — Eosod. xx. 18, 19. A'r holl bobl a welsant y taranau, a'r molli, a fain yr udgorn, a'r mynydd yn mygu: a phan welodd y bobl, ciliasant, a safasant o birbell. A d wedasant wrth Foses, Elefara di writhym ni, a nyni a wrandirwn: ond na lefared Duw writhym, rhag i ni farw. Deut. v. 24 — 27. xviii. 16 — 19. Hebr. xii. 18, 19.

3. I ddysgu i ni wasanaethu Duw a'i addoli gyd ag ofn parchus a gwylter. — Hebr. xii. 28, 29. — Bydded gennym râs, trwy'r hen y gwasanaethom Dduw wrth ei fodd gyd â gwylter a pharchedig ofn. O blegid ein Duw ni sydd dan yffol. Sal. xxix. 2.

4. I ddysgu i ni weled pa gymaint mwy tiriondeb a chariad a amlygir dan yr Efengyl nâ than y Gyfraith. — Hebr. xii. 18 — 22. Canys ni. ddaethoch chwi at y mynydd teimlad a y sydd yn llosgi gan dan, a chwmmwl, a thywyll-wch, a thymineistl, a fain udgorn, a llef geirjau; yr hon pwy bynnag a'i clywsant a ddeisifasant na chwanegid yr ymadrodd wrthunt. — Ac o's bwystfil a gyffyrddai a'r mynydd, efe a labyddir, neu a wenir â phicell. Ac mor ofnadwy oedd y golwg, ag y dywedodd Moses, Yr ydwyf yn ofni ac yn crynu! Eithr chwi a ddaethoch i fynydd Sion, ac i ddinas y Duw byw, y Jerusalem nesol, ac at fyrdarwn o angylion.

5. I ddysgu i ni ystyriaid mor ddychrynllyd sydd Dydd y Farn i drosebwyr y Gyfraith. — Nah. i. 6. Pwy a saif o flaen ei lid ef? a phwy a gyfod yng nglynnidared ei ddigofaint ef? Ei lid a dywelltir fel tan, a'r creigiau a furir i lawr gando. Seph. i. 14, 15. Dad. vi. 15 — 17.

Cw. Ym mha le y cynhwysir y Gyfraith Foesol?

Att. Ystyr helaeth y Gyfraith Foesol a gynhwysir ar lêd yn yr Ysgrythur; eithr y Swm o honi yn gryno a gynhwysir yn y Deg Gorchymwyn, a roddodd Duw i Foses ar fynydd Sinai, wedi ei 'sgrifennu gan Dduw ei hun ar ddwy lech o gerrig. — Deut. iv. 13. Ac efe a fynegodd i chwi ei gyfannod a orchymynnodd efe i chwi i'w cneutbur, sef y dergair; ac a'u 'sgrifennodd hwynt ar ddwy lechfaen. Eosod. xxxi. 18. xxxii. 15, 16.

Cw.

Cw. Pa beth a ddylech ystyriaid yn flaenaf ynghylch y **Deg Gorchymmyn?**

Att. 1. Mi a ddylwn ystyriaid eu Hawdurdod; ag a ddylai'n rhwymo i usuddhau iddunt: canys Genau Duw a'u llefarodd, a Bŷs Duw a'u 'sgrifennodd. — Deut. xxvii. 10. Gwrando gan hynny ar lais yr Arglwydd dy 'Dduw, a gwom ei orchymmynnion ef, a'i ddeaddfau, y rbai yr wyf fi yn en gorchymmyn i ti heddyw. 2 Bren. xvii. 37. Deut. xi. 18, 19.

2. Mi a ddylwn ystyriaid eu Nifer; sef, nad ydynt ond Deg, fel y byddai'n hawdd eu cosio. — Diar. iii. 1. Fy mab, na ollwng fy nglyfraith dros gât; ond cadwêd dy galon fy ngorchymmynnion. Diar. viii. 11. Sal. lxxviii. 7. cxix. 93.

3. Mi a ddylwn ystyriaid eu Hystyr; sef, ei fod yn llawer helaethach nag y mae'r geijau yn mynegi; gan eu bod yn gwahardd pob Pechod, ac yn ein rhwymo i bob Dyledswydd a gynhwysir yn yr holl Gyfraith Foesol. — Sal. cxix. 96. — *Dy orchymmyn di sydd dra ehang.*

Cw. Ym mha ddull (neu wrth ba reolau) y dylid deongli meddwl y **Deg Gorchymmyn**; gan eu bod yn cynnwys ysty'r helaeth mewn ychydig o eiriau?

Att. Mae amryw o reolau i jawn-ddyall y **Deg Gorchymmyn.**

1. Ni a ddylem ddyall, fod Gorchymmynnion Duw yn dedi'r holl ddyn yn gyfan, sef, pob rhan o'n corph a'n hysbryd, dan rwymedigaeth o Usudd-dod; nid yn unig ein gweithredoedd a'n haelodau corphorol oddi allan, eithr hefyd holl rannau'r enaid oddi mewn; sef, yr ewyllys a'r ferchiadau, y côf, a'r dyall, a'r meddyliau; na's dichon cyfreithiau dynjon eu rheoli: ac selly yn ein rhwymo i oche-lyd pechod, ac i addoli Duw yn ein calonnau a'n hysbryd-oedd, oddi mewn megis oddi allan. — Rhuf. vii. 14. Ni a wyddom fod y ddeddf yn ysbrydol. Deut. vi. 5. Math. xxii. 37. Luc x. 27. 1 Joan iii. 15.

2. Ni a ddylem ddyall, fod Gorchymmynnion Duw yn dodi rhwymedigaeth arnom i gyflawni nid yn unig y dylet-swyddau hynny ag a enwir ynddunt, eithr hefyd pob dylet-swyddau eraill a fo'n perthyn iddunt, a phob amgylchiadau a moddjon perthynol tu ag at eu jawn gyflawni. Megis y mae'r Pedwerydd Gorchymmyn yn ein rhwymo i *Sancteiddio'r*

io'r Sabbath; mae'r Gorchymmyn hwnnw yn ein rhwymo hefyd i wrando, a darllain, a gweddio Duw, a phob peth arall a berthyn i Sancteiddiad y Sabbath.

3. Ni a ddylem ddyall, fod Gorchymmynion Duw yn dodi rhwymedigaeth arnom, nid yn unig i ochelyd pob pechoda u ag a enwir ynndunt, eithr hefyd i ochelyd yr holl amgylchiadau a': profedigaethau a fo mewn unrhyw fodd yn tueddu tu ag attunt. Megis y mae'r Seithfed Gorchymmyn yn gwahardd *Godineb*; y mae'r Gorchymmyn hwnnw yn gwahardd hefyd pob ymddiddanion ac ymddygiad anwedd- aidd, neu ddychymmygion a夫an, ag sy'n tueddu tu ag at hynny. — Math. v. 27,28. *Clywsoch ddywedud gan y rhai gynt, Na wna odineb. Eithr yr ydwyf si yn dywedud i chwi, fod pob un sydd yn edrych ar wraig, i'w ckwennychu hi, wedi gweuthur eisoes odineb â hi yn ei galon.*

4. Ni a ddylem ddyall, fod pob Gorchymmyn yn ein rhwymo i ochelyd pob pechod y fo'n wrthwyneb i'r ddyledswydd a orchymmynnir ynho; ac o'r tu arall, yn ein rhwymo i gyflawni pob dyledswydd a fo'n wrthwyneb i'r pechod a waherddir ynho. Megis y gorchymmynnir yn y Pummed Gorchymmyn, i *anrhydeddu sy Nhâd a'm Mam*; yr wyf dan rwymedigaeth i ochelyd bod yn ammharchus, yn angharuaid, neu anufudd tu ag attunt. Ac megis y gorchymmynnir yn y Chweched Gorchymmyn, *na laddwyf neb*; yr wyf yn rhwymedig, nid yn unig na wnelwyf ddim tu ag at ddwyn bywyd fy Nghymmydog oddi arno, eithr hefyd i wneuthur a allwyf ym mhob ffordd i gadw ac achub ei fywyd.

5. Ni a ddylem ddyall, nid yn unig y rhwymedigaeth sydd arnom ni ein hunain o Usudd-dod i Orchymmynion Duw; eithr hefyd, na fyddom yn achos i neb eraill wneuthur y pechoda u a waherddir, nac esgeuluso'r dyledswyddau a orchymmynnir ynndunt. — I Dim. v. 22. — *Na fydd gyfrannog o bechoda u rhai eraill: cadw dy bun yn bur.*

6. Ni a ddylem ddyall y Rhwymedigaeth *neillduol* sydd ar bob dŷn, megis wrth ei enw, i gadw'r Gorchymmynion hyn: canys ar ddull neillduol, yn y Nifer Unigol, megis wrth bob dŷn ar ei ben ei hun, y mae Duw yn llefaru pob un o honunt; fel y gwybyddo pawb, y bydd raid i bob un ar ei ben ei hun roi cyfrif am y troseddiad o honunt yn Nydd y Farn.

Farn. — Rhuf. xiv. 12. *Felly gan bynny pob un o bonom drosto ei bun a rydd gyfrif i Dduw.* 2 Cor. v. 10.

7. Ni a ddylem ddyall, fod Awdurdod goruchel Duw ym mhob un o'r Gorchymmynnion hyn fel ei gilydd; a bod y fath gyffylltiad perthynol rhygddunt a'i gilydd, fel na's dichon neb ag a dorro un Gorchymmyn, i gadw'r lleill yn ddihalog. — Jago ii. 10, 11. *Canys pwyl bynnag a gadwör gyfraith i gýd oll, ac a ballo mewn un pwngc, y mae efe yn euog o'r cwbl.* *Canys y neb a ddywedodd, Na odineba, a ddywedodd befyd, Na ladd.* *Ac o's ti ni odinebi, etto a leddi, yr awyt ti yn troseddu y gyfraith.*

Cw. Ym mha ddull o ymadrodd y rhoddir y Gorchymmynnion?

Att. Fe roddir y Gorchymmynnion mewn ffordd naccaol, i wahardd Pechodau; oddieithr dau yn gadarnhaol ac yn bendant, yn gorchymmyn Dyledswyddau; sef, y Pedwerydd a'r Pummed Gorchymmyn.

Cw. Beth sydd i ddal sulw arno oddi wrth hynny?

Att. Dau beth.

1. Am fod cymaint olygredigaeth a thueddrwydd ynnom i bob rhyw Bechodau, y rhoddir cynifer o'r Gorchymmynnion yn naccaol, i'n rhybuddio yn eu herbyn, ac i'n hattal rhagddunt. 2 Pedr ii. 14.

2. Mae'r nifer fwyaf o'r Gorchymmynnion yn gwahardd Pechodau; o blegid heb droi ac ymattal oddi wrth ein Pechodau, ni's gallwn jawn-gwplâu Dyledswyddau. 1 Pedr iii. 11. *Esay i. 16, 17.* *Amos v. 15.* *Sal. xxxiv. 14.* *xxxvii. 27.*

3. Ni a ddylem wahaniaethu rhwng y ddau fath hyn o Orchymmynnion; o herwydd fod rhwymedigaeth y Gorchymmynnion naccaol, ag sy'n gwahardd Pechodau, yn parhau'n waftadol yn eu grym; fel nad oes i ni eu heseuluso un amser oll, nac ar un achos: eithr nid yw Dyledswyddau'r Gorchymmynnion pendant i'w cwplâu yn waftad ym mhob amgylchiadau.

Cw. Pa fodd y gellwch eglurhâu hynny?

Att. Fel hyn.

1. Mae'n eglur, na ddylem gymmeryd un Duw arall, nac addoli Duw trwy ddelwau, na chymmeryd Enw Duw yn ofer, na lladd, na godinebu, na lledratta, na chamdyfiolae-thu, na thrachwantu, un amser, nac ar un achos oll: canys

nid oes rydd-did i wneuthur dim un amser byth ag y mae'r Gorchymmynnion yn wahardd.

2. Nid yw'r Dyledswyddau a orchymmynnir, i'w cyflawni bob amser yn waftad; megis nad yw'r Sabbath i'w gadw'n sanctaidd onid un dydd yn yr wythnos: a phan y byddo caethiwed, neu glefyd, neu weithred o drugaredd ac angenrheidrwydd anhepgor, na's gellir ei gwneuthur bryd arall, yn rhwyfstro Dyledswyddau'r Sabbath, nid yw yn drofedd o'r Pedwerydd Gorchymmyn. *Marc ii. 24, 27, 28. Math. xii. 2--7.*

3. Fe a orchymmynnir i mi yn y Pummed Gorchymmyn, i anrhydeddu fy *Nhâd a'm Mam*; ond o's nid allaf roddi yr anrhydedd a'r usudd-dod a gais fy Rhieni gennys heb bechu yn erbyn Duw, nid oes arnaf rwymedigaeth i'w boddio: canys yn yr ystyr hyn y mae Crist yn dywedud wrth-yf, — *Luc xiv. 26.* O's daw neb attaf, ac ni chasao ei dâd, a'i fam, a'i wraig, a'i blant, a'i frodyr, a'i chwiorydd, ie a'i einioes ei hun befyd, ni all efe fod yn ddisgybl i mi.

Cw. Pa achos sydd i wahaniaethu fel hyn rhwng y Gorchymmynnion?

Att. I. Mi a ddylwn wahaniaethu rhwng y Gorchymmynnion, er mwyn jawn-ddyall meddwl y Deddfwr a'u rhoddodd; fel na bo i mi wîyrdroi Gorchymmynnion Duw, na llwytho fy nghydwybod fy hun, na neb arall, ag euog-twydd diachos; megis y gwnâi'r *Phariseaid*, trwy eu tra-ddodiadau cyfeiliornus eu hunain. — *Math. xxiii. 4.* O blegid y maent yn rku ymo beichbau trymmion, ac anharudd eu dwyn, ac yn eu gosod ar ysgwyddau dynjon; ond ni ewyllysiant eu syflyd bwyl ag un o'u bysedd.

2. Er mwyn i mi, ac i bawb, weled mor gaeth y mae Duw yn gwahardd Pechod, nad oes rydd-did i bechu un amser, nac ar un achos. — *Ezec. xviii. 4.* — *Trenaida becko, bwnnw a fydd marw.*

3. Er mwyn i mi, a phawberaill, weled Tiriondeb Duw, yn rhuddhau rhwymedigaeth y Dyledswyddau ag y mae'n orchymmyn, pan fyddo rhwyftrau anorchfygol, neu weithredoedd o angenrheidrwydd a thrugaredd, yn ein cadw oddi wrthunt. — *Math. xii. 7.* — *Trugaredd a ewyllysiaf, ac nid aberth. Gal. v. 13.*

Cw. Pa rai yw'r *Deg Gorchymmyn*?

Att. Y rhai hynny a lefarodd Duw yn yr ugeinsed bennod o *Ecsodus*.

Cw. Ym mha drefn y mae 'n fwyaf cymmwys i ystyriaid *Deg Gorchymmyn*?

Att. 1. Mi a ddylwn ystyriaid y Swm cyffredinol o honunt ynghyd.

2. Mi a ddylwn ystyriaid Rhagymadrodd y *Deg Gorchymmyn*.

3. Mi a ddylwn ystyriaid pob un o honunt yn neillduol wrtho ei hun.

4. Mi a ddylwn ystyriaid pa Ddyledswyddau a orchymynnir, a pha Bechodaau a waherddir ynndunt; a pha beth y mae'r Ysgrythur yn ei ddywedud am Gôsb y Pechodaau hynny, i'm deffroi i ochelyd rhagddunt.

Cw. Beth yw Swm cyffredinol, neu Grynodeb y *Deg Gorchymmyn*?

Att. Swm yr holl Ddyledswyddau a gynhwysir yn y *Deg Gorchymmyn* yw, *Cariad*; heb ba un mae'r cwbl a wnelwyf yn aflesiol. — Rhuf. xiii. 10. — *Cyflawnder y gyfraith yw cariad*. — Cor. xiii. 1, 2, 3. Pe llefarwn a thafolau dynion ac angylion, ac heb fod gennysf gariad, yr wyf fel efydd yn seinio, neu symbol yn tingcian. A phê byddai gennys brophwyadolhaeth, a guybod o honof y dirgelion oll, a phob guybodaeth; a phê hai gennys yr holl ffydd, fel y gallwn synnu do mynyddoedd, ac heb gennysf gariad; nid-wyf ni ddim. A phê portiwn y rledion a'm holl ddâ, a phê rhoddwr syngiorth i'm llosgi, ac heb gariad gennysf, nid yw ddim llesâad i mi.

Cw. Pwy a ddylech chwi garu?

Att. Mi a ddylwn garu Duw a'm holl galon; a'm Cymydog, sef pob dŷn arall, fel fi fy hun. — Math. xxii. 37-40. — *Câr yr Arglwydd dy Dduw a'th holl galon, ac a'th holl enaid, ac a'th holl feddwl*. Hwn yw'r cyntaf, a'r gorchymmyn mawr. A'r ail sydd gyffelyb iddo; *Câr dy gymydog fel ri dy bun*. Ar y ddau orchymmyn kyn y mae'r holl gyfraith a'r prophwydi yn sefyll.

Cw. Pa rai yw'r Gorchymmynion sydd ynghylch eich Dyledswydd i garu Duw?

Ait. Gorchymmynion y lech gyntaf, sef, y Pedwar Gorchymmyn blaenaf, sy ynghylch ein Dyledswydd i garu Duw: a Gorchymmynion yr ail lech, sef, y Chwech Gorchymmyn olaf, sydd ynghylch ein Dyledswydd i garu'n Cymydeg.

Cw. Pa ham y dylech garu Duw?

Ait. Ni a ddylem garu Duw,

1. O blegid fod Duw yn gorchymmyn hynny yn bennaf o bob peth. — Jos. xxiii. 11. *Tmgédwch gan hynny yn ddysal areich eneidjau, ar i chwi garu yr Arglwydd eich Duw.* Math. xxii. 37, 38. Deut. x. 12. vi. 4, 5. xxx. 6, 7. 1 Dim. i. 5.

2. O blegid Hawddgarwch Duw ynddo eihun, a'i Gariad ef i ni. — 1 Joan iv. 8, 16, 19. *Yr hwn nid yw yu caru, nid adnabu 'Dduw: o blegid Duw cariad yw.* A nyni a adnabuom, ac a gredasom y cariad sydd gan Duw tu ag atrom ni. *Duw cariad yw: a'r hwn sydd yn aros mewn cariad, sydd yn aros yn Nuw, a Duw ynddo yntef.* Yr ydym ni yn ei garu ef, am iddo ef yn gyntaf ein caru ni.

3. O blegid fod pob peth a ddigwyddo i'r rhai a garant Dduw, yn llesiol ieddunt. — Rhuf. viii. 28. *Ac ni a wyddom fod pob peth yn cyd-weithio er daconi, i'r rhai sy'n caru Duw.*

4. O blegid y fawl a garant Dduw, a adnabyddir gan Dduw fel ei Bobl ei hun. — 1 Cor. viii. 3. *Od oes neb yn caru Duw, hwnnw a adwaenir ganddo ef.* Diar. viii. 17. Joan xiv. 21.

5. Y rhai a garant Dduw, a gant fwynhau y pethau an-rhaethadwy a ddarparodd Duw ieddunt. — 1 Cor. ii. 9. — *Fel y mae'n sgrifennedig, Ni welodd Llygad, ac ni oblywodd clust, ac ni ddaeth i galon aŷn, y pethau a ddarparodd Duw i'r rhai a'i carant ef.*

Cw. Pa fodd y dylech ddangos eich Cariad i Dduw?

Ait. Mi a ddylwn ddangos fy Nghariad i Dduw yn bennaf yn y chwech ffordd hyn.

1. Trwy ddymunaид a hiraethu am y Mwynhâad o Dduw uwch law pob peth. — Sal. xlvi. 2. *Sychedig yw fy enaid am Duw, am y Duw byw: pa bryd y deuaf ac yr ymddangosaf ger bron Duw?* — Sal. lxxviii. 25. *Pwy sydd gennys i yn y nefoedd ond tydi? ac ni ewyliystais ar y ddaear neb gyd â rhysi.*

2. Trwy

2. Trwy ymostwng yn ufudd i Ewillys gorchymmynniedig Duw. — 1 Joan v. 3. — *Hyn yw cariad Duw; bod i ni gadw ei orchymmynnion: a'i orchymmynnion ef nid ydnt drymmion.* Joan xiv. 21. 2 Joan 6.

3. Trwy hoffi Gair Duw, ac ymddigrifo ynddo. — Sal. cxix. 24, 127. *A'th dystiolaethau oedd ynt fy hyfrydwch a'm cyngorwyr. Am blynny'r boffais dy orchymmynnion yn fwy nag aur; ie yn fwy nag aur coeth.*

4. Trwy gasau Pechod, ag fydd wrthwyneb i Natur Duw. — Sal. xcvi. 10. *T rhai a gerwch yr Arglwydd, casewch ddrygioni.*

5. Trwy geifio Gogoniant Duw ym mhob peth; a byw iddo ef, ac nid im fy hun. — 2 Cor. v. 14, 15. *Canys y mae cariad Crist yn ein cymhell ni, gan farnu o bonom hyn; o's bu un farw dros bawb, yna meirw oedd pawb. Ac efe a fu farw dros bawb, fel na byddai i'r rhai byw fyw mwyach iddunt eu hunain; ond i'r bwn a fu farw drostunt, ac a gyfodwyd.* Rhuf. xiv. 7, 8.

6. Trwy fodloni colli pob peth, a dioddef pob croesau, er mwyn yr Arglwydd. — Phil. iii. 7, 8. *Eithr y pethau oedd elw i mi, yrhai blynny a gyfrifais i yn golled er mwyn Crist. Ie yn ddiammau yr wyf besyd yn cyfrif pob perth yn golled o berwydd ardderchowgrwydd gwybodaeth Crist Jesu fy Arglwydd: er mwyn yr bwn y m colledwyd ym mhob perth, ac yr wyf yn eu cyfrif yn dom, fel yr ennillwyf Crist.*

Cw. Pa ham y dylech garu eich Cymmydog?

Att. Mi ddylwn garu fy Nghymmydog,

1. O herwydd Gorchymmyn Duw. — Math. xxii. 39. — *Cár dy gymmydog fel ti dy bun.* Lef. xix. 18. Joan xiii. 34.

2. O blegid heb garu fy Nghymmydog, ni allaf fod yn gwir garu Duw. — 1 Joan iv. 20. *O's dywed neb, Trwyf yn caru Duw, ac efe yn casau ei frawd, celwyddog yw. Canys yr bwn nid yw yn caru ei frawd yr bwn a welodd, pa fodd y gall efe garu Duw yr bwn ni's gwelodd?*

3. O blegid mai Cariad brawdol yw Nôd cywir Disgyblion Crist. — Joan xiii. 35. *Wrth hyn y gwybydd pawb mai disgyblion i mi, ydych, o's bydd gennych gariad i'w gilydd.*

1. O blegid mai caru fy Nghymmydogion, yw Cyflawnder fy holl Ddyledswyddau iddunt. — Gal. v. 14. *Cangsyr holl ddeddf a gyflawnir mewn un gair; sef yn hwn, Car dy gymmydog fel trdy hun.* Rhuf. xiii. 9. Jago ii. 8.

2. O blegid mai y rhai sydd yn caru eraill fel eu hunain, a aned o Dduw, ac a aethant o farwolaeth i fywyd. — 1 Joan iii. 14, 15. *Nyri a wyddom ddarfod ein symud ni o farwolaeth i fywyd, o blegid ein bod yn caru'r brodyr. Tru'n nid yw yn caru ei frawd, y mae yn aros ym marwolaeth. Pob un ag sydd yn casau ei frawd, lleiddiad dyn yw: a chwi a wyddoch nad oes i un lleiddiad dyn fywyd tragicwyddol yn aros ynddo.* — 1 Joan iv. 7. *Annwyd, carwn ei gilydd: o blegid cariad o Dduw y mae; a phob un ag sydd yn caru, o Dduw y ganwyd ef, ac y mae efe yn adnabod Duw.*

Cw. Pa foddy y mae i chwi ddangos eich Cariad i'ch Cymmydogion?

Att. Mi a ddylwn ddangos fy Nghariad i'm Cymmydogion,

1. Trwy roddi i bawb y Parch a'r Anrhydedd sydd ddyledus iddunt. — 1 Pedr ii. 17. *Perchwrch bawb. Cerwch y brawdoljaeth.*

2. Trwy farnu'n garuajdd am bawb, ac na thybiwyf yn waeth am neb nag y dylwn. — Phil. ii. 3. *Na wneles dim trwy gynnen neu wâgogoniant, eithr mewn goflyngeidrwydd, gan dybiaid eu gilydd yn well nâu chwi etch hunain.* — 1 Cor. xiii. 5. *Cariad ni feddwl ddrwg.*

3. Trwy gyd-deimlo ag eraill yn eu cyflyrau trallodus. — Rhuf. xii. 15. *Byddwrch lawen gyd â'r rbai sydd lawen, ac wylwrch gyd â'r rbai sy'n wyllo.*

4. Trwy geisio llês a bôdd ein Cymmydog, ac nid ein bôdd a'n llês ein hunain yn unig. — Phil. ii. 4. *Nac edrychwrch bob un ar yr eiddoch eich hunain, eithr pob un ar yr eiddo eraill besyd.* Rhuf. xv. 2. 1 Cor. x. 24. xlii. 5.

5. Trwy gymmorth ein Cymmydogion dan flinder, ac ysgafnhâu arnunt yn ôl ein gallu. — Gal. vi. 2. *Dygwrch feichjau eu gilydd, ac felly cyflawnwrch gyfraith Crist.*

6. Trwy weddio drostunt. — Jago v. 16. *Cyffeswrch eich camweddau bawb i'w gilydd, a gredwrch dros eu gilydd.*

7. Trwy wneuthur yr un ffynyd iddunt hwy, ag yr ewyliyfwn iddunt hwy wneuthur i mi. — Math. vii. 12. — *Pa*

Bethau

berbau bynnag oll a ewyllysiocb eu gwneuthur o ddynjon i chwi, felly gwenewch chwibau idaint bwys: canys hyn yw'r gyfraith a'r prophwydi.

Cw. A ddylai fod gennych yr un fath Gariad i bawb a'i gilydd?

Att. Fe ddywaidd yr Ysgrythur, fod y drygionus yn ddirmygus yng ngolwg y rhai cyflawn; ond eu bod yn anrheddu y rhai a ofnant yr Arglwydd, yn y rhai y mae eu holl hysydwch: er hynny ni a ddylem ddangos Cariad cymmwynasol i bob rhai, ond yn rhagorach i Bobl Dduw. — Gal. vi. 10. — Tra ydym yn cael amser cyfaddas, gwnawn dda i bawb, ond yn enwediig i'r rbai sy o dewlu'r ffydd. Sal. xv. 4. xvi. 13.

Cw. Beth yw Rhagymadrodd y Deg Gorchymwyn?

Att. Duw a lefarodd yr holl eirjau hyn, gan ddywedud, Myfi yw yr Arglwydd dy Dduw; yr hwn a' th ddûg di allan o wlad yr Aipht, o dî y caethiwed. Ecsod. xx. 1, 2.

Cw. Pa fawl peth a ddylech ystyriaid yn y Rhagymadrodd hyn?

Att. Pum peth.

1. Ni a ddylem ystyriaid, y Parch mawr a'r Usudd-dod sy ddyledus i'r Gorchymynnion hyn: o blegid mai'r Duw Mawr ei hun a'u llefarodd; allan o'i Enau ef y daethant. Duw a lefarodd ac a ddywedodd. — Esay i. 2. Gwrandebwcb, nefoedd; clyw, dithau ddaear: canys yr Arglwydd a lefarodd. Esay xlvi. 5.

2. Ni a ddylem ystyriaid, fod ein perthynas cyfammodol â Duw yn ein dodi dan rwymedigaeth o Usudd-dod iddo; canys i'r rhai y mae'r Arglwydd yn Dduw iddunt, y mae efe yn rhoddi'r Gorchymynnion hyn yn Rheol o'u Hu-sudd-dod. — Sal. l. 7. Clywcb, fy mbobl, a mi a lefaraf; O Isräel, mi a dystiolaethaf i'therbyn: Duv, sef dy Dduw di, ydwyf fi. Deut. x. 12, 13.

3. Ni a ddylem ystyriaid, fod Dajoni Duw, yn ein gwaredu ni o gaethiwed pechod a Satan, megis ag y gwaredodd efe bobl Isräel o'u caethiwed dan law Pharno yn yr Aipht, yn ein rhwymo i usuddhâu i Dduw, a'i wasanaethu. — Luc i. 74, 75. Gwedi ein rhyddhâu o law ein gelynnion, ei wasanaethu ef yn ddiofn, mewn sancteiddrwydd a cbyflawned ger

ger ei fren ef, holl ddyddjau ein bywyd. 1 Sam. xii. 2.
Deut. x. 12, 13. Rhuf. ii. 4. 1 Cor. vi. 20. Sal. cxvi. 1, 2. Le.
xix. 36, 37.

4. Ni a ddylem ystyriaid Doethineb a Thiriondeb Duw
yn delio â ni fel creadurjaid rhesymmol a dyallus ; trwy osoc
ger ein bron y cyfryw Ystyriaethau, ag sy'n dangos i'n syn-
hwyrau y Rhwymedigaeth sydd arnom i usuddhâu iddo. —
Huf. xi. 4. *Tynnais hwyt â rheffynnau dynol, â rhwymau*
coriad. Rhuf. xii. 1.

5. Ni a ddylem gofio i'n ofalus y Rhwymedigaeth sydd
arnom i wasanaethu Duw, ac i usuddhâu iddo : canys i'r
diben hynny y rhoddodd Duw y *Deg Gorchymwyn* yn 'sgri-
fenedig i ni. — Ecsod. xvii. 14. *A'r Arglwydd a ddwyed-*
odd wrth Ffes, *Tsgrisenna byn mewn llyfr yn goffaduri-*
aeth. Deut. viii. 11. vi. 12. Sal. ciii. 2. Jago i. 25.

Cw. Pa beth yw'r Gorchymwyn Cyntaf ?

Att. Na fydded it' dduwjau eraill ger fy mron i.

Cw. Ynghylch pa beth y mae'r Gorchymwyn Cyntaf ?

Att. Mae'r Gorchymwyn Cyntaf yng'hylch y Gwrthrych
o'n Haddoliad ni ; sef, pwy a ddylem ni arddel yn Dduw,
a'i addoli.

Cw. Beth y mae'r Gorchymwyn Cyntaf yn dal allan, ac
yn gorchymwyn yn bennaf ?

Att. Mae'r Gorchymwyn Cyntaf yn dal allan, ac yn
gorchymwyn yn bennaf, y pûm peth hyn.

1. Y dylai fod gennym *Dduw* ; ac nid byw yn ddidduw,
megis yr annuwjoljon Paganaidd, ag sydd *heb obaith gan-*
dlunt, ac heb Dduw yn y byd. Eph. ii. 12.

2. Mai'r *Gŵr Dduw ei hun* a ddylai fod yn Dduw i ni;
ac nid gau dduw, neu eulyn. — Sal. xlvi. 14. *Canys y*
Dduw hwn yw ein Dduw ni bytb ac yn drâgywydd. 1 Thess.
i. 9.

3. Mai'r *Gŵr Dduw yn unig* a ddylai fod yn Dduw
gennym ; ac nid amryw dduwjau. — 1 Cor. viii. 5, 6. *Er*
bod rhai a elwir yn dduwjau, pa un bynnag-ai yn y nef
ai ar y ddaear; — *eitbr i ni nîd oes ond un Dduw, y Tâd,*
o'r hwn y mae pob perth, a ninnau ynddo ef, ac un Ar-
glwydd Jesu Crist, trwy yr hwn y mae pob perth, a nin-

nau trwyddo ef. Deut. vi. 4. Esay xliv. 6. Marc xii. 13.
Bren. xix. 15.

4. Y dylai'r unig *Wr Dduw* gael ei addoli gennym a'i
ogoneddu megis *Duw*; ac nid ei arddel mewn gair neu ar
dafod yn unig. — Sal. xxix. 2. Moeswch i'r Arglwydd
ogoniant ei Enw: *addolwch yr Arglwydd ym mbyradaferib-*
wch ei sancteiddrwydd. Joan iv. 24.

5. Y dylem ymrithod â gau dduwjau, i addoli'r unig *Wr Dduw*; fel yn ei wydd ef, a cher bron ei Wyneb: megis y
llesara Duw ei hun yn y Gorchymwyn hwn. *Na fydded i'r*
duwjau eraill ger fy mron i. Ecsod. xx. 3. Jer. xxiii. 24.
Ezec. viii. 12. Gen. xvii. 1. Sal. xvi. 8. xliv. 20, 21. cxix. 16.
Diar. v. 21.

Cw. Yn y Gorchymwynion naccaol, y Pechodau a waher-
ddir sy gymmwys i ystyriaid yn gyntaf, o flaen y Dyled-
swyddau a gynhwysfir yn ddunt; ac am hynny mynegwch i
mi, pa Bechodau a waherddir yn y Gorchymwyn Cyntaf?

Att. 1. Byw yn ddiymofyn am Dduw, fel pe na fyddai un
Duw i gael. — Eph. ii. 11, 12. *Cofiwch, a chwi gynt yw*
genhedloedd yn y cnaud; — *eich bod chwi y pryd hynny*
heb Grist, wedi eich dieithro oddi wrth wladwriaeth Isräet,
ac yn esfronjaid oddi wrth ammodau yr addewid, heb obaith
gennyck, ac heb Dduw yn y byd. Sal. xiv. 1. x. 4.

2. Cymmeryd rhyw beth arall fel Duw i ni, heb law yr
unig *Wr Dduw.* — Hos. xiii. 4. — *Ni chai gydnabod Duw*
ond myfi: ac nid oes Facharwdur ond myfi. Deut. xi. 16.
Esay xlv. 21. Jos. xxiv. 23. Jer. x. 10.

3. Ymgrymu i eulynnod meirwön, neu luniau a delwau,
fel y Cenhedloedd. — Rhuf. i. 23. Y rhai a newidiasant
ogoniant yr anlygredig *Dduw*, i gyffelybiaeth llun din lly-
gredig, ac ebisiaid, ac anifeiliaid pedwarcarnol, ac ym-
lusgiaid. Eph. v. 5. 1 Cor. x. 19, 20.

4. Rhoddi i Ddynjon, neu Angyljon, yr Addoliad sy ddy-
ledus i *Dduw.* Pan syrthiodd Cornelius wrth draed Pedr,
efe a waharddodd iddo, gan ddywedud, *Cyfod;* dŷn wylf
finnau befyd. Act. x. 26. — Pan syrthiodd Joan wrth
draed yr Angel, efe a ddywedodd, *Gwêl na wñelych:* cyd-
was ydylf i ti, ac i'th frodwr. *Addola Dduw.* Dad. xxii.
8, 9. Col. ii. 18.

5. Dilyn hén arferion Paganaidd, a defodau gaugred ein
hynafiaid; dan gymmeryd arnom i osni Duw yr un gyffelyb
a'r

a'r Cenhedloedd eulyngrefyddol. — 2 Bren. xvii. 33, 34. Yr Arglwydd, yr oddynt bwy yn ei ofni, a g-wasanaethu yr oddynt eu duwjau, yn ôl defod y cenhedloedd. — Hyd y dydd bwn y maent bwy yn gveneurbur yn ôl eu hên arfierung.

6. Ymofyn cyfarwyddyd a hysbyfrwydd gan Gonsurwyr, Swynwyr, a Dëwiniaid: canys y cyfryw a wadant Dduw, ac a gymmerant y Diafol yn Dduw iddunt. — Lef. xix. 31. Nac enoch ar ôl dëwiniaid, ac nac ymofynnwch â'r brudwyr, i ymbalogi o'u plegid: yr Arglwydd eich Duw ydriyf fi. Lef. xx. 6, 7, 27. Deut. xviii. 10—12. Dad. xxi. 8. 2 Bren. i. 3.

7. Dal ar ofer goelion, a'n dychymmygion ein hunain; megis rhai yn ymofyn hysbyfrwydd oddi wrth y pethau hyn, yn lle ymofyn â Duw. — Hos. iv. 12. Fy mbobl a ofynnant gyngor i'w cyffion, a'r ffon a ddengys iddunt: carrys ysbryd godineb a'u cyfeiliornodd kwynt; a phutteiniasant oddi wrth eu Duw. Deut. xxxii. 21. Efay lxvi. 4. Seph. i. 6. Act. xiv. 15.

8. Pechu yn y dirgel yn ddibryder, ac ymfawrygu mewn drygioni, a gorthrymmu; fel pe na fyddai un Duw i'n gweled ni. — Efay xxix. 15. Gwae'r rhai a ddyfngeisiant i guddio eu cyngor oddi wrth yr Arglwydd; ac y mae eu gweithredoedd mewn tywyllwch, ac a ddywedant, Pwy a'n gwêl ni? a phwy a'n hedwyn? — Sal. xciv. 6, 7. T'weddw a'r dieithr a laddant, a'r amddifad a ddineidiant. Dywedant befyd, Ni wêl yr Arglwydd; ac nid ystyria Duw Jacob hyn. Math. vi. 4. Efay xlvi. 10. Sal. x. 10—13. xxxvi. 1.

9. Llwon ofer, a thyngu i bethau eraill heb law Duw; fel pe fai'r pethau hynny yn dduwjau i ni. — Jer. v. 7. Pa fodd y'th arbedwn am hyn? dy blant a'm gadawsant i, ac a dyngasant i'r rhai nid ydynt dduwjau. — Deut. vi. 13. Yr Arglwydd dy Dduw a ofni, ac ef a wasanaethi, ac i'w Enw ef y tyngi. Efay xlvi. 23. Seph. i. 5, 6.

10. Rhodio yn ôl chwantau'r cnawd, yn writhwyneb i Dduwjoldeb ac Efengyl Crist: canys gwadu y Gŵir Dduw ydyw hynny. — Phil. iii. 18, 19. T' mae llawer yn rhodio, am y rhai y dywedais i cbwi yn synych, ac yr ydwyf yr awr hon befyd dan iwylo yn dywedid, mai gelynjon croes Crist ydynt; diwedd y rhai yw distryw, duw y rhai yw eu bol.

bol, a'u gogoniant yn eu cywilydd, y rhai sydd yn fynid petbau daearol. Rhuf. viii. 7. xvi. 18.

11. Anghredu Rhagluniaeth Duw a'i Lywodraeth yn y byd, neu ammau ei Addewidjon a'i Allu ef. — Seph. i 12. — Trhai a ddywedant yn eu calon, Ni wna'r Arglwydd dda, ac ni wna ddrwg. 2 Pedr iii. 4. Sal. lxxviii. 19, 21, 22.

12. Osni dynjon, neu bethau eraill, yn fwy na Duw; fel po baent hwy yn gryfach na Duw. — Luc xii. 4, 5. — Nac ofnwrch y rhai sy yn lladd y corph, ac wedi blynny heb gam-dunt ddim mwy i wneuthur. Ond rhagddangosaf i chwi pwy a ofnwrch: Ofnwrch yr bwn wedi y darffo iddo ladd sydd ag awdurdod ganddo i fwrr i uffern; ie meddau i chwi, Hwnnw a ofnwrch. Hebr. xiii. 5, 6. Esay li. 7, 8. Dian. iii. 25, 26.

13. Serchu a chwennychu creadurjaid, neu seddiannau'r byd, yn fwy na Duw. — Rhuf. i. 25. Y rhai a newidi-asant wirjonedd Duw yn gelwydd, ac a addolasant, ac a wasanaethasant y creadur yn fwy na'r Creawdr, yr bwn sydd fendigedig yn dragwyddol. Amen. Ezec. xiv. 3. Hof. ii. 13. Math. x. 37. Col. iii. 5.

14. Ymddiried mewn dŷn, neu gyfoeth, neu ryw beth arall, yn lle ymddiried yn Nuw. — Jer. xvii. 5. Fel byn y dywed yr Arglwydd, Melldigedig fyddo'r gwyr a hydero mewn dŷn, ac a wnelo gnawd yn fraich iddo, a'r bwn y cilio ei galon oddi wrth yr Arglwydd. — Job xxxi. 24, 25, 28. O's gosodais fy ngobaith mewn aur; ac o's dywedais wrth aur coeth, Fy ymddiried wyt: o's llawenychais am fod fy ngbyfoeth yn farwr, ac o blegid i'm llaw gael llawer: Hyn hysyd fnasai an-wiredd i'w gosbi gan y barnwyr: canys gwadafwn Dduw uchod. Esay xxxi. 1.

15. Ceisio anrhymeddedd, a chanmoliaeth, neu foliant i ni ein hunain, yn lle canmol a gogoneddu Duw: nid yw'r cyfryw yn credu yn Nuw, ac ni's gallant. — Joan v. 44. Pa fodd y gellwrch chwi gredu, y rhai ydych yn derbyn gogoniant gan ei gilydd, ac heb geisio y gogoniant sydd oddi wrth Dduw yn unig? Sal. cxv. 1.

16. Byw mewn anwybodaeth gwirfodd o Dduw, heb addoli na gweiddio Duw, na gwrando ar ei Leferydd: y rhai a ddywedant, — Job xxi. 15. Pa beth ydyw'r Hollalluog, fel y gwasanaethem ef? a pha fudd fydd i ni o's gweddiwrn arno?

erno? Ecsod. v. 2. 1 Cor. xv. 34. 2 Theff. i. 8. Jer. iv. 22. Hos. iv. 6. Job xv. 4. 1 Sam. xii. 15.

v 17. Arddeliad rhagrithiol o Wasanaeth ac Addoliad Duw. — Dit. i. 16. Y maent yn proffesi yr adwaenant Dduw, eithr ar weithredoedd ei wadu y maent, gan fod yn ffaidd, ac yn anufudd, ac at bob gweithred dda yn anghymmer-adwy. Math. xv. 8. Esay xxix. 13, 14. Ezec. xxxiii. 31.

18. Ymosod mewn gair neu weithred yn erbyn Ffordd ac Achos Duw: canys felly mae'r annuwjol yn gwrt hwynebu Duw ei hun, ac yn cyfrroi ei Ddigter ef. — Esay iii. 8. Canys cwymppodd Jerusalem, a Syrthiodd Juda; a berwydd eu rafod bwynt a'u gweithredoedd sydd yn erbyn yr Arglwydd, i giffroi llygaid ei ogoians ef. — 2 Dim. iii. 8. Megis y safodd Jannes a Jambres yn erbyn Moses, felly y mae y rhai byn besyd yn sefyll yn erbyn y gwirjoneidd; dynjon o feddwl llygredig, yn anghymmeradwy o ran y ffydd. 2 Theff. ii. 4. Sal. ii. 1, 2.

Cw. Pa Esamplau sydd yn yr Ysgrythur o Gôsb a Barn Duw ar droeddwyr y Gorchymmyn Cyntaf, ag y ddylai'n rhybuddio ni i ochelyd y Pechodau hynny?

1. *Pharao* brenin yr Aipht a wadodd Dduw: canys efe a ddywedodd, *Pwy yw'r Arglwydd, fel y gwrandawr i ar ei lais ef?* Ecsod. v. 2.—A Duw a dywalldodd arno ef lawer o farnau trymmion ar ôl eu gilydd; ac yn y diwedd, *Pharao*, a'i gerbydau, a'i fyddin, a fodwyd yn y Mîr Coch. Ecsod. xiv.

2. Y roedd Cyfraith Duw gynt yn barnu, i ladd yn farw pwy bynnag a hudai rai eraill ar ôl duwjau dieithr, oddi wrth y Duw byw. — Deut. xiii. 6, 8. O's dy frawd, mab dy fam, neu dy fab dy bun, neu dy ferch, neu wraig dy fynwes, neu dy gysaill, yr hwn sydd fel dy enaid dy bun, a'i h annog yn ddirgel, gan ddywedud, Iawn, gwasanaethwn ddurwjau dieithr, y rhai nid adnabhost ti, na'r dadau; na chydwynia ag ef, ac na wrando arno, ac na arbeded dy lygad ef, ac na eiriach ef, ac na chele arno.

3. Yr Juddewôn, o fychain i sawr, a offrymmasant i frenhines y nef, a durwjau dieithr; a'r Arglwydd am hynny a dywalldodd ei lid arnunt, ar ddyn ac ar anifail, ar goed y maes, ac ar ffrwyth y ddaear. Jer. vii. 18, 20.

4. Pobl Isræel a ddistrywyd yn echrydus, am anghredu Gallu a Rhagluniaeth Duw. — Sal. lxxviii. 19, 21, 22.

Llefafasant

Llefarasant yn erbyn Duw, dywedasant, A ddichon Duw arlwyd bwrdd yn yr anialwch? Am hynny y clybu'r Arglwydd, ac y digoedd: a thân a ennyinnodd yn erbyn Jacob, a digofaint besyd a gynneuodd yn erbyn Iſræl; am na chredent yn Nuw, ac na obeithient yn ei jechyd-wriaeth ef. Pan oedd newyn mawr jawn yn Samaria, Elisœus y Prophwyd, trwy Air yr Arglwydd, a ddywedodd, y byddai yno erbyn drannoeth amledd a digon o ymborth. Un o'r tywysogion a atrebodd gan ddywedud, Pe gwndi'r Arglwydd ffenesiri yn y nefoedd, a fyddai'r peth hyn? A'r Prophwyd a ddywedodd, y cai efe ei weled, ond na chai brosi o hono. Ac felly y bu: canys y bobl a'i mathrasant ef yn y porth, nes iddo farw, trwy gyflawn Farn Duw, am iddo ammau Rhagluniaeth a Gallu Duw. 2 Bren. vii. 1, 2, 17.

5. Y chwe' can mil o Bobl Iſræl, ag y ddaethai allan o wlad yr Aipht, a ddifethwyd yn yr anialwch, o fab ugain mlwydd oed i fynu, ond dau, am duchan yn erbyn Rhagluniaeth, yn He addef Llywodraeth Duw, ac ymoslwng iddo.

— Num. xiv. 26, 27, 29. A'r Arglwydd a lefaroda wrth Foses, ac wrth Aaron, gan ddywedud, Pa byd y cyd-ddygaf â'r gynnulleidfa ddrygionus hon sydd yn tuchan i'm herbyn? Clywais duchan meibion Iſræl, y rhai sydd yn tuchan i'm herbyn. Tn y diffeithwch bwn y cwmp eich celaneddau, a'ch holl risedigion trwy eich holl rif, o fab ugain mlwydd ac uchod, y rhai a duchanasoch yn fy erbyn. 1 Cor. x. 10.

6. Y rhai oll a ymofynnant yn ôl-consuriaeth a swynion, ydynt yn ymwrthod â Duw, ac yn tyanu drygfyd disymmwth arnunt eu hunain. — Lef. xx. 6. A'r dyn a drô ar ôl dêwinjaid, a brudwyr, i butteinio ar eu hól hwynt, gosodaf fy wyneb yn erbyn y dyn hwnnw, a thorraf ef ymmaith o fyf ei bobl. Saul Brenin Iſræl a adawödd yr Arglwydd, ac yn ei gyfyngder a ymgynghorodd â dêwines; a thrannoeth ei elynjon a'i gorchfygasant: ac efe, mewn chwerwder ysbryd ac anobaith, a laddodd ei hun. 1 Sam. xxviii. a xxxi. —

Y Brenin Abaziah, am ddanfon, pan oedd efe yn glaf, i ymofyn â Baalzebub duw Ecron, pa un a wellhai efe o'i glefyd, fel pe na buasai un Duw yn Iſræl; am hynny ni chafodd ddyfod o'i wely mwy, ond gan farw y bu farw. 2 Bren. i.

— Meibion Iſræl, pan yr aethant ar ôl duwjau dieithr, ac yr arferasant ddêwinjaeth a swynion, a roddwyd gan Dduw i ddwylaw eu hanrheithwyr, i'w caethiwo i wlad ddiethr. 2 Bren. xvii. 16--23. Barn. ii. Esay xlvi. 9, 11.

7. O's ymddiriedwn mewn peth arall, ac nid yn Nuw, yr ym yn ei wadu ef, ac yn ei ddiarddelu, er dinyafr i ni ein hunain. Y Brenin *Aša*, am iddo ef, pan ydøedd yn glaf, ymddiried yn y meddygon, ac heb geisio'r Arglwydd, a fu farw o'i glefyd. 2 *Cron.* xvi. 12, 13.

8. Yr ym yn gwadu Duw, ac yn tynnu barn arnom (fel y dengys amryw esamplau) pan fyddom yn cymmeryd i ni ein hunain, neu'n rhoddi i neb arall, y Clod sy ddyledus i Dduw. Pan oedd pendefigion y *Philistiaid* yn aberthu i *Dagon*, am roddi *Samsón* i'w dwylaw hwynt, y ty a fyrthiedd arnunt, ac a laddodd ynglych tair mil o honunt. *Barn.* xvi. 23--30.

— O herwydd ymfrost wagogoneddus *Sennacherib* Brenin *Assur* yn tho ei hun, Duw a ymwelodd ag ef a chulni ac a llösgiad tan. *Esay* x. 12--16. — *Nabuchodonosor* Brenin *Babilon* a ymfalchiodd yn ei fawredd a'i olud, yn lle gogoneddu Duw; ac a dröwyd allan o'i frenhinjaeth i gydfyw ag anifeiljaid y maes dros faith mlynedd. *Dan.* iv. 30--32.

— *Belsassar*, ar ddiwrnod, a ymddyrrchafodd yn erbyn yr Arglwydd; a'r noson honno y lladdwyd ef. *Dan.* v. 23. — Y Brenin *Herod*, am dderbyn canmoliaeth y bobl iddo ei hun, ac na roesai y *Gogoneda i Dduw*, a darawyd gan Angcl; a chan bryfed yn ei gessu, efe a drengodd. *Act.* xii. 21, 22, 23.

Cw. Pa Ddyledswyddau a gynhwysfir yn bennaf yn y Gorchymwyn Cyntaf, ag y ddylem gyflawni, fel y bytho i ni arddel ac addoli yr unig Wîr Dduw fel ein Duw ni?

Art. i. Ffydd neu *Grediniaeth ddiamheus*, fod un Gwîr Dduw. — *Hebr.* xi. 6. — *O blegid rhaid yw i'r neb sydd yn dyfod at Dduw gredu ei fod ef, a'i fod yn obrwywr i'r rhai sy yn ei geisio ef.*

2. *Gwybodaeth wirjoneddus am y Gwîr Dduw.* — *Cron.* xxviii. 9. *Adebydd Dduw dy dâd.* — *Esay* xlivi. 10. — *Fel yr adnabyddoch, ac y credoch fi, ac y dyalloch mai myfi yw.* *Joan* xvii. 3. iv. 22.

3. Dewis yr unig Wîr Dduw yn Dduw i ni, ac ymgysmodi i fod yn Bobl i Dduw. — *Jer.* l. 5. — *Deu-wch, glynw wrth yr Arglwydd, trwy gyfannod trwywyddol, yr bwn nia anghofir.* *Jos.* xxiv. 15, 22. *Eesod.* xix. 5. *Deut.* xxvi. 17, 18.

4. Cadw'n ddiesgeulus yr holl Ordinhhadau sanctaidd a' Deddfau a orchymmynnodd Duw, gan fod yn ufudd iddo — *Deut.* vi. 17, 18. *Gan gadw cedwch orchymmynion yr Arglwydd*

*Arglwydd eich Duw, a'i dystiolaethau, a'i ddeddfau, y
rbai a orchymmynnodd efe i ti. Agwnâ yr byn sydd unjon
a dejonus yng ngolwg yr Arglwyd; fel y byddo âda i ti.*
Jer. vii. 23.

5. Addoli Duw yn ostyngedig, a dyrchafu ei Enw ef yn
barchus ar bob achos; gan fwriadu Gogoniant Duw ym mhob
peth a wnelom. — Sal. xcv. 6, 7. *Deurwch, addolun, ac
ymgrymmwn: gosyngwn ar ein gliniaw ger bron yr Ar-
glwydd ein Gwneuthurwr. Canys efe yw ein Duw ni;*
a ninnau jm bobl ei borfa, a defaid ei law. — 1 Cor. x. 31.
*Pa un bynnag — ai bwyta, ai yfed, ai beth bynnag a wnel-
och, gwneuwch bob peth er gogoniant i Dduw.* Sal. vii. 17.
xxix. 2. xxxiv. 1, 3. lxviii. 4. xcix. 5. cxlv. 1, 21. Math. v.
16. 1 Pedr iv. 11.

6. Ymostwng yn fodlongar i Ewillys Duw ym mhob
cyflwr a drefno efe i ni. — 1 Sam. iii. 18. — *Yr Arglwydd
yw efe: gwnaed a fyddo da yn ei olwg.* — Math. xxvi. 39. —
Nid fel yr ydwyt si yn ewillysio, ond fel yr ydwyt ti.
Sal. xxxix. 9. Job i. 21. ii. 10. Hebr. xiii. 5. Phil. iv. 11.

7. Ymddiried a gobeithio yn Nuw; gan dreiglo'n holl
ofal arno, a disgwil wrtho ef yn unig am bob peth. — Esay
xxvi. 4. *Ymddiriedwch yn yr Arglwydd bytb; o herwydd
yn yr Arglwydd Dduw y mae cadernid trogywyddol.* Sal.
lxii. 5--8. cxxxii. 3. Diar. iii. 5. Jer. xiv. 22.

8. Bod i ni wasanaethu Duw yn ffyddlon bob amser, gan
ei ofni a'i garu ef uwch law pob peth. — Deut. x. 12. *Ac yr
awr hon, Isräel, beth y mae'r Arglwydd dy Dduw yn
ei ofyn gennyt, ond ofni'r Arglwydd dy Dduw, a rhodio
yn ei holl ffyrdd, a'i garu ef, a gwasanaethu'r Arglwydd
dy Dduw â'ib holl galon, ac â'ib holl enaid?* Deut. viii.
II. Amos v. 4.

9. Bod ein llawenydd pennaf a'n holl hysrydwch yn
Nuw, a'n hiraeth mwyaf am dano. — Phil. iv. 4. *Llawen-
hêwch yn yr Arglwydd yn wastadol: a thraebefn meddaf,
Llawenhêwch.* — Sal. xxxiv. 2. *Tn yr Arglwydd y gor-
foledda fy enaid.* — Sal. cxlii. 6. *Lledais fy mwylaw
attar: fy enaid fel tir sychedig sydd yn hiraethu am
danat.* Sal. lxxiiii 25.

10. Bod gennym Zêl dros Achos Duw, gyd ag Edifeirwch
am ein Pechodau yn ei erbyn ef. — Dad. iii. 19. — *Am
bunny bydded zêl gennyt, ac edifarbhâ.* Num. xxv. 11. Sal.
lxix. 9. Gal. iv. 18.

Cw. Pa beth yw'r Ail Orchymmyn?

Att. Na wñâ it' ddelw gerfiedig, na llun dim a'r y sydd yn y nefoedd uchod, nac a'r y sydd yn y ddaear isod; nac a'r sydd yn y dwfr tan y ddaear: nac ymgrymma iddunt, ac na wasanaetha hwynt: o blegid myfi yr Arglwydd dy Dduw wyf Dduw eiddigus; yn ymweled ag anwiredd y tadau ar y plant, hyd y drydedd a'r bedwaredd genhedlaeth o'r rhai a'm casant; ac yn gwneuthur trugaredd i filoedd o'r rhai a'm carant, ac a gadwânt fy ngorchymmynion.

Cw. Ynghylch pa beth y mae'r Ail Orchymmyn?

Att. Megis y mae'r Gorchymmyn Cyntaf ynghylch y Gwrthddrych o'n Haddoliad, ac yn dangos pwy a ddylem addoli, sef, yr unig Wir Dduw; y mae'r Ail Orchymmyn yn ein dysgu ym mha ddull a modd y mae i ni addoli Duw; sef, yn y modd y mae efe ei hun yn hysbysu, ac nid yn un modd arall.

Cw. Pa fawl than yn bennaf sydd yn yr Ail Orchymmyn?

Att. Dwy ran.

1. Gorchymmyn, na wnelom i ni ein hunain ddelw gerfiedig, na llun dim ag y sydd yn y nefoedd uchod, nac yn y ddaear isod, nac yn y dwfr dan y ddaear; ac na bo i ni oftwng nac ymgrymmu iddunt, na'u gwasanaethu hwynt, na'u haddoli.

2. Y Rhesymmau, o herwydd pa rai y mae Duw yn gorchymmyn na wnelom ni selly.

Cw. O herwydd pa Resymmau y mae Duw yn gorchymmyn na wnelom ddelwau cerfiedig, na lluniau, i ymgrymmu iddunt, a'u gwasanaethu?

Att. O herwydd y pump Rheswm hyn.

1. O herwydd Awdurdod goruchel Duw drosom; ac am hynny iddo ef yn unig y mae ein holl Addoliad a'n Hymostyngiad yn ddyledus. — Sal. xcv. 3. *Cany's yr Arglwydd sydd Dduw mawr, a Brenin mawr gorwch yr holl dduwau jau.* Sal. xcvi. 9. cxxxv. 5.

2. O herwydd hawl a meddiant Duw ynnom, a'n perthynas ni ag ef; o blegid y mae efe yn dywedud, *Mi yw'r Arglwydd dy Dauw.* — Sal. xcv. 7. *Cany's efe yd*

ein Duw ni; a ninnau ſm bobl ei borfa, a defaid ei law.
Sal. xlv. 11. Lef. xix. 4.

3. O herwydd Eiddigedd Duw a'i Ofal ynghylch ei Addoliad: canys efe a ddywaid, *Myf yr Arglywydd dy Dduw ydwysf Dduw eiddigus.* Am hynny ni rydd efe ei ogoiant i grall, neu fawli ddelwau cerfiedig. — Ecsod. xxxiv. 14. Ni chai ymgrymmu i ddurw arall: o blegid yr Arglywydd, *Eiddigus yw ei Enw;* *Duw eiddigus yw efe.* Deut. xxxii.

21, 22. Jos. xxiv. 19. Diar. vi. 34, 35.

4. O herwydd y gôsb a fydd i ddelwaddolwyr, ac i'w heppil ar eu hól hwynt: canys Duw a ddywaid, *Myf yr yw Dduw eiddigus, yn ymweled ag anwiredd y tadau ar y plant, byd y drydedd a'r bedwaredd genhedlaeth.* Ecsod. xxxiv. 7. 1 Sam. xv. 2. 2 Sam. xii. 14. Jer. xxxii. 18. Galar. v. 7. Math. xxiii. 35.

5. O herwydd bod y rhai a roddant i bethau eraill yr Anrhydedd sy ddyledus i Dduw, yn ei gasâu ef: canys felly y mae Duw yn ei gyfrif. *Mi a ymwelaf â phebodaau y tadau ar y plant, byd y drydedd a'r bedwaredd genhedlaeth o'r rhai a'm casâant.* A'r Apostol a ddywaid, eu bod yn elynjon mewn meddwl, trwy weithredoedd drwg; — ac yn gâs ganndunt *Dduw.* Col. i. 21. Rhuf. i. 30.

6. O herwydd y fawl a garant Dduw, ac a uuddhaant iddo, a gât Drugaredd, hwynthwy a'u hiljogaeth hefyd: canys y mae efe yn gwneuthur trugaredd i filoedd o'r rhai a'i carant, ac a gadwânt ei orchymmynnion. Joan xiv. 21.

Cw. A ydyw yn waharddedig i wneuthur delwau a lluniau o unrhyw beth?

Att. 1. Y mae'n waharddedig ym mhob ystyr i wneuthur delw a llun Duw. — Esay xl. 18, 22, 25. *I bwy — y cyffelybwch Dduw? a pha ddelw a osodwch iddo?* Efe sydd yn eistedd ar amgylchoedd y ddaear, a'i thrigolion sydd fel locustjaid; yr hwn a danna'r nefoedd fel llen, ac a'i lleda fel pabell i drigo ynddi. *I bwy gan hynny y'm cyffelybwch,* ac y'm cystedlir? medd y Sanct. Lef. xix. 4. Act. xvii. 29. Rhuf. i. 22, 23.

2. Y mae'n waharddedig i wneuthur llun neu ddelw unrhyw beth i Ddiben crefyddol, neu i'w harferyd yng Ngwafanaeth ac Addoliad Duw. — Deut. xxvii. 15. *Melldigedig yw'r gîr a wñel ddelw gerfiedig, neu doddedig, sef ffleidd dra*

gau yr Arglwydd, gwaith dwylaw creffiwr, ac a'i gosodo mewn lle dirgel: a'r holl bobl a attebant, ac a ddywedant, Amen.

3. Nid yw yn beth gwaharddedig yn tho ei hun, i wneuthur delwau a lluniau, pan na arferir hwynt yng Ngwasanaeth ac Addoljad Duw. *Salomon* a gerfiodd holl barwydydd y Deml a lluniau Cerubjaid a Phalmwydd. A *Moses*, trwy Orchymmyn Duw, a wnaeth luniau Cerubjaid i'r Drugareddfa; a llun Sarph o brês: ond pan arferwyd y Sarph brês yn goelgesyddol, y Brenin duwjol *Hezeciah* a'i maluriodd hi. *Ecsod.* xxv. 18. *Num.* xxi. 8, 9. 1 *Bren.* vi. 2 *Bren.* xviii. 4.

Cw. Pa fodd y mae'n gyfawn i hiljogaeth neu blant yr annuwjol ddioddef dros amryw genhedlaethau o herwydd pechodau eu rhieni?

Att. 1. Mae'n ddiammau, fod plant yn cael eu difreinio o Drugareddau mawrion, ac weithjau yn dioddef cosbedigaethau trymmion, o achos eu rhieni; ag y ddylai gyffrōi pobloedd i ochelyd pechod a drygjoni, o serch a thosturi i'w plant. — *Galar.* v. 7. *Ein tadau a bechasant, ac nid ydynt; ninnau sy'n dwyn eu cosb hwynt.* O achos pechod *Dafydd*, y bu farw y plentyn a aned iddo o *Fathseba*. 2 *Sam.* xii. 14. — A Duw a lwyd-ddistrywiodd yr *Amalecjaid*, yn wr ac yn wrraig, yn ddyn bach ac yn blentyn fugno; o herwydd i'w tadau hwynt ddrygu *Ifræl* yn yr anialwch yn agos i bedwar cant o flynyddau o'r blaen. 1 *Sam.* xv. 2 — *Ecsod.* xvii. 8 — 14. *Deut.* xxv. 17 — 19. — Ac mae Crist yn dywedud wrth yr *Juddewön*, y deuai ar y genhedlaeth honno waed yr holl Ferthiron, o waed *Abel* gyfawn hyd waed *Zacharias*, yrbai a laddwyd gan eu hynafiaid hwy. *Math.* xxiii. 23 — 36.

2. Mae'n ddiammau, fod yn gyfawn yng ngolwg Duw, i gosbi'r plant am anwiredd eu rhieni; o blegid mai'r Duw cyfawn ei hun sydd yn gwneuthur felly. — *Job* viii. 3. *A wyra Duw farn? neu a wyra'r Hollalluog gyfawnder?* — *Rhuf.* iii. 5, 6. — *Ai angbyfawn yw Duw, yr hwn sydd yn dwyn arnom ddigofaint?* (yn ôl dyn yr wys yn dywedud) *Na atto Duw. Canys wrth bynnny, pa fodd y barna Duw y byd?* *Sal.* cxlv. 17.

3. Mae'n gyfawn i blant ddioddef cosbedigaeth eu tadau, am fyw ym mhechodau eu tadau; eithr o's gwrthodant bechodau eu rhieni, mae Duw yn eu gwaredd oddi wrth eu cosbedi-

cosbedigaethau hwynt. — Ezecl. xviii. 14, 17. O's gât a genhedla fab a wêl holl bechodaun ei dâd y rhai a wnaeth efe, ac a gystyria, ac ni wna felly: — hwnnw ni bydd farw am anwiredd ei dâd; gan syw y bydd efe byw.

Cw. Pa ham y mae Duw yn addo Trugaredd i filoedd o'r rhai a'i carant, ac a gadwânt ei Orchymmynnion; ac nad yw yn bwgwth cosbi ei gaseion, ond hyd y drydedd a'r bedwaredd genhedlaeth?

Ait. O herwydd bod Duw, yn ei Natur ddajonus, yn fwy tueddol i Gariad, nag i Ddigofaint; ac yn hoffi trugarhâu, yn fwy nà chosbi. — Mic. vii. 18. Pa Dduw sydd fel tydi, yn maddau anwiredd, ac yn myned heibio i anwiredd gweaddil ei etifeddiaeth? mi ddeil efe ei ddig byth, am fod yn hoff gando drugaredd. Sal. ciii. 8, 11. Ecfod. xxxiv. 6, 7.

Cw. Pa Bechodaun a waherddir yn yr Ail Orchymmyn?

Ait. Yn yr Ail Orchymmyn y gwaherddir, yn
1. Na bo i ni wneuthur lluniau a delwau o Dduw, nac o unrhyw bethau eraill, i'w haddoli. — Deut. iv. 23, 24. Tmgedwch arnoch rhag angbofio cyfammod yr Arglwydd eich Duw, yn hwn a ammododd efe â cb:vi, a garmeuthur o honoch i chwi ddelw gerfiadig, llun dim oll a waharddodd yr Arglwydd dy Dduw i ti. O blegid yr Arglwydd dy Dduw sydd dan yssol, a Dduw eiddigus. Deut. xxvii. 15. iv. 15—19. Esay xl. 18.

2. Na bo i ni addoli nac ymostwng, neu ymgrymmu, i unrhyw ddelwau a lluniau a wnelo eraill. — Deut. v. 9. Nac ymgrymma iddunt, ac na wasanaetha hwynt; o blegid myfî'r Arglwydd dy Dduw ydwyf Dduw eiddigus, yn ym-weld ag anwiredd y tadau ar y plant, hyd y drydedd a'r bedwaredd genhedlaeth o'r rhai a'm casáant. Jer. xliv. 4. Ecfod. xxxiv. 14. Esay xli. 19.

3. Na bo i ni ddychymmygu unrhyw lun na delw o Dduw yn ein meddyliau: canys delwaddoliad ysbrydol yw hynny. — Act. xvii. 29. — Ni ddylem ni dybied fod y Duwdod yn de byg i aur, neu arian, neu faen, o gerfiad celfyddyd, a dychymmyg dyn. — i Cron. xxviii. 9. Canys yr Arglwydd sydd yn chwilio'r holl galonau, ac yn dyall pob dychymmyg meddyliau. Sal. cxi. 29, 39. Ezecl. xiv. 2, 7.

4. Na bo i ni esgeuluso addoli Duw; canys yngylch hyn yn bennaf y rhoddir y Gorchymmyn hwn. — Dad. xiv. 7. — Addolwch

— Addolwch yr hwn a wnaeth y nef, a'r ddæar, a'r mor,
a'r ffynhonnau dyfroedd. Sal. lxxix. 6. Esay lxvi. 23.

5. Na bo i ni chwanegu unrhyw beth at Addoliad Duw,
nad ydyw yn gyttun â Gair Duw. — Diar. xxx. 6. Na
ddyro ddim at ei eirjau ef, rbag iddo dy geryddu, a'th
gael yn gelwyddog. — Dad. xxii. 18. — O's rhydd neb ddim
at y perbaulyn, Duw a rydd atio ef y plaaau sy wedi eu
bysgrifennu yn y llyfr hwn. Lef. x. 1, 2.

6. Na bo i ni adel heibio, neu dynnu oddi wrth Addoliad
Duw, unrhyw beth ag a ordeiniodd Duw ei hun. — Deut.
xii. 32. Pob gair yr wyf si yn ei orchymmyn i chwi, edrych-
wch am wneuthur bynnyn: na chwanega ato, ac na thyn
oddi wrtho. Deut. xxxii. 46. Dad. xxii. 18, 19. Math. xxviii.
20. Lef. xix. 37.

7. Na bo i ni addoli Duw wrth ein hewyllys ein hunain,
mewn modd nad yw ese yn cehadu. — Deut. v. 32. Edrych-
wch gan bynnyn am wneuthur fel y gorhymmynnodd yr Ar-
glwydd eich Duw i chwi: na chilwch i'r tu debau, nac i'r
tu affwy. Math. xv. 9. Col. ii. 18—23. 1 Cron. xv. 13.

8. Na bo i ni wrthwynebu addoli Duw yn y cyfryw fodd
trefnus a gweddaidd ag y fo Eglwys Duw, yn gyttun â Gair
Duw, yn appwyntio. — 1 Cor. xiv. 40. Gweler pob perth
yn weddaidd, ac mewn trefn. — Math. xviii. 17. — O's
ese ni wrendy ar yr eglwys cbwaith, bydded ef i ti megis
yr ethnig a'r publican.

9. Na bo i ni naccâu, nac esgeuluso rhoddi Parch ac
Addoliad corphorol i Dduw, yngŷd ag Addoliad ysbrydol
ein heneidjau: canys megis ein gwaherdir i ymosfwrn a
phlygu ein cyrph i ddelwau a lluniau, mae'n ddiammau y
dylem wneuthur felly i Dduw, yn ôl esampl yr holl Seint-
jau. — 2 Cron. vi. 13. Salomon a wnaethai bulpud près,
ac a'i gosodasai yng nganol y cyntedd; — ac a safodd
arno, ac a osyngodd ar ei linjau, ger bron holl gynnulleidfa
Ifräel, ac a estynnodd ei ddwylaw tu a'r nefoedd; pan
oedd ese yn addoli Duw, ac yn cyfflegru'r Demi. — Neh.
viii. 6. Ac Ezra a fendifiodd yr Arglwydd, y Duw mawr.
A'r holl bobl a attebasant, Amen, Amen, gan ddyrchafu
eu dwylaw: a bu y a ymgrymmasant, ac a addolasant yr
Arglwydd â'u bwynesau tu a'r ddæar. — Math. xxvi.
39. A'r Arglwydd Jesu, wrth addoli Duw, a syrtiodd ar

ei wyneb, gan weddio. Luc. xxiii. 41. Act. xx. 36. Dad. iv.
10.

10. Na bo i ni gymmeryd plaid delwaddolwyr, nac ym-gyfathrachu a hwynt. — 2 Cron. xix. 2. — *Ai cynhort-hwyo'r annwylol, a charu'r rbai oedd yn casau'r Arglwydd, a wnaid ti?* am byn digofaint oddi wrth yr Arglwydd sydd arnat ti. — Neh. xiii. 25. — Na roddwch eich merched i'w meibion bwynt, ac na chymmeruch o'u merched bwynt i'ch meibion, nac i chwi eich bunain. 2 Cor. vi. 14—16. 1 Cor. x. 19—21. Deut. vii. 3, 4. Sal. cvi. 35—37.

Cw. Pa esamplau sydd yn yr Ysgrythur o Farn Duw ar droseddwyr yr Ail Orchymwyn, ag fy'n dangos y perygl o'i dorni?

Att. 1. Barn a pherygl echrydus a ddaeth ar laweroedd, am wneuthur ac addoli eulynnod. Tair mil o Bobl Isräel a laddwyd, am wneuthur llö rawdd, a dywedud, *Dymma dy ddwriau di, Isräel, y rhai a'th ddug di i fynu o wlâd yr Aipht.* Ecsod. xxxii. Deut. xvii. 2—5. — *Jeroboam a wnaeth eulynnod, ac a arogldarthodd iddunt yn ôl ei ddy-chymmyg ei hun; a hyn a barodd iddo gael ei ddiwreiddio a'i ddilêu oddi ar wyneb y ddaear;* *A gweddilljon ei dj ef a fwriwyd allan fel dom;* y cwn a'u bwyt aodd yn y ddinas, ac adar y nesoedd yn y meusydd. 1 Bren. xii. 26—33. xiv. 9—11. — *Jeboram a butteiniodd yn ôl delwaddoliaeth, ac a fa farw o glefydau drwg;* ei goluddjon a'i ymysgaroedd a aethant allan o'i gorff. 2 Cron. xxi. 11—20. — Am ddelwaddoliaeth *Manasseb*, y rhoddodd Duw y bobl yn llaw eu gelynjon, i fod yn anrhaitb ac yn ysbail idduot, ac a ddygodd arnant bedwar rhywogaeth o farn: *y cleddyf, i ladd, a'r cwn, i larpio;* ac adar y nesoedd, ac anifeiljaid y ddaear, i yssu ac i ddifa. Duw hefyd a'u rhoddodd bwynt i'w symmudo i holl deyrnasoedd y ddaear. 2 Bren. xxi. 2—17. xxiv. 1—4. Jer. xv. 3, 4. Barn. ii. 11—15.

2. Mae'n beryglus i roddi achlysur i eraill i wyro yn ôl eulynaddoliad, oddi wrth Addoliad Duw. *Gedeon, o'i ddychymmyg ei hun, a wnaeth Ephod;* a holl Isräel a butteiniasant ar ei bol, ac a wnaethant eulyn o honi: a'r peth aeth yn dramgyrdd mawr, ac a ddygodd ddinystr ar holl dŷ Gedeon, a llaweroedd eraill. Barn. viii. 27. Sal. xvi. 4.

3. Y mae'n beryglus i gyffwrdd â'r pethau a berthyn i Addoliad Duw yn amgen nag y mae Duw yn gorchymmyn. Duw a darawödd *Uzzah* yn farw, am gyffwrdd ag Arch y Cyfammod. 2 Sam. vi. — Ac ychwaneg nâ deng mil a deugain o wyr *Berthsemas* a laddwyd am edrych ynddi. 1 Sam. vi. — *Nadab* ac *Abihu*, plant *Aaron*, am wneuthur o'u pennau eu hunain, yn Addoliad Duw, yr hyn ni orchymmynnodd Duw iddunt, sef, offrymmu i Dduw â thân dieithr, a laddwyd yn y fan â thân o'r nefoedd. Lef. x. 1, 2.

4. Mae'n beryglus i ysbeilio, neu attal oddi wrth Dduw, y pethau cyssegredig a berthyn iddo. *Achan*, ynghyd â'i feibion, a'i ferched, a'i holl anifeiljaid, a labyddiwyd â meini, ac a losgwyd â thân, am iddo ef ysglyfaethu rhân o'r perth cyssegredig. Jos. vii. — Yr *Juddewön* a dynnasant Felldith Duw ar eu pennau, am gadw rhân o'r *Degwn* a'r Offrymmau oedd yn perthyn i Addoliad Duw. Mal. iii. 8, 9, 10. — *Ananias* a *Sapphira* ei wraig a laddwyd ill dau, am gadw oddi wrth Dduw ran o't Adduned a wnaethent. Act. v. 1 — 10.

5. Mae'n beryglus i arferyd Ordinħadu sanctaidd yo ammharchus, neu halogi pethau cyssegredig a berthyn i Addoliad Duw. Pan oedd *Belsassar* y Brenin yn gwredda â illestri'r Deml, efe a ddychrynwyd yn ddirfawr yn ddisymmwth yng nghanol ei wlédd; a'r noson honno y lladdwyd. Dan. v. — Yr *Juddewön*, a halogasant y Deml, ac Addoliad Duw, a dynnasant ddinystr ar y wlâd, ac ar y ddinas, a'r Deml; a hwyntau eu hunain a yrrwyd ar wasgar yn grwydriaid ar hŷd wyneb y ddaear. Amryw o'r *Corinthjaid* a darawyd â chlefydau, ac eraill â marwolaeth, am ddyfod yn ammharchus i *Swpper yr Arglwydd*. 1 Cor. xi.

6. Mae'n beryglus i neb o Addolwyr Duw fyned mewn cyfathrach â delwaddolwyr. Yr *Juddewön* a ymgymmysgasant â'r cenhedoedd, ac a ddysgasant eu gweithredoedd hwynt; ac a wasanaethasant eu delwau hwynt; y rhai a fu yn fagl iddunt. Aberthasant eu meibion a'u merched i gythreuljaid. Am hymny y cynneuodd dig yr Arglwydd yn erbyn ei bobl, fel y ffieiddiodd efe ei etifeddiaeth. Sal. cxi. 35 — 37, 40. — Ac Isräel a ymgysfeillodd â Baal-Penor; ac ennynnodd digasant yr Arglwydd yn erbyn Isräel. A dywedodd yr Arglwydd wrth Foses, Cymmer holl benaethjaid y bobl, a chrôg hwynt i'r Arglwydd ar gyfer

yr haul; fel y dychwelo llid digofaint yr Arglwydd. Num.
xxv. 3, 4. Jof. xxiii. 11—13.

7. Mae'n beryglus i neb fod yn anwadal yn Addoliad Duw. *Amasias a ddechreuodd deyrnasu'n dda;* ond yn ôl hynny efe a *ymadawedd oddi ar ôl yr Arglwydd:* a thryw Farn Duw efe a laddwyd. 2 Cron. xxv. 27.—*Cbwe' ugain mil a laddwyd mewn un diwrnod,* o wîr grymmus yn *Juda,* am wrthod o honunt *Arglwydd Dduw eu tadau.* 2 Cron. xxviii. 6.—*Amon hefyd ni rodiodd yn ffordd Duw ei dadau;* a'i weisjon a'i *lladdasant ef yn ei dîj ei hun.* 2 Bren. xxi. 21—23.—O herwydd i bobl *Juda,* yng *nghildynrwydd eu calonnau drygionus,* fyned yn ôl, yn lle myned *ym mlaen,* yn Addoliad Duw; *eu celanedd hwy a wnawd yn fwyd i adar y nefoedd, ac anifeiljaid y ddaear;* a phob gorfoedd a ddarfu yn *eu dinasoeld;* a'r wlâd a *wnaethpwyd yn anrhaith.* Jer. vii. 24, 33, 34.

Cw. Pa rai yn bennaf yw'r Dyledswyddau a gynhwysir yn yr Ail Orchymmyn?

Att. Y Dyledswyddau a gynhwysir yn bennaf yn yr Ail Orchymmyn yw y rhai hyn.

1. Bod i ni addoli Duw yn unig; ac nid neb arall ond ef. — Math. iv. 10.—*Yr Arglwydd dy Dduw a addoli, ac ef yn unig a wasanaethi.*

2. Bod i ni addoli Duw yn ôl y Drefn y mae Duw ei hun yn ordeinio; ac nid yn ôl ein dychymmyg ein hunain. — Hebr. viii. 5.—*Megis y rhybuddiwyd Moses gan Dduw, pan oedd efe ar fedr gorphen y babell; Canys, gwêl, medd efe, ar wneuthur o honot bob perth ar ôl y portreiaid a ddangoswyd i ti yn y mynydd.* Deut. v. 32. 1 Cron. xv. 13.

3. Bod i ni addoli Duw yn gyflawn yn ei holl Ordinhadau, heb gyfnewid nac esgeuluso neb o honunt. — Math. xxviii. 20. *Gan ddysgu iddunt gadw pob perth a'r a orchymmynnaid i chwi.* Ac wele, yr ydwyf si gyd â chwi bob amser hyd ddiwedd y byd. Luc i. 6. Ezra iii. 4. Diar. vii. 2. Lef. xix. 37.

4. Bod i ni addoli Duw yn gyffon ac yn ddianwadal, heb âyro un amser oddi wrtho ef: canys felly mae Duw yn ewyllsio i'w Bobl wneuthur er llês iddunt. — Deut. v. 29. *Ob na byddai gyfryw galon ynndunt i'm bofni i, ac i gadw fy holl orchymmynion bob amser, fel y byddai da iddunt ac i'w plant yn dragwyddol!*

5. Bod i ni addoli Duw gyd â'r Parch a'r Purdeb mwyaf sy boffibl. — Sal. xxix. 2. — Addolwch yr Arglwydd ym mbrydferthwch ei sancteiddrwydd. — Hebr. xii. 28, 29. — Bydded gennym ras, trwy'r hwn y gwasanaethom Dduw wrth ei fodd gyd â gwylter a pharchedig ofn. O blegid ein Duw ni sydd dán yssol. Mal. i. 4.

6. Bod i ni addoli Duw, nid yn unig â'r corph oddi allan, eithr yn ddiesgeulus yn y dŷn oddi mewn hefyd. — 1 Cor. vi. 20. Canys er gwerth y prynwyd chwi; gan hynny gogoneiddwch Dduw yn eich corph, ac yn eich ysbryd, y rhai sydd eiddo Duw. Sal. xcv. 6.

7. Bod i ni ddioddef yn ewillysgar pa gôsb bynnag a ddodir arnom, yn hytrach nag ymgrymmu i ddelwau, ac addoli eulynnod. — Dan. iii. 16—18. Y tri llangc addywed-asant wrth Nabuchodonosor, Wele, y mae ein Duw ni, yr hwn yr ydym ni yn ei addoli, yn abl i'n gwared ni allan o'r ffwrn danllyd boeth; ac efe a'n gwared ni o'th law di, O frenin. Ac onid è, bydded bysbys it', frenin, na addolwn dy dauwjan, ac nad ymgrymmwn i'r daelw aur a gyfodaist.

Cw. Pa beth yw'r Trydydd Gorchymmyn?

Att. Na chymmer Enw'r Arglwydd dy Dduw yn ofer; canys nid dieuog gan yr Arglwydd yr hwn a gymmoro ei Enw ef yn ofer.

Cw. Ynghylch pa beth y mae'r Trydydd Gorchymmyn?

Att. Mae'r Trydydd Gorchymmyn ynghylch y Parch dyledus ag y ddylem ddangos i Enw Duw, ac i bob peth a berthyn iddo. — 1 Cron. xvi. 29. Moeswch i'r Arglwydd ogoniant ei Enw. Dad. iv. 11. Lef. x. 3. Sal. lxxxix. 7.

Cw. Pa sawl peth a ddylech ystyriaid yn y Trydydd Gorchymmyn?

Att. Tri pheth. 1. Pa beth a feddylier wrth Enw Duw. 2. Ym mha ffordd y cymmerir ei Enw ef yn ofer. 3. Y Rheswm pa ham y dylem ochelyd hynny; sef, o blegid mai nid dieuog gan yr Arglwydd yr hwn a gymmoro ei Enw ef yn ofer.

Cw. Pa beth a feddylier wrth Enw Duw?

Att.

Att. Wrth *Enw Duw* y meddylier y pethau hynny oll trwy ba rai y mae Duw yn gwneuthur ei hun yn adnabyddus i ni; ond yn bennaf y pum peth hyn.

1. Yr amryw Enwau a Thitlau wrth ba rai y gelwir Duw yn yr Ysgrythur; megis, *Duw*, *Arglwydd*, *Brenin y bren-binoedd*, *Tâd tragywyddoldeb*, *Creawdwr*, *Gwaredwyr*, a'r cyffelyb.

2. Priodoliaethau Duw; megis, ei *Dragywyddoldeb*, ei *Anfeidroldeb*, ei *Hollbrefennoldeb*, a'i *Anghyfnêwidioldeb*, ei *Ddoethineb* a'i *Allu*, ei *Drugaredd* a'i *Gariad*, ei *Sanc-teiddrwydd* a'i *Gyfiawnder*, a'r cyffelyb. *Ecsod.* xxxiv. 5, 6.

3. Wrth *Enw Duw* y meddylier yr Ordinhadau a bwynti odd Duw i gael ei addoli yn ddunt: canys Duw a osododd ei Enw arnunt, ac a addawodd gyfarfod â'i Bobl yn ddunt. — *Ecsod.* xx. 24. — *Tm mhob man lle y rhoddwyf goffadwriaeth o'm Henw, y deuaf attat, ac y'th fendithiaf.* *Deut.* xii. 5.

4. Wrth *Enw Duw* y meddylier holl Athrawjaeth Gair Duw; sef, yr Ysgrythur Lân; trwy ba un y mae Duw yn amlygu ei hun, ac yn dadguddio ei Ewyllys i ni. — *Sal.* cxxxviji. 2. — *O blegid ti a fawrheist dy air iuweb law dy Enw oll.* *Joan* xvii. 6, 26. *Deut.* xxxii. 2, 3.

5. Wrth *Enw Duw* y meddylier ei holl Weithredoedd ef; trwy ba rai y mae Duw yn hysbysu ei hun i ddynjon, ac yn disgwil cael ei ogoneddu a'i berchi yn ddunt. — *Rhuf.* i. 20. *Canys ei anweledig bethau ef, er creadurjaeth y byd, wrth eu bystyriaid yn y petbau a wnaed, a welir yn amlwg;* sef, ei dragywyddol allu ef, a'i *Dduwdod*, byd onid ydynt yn ddiengus. *Sal.* xix. 1. ix. 19. lxvi. 3, 5. lxxxvi. 8. cxi. *Deut.* iii. 24. *Joan* v. 36. *Dan.* iv. 37. *Act.* xiv. 17. *Dad.* xv. 3, 4. *Job* xxxvi. 24.

Cw. Ym mha ffodd y cymmerir *Enw Duw yn ofer?*

Att. Fe gymmerir *Enw Duw yn ofer*,

1. Mewn ymadroddion cyffredin; pan y sonier am *Enw Duw* yn segur, yn gwstymmol, ac yn anystyriol. — *Lef.* xxii. 32. — *Na halogwch fy Enw sanctaidd, ond sancteiddier fi ym mysg meibion Isräel: myfi yw yr Arglwydd eich Sancteiddiada.* *Ecclus.* xxiii. 9, 10.

2. Fe gymmerir *Enw Duw yn ofer*, pan fytho neb yn chwedleua neu'n ymgommio ynghylch Crefydd a Gair Duw, naill ai yn ysgafn, neu'n ddigofus, neu ynteu mewn coeg ddifyrrwch a maswedd: canys gyd â Pharch y dylid crybwyll

bwyll am bob peth a berthyn i Enw Duw. — Sal. xcix.
2, 3. Mawr yw'r Arglwydd yn Sion, a dyrchafedig yw
efe goruwch yr holl bobloedd. Moljannant dy Enw
mawr ac ofnadwy; canys sanctaidd yw. Mal. i. 6.

3. Fe gymmerir Enw Duw yn ofer, yn Addoliad Duw,
pan fythom yn nesau atto oddi allan yn unig, heb dymmer
barchus a goftyngedig yn y dŷn oddi mewn. — Math. xv.
8, 9. Nesau y mae y bobl byn attaf â'u genau, a'm han-
rhydeddu â'u gwefusau; â'u calon sydd bell oddi wrthys.
Eithrynn ofer y'm hanrhydeddant i.

4. Fe gymmerir Enw Duw yn ofer, pan fythom yn
mwynhâu Moddon Gras heb eu defnyddio er llês i ni. —
2 Cor. vi. 1. — Yr ydym yn attolwg i chwi, na dder-
bynioc'h râs Duw yn ofer. Hebr. iv. 2.

5. Fe gymmerir Enw Duw yn ofer, mewn llwon, pan
dyngo neb yn afreidjol, neu'n anghywir, i Enw Duw; neu
dyngu i ryw beth arall heb law i Dduw. — Math. v. 34 —
37, Yr ydwys si yn dywedud wrthys chwi, Na thwng
ddim: nac i'r nef; canys gorseddfa Duw ydyw: nac i'r
ddaear; canys troedfaingc ei draed ydyw: nac i Jerusalem;
canys dinas y Brenin mawr ydyw. Ac na thwng i'r ben;
am na elli wneuthur un blewyn yn wyn, neu yn ddu. Eithr
bydded eich ymadrodd chwi, Ie, ie; Nag è, nag è: o
blegid beth bynnag sydd dros ben byn, o'r drwg y mae.

Cw. A ydyw yn anghyfreithlon ar bob achos i gymmeryd
llw, neu dyngu?

Att. i. Y mae pob llwon yn bechod, a dyngir i unrhyw
beth nad ydyw yn Dduw: canys, i Dduw yn unig y maent
yn ddyledus. — Deut. vi. 13. Yr Arglwydd dy Dduw a
ofni, ac ef a wasanaethi, ac i'w Enw ef y tyngi. —
Jer. v. 7. Pa fodd y'r arbedwn am byn? dy blant a'm
gadawsant i, ac a dyngasant i'r rhai nid ydynt dduwjau.

2. Mae pob llwon byrbwyll, dibris, ac afreidjol, yn
bechod. — Jago v. 12. O flaen pob petb, sy mrodyr,
na thyngwch, nac i'r nef, nac i'r ddaear, nac un llw arall:
eithr bydded eich Ie chwi yn Ie; a'ch Nag è yn Nag è; fel na
syrthioch i far nedigaeth. — Eccl. xxiii. 9, 10, 11. Na arfer
dy enau i dyngu, ac na ymgynnefina ag enwi yr bwn sydd
sanctaidd. O blegid megis ni bydd ychydig gleisiau ar y
gwâs a gurer yn wastadol; felly yr bwn a dyngo, ac a
enwö Dduw bob amser, ni bydd lân oddi wrth bechod.

X gŵr

Tgŵr a dyngo lawer, a lenwir o anwiredd, ac nid ymedy dialedd â'i dŷ ef. — *O's yn ofer hefyd y tyngodd efe, ni chyflawnheir ef; o blegid fe a lenwir ei dŷ ef o ddialedd.*

3. Mae'n bechod ysgeler i dyngu'n anudon, neu'n gelwyddog. — Lef. xix. 12. *Ac na rhwyngwch i'm Henw i yn anudon, ac na haloga Enw dy Dduw: yr Arglwydd ydwyf fi.* Zech. viii. 17. Math. v. 33.

4. Mae tyngu, neu gymmeryd ein llw, yn gywir ac yn barchus i Dduw, yn ddyledswydd arnom, pan fyddo'n angenrheidjol i sicrhau'r gwirjonedd. — Hebr. vi. 16.

— *Llw er sicrwydd sydd derfyn iddunt ar bob ymryson.* — Ecsod. xxii. 11. *Bydded llw'r Arglwydd rhwngt hwn ill dau.* Jer. iv. 2.

Cw. Beth a feddylier wrth y Rheswm, neu'r Bygythiad, yn y Trydydd Gorchymmyn; sef, *na chymmer Duw yn adieuog y neb a gymmero ei Enw ef yn ofer?*

Att. Mae Duw, wrth ddywedud na fydd dieuog yr hwn, a gymmero ei Enw ef yn ofer, yn hysbysu fod y peth hyn yn gymaint bechod, ac yn digio Duw cyn drymmed, fel na's caiff efe fod yn esgusadol, neu'n ddigerydd; eithr y cosba Duw yn arswydus ac yn ddiarbed yr hwn a dorro'r Gyfraith hon, gan ammherchi ei Enw gogoneiddus ef. —

Lef. xxiv. 15, 16. *Allefara wrth feibion Isräel, gan ddywedud, Pwy bynnag a gablo ei Dduw, a ddwg ei bechod.* A lladder yn farw yr hwn a felldithio Enw'r Arglwydd; yr holl gynnulleidfa gan labyddio a'i llabyddiant ef: llader yn gystal y dieithr a'r priodor, pan gablo efe Enw'r Arglwydd. Deut. xxviii. 58, 59. Ezec. vii. 4.

Cw. Pa Bechodau a waherddir yn y Trydydd Gorchymmyn?

Att. Fe waherddir yn y Trydydd Gorchymmyn bob camarferiad o Enw Duw, a phob peth a ddygo ammharch a chabledd arno. Megis,

1. *Diystyru Gwasanaeth ac Addoliad Duw, fel pe na fyddai ond gwaith ofer.* — Mal. iii. 14. Megis y rhai a ddywedasant, *Oferedd yw gwasanaethu Duw;* a phalesiant sydd er i ni gadw ei orchymmynnion ef, ac er i ni rodio yn alarus ger bron Arglwydd y lluoedd? Job xxi. 14, 15.

2. *Cilio oddi wrth Addoliad Duw, ac Ordinhadau Crefydd, heb ymosyn yn eu hól y mwy, ar ôl bod yn eu harddel.*

— Seph. i. 6. *T'r bai a giliant oddi ar ôl yr Arglwydd,*

ac nid ymosynnasant am dano. 2 Pedr ii. 21. Hebr. x. 38.

3. Arferyd Dyledswyddau Crefydd ac Addoliad Duw o ddefod ac arfer yn unig; yr hyn nid yw ond rhagrith ac oferedd, fel y mae Duw ei hun yn tytiolaethu. — Math. xv. 7, 8, 9. *Ob ragrithwyr, da y propbwydodd Esaias am danoch chwi, gan ddywedud, Nesau y mae y bobl byn attaf â'u genau, a'm hanrhydeddu â'u gwefusau, a'u calon sydd bell oddi wrthyf. Eithr yn ofer y'n hanrhydeddant i, gan ddysgu gorchymwynnion dynjon yn adysgeidiawb.* Jer. xii. 2. Ezec. xxxiv. 31.

4. Arferyd Enw Duw mewn rhegfeydd a melldithion; a thynnw felly Felldith Duw arnunt eu hunain. — Rhuf. xii.

14. — Bendithiwch, ac na felldithiwch. — Sal. cix. 17. Hoffoda felldith, a bi a ddaeth iddo: ni synnai fendith, a bi a bellhaodd oddi wrtho. Gen. xii. 3. Num. xxiv. 9.

5. Pob llwon ofer mewn ymddiddanion cyffredin; neu dyngu'n anudon, pan fônt ar eu llw mewn achos cyfreithlon.

— Esay xlvi. 1. *Gwrandêwch hyn, ty Jacob, y rhai a elwir ar enw Iſräel, ac a ddaethant allan o ddyfroedd Ju-dâ; y rhai a dyngant i Enw'r Arglywydd, ac a goffaent am Dduw Iſräel; nid mewn gwirjoneedd, nac mewn cyflawn-der.*

6. Gwneuthur a chyflawni addunedau cyfeiliornus, neu esgeulufo cyflawni'r Addunedau defosiynol a wnelom yn Enw Duw. — Preg. v. 4, 5. *Pan addunedech adduned i Dduw, nac oeda ei thalu: canys nid oes ganddo flas ar rai ynsyd; y perth a addinedaist, tâl. G-well i ti fod heb addunedu, nag i ti addunedu, a bod heb dalu. Eithr addunedau cyfeiliornus sy'n tywys i fwy o bechod; megis Saul, a herwydd ei adduned fyrwyll, a geisiodd ladd Jonathan ei fab. 1 Sam. xiv. — A Herod, o herwydd ei adduned i ferch Herodias, a laddodd Joan Fedyddiwr. Math. xiv. Jer. xliv. 25-27.*

7. Arferyd Enw Duw mewn swyngytaredd, neu gonsuriaeth; yr hwn yw gwaith y diafol, ac y mae Duw yn ei wahardd. — Deut. xviii. 10, 11, 12. *Na chaffer ynnor a wnelo i'w fab, neu i'w ferch, snyder trwy'r iân, neu a arfero daëwinjaerb, na phlaneddyd, na daroganwr, na budol, na swynewr swynion, nac a geisio wybodaeth gan gonsuriwr, neu frudiwr, nac a ymosynno â'r meirw. O herwydd ffieidd-dra gan yr Arglywydd yw pôwb a wnelo hyn: ac o achos y ffieidd-dra hyn y mae'r Arglywydd dy*

Dduw yn eu gyrru hwynt allan o'th flaen di. Lef. xix. 26.

xx. 27.

8. Cablu a gwawdio Pobl Dduw: canys felly mae ynsydion yn gwawdio ac yn difenwi *Duw* ei hun. — Sal. lxxiv. 18. *Cofa byn, i'r gelyn gablu, O Arglwydd, ac i'r bobl ynsydd difenwi dy Enw.* — Jago ii. 7. *Onid ydynt hwy yn cablu yr Enw rhagorol, yr hwn a elwir arnoch chwi?* Esay xxviii. 22.

9. Enwi *Duw* yn ddiystyr, neu mewn byrbwylldra, a gwyltineb; a chymmysgu ei *Enw sanctaidd* ef am ben ymadroddion ofer a llygredig. — Sal. cxxxix. 20. *T'rhai a ddywedant 'sgelerder yn dy erbyn, dy elynjon a gymmerant dy Enw yn ofer.* Diar. xxx. 8, 9.

10. Esgeuluso edrych ar Weithredoedd *Duw*, ag sy'n mynegi Mawredd ei *Enw* ef. — Esay v. 12, 14. *Ac yn eu gwleddoedd hwynt y mae y delyn, a'r nabl, y tympan, a'r bibell, a'r gwin;* ond am waith yr Arglwydd nid edrychiant, a gweithred ei dd-wylaw ef nid ystyriant. *Herwydd hynny'r ymehengodd usfern, ac yr agorodd ei safn yn anserth;* ac yno y disgyn eu gogoniant, a'u lliaws, a'u rhwysg, a'r hwn a lawenycha yuddi. Job xxxiv. 26, 27. Sal. xxviii. 5.

11. Ceisio clôd a dyrchafiaeth i'n henwau ein hunain, yn lle gogoneddu *Enw Duw*. — Sal. cxv. 1. *Nid i ni, O Arglwydd, nid i ni, ond i'th Enw dy hun dôd ogoniant.* Esay xlviij. 11.

12. Gwagffrost ynglych Crefydd a Chyfraith Duw, heb wir Ufudd-dod iddi; yr hyn sy'n dianrheddu *Enw Duw*, ac yn rhoi achlysur i eraill ei gablu ef. — Rhuf. ii. 23, 24. *Tr hwn wyt yn gorfoeddu yn y ddeddf, trwy dorri'r ddeddf a ddianrhydeddi di Dduw?* Canys *Enw Duw* o'ch plegid cbwi a geblir ym mhli'h y cenhedloedd.

Cw. Pa esamplau sydd yn yr Ysgrythur o Gôsb a Barn Duw ar droseddwyr y Trydydd Gorchymmyn?

Att. Mae yn yr Ysgrythur lawer o esamplau o Gôsb a Barn Duw ar droseddwyr y Trydydd Gorchymmyn; ag y ddylai'n rhybuddio i berchi *Enw Duw* ym mhob peth a berthyn iddo.

1. *Sennacherib Brânin Assyria a gabloedd Enw Duw, ac a lefarodd yn ddirmygus am dano; a'r noson honno Angel yr Arglwydd a laddoda bwm a phedwar ugain a chant o filoedd yn ei wersyll ef;* ac yntef ei hun a lad dwyd gan ei feib-

jon, ym mhen ychydig ar ôl hynny. 2 Bren. xix. 22, 35, 37.

— Lef. xxiv. 11, 13, 14. A mab gwraig o Israël a gablodd Enw'r Arglwydd, ac a felldigodd : yna y dygasant ef o Ffoses. — A llesfarodd yr Arglwydd wrth Ffoses, gan ddywedud, Dug y cabydd i'r tu allan i'r gwersyll, a rhodded pawb a'i clywsant ef eu dwylaw ar ei ben ef, a llabyddied yr holl gynnulleidfa ef.

2. Barn Duw a ddaeth yn drwm ar Sedeciah Brenin Jerusalem, am iddo dorri ei law â Nabuchodonosor Brenin Babylon : canys wedi iddo dyngu, a rhoddi ei law am fod yn ffyddlon, efe a wrthryselodd yn ei erbyn ef; a Duw a'i cosbodd ef o blegid hynny : canys llu'r Caldeaid a ddaliasant Sedeciah, ac a laddasant ei feibion o flaen ei wyneb ; a chwedyn a dynnasant ei lygaid o'i ben, ac a'i rhywymasant ef meuen gefynnau près, ac a'i dygasant yn garcharor i Fabilon ; ac ar ôl hynny hwy a losgasant dyr Arglwydd, a thŷ'r brenin, a holl dai Jerusalem, â thân. Ezec. xvii. 18,

19. 2 Bren. xxv. 5—9. 2 Cron. xxxvi. 13.

3. O herwydd ammherchi Enw'r Arglwydd, trwy lwon oser, halogedig, y mae palasau a theyrnasoedd yn chwydu allan eu trigolion, a theiau mawrjon a thêg yn anghyfannedd heb drigiannydd : hyn a ddug anfrwythlondeb ar y tir, a Melldith Duw a'i Farnau ar bob creadur sy yn tho. — Jer. xxiii. 10. — Canys o berwydd llwon y gofiaiodd y ddaear, ac y sychodd tirion leoedd yr anialwch ; a'u helynt sydd ddrwg, a'u cadernid nid yw unjawn. — Hos. iv. 2, 3. Trwy dyngu, a dywedud celwydd, a lladd celain, a lladrata, a thorri priodas, y maent yn torri allan, a gwaed a gyffwrdd â gwaed. Am hynny y galara'r wlad, ac y llesgħā oll sydd yn trigo ynddi, yngħyd â bwystfilod y maes, ac ehediacid y nefoedd ; pysgod y mōr befyd a ddarfyddant.

4. Duw a anfonodd newyn dros dair blynedd olynol yn nyddjanu Dafydd, o blegid i Saul Brenin Isræel ddianrheddu Enw Duw, trwy dorri'r adduned a wnaethai pobl Isræel â'r Gibeonjaid, pan ddaethant gyntaf i Ganaan ; a saith o feibion Saul a grogwyd o achos hynny. 2 Sam. xxi.

1—9. Jos. ix. 15. — Samson, trwy dorri adduned ei Nazareaeth, a golloedd ei nerth, a'i lygaid, a'i fywyd. Num.

vi. 5. Barn. xvi. — Yr Iuddēwon, wedi addo ac adduned, i ryddhau eu brodyr, a'u cenedl eu hun a gaethiwent ; edifarhasant gwedyn', ac ni ollyngent hwy yn rhŷdd : am hynny

hynny Duw a'u rhoddodd hwynt i'r cleddyf, i baint, oo i newyn. Jer. xxxiv. 8—17.

5. Fe gosbwyd rhai yn echrydus am halogi Enw Duw, trwy fyned at swynwyr a dëwinjaid, neu gonsurwyr. —

1 Cron. x. 13, 14. Felly y bu farw Saul, am ei gamwedd a wnaethai efe yn erbyn yr Arglwydd, sef yn erbyn gair yr Arglwydd, yr hwn ni chadwaisai efe, am iddo gynghori â dëwines, i ymosyn â hi; ac heb ymgynggori â'r Arglwydd: am hynny y lladdodd efe ef, ac y trodd y frenhiniaeth i Ddafydd fab Jesse. Meibion Scefa yr archofficeriad a gymmerasant arnunt i gonsurio'r diafol allan o ddŷn; a'r dŷn, yr hwn oedd yr ysbryd drwg ynddo, a rutbrodd arnunt, ac a'u gorchfygodd, ac a fu drwm yn eu herbyn, byd oni ffoisant hwy allan o'r iâ hwnnw, yz noethion, ac yn archolledig. Act. xix. 13—16.

6. Fe gosbwyd eraill am eu hammarch i Enw Duw, trwy ddirmyg Cennadwri neu Weinidogaeth Gair Duw. —

2 Cron. xxxvi. 16—19. Pobl Jerusalem oeddynt yn gweatwar cenhadau Duw, ac yn tremygu ei eirjau ef, ac yn gwawdio ei brophwydi ef, nes cyfodi o ddigofaint yr Arglwydd yn erbyn ei bobl, fel nad oedd jachâd. Am hynny efe a ddygodd i fynu arnunt hwy frenin y Caldeaid, yr hwn a laddodd eu gwyr jeuangc hwy â'r cleddyf yn nhŷ eu cyssegr, ac nid arbedodd na gŵr jeuangc, na morwyn, na ben, na'r hwn oedd yn cannu gan oedran: efe a'u rhoddodd hwynt oll yn ei law ef. Holl lestri iâ Dduw befyd, mawrion a bychain, a tbrysorau iâ'r Arglwydd, a tbrysorau'r brenin a'i dywysogion: y rhai hynny oll a ddug efe i Fabilon. A hwy a losgasant di' Dduw, ac a ddisrywiasant fur Jerusalem; a'i holl halasau hi a losgasant â thân, a'i holl lestri dynunol a ddinystriasant. —

Jeroboam a esynnodd ei law yn erbyn y Prophwyd a ddaeth dros Dduw i'w rybuddio ef, gan ddywedud, Deliwch ef: A'r llaw a esynnaisai efe yn erbyn y Prophwyd a ddiffrwythodd, fel nad allai efe ei thynnu hi atto. 1 Bren. xiii. 4. —

Eutychus a gyfgodd dan Weinidogaeth Gair Duw, tra'r oedd Paul yn pregethu; ac efe a gwympodd i lawr yn farw. Act. xx. 9. — Elymas a wrthwynebodd Weinidogaeth Barnabas a Phaul, gan geisio gŵyrdroi rhai o'r gwrandawyr; ac efe a darsawyd â daliach dros amser, fel

nad allai fyned oddi amgylch heb rai i'w arwain erbyn ei law. Act. xiii. 8—11.

7. Fe gosbwyd rhai am eu hammarch i Enw Duw, trwy ddyfod yn annheilwng i'w Ordinhhadau ef. *Judas Iscariot* a fwytaodd gyd â Christ yn y Sacrament; a'r diafol a aeth i mewn i *Judas* gyd â'r tammaid, ac efe a aeth allan ac a fradychodd Crist, a chwedi hynny a ymgrogodd. Y *Corinthiaid* a ddaethant yn ammharchus i Swpper yr Arglwydd; a hwy a fifytasant ac a yfasant farnedigaeth iddunt eu bunain: llawer a darawyd â chlefydon, a llawer o honunt a suant feirw. i Cor. xi. 29, 30. — *Uzza* a esynnodd ei law yn ddiystyr i gyffwrdd ag Arch y Cyfammod; a llid yr Arglwydd a ennynnodd yn erbyn *Uzza*, a'r Arglwydd a'i lladdodd ef. — O berwydd na cheisiasant bwy yr Arglwydd megis ag y dylasant, y gwnaeth Duw y rhwyg bwn iddunt. i Cron. xiii. 9, 10. xv. 13.

Cw. Pa Ddyledswyddau a berthyn i ni oddi wrth y Trydydd Gorchymyn?

Att. 1. Bod i ni, nid yn unig attal ein geneuau rhag amherchi Enw Duw, eithr hefyd i ni â'n geneuau ei ogoneddu ef. — Sal. li. 15. *Arglwydd, agor fy ngwefusau: a'm genau a sypeda dy foliant.* Sal. xxxvii. 30. lxxi. 8, 15. Diar. xiii. 3. xviii. 7. Preg. x. 12. Jago i. 26.

2. Bod i ni feddwl a chofio'n barchus am *Enw gogoneddus Duw* yn ein calonnau: canys felly bydd coffa cyfrifol o honom ni ger bron Duw. — Mal. iii. 16. — *Sgrifennwyd llyfr coffadwriaeth ger bron Duw, i'r rhai oedd yn ofni'r Arglwydd, ac i'r rhai oedd yn meddwl am ei Enw* ef.

3. Bod i ni ogoneddu *Enw Duw* ym mhob gwaith a galwâd a berthyn i ni. — i Cor. x. 31. *Pa un bynnag gan byny ai bwyt, ai yfed, ai berth bynnag a cwneloch, gwnêwch bob peth er gogoniant i Dduw.* Math. v. 16.

4. Bod i ni ogoneddu *Duw* â'n holl fediannau, ac â holl alluoedd ein heneidjau. — Diar. iii. 9. *Anrhydedda'r Arglwydd â'r gyfoeth, ac â'r peth pennaf o'r holl ffrwyth.*

5. Bod i ni ogoneddu *Duw* a'i addoli yn barchus yn yr Ordinhhadau a ofododd Duw yn ei Eglwys. — Sal. c. 4. *Ewch i mewn i'w byrh ef â diolch, ac i'w gynteddau â mawl.* — Sal. lxvi. 2. *Dadgenwch ogoniant ei Enw: gwnêwch ei foliant yn ogoneiddus.* Sal. xcvi. 8, 9. Lef. x. 3. Mal. i. 11. Preg. v. 1.

6. Bod i ni gyflawni ein holl Addunedau dá yn ffyddlon i *Dduw*, er Gogoniant i'w *Enw*. —— Sal. I. 14. *Aberiha foliant i Dduw*; a thál i'r *Goruchaf* dy addunedau.

Num. xxx. 2. Deut. xxiii. 21—23. Preg. v. 4, 5.

7. Bod i ni dyngu'n wirjoneddus ac yn barchus yn ofn *Duw*, pan elwir arnom, ar achofion pwysfawr, i gymmeryd ein llw ger bron eisteddfa barn. —— Jer. iv. 2. *A thi a dyngi, Byw yw'r Arglwydd, mewr gwirjonedd, mewr barn, ac mewn cyfiawnder.* Sal. xv. 4. xxiv. 4.

8. Bod i ni ystyriaid *Gweithredoedd Duw*, a llefaru'n barchus wrth ei gilydd am danunt, i ogoneddu Duw o'u plegid. —— I Cron. xvi. 8, 9. — *Hysbyswch ei weithredoedd ef ym mblith y bobloedd. Cenwch iddo, clodforwch ef, ymadroddwch am ei holl ryfeddodau.* Efay xii. 4. Dad. xv. 3, 4.

9. Bod i ni roddi Parch dyledus i bob peth cyssegredig, o herwydd ei berthynas i *Enw* gogoneddus *Duw*. —— Sal. xcvi. 8. *Rhoddwch i'r Arglwydd ogoniant ei Enw.* — Sal. cxii. 9. — *Sancteiddiol ac ofnadwy yw ei Enw ef.* Lef. xix. 30.

10. Bod i ni anrhayeddu *Enw Duw*, a'i ddyrchasu uwch law pob peth. —— Sal. cxlviii. 13. — *O berwydd ei Enw ef yn unig sydd ddyrchafadwy: ei ardderchowgrwydd ef sydd uwch law daear a nefoedd.* Sal. viii. 1. cxiii. 4. xcvi. 3, 4. Efay xii. 4.

Cw. Pa beth yw'r Pedwerydd Gorchymmyn?

Att. Cofia y dydd Sabbath i'w sancteiddio ef. Chwe' diwrnod y gweithi, ac y gwnai dy holl waith. Ond y seithfed dydd yw Sabbath yr Arglwydd dy Dduw: na wna ynny ddim gwaith, tydi, na'th f. b., na'th ferch, na'th wasanaethwr, na'th wasanaethferch, na'th anifail, na'th ddieithr ddŷn a fydd o fewn dy byrth. Oherwydd mewn chwe' diwrnod y gwnaeth yr Arglwydd y nefoedd a'r ddaear, y mîr, a'r hyn oil sydd ynndunt, ac a orphywysodd y seithfed dydd: am hynny y bendithiodd yr Arglwydd y dydd Sabbath, ac a'i sancteiddiodd ef.

Cw. Ynghylch pa beth y mae'r Pedwerydd Gorchymmyn?

Att. Y Pedwerydd Gorchymmyn sydd ynghylch yr amser pennodol y dylem addoli Duw yn fwyaf arbennig; sef, am ein Dyled i addoli Duw ar y Sabbath, a'i gadw yn sanctaidd i'r Arglwydd.

Cw. Pa sawl peth yn bennaf a ddylech ystyriaid yn y Pedwerydd Gorchymmyn?

Att. Dau beth yn bennaf. 1. Y Gorchymmyn ei hun. Ac, yn 2. Y Rhesymmau a gynhwysie ynddo, ag y ddyllai'n rhwymo i gadw y Gorchymmyn hwn.

Cw. Pa sawl peth neilltuol a orchymmynnir ymma?

Att. Pum peth.

1. Fe orchymmynnir i ni gofio; ag sy'n dangos mor ofalus y dylem fod ynghylch y Ddyledswydd hyn. *Cofia y dydd Sabbath.*

2. Fe orchymmynnir i ni gadw'r *Dydd Sabbath* yn sanctaidd i'r Arglwydd. — Ecsod. xx. 8. *Cofia'r dydd Sabbath i'w sancteiddio ef.*

3. Fe orchymmynnir i ni wneuthur ein holl waith cyffredin a berthyn i'r bywyd hwn mewn chwe' diwrnod. — Ecsod. xx. 9. *Chwe' diwrnod y gweithi, ac y gwnai dy holl waith.*

4. Fe orchymmynnir i ni orphwys oddi wrth ein gwaith ein hunain ar y Sabbath, sef, y seithfed *Dydd*. — Ecsod. xx. 10. *Y seithfed dydd yw Sabbath yr Arglwydd dy Dduw: na unâ ynddo ddim gwaith.*

5. Fe orchymmynnir i ni, a'n teulu, ein dynion, a'n dâ, a'r dieithriaid a fo gyd â ni, i orphwys ar y Sabbath. — Ecsod. xx. 10. — *Na unâ ynddo ddim gwaith, tydi, na'r fab, na'r ferch, na'r wasanetwr, na'r wasanaeth-ferch, na'r anifail, na'r ddieithr ddy'n a fydd o fewn dy byrtb.*

Cw. Oblegid pa Resymmau y gorchymmynnir i ni gadw'n sanctaidd y *Dydd Sabbath*?

Att. Oblegid y pump hyn.

1. Oblegid fod Duw yn caniadhaû i ni chwe' diwrnod i wneuthur ein gwaith ein hunain, lle y gallasai gadw chwech iddo ei hun, a rhoddi un yn unig i ni: ni a ddylem gan hynny orphwys ar y seithfed *Dydd*.

2. O blegid fod Duw yn cadw meddiant priodol o'r seithfed Dydd i'w Addoliad sanctaidd ei hun; fe fyddai gan hynny yn Gyssegrysbeiliad ei dreulio ynghylch achosion cyffredin y byd, fel diwrnodau eraill. *Y seithfed dydd yw Sabbath yr Arglwydd dy Dduw.*

3. O blegid fod Esampl Duw ei hun yn ein dysgu i gadw'r Sabbath yn sanctaidd. *Canys mewn chwe' diwrnod y gwaeth yr Arglwydd y môr, a'r hyn oll sydd yn ddiwani, ac a orphwysodd y seithfed dydd.*

4. O blegid i Dduw wneuthur y Dydd Sabbath yn Ddydd o Fendith, ym mha un y mae Duw mewn modd arbennig yn nesâu at Gymmanfaoedd ei Bobl i'w bendithio hwynt. *Am hynny y bendithiodd yr Arglwydd y dydd Sabbath.*

5. O blegid i Dduw sancteiddio'r Dydd Sabbath, gan ordeinio a gorchymmyn i'w gadw'n sanctaidd; ac ni ddy-lai neb halogi'r Dydd a gyssegrodd Duw.

Cw. I ba Ddiben yr ordeiniwyd y Sabbath?

Att. Fe ordeiniwyd y Sabbath, 1. Fel y byddai i Bobl Dduw nesâu o flaen Duw, i'w addoli ef yn fwy arbennig y Dydd hwnnw nag ar brydjau eraill. Ac, yn 2. I goffhâu'n ddiolchgar am ei Weithredoedd gogoneddus ef. *Ac, yn 3. I fod yn gyffelybiaeth o'r orphwysfa sydd eto'n ôl i bobl Dduw: canys y Sabbath gorhwyysfa sanctaidd yw. Hebr. iv.*

Cw. Pa bryd yr ordeiniwyd y Sabbath?

Att. 1. Fe ordeiniodd Duw y Sabbath, yng nghyntaf oll, pan oedd dŷn yn y 'Stâd o Ddiniweidrwydd, cyn iddo bechu; er coffadwriaeth o Greadigaeth y byd. — Gen. ii. 2, 3. *Ar y seithfed dydd y gorhennodd Duw ei waith yr bwnt a wnaethai efe, ac a orphwysodd ar y seithfed dydd oddi wrth ei holl waith, yr bwn a wnaethai efe.* A Duw a fendigodd y seithfed dydd, ac a'i sancteiddiodd ef: o blegid ynddo y gorhwyysafai oddi wrth ei holl waith, yr bwn a grefasai Duw i'w wneuthur.

2. Fe ordeiniodd Duw y Sabbath drachefn, megis o'r newydd, ar fynydd Sinai, pan y rhoddodd efe y Gyfraith; er coffadwriaeth i Bobl Isräel o'u Gwaredigiaeth allan o wlad yr Aipht, ac o dŷ'r caethiwed. — Deut. v. 15. A chofia mai gwâs a fuost ti yng ngwlad yr Aipht, a'th ddwyn o'r Arglwydd dy Dduw allan oddi yno â llaw gadarn, ac â braich estynnedig: am hynny y gorchymmynodd yr Arglwydd dy Dduw i ti gadw dydd y Sabbath.

3. Fe ordeiniwyd y *Dydd Sabbath* dan yr Efengyl ; er coffadwriaeth i'r Cristionogion, nid yn unig o Greadigaeth y byd, eithr hefyd o Adgyfodiad Crist o feirw, ar ôl iddo orphen Gwaith y Prynédigaeth.

Cw. A ydoedd Pobl Dduw yn cadw'r *Sabbath* o ddechreuad y byd hyd y pryd y rhoddwyd y Gyfraith ar synydd *Sinai* ?

Att. Oeddynt yn ddiammau : canys fe ddywedodd Duw cyn hynny wrth Bobl *Isräel* am y *Sabbath*, megis perh ag oedd yn hysbys, ac nid yn ddieithr iddunt ; gan orchymmyn iddunt galglu a thrin y Manna y dydd o'r blaen, gymaint ag y syddai raid iddunt dros y *Dydd Sabbath*. Ecsod. xvi. 23, 26, 29. xxxv. 3.

Cw. Pa ddydd o'r wythnos a ddylech gadw'n *Sabbath* i'r Arglwydd ?

Att. O'r dechreuad hyd ddyddjau'r Efengyl, y gorchymynnod Duw i gadw'r *Sabbath* ar y seithfed *Dydd*, yn goffadwriaeth o Greadigaeth y byd yn bennaf ; eithr dan yr Efengyl fe newidiwyd y *Sabbath* o'r seithfed i'r *Dydd cyntaf o'r wythnos*, er coffadwriaeth o Adgyfodiad Crist yn gorphen Gwaith y Prynédigaeth.

Cw. Pa Dystiolaeth sydd, mai ar y *Dydd cyntaf o'r wythnos* y dylid cadw'r *Sabbath* Cristionogol ?

Att. 1. Mae'n ddiammau, fod gan yr Arglwydd Jesu Awurdod i newid y *Sabbath* o'r seithfed i'r *Dydd cyntaf o'r wythnos*. — Marc ii. 28. — Y mae Mâb y dîn yn Arglwydd besyd ar y *Sabbath*.

2. Ar y *Dydd cyntaf o'r wythnos* yr adgyfododd Crist o feirw ; ac am hynny mae'n ddiammau, mai'r *Dydd* bendigedig hwnnw sydd fwyaf teilwng i gael ei gadw'n *Sabbath* gennym.

3. Y *Dydd cyntaf o'r wythnos* yr ymddangosodd yr Arglwydd Jesu gyntaf i'w Ddisgyblion ar ôl iddo adgyfodi ; ac ar y *Dydd* hwnnw, ym mhent yr wythnos, yr ymddangosodd efe iddunt eilwaith. Math. xxviii. 1—6. Joan xx. 19, 20, 26.

4. Yr Apostolion a ddysgwyd yn ddiammau gan yr Arglwydd ei hun, pa Ddydd a gadwént yn *Sabbath* : canys Crist a ymddangosodd yn sych iddunt dros ddeugain niwrnod rhwng ei Adgyfodiad a'i Esgynniad i'r Nefoedd, i orchym-

myn

myn iddunt y pethau a berthynent i Eglwys Duw; ac ar y Dydd cyntaf y dysgasant hwy'r bobl i ddyfod ynghyd i gyflawni Addoliad y Sabbath. Act. i. 2, 3. xx. 7.

5. Ar y Dydd cyntaf o'r wythnos y gorchymmynnodd yr Apostol Paul fod Casgliad i'r Tlodion; o herwydd mai dyna'r Dydd yr oedd y Cynnulleisfaoedd yn dyfod ynghyd i addoli Duw. 1 Cor. xvii. 1, 2.

6. Dydd yr Arglwydd, hynny yw, Sabbath cyssegredig i'r Arglwydd Jesu, yr oedd y Duwjolian yn galw, y Dydd cyntaf o'r wythnos, yn amser yr Apostolion. Ar Ddydd yr Arglwydd, sef, y Dydd cyntaf o'r wythnos, megis Anrhedd priodol i'r Dydd hwnnw, y llanwyd yr Apostolion a'r Ysbryd Glân, i lefaru a thafodau eraill; ac ar y Dydd hwnnw hefyd yr oedd Joan y Difinydd yn yr Ysbryd, ac y dad-guddiwyd iddo y pethau a fyddent yn Eglwys Duw yn ôl llaw. — Att. ii. 1—4. Dad. i. 10.

7. Megis yr oedd yr Apostolion, a ddysgwyd ym mhob peth gan yr Ysbryd Glân, yn cadw'r Dydd cyntaf o'r wythnos yn Sabbath; felly hefyd y gwnaeth y Duwjolian i'g yd yn holl brif oesoedd yr Eglwys Cristionogol: y Llyfrau a'sgrifennodd Athrawon y prif oesoedd a dystiolaethant eu bod hwy oll yn cadw Dydd yr Arglwydd yn sanctaidd.

Cw. Pa bryd y mae'r Sabbath Cristionogol yn dechrau?

Att. Mae'r Sabbath Cristionogol yn dechrau ym morau'r Dydd cyntaf o'r wythnos: canys dyna'r pryd yr oedd y Sabbath Juddewig yn diweddu; a thyna'r pryd y cyfododd Crist o seirw. — Math. xxviii. 1. Tu ni-wedd y Sabbath, a hi'n dyddhau i'r dydd cyntaf o'r wythnos, daeth Mair Magdalen, a'r Fair arall, i edrych y bedd. Marc xvi. 9.

Cw. Pa faint o'r Dydd Sabbath a ddylech dreulio'n sanc-taidd i Dduw?

Att. Nid awr, neu ddwy, neu hanner diwrnod, ond y Dydd i'g yd; sef, yr holl ddiwrnod, o'r borau i'r hwyr, mae Duw yn orchymmyn; oddieithr cymaint ag y fo'n llwyr angenrheidjol i achosion eraill. — 1 Cron. xxiii. 30. — Bob borau i foliannu, ac i ogoneddu'r Arglwydd; felly hefyd bryd nawn.

Cw. Pa fawl peth yn bennaf sy'n angenrheidjol tu ag at sancteiddio'r Sabbath?

Att. Y pedwar peth hyn yn bennaf.

1. Gochelyd pob ymarweddiaid drwg a llygredig : canys mae'r hyn sy bechod ar ddiwrnod arall, yn fwy o bechod ar y Sabbath; a Gorphwydra sanctaidd mae Duw yn orchym-myn. — Ecsod. xxxv. 2. — *T seithfed dydd y bydd i chwi ddydd sanctaidd.* — Ecsod. xx. 8. *Cofia y dydd Sabbath i'w sancteiddio ef.*

2. Rhoddi heibio'n holl orchwylion cyffredin, ac achosfion y byd hwn, a fo'n ein rhwystro i addoli Duw: canys mae'r gweithredoedd sy gyfreithlon ar ddiwrnod arall, yn bechod ar y Dydd Sabbath. — Deut. xvi. 8. — *Ar y seithfed dydd y mae uobelwyl i'r Arglwydd dy Dduw, ni chai wneuthur gwaith ynddo.* Jer. xvii. 22. Ecsod. xx. 10. xxxiv. 21.

3. Treulio'r holl Sabbath, hyd ag allom, yng nghyflawniad parchus y Dyledswyddau a berthyn i Addoliad Duw, yn yr Eglwys, a'n teiau, ac wrthym ein hunain. — Efay lxvi. 23. — *O Sabbath i Sabbath, y bydd i bob cnawd ddyfod i addoli ger fy mron i, medd yr Arglwydd.*

4. Edrych yn ofalus am ein Plant a'n Tylwyth, er iddunt hwyntau sancteiddio'r Sabbath gyd â ni. — Deut. v. 14. — *T seithfed dydd yw Sabbath yr Arglwydd dy Dduw; na wna ynddo ddim gwaith, tydi, na'th fab, na'th ferch, na'th wâs, na'th forwyn, na'th i'ch, na'th asyn, nac yr un o'th anifeiliaid, na'th ddieithr ddyn, yr hwn fyddo o fewn dy byrth: fel y gorlwyso dy wâs, a'th forwyn, fel ti dy bun.*

Cw. A ddylid gwneuthur unrhyw Weithred arall ar y Sabbath, ond cyflawni'r Dyledswyddau a berthyn i Addoliad Duw yn unig?

Att. Mae dau fath o Weithredoedd a ddylid eu gwneuthur ar y Sabbath, heb law Addoliad Duw; sef, Gweithredoedd o Angenheidrwydd, na ellir eu gwneuthur y dydd o'r blaen, na'u hoedi hyd drannoeth; a Gweithredoedd o Drugaredd i ddyn ac anifail: o herwydd fod Duw yn ewylio Trugaredd o flaen Aberth. — Math. xiii. 11, 12. — *Pa ddyn o honoch sydd â chandio un ddefad, ac o syrth bonno mewn pŵll ar y dydd Sabbath, nid ymeisl ynddi; a'i chodi allan?* *Pa faint gwell gan hynny ydyw dyn nô dafad?* Felly rhydd yw gwneuthur yn dda ar y Sabbathau. Math. xii. 1—8. Lue xiii. 15. xiv. 5.

Cw.

Cw. Gan mai am y Dyledswyddau a orchymmynnir mae'n gymmwys i ymofyn yn gyntaf yn y Gorchymmynnian cadarnhaol, pa Ddyledswyddau perthynol i Sancteiddiad y Sabbath a gynhwysir yn y Pedwerydd Gorchymmyn?

Awr. 1. Bod i ni ar y Dydd Sabbath orphwys oddi wrth waith a thrafferth y byd hwn; a gadel i'n teulu, a'n hanifeiliaid, orphwyshefyd. — Ecsod. xxiii. 12. — Ar y seithfed dydd y gorlwyfis; fel y caffo dy i'ch a'th asyn lonyddwch, ac y cymmero mab dy forwyn gaeth, a'r dieithr ddyn ei anadl atro. Deut. v. 14.

2. Bod i ni rhoddi heibio bob disyrrwch cnawdol, a'n holl feddyliau, a'n geirjau, a'n harferion. — Esay lviii. 13, 14.

O i broi dy droed oddi wrth y Sabbath, heb wneuthur dy euryllys ar fy nydd sanctaidd; a galw'r Sabbath yn hyfrydwch, sanct yr Arglwydd, yn ogoneiddus, a'i anrhydeddau ef, heb wneuthur dy ffyrdd dy bun, bel geisio dy ewyllys dy bun, na dywedud dy eirjau dy bun: yna yr ymhyfrydi yn yr Arglwydd, ac mi a wnaef it' farchogaeth ar uchelfeydd y ddaear, ac a'th borthaf ag etifeddiaeth Jacob dy dad: canys genau'r Arglwydd a'i llefarodd. Ecsod. xxxi. 15.

3. Bod i ni ddyfod ynghyd ar y Dydd Sabbath, i addoli Duw yn y Gymmanfa. — Lef. xxviii. 3. — Ar y seithfed dydd y bydd Sabbath gorlwyfdra, sef cymmanfa sanctaidd. — Esay lxvi. 23. — O Sabbath i Sabbath, i bob cnawa ddyfod i addoli ger fy mron i, medd yr Arglwydd. Hebr. x. 25. 1 Cor. xi. 20. Deut. xii. 5, 6. Ezec. xlvi. 3.

4. Bod i ni uno â'r Gymmanfa yn gyflawn, ac yn gyflawn, ym mhob Rhan o Addoliad Duw, ar y Sabbath; sef, Gwrando, Gweddio, Cymmuno, a Molli Enw Duw; megis y gwnai'r holl Ddawydion gynt. — Act. ii. 42. Tr oedd yng nwy (sef, yr holl rai a gredasant i Dduw) yn parhau yn athrawjaeth ac yng nglymdeithas yr apostolion, ac yn torri bara, ac mewn gweddianu. Act. xv. 21. xvi. 13, 14. xx. 7. Luc iv. 16. Titl y xcii. Salm.

5. Bod i ni hoffi Addoliad Duw ar y Sabbath, a llawenychu ynddo. — Sal. cxviii. 24. *Dymma'r dydd a wnaeth yr Arglwydd; gorfoeddwn, a llawenychwn ynddo.* Sal. xxvi. 8. xxvii. 4. xlvi. 4. xlii. 2. cxxii. 1, 4. lxxxiv. 2, 10.

6. Bod i ni ymafiyd yng Nghyfammod Duw ar y Sabbath; gan gymmeryd yr Arglwydd megis o'r newydd yn Dduw i

ni, a rhoddi ein hunain megis o'r newydd i fod yn Bobl iddo ef. — Esay lvi. 2, 4. *Gwyn ei fyd y dŷn a wneolo byn, a mab y dŷn a ymaiso yn ddo; gan gadw'r Sabbath heb ei halogi.* — *T rhai a gadwânt sy Sabbathau, ac a ddewifant yr byn a enyllisyfwyf, ac a ymaflant yn fy nghyfammod i.* Deut. xxvi. 16 — 19. Ecsod. xxxi. 13.

7. Bod i ni nesâu yn wiliadwrus ac yn barchus at Addoliad Duw ar y Sabbath. — Preg. v. 1. *Gwilia ar dy droed, pan fydddech yn myned i dŷ Dduw, a bydd barottach i wrando nag i roi aberth ffyljaid; canys ni wyddant hwy eu bod yn ganeutbur drwg.* Lef. x. 3. Hebr. xii. 28, 29.

8. Bod i ni ddyfod yn forau ac mewn pryd i Addoliad Duw ar y Sabbath; nid gorwedd yn ein gwelyau, pan ddylem fod ar ein glinjau; nac yn didach neu'n taccluso ein hunain gartref, pan ddylem fod yn Addoliad Duw: nid felly y gwnai'r Duwjoljon gynt. — Jos. vi. 15. *Ar y seithfed dydd y cyfodasant yn forau ar godiad y wawr.* — Sal. lxiii. 1. *Ti, O Dduw, yw sy Nuw i; yn forau y'th geisiaf.* Sal. lvii. 8. cxix. 147. Marc i. 35.

9. Bod i ni ymbarotôi ar fedr y Sabbath cyn ei ddyfod, a threfnu'n hachefion yn y modd y gallom yn fwyaf dirwystri i sancteiddio'r Sabbath; megis y gwnai'r Iudæwön ar eu Darparwyl eyn y Sabbath. — 1 Cron. xxix. 18. *Arglywydd Dduw Abraham, Isaac, ac Isræl, ein tadau, cadw byn yn dragywydd ym mryd meddyliau calon dy bobl; a pharorou eu calon hwynt attat ti.* 2 Cron. xxx. 18, 19. 1 Sam. vii. 3. Job xi. 13 — 15. Marc xiv. 42. Sal. lvii. 7.

10. Bod i ni ddefnyddio Ordinhadau'r Sabbath ar ôl ei fyned heibio, a dyfal-weddio am Fendith arnunt; fel y byddom yn Bobl sanctaidd i'r Arglwydd: canys yn arwydd o hydny y rhoddodd Duw y Sabbathau i ni. — Ezec. xx.

20. *Sancteiddirch hefyd sy Sabbathau, fel y byddont yn arwydd rhyngosi a chwirthau, i wybod mai myfi yw yr Arglwydd eich Duw chwi.* Ecsod. xxxi. 13.

11. Bod i ni, ar ôl dyfod o'r Addoliad Cyhoeddus, weddio Duw, ac ymddiddan ynghylch yr Athrawjaeth a glywsom; ac yn enwêdigol i gateceifio a dyfgu'r tylwyth y fo gennym. — Deut. vi. 6, 7. *Bydded y geiriau byn yr ydwyf yn eu gor-chymwyn i ti heddyw, yn dy galon. A hysbysa hwynt i'th blant, a chrybwyl am danunt pan eisteddyd yn dy dŷ, a phan gerddydch ar y ffordd, a phan orweddych i lawr, a phan*

pban gyfodoch i synu. — Sal. lxxviii. 5, 6. *Canys efe a sicrhaodd dystiolaeth yn Jacob, ac a osododd gyfraith yn Israël, yrhai a orchymmynnodd efe i'n tadau eu dysgu i'w plant.* Fel y gwybyddai'r oes a ddêl, sef y plant a enid; a phan gyfodent, y mynegent hwy i'w plant hwythau.

Sal. xxxiv. 11.

12. Bod i'r rhai sydd mewn Swyddau ac Awdurdod ger yddu halogwyr y *Sabboth*, ac i wilio na chaffont rydd-did ei halogi yn ddigerydd; megis y gwnaeth *Nebemias Pennaeth yr Iudewon*: canys efe a dystiolaethodd yn erbyn y rhai a ddygasant feichjau ar y *Sabboth*, ac a osododd ei weision ym mhorth y ddinas i'w gwilio. *Neb.* xiii. 15—21. a *Cron.* xxxiv. 33.

Cw. Pa Bechodau a waherddir yn bennaf yn y Pedwerydd Gorchymmyn?

Att. Fe waherddir yn y Pedwerydd Gorchymmyn, yr holl Bechodau ag fy wrthwynebol i'r Dyledswyddau a erchir yndo; yn enwédig y rhai hyn.

1. Gweithio, siwrneia, neu negesa, a phob rhyw orchwyl-jon cyffredin ag a ellid wneuthur o'r blaen, neu yn ôl llaw: canys y mae byn yn wrthwyneb i'r Gorchymmyn, ac yn halogi'r *Sabboth*. — Neh. xiii. 17. — *Pa beth drygionus yw bwn yr ydych chwi yn ei wneuthur, gan halogi'r dydd Sabbath?* — Lef. xxiii. 30—32. A phob enaid a wenelo ddim gwaith o fewn corph y dydd bwnnw, difethaf yr enaid bwnnw besydo fyfsg ei bobl. Na wñewch ddim gwaith: deddf dragwyddol trwy eich cenedlaethau yn eich bell drigfannau yw byn. *Sabboth gorbwysdra yw efe i cbxi.* Ecsod. xxiii. 12. Deut. v. 14.

2. Dilyn diotta, neu chwareuon a difyrrwch ofer, neu chwedleua'n geirjau llygredig ein hunain, a rhodio yn ôl e'n ffyrdd a'n hëwyllys eih hunain, ar y *Sabboth*. Canys fel hyn y dywaid yr Arglwydd wrth bob dŷn: *O ibroi dy droed oddi wrth y Sabbath, heb wneuthur dy ewyllys ar fy nydd sanctaidd; a galw'r Sabbath yn hyfryd-wch, sanct yr Arglwydd, yn ogoneiddus, a'i anrhydeddu ef, heb wneuthur dy ffyrdd dy bun, heb geisio dy ewyllys dy bun, na dywedud dy eirjau dy bun: yna yr ymbyfrydi yn yr Arglwydd.* Esay lviii. 13, 14. Deut. v. 12.

3. Naccâu'r Gwasanaeth sanctaidd a'r Addoliad a ordeiniodd Duw i ni gyflawni iddo ef ar y *Dydd Sabbath*:

canys

canys Cyfsegrysbail yw hyn. — Mal. iii. 8. A ysbeilia dŷn Dduw? etto cbwei a'm hysbeiliastoch i.

4. Cysgu a segura gartref, yn hytrach nâ sancteiddio'r Sabbath yn Eglwys Duw. — Math. xx. 6. — Pa bom y sefwrch cbwi ymma or hŷd y dydd yn segur? — Diar. vi. 9. Pa hŷd, addiogyn, y gorweddi? pa bryd y cyfodi o'th gwsg?

5. Dyfod i Addoliad Duw ar y Sabbath, i'r diben o wneuthur rhyw neges bydol yno. — Joan ii. 16. — Na wneiwb dŷ fy Nhâd i yn dŷ marchnad.

6. Gweled y Sabbath yn faith, a blino arno, o awydd i helynt y byd. — Amos viii. 5. Gan ddywedud, Pa bryd yr â'r mis heibio, fel y gwerthom jd? a'r Sabbath, fel y dygom allan y gwenith? Mal. i. 13.

7. Byw yn haerllug mewn pechodau gwirfodd ac ysgeler ar hŷd yr wythnos; a dyfod er hynny i Gyfsegr Duw ar y Sabbath. — Ezac. xxiii. 38, 39. — Fy ngwysegr a astanasant yn y dydd bwnnw, a'm Sabbathau a halogasant. Canys pan laddasant eu meibion i'w heulynnodd, yna y daerbant i'm cysegr.

8. Anghofio parodi ar fedr y Sabbath cyn ei ddechrau, a'i ddefnyddio ar ôl ei ddarfod: canys nid ar y Sabbath yn unig y mae i ni gofio am dano, eithr ar hŷd yr wythnos hefyd. — Ecsod. xx. 8. Cofia y dydd Sabbath i'w sancteiddio ef. — Esay xliv. 21. Meddwl hyn, Jacob ac Ijräel.

9. Goddef i'n Tylwyth halogi'r Sabbath; sef, ein Plant a'n Gwasanaethwyr; heb edrych yn ofalus am danunt, a'u cadw yn ôl Rheol y Pedwerydd Gorchymwyn. — Ecsod. xx. 10. Y seithfed dydd yw Sabbath yr Arglwydd dy Dduw: na wna ynddo ddim gwaith, tydi, na'th fab, na'th ferch, na'th wasanaethwr, na'th wasanaethferch, na'th anifail, na'th ddieithr ddyn a fyddo o fewn dy byrrb.

Cw. Pa esamplau sydd yn yr Ysgrythur o Farn Duw ar droseddwyr y Sabbath?

Att. 1. Fe orchymmynnodd Duw i Bobl Ijräel iadd yn farw yr hwn a halogai'r Sabbath. — Ecsod. xxxi. 14, 15. — Cedwch y Sabbath, o blegid sanctaidd yw i cbwi: llwyr-rodder i farwolaeth yr hwn a'i halogo ef: o herwydd pwy bynnag a wnelo waith arno, torrir ymماith yr enaid bwnnw o blith ei bobl. Chwe' diwrnod y gwnair gwaith, ac ar y seithfed dydd y mae Sabbath gorhwydra sanctaidd i'r

i'r
dydd,

2.

labyd

yr yd

cynnyt

Foses,

nullei

gynnu

labyd

chymn

3.

ofaint

xx. 1:

yn dd

yn yr

4.

Sabb

thân;

27.

O

beb di

Sabb

Ijsa b

5.

maith

a thry

sant y

6, 7.

nystr

bofio y

ei sor

glwyd

rhodde

6.

Sancte

fyrthi

xxii. 2

a hal

eu lly

myfg l

â thâ

i'r Arglwydd : fwy lynnag a wnelo waith ar y seithfed dyda, llwyr-rodder ef i farwölaeth. Ecsod. xxxv. 2.

2. Y gŵr a gafwyd yn casglu cynnud ar y Sabbath, a labyddiwyd yn ôl y Gyfraith. — Num. xv. 32, 35, 36. Fel yr ydoedd meibion Isräel yn y diffeithwch, cawsant i'r yn cynnytta ar y dydd Sabbath. A dywedodd yr Arglwydd wrth Foses, Lladder y gŵr yn farw; llabyddied yr holl gynnulleidfa ef â mein o'r tu allan i'r gwersyll. A'r holl gynnulleidfa a'i dygasant ef i'r tu allan i'r gwersyll, ac a'i llabyddiasant ef â mein, fel y bu efe farw, megis y gor-chymmynnodd yr Arglwydd wrth Foses.

3. Pobl Isräel, trwy halogi'r Sabbath, a gyffroisant Ddigofaint Duw i'w difetha hwynt yn yr anialwch. — Eze. xx. 13. — Fy Sabbathau (medd yr Arglwydd) a halogasant yn ddirfawr : yna y dywedais, y tywalldwyn fy lid arnunt yn yr anialwch, i'w difetha hwynt.

4. O herwydd na sancteiddiai trigolion Jerusalem y Sabbathau, yr Arglwydd a fygythiodd i losgi'r ddinas â thân ; fel y gwnaethpwyd hefyd gwedi hynny. — Jer. xvii.

27. O's cwri ni wrendy arnaf i sancteiddio'r dydd Sabbath, heb ddwyn baich, wrth ddyfod i lwrth Jerusalem, ar y dydd Sabbath : yna mi a gynneuaf dán yn ei phyrth hi, ac efe a rffa balasau Jerusalem, ac ni's diffoddir. Neh. xiii. 17, 18.

5. Llaweroedd, megis yr Iuddewön gynt, a bechasant ym-maith Uchelwyl y Sabbath, a'u Cymmanfa oedd Eglwyfig ; a thrwy amherchi y Breintjau cyfflegredig hyn, a gyffroisant yr Arglwydd i'w gwneuthur yn anrhaith. — Galar. ii.

6, 7. Efe a anrheithiodd ei babell fel gardd, efe a ddi-nystriodd leoedd ei gymmanfa : yr Arglwydd a wnaeth argyhoio yn Sion yr uchelwyl a'r Sabbath, ac yn llidiowgrwydd ei sorriant y dirmygoda efe y lrenin a'r offeiriad. Yr Arglwydd a wrbododd ei allor ; a ffieiddiodd ei gyffegr ; rhoddodd gaerau ei phalasau hi yn llaw'r gelyn.

6. Offeiriad yr Iuddewön, o herwydd iddunt esgeuluso Sancteiddiad y Sabbath, a dioddef eraill i'w halogi ef, a syrthiasant dan Farn echrydus oddi wrth Dduw. — Eze. xxii. 26, 31. Ei hoffeiriad a dreisiasant sy nglyfrau, ac a halogasant sy mhetbau sanctaidd : — cuddiasant besyd eu llygaid oddi wrth sy Sabbathau, a halogwyd si yu eu mysg brynt. Am hynny y tyweldais sy nigoaint arnunt, â thân sy llidiowgrwydd y difethais hwynt ; eu ffordd eu

bun a roddais ar eu pennau hwynt, medd yr Arglwydd Dduw.

7. Megis y mae'r *Sabbath* yn Ddydd o Fendith i'r rhai a'i sancteiddiant ef, y mae halogwyr y *Sabbath* yn tynnu arnunt eu hunain Felldith Duw; a hwynthwy yn ddiammau a felldigir. —— Jer. xi. 3. Canys, *Fel hyn y dywed Arglwydd Dduw Isräel; Melldigedig fyddo'r gŵr ni wrendy ar eirjau'r cyfammod hwn!* Deut. xxvii. 26. Gal. iii. 10.

Cw. Beth yw'r Pummed Gorchymmyn?

Att. Anhydedda dy dâd a'th fam; fel yr estynner dy ddyddjau ar y ddaear, yr hon y mae yr Arglwydd dy Dduw yn ei rhoddi i ti.

Hwn yw'r Gorchymmyn cyntaf o'r ail lech, ag sy'n cynnwys ein Dyled i Ddynjon.

Cw. Pa ham y cynhwysir ein Dyled i Ddynjon yn yr ail lech, a'n Dyled i Dduw yn y llech gyntaf; ac na osodwyd ein Dyled i Dduw a Dynjon yn yr un lech?

Att. 1. Am nad oedd yn gymmwys i osod ein Dyled i Dduw a Dynjon yn gymmysgedig â'i gilydd yn yr un lech, fel pe buasent yn gydbwys â'i gilydd; canys ni a ddylem wahaniaethu rhynghenth.

2. Fe osodwyd ein Dyled i Dduw yn y llech gyntaf, o herwydd mai i'w Fawrhysi anfeidrol ef, ag sydd goruwch pawb, mae'n holl Ufudd-dod yn bennaf ac yn gwbl yn ddyledus er ei swyn ei hun; a'n Dyled i Ddynjon a osodwyd yn yr ail lech, fel perth canlynol i'n Hufudd-dod i Dduw: canys Awdurdod Dduw yn bennaf a ddylai lywodraethu ein holl Ddyledswyddau i Ddynjon.

Cw. Ynghylch pa beth y mae'r Pummed Gorchymmyn?

Att. Mae'r Pummed Gorchymmyn ynghylch yr Anrhydedd sy ddyledus arnom i'n Rhieni, ac ar bawb i'w gilydd yn ôl eu graddau.

Cw. Pa ham y gosodwyd ein Dyled i'n Rhieni yn y Gorchymmyn cyntaf o'r ail lech, o flaen y Gorchymmynion sy'n cynnwys ein Dyled i Ddynjon eraill?

Att. O blegid megis yr ym yn bennaf oll yn rhwymedig i Dduw, Tâd ein hysbrydoedd, ac Awdwr ein bywyd ni; mae'r Rhwymedigaeth fwyaf arnom, yn nesaf at hynny, i berchi

i berchi ein Rhieni; sef, ein Tadan a'n Mammaw, trwy b
rai y rhoddodd Duw fod a bywyd i ni.

Cw. Onid yw Crist yn dywedud, *Na elwch neb yn dâ
i chwi ar y daear: un Tâd sydd i chwi, yr hwn sydd yn y
nefoedd?* Math. xxiii. 9.

Att. Yr oedd rhai ym mhllith yr Fuddenön gynt, fel y
mae'r Pâb ac eraill etto, yn cymmeryd arnunt awdurdod
i fod yn dadau disiommedig, na fynnent i neb anghredu
un pwngc o'r athrawjaeth a ddysgent hwy, nac anufuddhâu
i ddim ag a orchymmynnen. Ni ddylem ni arddel neb felly
yn dadau i ni, ond Duw ei hun, ein Tâd o'r Nef: canys
yn Ofn Duw, ac yn ôl ei Orchymmyn ef yn unig, y dylem
berchi ac ymosgwng i'n tadau daearol. — Eph. vi. 1. *T
plant, usuddbêwch i'ch rhieni yn yr Arglwydd: canys
byn sydd gyfaion.* 1 Pedr ii. 17. Col. iii. 18. Act. iv. 19.

Cw. Onid yw Crist yn dywedud, *O's daw neb attaf, ac
ni chasao ei dâd a'i fam, — ni all efe fod yn ddisgybl i
mi?* Pa fodd y gellwch eu hanrhodeddu, o's rhaid i chwi
eu casâu er mwyn Crist?

Att. Nid yw Crist yn meddwl, fod i ni gasâu ein Rhieni,
trwy ddangos ewyllys drwg neu ammharch iddunt; eithr i
ni, fel Abram, a Duwoljon eraill, ymadel â Thâd a
Mam, a'n bywyd hefyd, er mwyn Crist, pan fo Duw yn
ein galw ni; sef, bod i ni garu Crist yn fwy nô phob peth:
megis y mae Crist ei hun yn deongli hyn. — Math. x. 37.
*Yr hwn sydd yn caru tâd neu fam yn fwy nô myfi, nid
yw deilwng o honof: a'r neb sydd yn caru mât neu ferch
yn fwy nô myfi, nid yw deilwng o honof.* Luc xiv. 33.

Cw. Pa fawl peth a ddylech ystyriaid yn y Pummed
Gorchymmyn?

Att. Tri pheth.

1. Y Ddyledswydd ag y mae Duw 'n orchymmyn; sef,
anrhydeddu: hynny yw, bod i mi gyflawni 'n usudd ac yn
barchus bob Dyledswyddau sydd ddyledus arnaf.

2. Y fawl a ddylwn anrhydeddu; sef, fy Nhâd a'm
Mam: hynny yw, fy Rhieni yn enwêdigol, a phob rhai
eraill sydd goruwch i mi, ag y mae Anrhydedd yn ddyledus
iddunt.

3. Yr Addewid a roddir yn y Gorchymmyn hwn i annog
fy Usudd-dod; Anrhydedda dy dâd, a'r fam; fel yr
F eftynner

estynner dy ddyddjau ar y dlaear, yr hon y mae yr Arglwydd dy Duw yn ei rhoddi i ti.

Cw. A ydyw pawb a anrhydeddant eu Rhieni, yn byw yn hîr ac, yn hŵy nag eraill?

Att. I. Mae'n sicr, fod holl Addewidjon Duw in Ie, ac yn Amen; sef, yn gwbl wirjoneddus yn yr ystyr gywir o honunt. 2 Cor. i. 20.

2. Mae'n sicr hefyd, fod llawer yn marw, trwy Farn Duw, yn gynt nâ'u hamser, o herwydd eu hanufudd-dod a'u drygioni: a phan gaffo'r annuwjol fyw yn hîr, y mae er niwaid, ac nid yn Fendith iddunt. — Diar. x. 27. Ofn yr Arglwydd a estyn ddyddjau: ond Elynnyddoedd y drygionus a fyrbeir. — Esay lxv. 20. — T' pechadur yn fab canmlwydd a felldithir. — Job xv. 32. Efe a dorri'r ym-maith cyn ei ddydd; a'i gangen ni lasa. Preg. vii. 17. Sal. lv. 23. Jer. xvii. 11.

3. Mae'n sicr, y caiff yr hwn a anrhydeddo Duw, a'i Rieni, fyw yn ddigon hîr yn y byd hwn, i'w gymhwysio i Fywyd tragicwyddol yn y byd a ddaw. — Sal. xcii. 16. Digonaf ef â hîr ddyddjau: a dangosaf iddo sy jechyd-wriaeth. Deut. v. 16. Diar. iii. 1, 2. xxii. 4. Sal. xxxvii.

18. Eph. vi. 1, 2, 3.

Cw. Pwy a ddylech anrhydeddu megis Rhieni, yn ôl meddwl ac ystyr y Pummed Gorchymmyn?

Att. Ni a ddylem anrhydeddu pawb, yn ôl eu graddau, aq sy mewn unrhyw ystyr yn uwch nâ ni, ac a gyfriffr yn yr Ysgrythur megis Rhieni i ni.

1. Ein Rhieni gwladol; sef, y Brenin, a'r Llywiaid-wyr sy'n llywodraethu dano: canys Duw a addawödd wneuthur Brenhinoedd yn Dadmaethod, a Brenhinesau yn Fammaethod i'r bobl. Esay xl ix. 23. 1 Pedr ii. 13, 14.

2. Ein Rhieni ysbrydol; sef, Gweinidogion Gair Duw, a'n Hathrawon. Joas Brenin Isräel a ddywedodd am Eliseus y Prophwyd, Of y nhâd, cerbyd Isräel, a'i farbogion. 2 Bren. xiii. 14. Barn. xvii. 10. 1 Cor. iv. 15.

3. Ein Rhieni naturiol; sef, ein Tadau a'n Mammau a'n cenhedlodd, a phawb o'u trasau hwynt.

4. Ein Rhieni teuluol; sef, bod i Bennau pob Teulu, y Meistr a'r Feistres, gael eu hanrhýdedu gan Dylwyth y Tr. Gweision Naaman a alwâsant eu Meistr yn Dâd. 2 Bren. v. 13.

5. Bod i bawb o'n gwedd, ag sydd goruwch i ni, mewn Grâs a Donjau, neu Ddysg, neu Oedran; ac i bawb eraill hesyd o'n cydradd, neu a fo'n is nô ni; gael gennym y Parch a'r Anrhydedd a fo dyledus iddunt. — 1 Pedr ii. 17. Perchwch bawb. Cerwch y brawdoljaeth. Phil. ii. 3. 1 Pedr v. 5. Lef. xix. 32.

Cw. Pa ham y gelwir ein *Llywiawdwyr*, a'r cyfryw sy goruwch i ni, yn *Dadau*, neu *Rieni*?

Att. Fe elwir ein *Llywiawdwyr*, a'r cyfryw sy goruwch i ni, yn *Dadau*, i ddysgu iddunt ymddwyn yn garuaidd ac yn serchog tu ag at y rhai sydd is nô hwynt, megis *Rieni* iddunt, a fo'n ceisio llês eu Plant ym mhob peth; ac i ddysgu i ninnau i ymostwng yn ufudd ac yn barchus iddunt trwy Ewyllys da, megis Plant i'w *Rieni*: fel y bo yr un gyffelyb Serchowgrwydd a Chariad rhwng pob Graddau o Ddynjon yn y byd, ag y ddylai fod rhwng *Rieni* a'i Plant. — 1 Pedr iv. 8. *O flaen pob peth, bydded gennych gariad belaeth tu ag at ei gilydd.* — 1 Pedr i. 22. — Cerwch ei gilydd o galon bur yn belaeth. — 1 Cor. xvi. 14. *Gweler eich holl bethau chwi mewn cariad.* 1 Dim. i. 5. 1 Thess. iv. 9.

Cw. A ydyw'n *Llywiawdwyr*, a'n *Rieni*, a phawb sy goruwch i ni, dan rwymedigaeth o Ddyledswyddau yn y Pummed Gorchymmyn, tu ag at y rhai sydd dan eu Llywodraeth, ac yn is nô hwynt?

Att. Mae'n ddiammau, fod holl Ddynolryw, o bob Graddau, yn Gyd-drasau â'i gilydd, a than rwymedigaeth i gyflawni eu Dyledswyddau perthynasol y naill i'r llall; am hynny ein *Llywiawdwyr*, a phawb sy goruwch i ni, a ddylent gyflawni eu Dyled hwy i ni, fel y bo'n gyflawn a theilwng iddunt y Dyled a orchymmynnodd Duw i ni i dalu iddunt hwy. — 1 Dim. v. 17. *Cyfrifer yr henurjaid sy'n llywodraethbu yn adda, yn deiliwng o barch dauddyblyg.* 1 Thess. v. 12, 13. Phil. ii. 29. 1 Cor. xvi. 18.

Cw. Pa rai yw Dyledswyddau ein *Rieni* gwladol, sef, ein *Llywiawdwyr* ag sy'n rheoli drosom?

Att. 1. Dyled *Llywiawdwyr* yw, bod yn Wîr cyflawn, a fo'n casâu annuwjoldeb a chamwedd. — 1 Diar. xvi. 12. Ffiaidd yw i frenhinoedd wneuthur annuwjoldeb: canys trwy gyflawnder y cadarnhêir yr orsedd. — 2 Sam. xxiii. 3. — Bydded llywodraethwr ar ddynjon yn gyflawn, yn llyw-

odraethu mewn ofn Duw. Diar. xxviii. 15. xxix. 2. Sal. xii. 8.

2. Dyled *Llywiawdwyr* yw, bod yn Wŷr gwrol a geirwir, ac yn rhai a fo'n casâu cybydd-dod; fel y bytho eu Llywodraeth, a'r Farn a roddont, yn ddisfeis. — Ecsod. xviii. 21. *Edrych ditbau altan o'r bobl am wŷr nerthol, yn ofni Duw, gwŷr geirwir, yn casâu cybydd-dod: a gosod y rhai byn arnunt hiwy.* — 2 Cron. xix. 6. *Ac efe a ddywedodd wrth y barnwyr, Edrych-wch beth a wneloch: canys iâd dros ddyn yr ydych yn barnu, ond dros yr Arglwydd; ac efe a sydd gyd â chwi wrth roddi barn.* Deut. xvi. 18—20. i Sam. xii. 3, 4.

3. Dyled *Llywiawdwyr* yw, bod yn Wŷr dyallus a me-drus; fel y gwypont pa fath Farn a ddylent roddi ar bob achos. — Mic. iii. 1. — *Gurandewch attolwg, pennath-jaid Jacob, a thywysogion tŷ Isräel: onid i chwi y pertbyn gwybod barn?* Deut. i. 13; i Bren. iii. 9, 10. Sal. ii. 10.

4. Dyled *Llywiawdwyr* yw; bod yn Wŷr sobr a chym-hedrol; fel na throfeseddont y Gyfraith trwy fyrbwylldra a phoethder. — Diar. xxxi. 4, 5. *Nid gweddaidd i frenhinoedd, O Lemuel, nid gweddaidd i frenhinoedd yfed gwm, nac i bennadurjaid daiod gadarn: rhag iddo yfed, ac ebargofir ddeddf; a newidio barn yr un o'r rhai gor-brymmedig.* Preg. x. 16, 17. Act. xxiii. 3.

5. Dyled *Llywiawdwyr* yw, bod yn hyddysg yng Ngair Duw; fel na wnelont ddim a fo'n groes i Grefydd a Duw-joldeb. Wrth *Josua*, Pennaeth Isräel ar ôl Moses, y dywedodd Duw, — Jos. i. 8. *Nac ymadawed llyfr y gyfraith hon (sef, yr Ysgrythur Lân) o'th enau, eithr myfyrnia ynddo ddydd a nos, fel y cedwych ar wneuthur yn ôl yr byn oll sydd 'sgrifennedig ynddo: canys yna y llwyddi yn dy ffyrdd, ac yna y ffynni.* Deut. xvii. 18—20.

6. Dyled *Llywiawdwyr* yw, hoffi'r rhai Cyflawn a Geirwir, a dewis Dynjon ffyddlon i fod yn Swyddwyr danunt: canys y Brenin *Dafydd* a ddywedodd, — Sal. ci. 6, 7. *Fy llygaid sydd ar ffyddlonjaid y tir, fel y trigont gyd â mi: yr hwn a rodio mewn ffordd berffaith, bwnnw a'm gwasanaetha i.* Ni thrig o fewn fy nhŷ yr un a wneolo dwyll: ni thrig yn fy ngolwg yr un a ddywedo gelwydd.

Diar. xxv. 5. XVI. 13. xxix. 12.

7. Dyled

7. Dyled *Llywiawdwyr* yw, chwilio allan y Gwirjonedd yn fanol, ac am dystiolaeth gywir ynghylch pob matter ag y ddèl ger eu bron ; a chosbi gau dystion. — Deut. xix. 18, 19. *Tmofynned* y barnwyr yn dda ; ac o's y ryfyl sydd dystffals, ac a dystiolaerha ar gam yn erbyn ei frawd ; yna gwnêwch iddo fel yr amcanodd wneuthur i'w frawd, a rhyn ymmaith y drwg o'th fyfog. Joan vii. 24.

8. Dyled *Llywiawdwyr* yw, barnu yn ddibartiol, heb dderbyn wyneb na gwobr. — Lef. xix. 15. Na wneuwch gam mewn barn : na dderbyn wyneb y tlawd, ac na pharcba wyneb y cadarn : barna dy gymmydog mewn cyflawnnder. — Deut. xvi. 19. Na iwyra farn, ac na cbydnebydd wynebau ; na dderbyn wobr 'chwaith : canys grobr addalla lygaid y doethion, ac a iwyra eirjau'r cyflawn. Deut. xxvii. 19. Diar. xxiv. 23, 24. Sal. lxxxii. 2.

9. Dyled *Llywiawdwyr* yw, ceryddu a chosbi'r annujol a'r drygionus, a chyflawnhâu'r cyflawn. — Deut. xxv. 1. Pan fyddo ymrafael rhwng dynion, a dyfod i farn i'w barnu ; yna cyflawnhâant y cyflawn, a chondemnant y beius. — Diar. xvii. 15. T neb a gyflawnhao'r drygionus, ac a gondemno'r gwirion ; ffiadidd gan yr Arglwydd ydynt ill dau. Rhuf. xiii. 4.

10. Dyled *Llywiawdwyr* yw, amddiffyn y rhai gorthrym-medig rhag y rhai a fyddo'n drech nâ hwynt. — Sal. lxxxii. 3, 4. *Bernwch* y tlawd a'r amddifad : cyflawnhêwch y cystuddiedig a'r rheidus. *Gwareduch* y tlawd a'r anghenius : achubwch hwynt o law y rhai annuwjol. Jer. xxii. 3. Diar. xxxi. 8, 9. xxix. 14. xx. 28. Sal. lxxii. 1—3.

11. Dyled *Llywiawdwyr* yw, bod yn dirion yn eu Tymmer, ac yn esmwyth yn eu Traul a'u Ffîs ; nid yn drawfion, nac yn difrodi'r bobl â Threthau trymmion. — Ezecl. xlvi. 9. Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw ; *Digon i cbwi hyn, tywysogion Isräel* : bwriwch ymmaith drawfder a difrod, gwnêwch besyd farn a chyflawnnder, tynnwch ymmaith eich trethau oddi ar fy mbobl, medd-yr Arglwydd Dduw. Neh. v. 15. Diar. xxviii. 15, 16.

12. Dyled *Llywiawdwyr* yw, cynhorthwo Gweinidogion yr Efengyl, hyd ag allont, i ddiwygio'r Wlad oddi wrth Annuwjoldeb. — i Bren. xv. 11, 12. *Afa a wnaeth yr hyd oedd union yngolwg yr Arglwydd*, fel Dafydd ei dâd. Ac efe a yrrodd ymmaith y gwyr Sodomjaidd o'r wlad, ac a

fwrriad ymmaith yr holl ddelwau a wnaethai ei dadau.
— 2 Cron. xvii. 6—9. Febosappat a ddyrchafodd ei galon yn ffyrdd yr Arglwydd; ac efe a fwrriad yr uchelfeydd a'r llwynau allan o Juda: — ac a anfonodd Lefaid o amgylch dinasoedd Juda, i ddysgu'r bobl. — 2 Cron. xxxiv. 33. A Josiah a wnaeth i bawb a gafwyd yn Isræl wasanaethu'r Arglwydd eu Duw. Ao yn ei holl ddyddjau ef ni throisant hwy oddi ar ol Arglwydd Dduw eu tadau.

Cw. Pa rai yw Pechodau Llywiawdwyr yn erbyn y Pum-med Gorchymmyn, a'r Côsb sydd arferol o'u canlyn?

Att. 1. Serch a Thrachwant at y Byd hwn wrth weini Barn: hyn a dynnodd ddinystr ar Ddinas Jerusalem, a'r Deml. — Mic. iii. 11, 12. Ei phennaethbjaid a roddant farn er gwobr: etto wrth yr Arglwyd yr ymgynhaliant, gan ddywedud, Onid yw'r Arglwydd i'n plith? ni ddaw drwg arnom. Am hynn y o'ch achos chwi'r eraddir Sion fel maes, a Jerusalem a fydd yn garneddau, a mynydd y ijj fel uchel leoedd y goedwig.

2. Creulondeb, Didrugaredd, a Thrawfedd; gan or-thrymmu'r Bobl, a'u sglyfaethu: o herwydd hyn y bydd Gwae, medd yr Arglwydd, i Bennaeithjaid a Swyddogjon anghyflawn. — Seph. iii. 1, 3. Gwae'r fuadr a'r halogedig, y ddinas ortbrymmus. Ei thywysogion o'i mewn sydd yn llewod rhuadwy; ei barnwyr yn fleiddjau yr hûyrr, ni adawänt asgwyrn erbyn y borau.

3. Gadel Crefydd i ammharu, ac i Ddrygioni chwanegu; gan arbed yr Annuwjoljon, a maeddu'r Gwirjonjaid: canys felly y mae Llywiawdwyr anghyflawn yn difrodi Gwinllan Duw; sef, ei Bobl ef; a thrwy hynn yn tynnu Barn Duw ar eu pennau. — Esay iii. 14, 15. Yr Arglwydd a ddarw i farn â benurjaid ei bobl, a'u tywysogion: canys chwi a borafoch y winllan; anrhaith y tlawi sydd yn eich tai. Beth sydd i chwi a guroch ar fy mbobl, ac a faloch ar wynebau'r tlodion? medd Arglwydd Dduw y lluoedd. Mic. iii. 1—4. Sal. xii. 8.

4. Derbyn Gwobrau i wyo Barn, a delio'n bartiol, ac esgeuluso amddifffyn y Trueniaid a'r Gorthrymmedig; ag sy'n tynnu arnunt Ddigofaint a Dial Duw, a'i Felldith ef. — Esay i. 23, 24. Dy dywysogion sydd gyndyn, ac yn gyfrannogion â lladron; pob un yn caru rhoddion, ac yn dilyn gwobrau: ni farnant yr amddifad, a chwÿn y weddw ni chaiff

chaiff ddyfod attunt. Am hynny medd yr Arglwydd, Arglwydd y lluoedd, cadarn Dduw Israël; Aha, ymgysuraf ar fy ngwribwynedwyr, ac ymddialaf ar fy ngelynjon. — Deut. xxvii. 19. Melldigedig yw'r bwn a wyrō farn y diethr, yr amaddifad, a'r weddw: a dyweded yr holl bobl, Amen. Diar. xvii. 15, 23. xxiv. 23, 24.

5. Gwneuthur Cyfreithjau anghyfawn, na fytho yn gyttun â Chyfraith Duw: yr hyn a dynnodd Farnau echrydus a Dinystr ar lawer. — Esay x. 1, 3. Gwae'r rhai sy'n gwneuthur deddfau anwir, a'r sgrifennyddion sydd yn sgrifennu blinder. A pha beth a wnewch yn nydd yr ymwelliad, ac yn y distryw a ddaw o bell? at bwyl y ffowch am gynhorwy? a pha le y gedwch eich gogoniant? Y gwyr a lyfelasant gyfraith o salais i Daniel, i fwrw i ffau'r llewöd pwy bynnag a weddai ar Dduw dros ddeg diwrnod ar huggain, Duw yn ei gyfawn Farn a drefnodd iddunt hwy, a'u gwragedd, a'u plant, gael eu taflu yno wedi gwaredu Daniel; a chyn disgyn o honunt i waelod y ffau, y llewöd a ddrylliodd eu holl esgyrn. Dan. vi. Sal. xciv. 20, 23.

Cw. Beth yw'ch Dyled chwi tu ag at y Llywiawdwyr, a'r Swyddogion?

Att. 1. Mae'n ddyledus arnom, i fod yn usudd i holl Orchymmynion ac Ordinhhadau cyfreithlon ein Llywiawdwyr. — 1 Pedr ii. 13, 14. Tmddarostyngwch o blegid hyn i bob dynol ordinhadaad, o berwydd yr Arglwydd: pa un bynnag ai i'r brenin, megis goruchaf; ai i'r Llywiawdwyr, megis trwyddo ef wedi eu danfon, er dial ar y drwgweithredwyr, a mawl i'r gweithredwyr da. Preg. viii. 4. Rhuf. xiii. 1, 2, 5. Dit. iii. 1.

2. Mae'n ddyledus arnom, i ymddwyn yn barchus tu ag at ein Llywiawdwyr, ac na lefarom yn gableddus am danunt. — Act. xxiii. 5. — Canys sgrifennedig yw, Na ddywaid yn ddrwg am bennaeth dy bobl. — Ecsod. xxii. 28. Na chabla'r swyddlogion, ac na felldithia bennacth dy bobl. 1 Pedr ii. 17. Preg. x. 20.

3. Mae'n ddyledus arnom, i dalu i'n Llywiawdwyr y Deyrned ag sydd ddyledus iddunt. — Rhuf. xiii. 7. Telwch gan hynny i bawb eu dyledion: teyrneded i'r bwn y mae teyrneded yn ddyledus; toll i'r bwn y mae toll; ofn i'r bwn y mae ofn; parch i'r bwn y mae parch yn ddyledus. Math. xvii. 24—27. xxii. 21.

4. Mae'n ddyledus arnom, i gadw, a chyflawni Rhwymedigaeth ein Llw, a'n Hadduned i'n Llywiawdwy'r. —

Preg. viii. 2. Yr ydwyf yn dy rybuadio i gadm gorchymwyn y brenin, a hynny o herwydd lliw Duw. Rhuf. xiii. 5.

5. Mae'n ddyledus arnom, i ymosfwn g i'r Farn a roddo'n Llywiawdwy'r, megis Barn oddi wrth Duw ei hun. —

Diar. xxix. 26. Llawer a ymgeisiant ag wyneb y llywydd: ond oddi wrth yr Arglwydd y mae barn pob dyn. Sal. lxxv. 7. xxxix. 9. Sam. ii. 7. Diar. xxi. 1.

6. Mae'n ddyledus arnom, i weddio dros ein Llywiawdwy'r. — 1 Dim. ii. 1, 2. Cyngori yr ydwyf am hynny, ym mlaen pob peth, fod ymbiliau, gweddiau, deisfyiadau, a rhalu diolch, dros bob dyn: dros frenhinoedd, a phareb sy mewn goruchafiaeth; fel y gallom ni fyw yn llonydd ac yn beddychol, mewn pob duwjoldeb ac onestrywydd. Jer. xxix. 7. Sal. lxxii. 1, 2.

Cw. Pa rai yw Pechodau'r Bobl yn erbyn eu Llywiawdwy'r, a'r Côsb sy'n dyfod am danunt?

Att. 1. Gwrthwynebu, neu ymosod yn erbyn yr Awdurdodau goruchel a ordeiniodd Duw; megis y gwnâ Teynfradwyr, ac a dynnant arnunt eu hunain Farnedigaeth. —

Rhuf. xiii. 2. — Pwy hynnag sydd yn ymosod yn erbyn yr awdurdod, sydd yn gwrthwynebu ordinhâd Duw: a'r rhai a wrthwynebant, a dderbyniant farnedigaeth iaddint eu hunain. Diar. xvii. 11.

2. Diystyr a chablu Llywodraeth; megis y gwnâ dynion cnawdol a rhysygus, a boenir yn Nydd y Farn, ac fel anifeiliaid anjanol a ddifethir. — 2 Pedr ii. 9, 10, 12. Yr Arglwydd a fedr wared y rhai duwjol rhag profedigaeth, a chadw y rhai anghyflawn i ddydd y farn i'w poeni: ac yn bennaf y rhai sy'n rbodio ar ôl y cnawd, mewn cbwant ffleiddiaid, ac yn diystyr u Llywodraeth. Rhysygus y lynt, cyn dyn, nid ydynt yn arswydo cablu urddas. Y rhai byn, megis anifeiliaid anrhosymmol anjanol, y rhai a wnaed i'w diperha, a gablant y perthau ni wyddant oddi wrthunt, ac a ddifethir yn eu llygredigaeth eu hunain. Jud. 8.

3. Dywedud yn erbyn y Llywiawdwy'r cyfreithlon, a osodwyd drosom yn ôl Ewillys Duw. Miriam a lefarodd yn erbyn Moses; a Duw a'i tarawödd hi a gwahanglwyf Corab, Datban, ac Abiram, a wrthwynebasant Moses ac Aaron; a'r ddaear a agorodd, ac a'u hyngcodd hwy yn fyw i usfern;

usfern; fel y daeth dychtryn mawr ar bawb o'r holl Gyn-nulleidfa, wrth glywaidd eu llef hwy. *Num. xvi.* — Pedair-mil ar ddeg a saith cant o'r bobl ychwaneg a fuant feirw o'r plâ, am duchan drannoeth yn erbyn *Moses ac Aaron*. *Num. xvi. 41—49.* — Ac ym mhen ychydig, y llefarodd y bobl cilwaith yn erbyn Duw a *Moses*; a'r Arglwydd a anfonodd yn eu mysg hwy seirph tanllyd, a hwy a frathasant y bobl, a bu feirw o Istrael bobl lawer. *Num. xxi. 6.*

4. Torri Rhwymedigaeth y Llw a gymmerasom am fod yn ffyddlon i'n *Llywiardwyr*. Digofaint yr Arglwydd a ennynnodd yn erchyll yn erbyn yr *Fuddewon*, a Brenin Istrael, am dorri eu Rhwymedigaeth i Frenin *Babilon*: canys byddinoedd Istrael a roddwyd i'r cleddyf, a'r gweddill o honunt a wasgatwyd. *Ezec. xvii. 12—21. Diar. xxiv. 21, 22.*

5. Y mae'n Bechod peryglus, i roddi Usudd-dod anghyfiawn i'n *Llywiardwyr*, mewn peth y fo'n wrthwyneb i Gyfraith Duw. Oherwydd i Bobl Istrael ymostwng i ddeddfau annuwjol, yr Arglwydd a'u bwriadodd ymmaith oddi wrtho, ac a'u cyfuddiodd hwy yn flin jawn, — 2 *Bren. xvii. 8, 18, 20. Rhodio* (a wnaethant) yn neddffau'r cenbedloedd, y rhai a fwriasai'r Arglwydd allan o flaen meibion Istrael, ac yn y deddfau a wnaethai brenhinoedd Istrael. Am hynny yr Arglwydd a ddigiodd yn ddirfawr wrth Istrael, ac a'u bwriadodd hwynt allan o'i olwg: ni adawyd ond llwyth Juda yn unig. A'r Arglwydd a ddiystyrodd holl bâd Istrael, ac a'u cyfuddiodd hwynt, ac a'u rhoddodd hwynt yn llaw anrheithwyr, nes iddo eu bwrw allan o'i olwg. *Ecsod. i. 15—20. Sam. xiv. 43—45. Dan. iii. 14—18. vi. 6—10. Act. v. 29.*

Cw. Beth yw Dyledswyddau *Gweinidogion Gair Duw?*

Att. Gwaith a Galwad *Gweinidogion* sy fwyaf pwysfawr o bob gwaith yn y byd; canys gweini y maent rhwng y *Durw Mawr* a Dynjon yn achos eu Jechydwriaeth hwynt: ac am hynny y mae'r Ysgrythur yn mynegi eu Dyled hwy yn helaeth jawn.

1. Dyled pob *Gweinidog* yw, edrych yn dda na rathro efe i mewn i fod yn *Weinidog* yn Eglwys Dduw, nes iddo'n gyntaf fod yn wir *Gristion*: canys, megis na allai neb fod yn Offeiriad dan y Gyfraith, heb fod o *Lwyth Lest*; ni ddylai neb ychwaith fod yn *Weinidog* dan yr Efengyl, heb fod o Deulu'r Ffydd: sef, credu'n jachusol yn yr Arglwydd Jesu.

Jesu. — 2 Cor. iv. 13. *A chan fod gennym yr un ys bryd ffydd, yn ôl yr hyn a sgrifennwyd, Credais, am hynny y llefarais; yr ydym ninnau besyd yn credu, ac am hynny yn llefaru.* — Sal. l. 16, 17. *Wrth yr annwylol y dywedodd Duw, Beth sydd i ti a fynegech ar fy neddfau, neu a gymmerek ar fy nghysfammod yn dy enau?*

2. Dyled Gweinidogion yw, edrych am fod wedi eu galw yn ddyledus, a'u danfon gan Dduw, a'u cymhwysio i Swydd y Weinidogaeth. — Rhuf. x. 15. *Pa fodd y pregethant, oni's danfonir hwynt?* — Hebr. v. 4. *Nid yw neb yn cymmeryd yr anrhydedd hwn iddo ei hun, ond yr hwn a alwyd gan Dduw, megis Aaron.* 2 Cor. iii. 5, 6. Jer. xiv. 14, 15. xxiii. 21, 32. Joan vii. 18. Lef. xxi. 17—20.

3. Dyled Gweinidogion yw, astudio Gair Duw yn ddyfal, a myfyrio yn tho; fel y byddont hyddysg a galluog yn yr Ysgrythurau, a chynhyddu yn y Donjau a dderbyniasant. — 1 Dim. iv. 13—15. — *Gift wrth ddarllen, wrth gynghori, wrth athrawjaethu. Nac esgeulusa y daen sydd ynnor.* — *Myfyria ar y pethau hyn, ac yn y pethau hyn aros; fel y byddo dy gynnudd yn eglur i bawb.* Sal. cxix. 98, 99. Hebr. iv. 12. Jer. xxiii. 29. 2 Cor. x. 4, 5. Act. xviii. 24.

4. Dyled Gweinidogion yw, ymddiddysnu oddi wrth Elw'r Byd hwn, ac ymwrthod, hyd ag allont, a Thrafferthon tymhorol y Bywyd hwn, i lwyr-ymroddi i Waith y Weinidogaeth. — 2 Dim. ii. 4. *Nid yw neb a'r sydd yn milwrio yn ymrwystro â negeseuau y bywyd hwn, fel y rbyngô fodd i'r hwn a'i devisodd yn filwr.* — 1 Dim. vi. 9, 10, 11. *Y rhai sydd yn ewyllysio ymgynfoethogi, sydd yn syrthio i brofediogaeth, a magl, a llawer o chwantau ynfyd a niweidiol, y rhai sy yn boodi dynjon i ddinystr a cholledigaeth. Canys gwreiddyn pob drwg yw ariangarwch: yr hon, a rhai yn cbwannog iddi, hwy a gyfeiliornasant oddi wrth y ffydd, ac a'u gwanasant en bunain â llawer o ofidiau.* Eitbr tydi, gŵr Duw, gochel y pethau hyn; a dilyn gyflawnder, dwyjoldeb, ffydd, cariad, ammynedd, addfwyndra. Luc xviii. 28—30. 2 Cor. xii. 14. Phil. ii. 20, 21. 1 Dim. iii. 3. 1 Theff. ii. 5. 1 Pedr v. 2.

5. Dyled Gweinidogion yw, porti'r Bobl, a'u Plant hefyd, a Gwybodaeth jachus, o wir Gariad i Grist; gan hyfforddi hên a jeuajngc yng Ngwyddorion y Ffydd, a mynegi iddunt

iddunt holl Gyngor Duw; ac nid mwy, na llaj. — Joan xxi. 15, 16. — Yr Iesu a ddywedodd wrth Simon Pedr, Simon mab Jona, a wyt ti yn fy ngharu i yn fwy nô'r rhai hyn? Dywedodd yntef wrtho, Ydwylf, Arglwydd; ti a wyddost fy mod yn dy garu di. Dywedodd yntau wrtho, Portha fy wyn. Efe a ddywedodd wrtho drachefn yr ail waith, Simon mab Jona, a wyt ti yn fy ngharu i? Dywedodd yntef wrtho, Ydwylf, Arglwydd; ti a wyddost fy mod yn dy garu di. Dywedodd ynteu wrtho, Bugeilia fy nefaid. — Math. xxviii. 20. Gan ddaysgu iddunt gadw pob peth a'r a orchymmynnais i chwi. — Deut. iv. 2. Na chwanegwch at y gair yr ydwylf yn ei orchymmyn i chwi, ac na leihewch ddim o hono ef. Act. xx. 26, 27. Ecsod. xxiv. 3. Deut. xviii. 20. Dad. xxii. 18, 19. 1 Bren. xxii. 14. Jer. xxvi. 2. Math. v. 14. Mal. ii. 7. Dit. ii. 1.

6. Dyled Gweinidogion yw, dysgu i'r Bobl, nid yn unig. Wyddorjon y Ffydd, eithr hefyd eu hannog yn daer i Ddyledswyddau Crefydd a Gweithredoedd da. — Did. iii. 8. Gwir yw'r gair, ac am y pethau hyn yr ewyllysiwn i ti fod yn daer, fel y byddo i'r sawl a gredasant i Dduw ofalu ar flaenori mewn gweithredoedd da: y pethau hyn sydd dda a buddjol i ddynjon. — 1 Dim. vi. 17, 18. Gorchymmyn i'r rhai sy oludog yn y byd ymma, na byddont uchel feddwl, ac na obeithiant mewn golud anwadal, ond yn y Duw byw, yr bwn sydd yn helaelb yn rhoddi i ni bob peth i'w mwynhau; a'r iddunt wneuthur dajoni, ymgyfoethogi mewn gweithredoedd da, fod yn hawdd gan ddunt roddi, a chyfrannu.

7. Dyled Gweinidogion yw, traethu Gair Duw yn bur, yn blaen, ac yn barchus; a dangos i'r Bobl yr Ystyr o hono. — 2 Cor. ii. 17. Nid ydym ni, megis llawer, yn gweineuthur masnach o air Duw: eithr megis o burdeb, eithr megis o Dduw, yngwydd Duw yr ydym yn llefaru yng Nghrist. — Neh. viii. 7, 8. — T Lefiaid oedd yn dysgu y gyfraith i'r bobl, a'r bobl yn sefyll yn eu lle. A hwy a ddarllenasant yn eglur yn y llyfr, yng ngwyfraith Dduw; gan osod allan y synwyr, fel y dyallent wrth ddarllen. 1 Pedr iv. 11. Luc iv. 16. 2 Cor. ii. 2, 3, 6. 1 Theff. ii. 3—6. 1 Cor. xiv. 18, 19. Math. vii. 28, 29. Preg. xii. 10, 11. 1 Cor. iii. 1, 2. Deut. xxxi. 11. Jof. viii. 34, 35. Act. viii. 30, 31. Sal. cxix. 130.

8. Dyled *Gweinidogjon* yw, dysgu'r Bobl yn garuaidd, mewn ysbryd Addfwynder a Chariad, gan gydgyfrannu a chydymdeimlo â'r *Gweinjaid*, megis Tadau a Mammaethod idduat. — 1 Thess. ii. 7, 8, 11. Ni a fuom addfwyn yn eich mysg chwi, megis mammaeth yn maetbu ei phlant. Felly, gan eich hoffi chwi, ni a welsom yn dda gyfrannu â chwi, nid yn unig efengyl *Dduw*, ond ein beneidjau ein lunain hefyd, am eich bod yn annwyl gennym. Megis y gwyddoedd, y modd y buom yn eich cyngori, ac yn eich cysfuro, bob un o honoch, fel tâd ei blant ei bun. 1 Cor. ix. 19, 22, 23. 2 Dim. ii. 24—26.

9. Dyled y *Gweinidogjon* hefyd yw, llefaru Addysg Gair Duw yn ddewr, yn ddyfal, ac yn ediofn, er maint a fydd o fychander a chasineb idduant gan eu gwirthwynebwyr. — Jer. i. 7, 8, 17. — Ti a ai at y rhai oll y'th anfonwyf, a'r byn oll a orchymmynnwyf it' a ddywedi. Nac ofna rhag eu bwynebau bwynt: canys yr ydwyf si gyd â thi i'th waredu, medd yr Arglwydd. Am hynny gwregysa dy lwybau, a chyfod, a dywed wrthunt yr byn oll yr ydwyf yn ei orchymmyn it': na arswyda eu bwynebau; rhag i mi dy daifstrywio di ger eu bron bwynt. — 2 Dim. iv. 2. Pregetha'r gair; bydd daer, mewn amser, allan o amser; argyoedda, cerydda, annog gyd â phob bîrymaros ac atbrawjaeth. — Act. xxviii. 31. Gan bregethu teyrnas *Dduw*, ac atbrawjaethu y perthau am yr Arglwydd Jesu Crist, gyd â phob hyfder, yn ddiwahardd. Ezec. ii. 6, 7. Jer. xx. 8—11. xv. 10, 11, 21. xxvi. 11—15. 2 Cor. xii. 13. Act. iv. 18, 19, 20. xx. 20—22. xxi. 13. v. 41. 1 Cor. iv. 9, 11—13. 2 Cor. i. 5, 6. xii. 10. Phil. i. 20.

10. Dyled *Gweinidogjon* yw, ceryddu y rhai a bechaint yn ddiarbed, pwy bynnag y fyddont. — Esay lviii. 1. Llefa â'th g'g, nac arbed; dyrchafu dy lais fel udgorn, a neynega i'm pobl eu camwedd, a'u pechodaui i dî Jacob. — 1 Dim. v. 20. T rhai sy'n pechu cerydd a yngŵydd pawb, fel y byddo ofn ar y lleill. Math. xii. 34. iii. 7, 8. Act. xiii. 9, 10. Gal. ii. 11.

11. Dyled *Gweinidogjon* yw, rhybuddio'r Annuwjol, o blegid y Barnau fo'n dyfod ar eu gwarthaf; dan berygl o fod yn euog o'u gwaed. — Ezec. xxxiji. 6, 8. Pan we-lo'r gwiliedydd y cleddyf yn dyfod, ac ni udgana meun udgorn, a'r bobl heb eu rhybuddio; eikr dyfod o'r cleddyf

a chymmeryd un o honunt, efe a ddaliwyd yn ei anwireda; ond mi a osynnaf ei waed ef ar law'r gwiliedydd. Pan ddywedwyf wrth yr annuwjol, Ti annuwjol, gan farw a fyddi farw; oni leferi di i rybuddio'r annuwjol o'i ffordd, yr annuwjol hwn a fydd marw yn ei anwireda; ond ar dy law di y gofynnaf ei waed ef. Joel i. 13, 14. ii. 15, 16, 17.

12. Dyled Gweinidodjon yw, jawngyfrannu i'r Duwjol a'r Anhuwjol, y rhan a berthyn iddunt o Air Duw; a dangos gwahaniaeth rhynghunt, heb na gwenjaith, na derbyn wyneb. — 2 Dim. ii. 15. Bydd ddyfal i'th osod 'dy hun yn brofedig gan Dduw, yn weithiwr difesi, yn jawngyfrannu gair y gwirjonedd. — Eze. xliv. 23. A dysgant i'm pobl ragor rhwng y sanctaidd a'r halogedig, a gwnant iddunt wybod gwahan rhwng astan a glân. Eze. xiii. 19, 22. Jer. xv. 19.

13. Dyled Gweinidogjon yw, argyoeddi pob Cyfeiliorni; a gostegu, hyd ag allont, bob Dadleuon ansuddjol, ag y fo'n magu Anghariad ac Ymryson. — Dit. i. 9, 10, 11, 13. Yn dal yn lew y gair ffyddlon yn ôl yr addysg, fel y gallo gyngbori yn yr athrawjaeth jachas, ac argyoeddi y rhai sy yn gwrbddywedud. Canys y mae llaŵer yn anufudd, yn ofersiaradus, ac yn dwylbwyr meddyliâu: — y rhai y mae yn rhaid cau eu safnau, y rhai sy yn dymchwelyd tai cyfain, gan athrawjaethu y petbau ni ddylid, er mwyn budr elw. T dysiolaeth hon sydd wir. Am ba achos argyoedda hwy yn llym, fel y byddont jach yn y ffydd. — 2 Dim. ii. 14 - 17, 23. Dit. iii. 9. Jud. 3.

14. Dyled Gweinidogjon yw, gwilio'n ddyfal atnunt eu hunain, ac ar Braidd Duw, i'w bugeilio yn ddiwall, a'u meithrin yn Ofn yr Arglwydd. — Act. xx. 28. Edrych-wch gan blynny arnoch eich hanain, ac ar yr holl braidd, ar yr hwn y gofododd yr Ysbryd Glân chwi yn olygwyr, i fugeilio eglwys Dduw, yr hon a bwrcasod efe â'i briod waed. — 1 Pedr v. 2. Porthwch braidd Duw, yr hwn sydd yn eich plith, gan fwrev golwg arnunt, nid trwy gymhell, eithr yn ewillysgar; nid er mwyn budr elw, eithr o barodrwydd meddwl. — Luc xii. 42, 43. — Prwy yw y goruchwiliwr ffyddlawn, a phwyllog, yr hwn a esyd ei Arglwydd ar ei deulu, i roddi cystuniaeth iddunt mewon pryd?

pryd? Gwyn ei fyd y gwâs bwnnw, yr bwn y caiff ei Arglywyd ef, pan ddêl, yn gweuthur felly. I Dim. iv. 16.

15. Dyled Gweinidogjon yw, ymddwyn yn ddoeth ac yn dduwjol ym mhob peth, a llywodraethu eu Teulu eu hunain yn dda, er esampl i bawb, ac na allo neb feio arnunt. —

Math. x. 16. Wele; yr ydwyf si yn eich danfon fel defaid yng ngbanol bleiddjaid: byddwch cwthau gall fel y seirph, a diniwaid fel y colommennod. — I Dim. iii. 2, 4, 5. Rhaid i esgob (neu fugail eneidjau) fod yn ddiargyoedd, yn wr un wraig, yn wiliadwrus, yn sobr, yn weddaidd, yn lletteugar, yn athrawaidd; yn llywodraethu ei dý ei bun yn dda, yn dal ei blant mewn usudd-dod, gnglyd â phob onestrwyd: (o blegid oni fedr un lywodraethu ei dý ci bun, pa fodd y cymmer efe ofal dros eglwys Dduw?) — Dit. ii. 7, 8.

Gan dy ddangos dy bun ym mhob peth yn esampl i weithredoedd da: a dangos mewn athrawjaeth anlygredigaeth, gweddeidd-dra, purdeb, ymadrodd jachus, yr bwn ni aller beio arno; fel y byddo i'r bwn sydd yn y gwrtbwyned gywilyddio, heb ganddo ddim drwg i'w ddy-wedud am da-noch chwi. — I Dim. iv. 12. — Bydd yn esampl i'r ffyddlonjaid, mewn gair, mewn ymarweddiau, mewn cariad, mewn ysbryd, mewn ffydd, mewn purdeb. I Pedr v. 3. Phil. iii. 17. Diar. iv. 7. viii. II, 12. xv. 2. Preg. vii. 19. viii. 5. xii. 11.

16. Dyled Gweinidogjon yw, gwarchod yn ofalus ar Gädwraeth Tŷ Dduw; sef, cadw i synu Ddisgyblaeth ddiesgeulus yn yr Eglwys; fel na dderbyniant yr halogedig a'r afian i Ordinhadau cyssegredig y Cyfammod. — Math. vii.

6. Na roddwch y petb sydd sanctaidd i'r cûn, ac na rheflwch eich gemmau o flaen y môch; rhag iddunt eu satbru dan eu traed, a throi, a'ch rhwng oekwi. — Ezec. xliv. 7, 8. Gan ddwyn o honoch ddieithriaid dienwaededig o galon, a dienwaededig o gnawd, i fod yn fy ngyffegr, i'w halogi ef, sef fy nhý i, pan offrymmasoch fy mara, y brasder, a'r gwaed; a bwyt a dorrasant fy nghyfammed, o herwydd eich holl ffieidd-dra oekwi. Ac ni chadwâs och gadwraeth fy mbethau cyssegredig; eithr gosoda soch i chwi eich hunain gediwaid ar fy nghadwraeth yn fy ngyffegr.

17. Dyled Gweinidogjon yw, cyfanneddu a byw ym mysg eu Pobl; canys gyd a'r Praidd y dylai'r Bugail fod: heb esœnlu sy

esgeuluso ymweled â hwynt yn eu Hadfyd, na ffôi oddi wrth-
unt yn amser Perygl. — 2 Cor. vii. 3. Paul a ddywedodd
wrth y Corinthiaid, — Tr ydych chwi yn ein calonnau ni,
i farw ac i fyw gyd â chwi. — Joan x. 11—13. A Christ
a ddywedodd, — T bugail da sydd yn rhoddi ei einioes
dros y defaid. Eithr y gwâs cyflog, a'r bwn nid yw
fugail, yr bwn nid eiddo y defaid, sydd yn gweled y blaidd
yn dysod, ac yn gadael y defaid, ac yn ffî: a'r blaidd
sydd yn eu sglyfio hwy, ac yn tarfu'r defaid. T mae'r
gwâs cyflog yn ffôi, o blegia mai gwâs cyflog yw, ac nid oes
ofal arno am y defaid. Neh. vi. 11. Jago i. 27. v. 14.

18. Dyled Gweinidogion yw, gweddio'n ddifrifol ac yn
ddyfal dros Eglwys Duw. — Esay lxii. 6, 7. Ar dy fur-
jau di, Jerusalem, y gosodais geidwaid, y rhai ni rhaw-
ant ddydd na nos yn wastad: y rhai ydych yn ceisio'r Ar-
glwydd, na ddisewch; ac na adewch ddistawrwyd iddo, hyd
oni sicrhao, ac hyd oni osodo Jerusalem yn foliant ar y
ddaeiar. Eph. i. 16. iii. 14, 16. Col. i. 9—11.

19. Dyled Gweinidogion yw, gofalu dros Lesiant ysbryd-
ol eu Pobl yn ôl llaw, ar ôl iddunt hwy eu hunain farw. —

2 Pedr i. 15. Pedr a ddywedodd wrth y bobl, Mi a wnaf fy
ngorau ar allu o honoch bob amser, ar ôl fy ymadowiaid i,
wneuthur coffa am y pethau byn. — Num. xxvii. 15, 16,

17. Moses (ychedig cyn iddo farw) a lefarodd wrth yr Ar-
glwydd, gan ddywedud, Gosoded yr Arglwydd, Duw ys-
brydion pob crâu, un ar y gynnulleidfa, yr bwn a elo
allan o'u blaen hwynt, ac a ddelo i mewn o'u blaen hwynt,
a'r bwn a'u dygo hwynt allan, ac a'u dygo hwynt i mewn:
fel na byddo cynnulleidfa'r Arglwydd fel defaid ni byddo
bugail arnunt.

20. Dyled Gweinidogion yw, ymgais i fod mor gydwyr-
bodol ym mhob Rhan o'u Gweinidogaeth ag y gallont, i feddu
Tyfliolaeth dda gan eu Cydwydod eu hun, a chan bawb, pan
yr elont o'r byd i ymddangos o flaen Duw. — Act. xx.

25—27. Paul, wrth ymadel, a ddywedodd wrth y bobl, Tr
awr hon, wele, mi a wna chewch chwi oll (ym mysg y
rhai y bûm i yn tramwyr yn pregethu reyrnas Duw) we-
led fy wyneb i mwyaeth: o berwydd pa ham, yr ydwyf
yn tyflio i chwi y dydd beddyw, fy mod i yn lân oddi wrth
waed pa-wb oll. Canys nid ymatteliais rhag mynegi i chwi
boll gyngor Duw. — I Thess. ii. 10, 11. Tyflión ydych
chwi,

chwi, a Duw hefyd, mor sanctaidd, ac mor gyfawn, a dirgyoedd, yr ymddygasom yn eich mysg chwi, y rkai ydych yn credu: megis y gryddoch, y modd y buom yn eich cynglori, ac yn eich cyffuro, bob un o bonoch, fel tad ei blant ei hun. 2 Cor. i. 12. 2 Dim. iv. 6—8.

Cw. Pa rai yn bennaf yw Pechodau Gweinidogion, a'r Barnau y maent yn eu dynnu?

Att. 1. Mae'n beryglus i neb ryfugu cymmeryd Swydd gysfegredig y Weinidogaeth arnunt, heb eu galw yn gyfreithlon, a'u hanfon gan Ysbryd Duw. *Saul* Brenin Isræl a gollodd ei frenhinjaeth, a Digofaint Duw a gyfrödd yn ei erbyn, am iddo anturio offrymmu Aberthau Duw â i ddwy law ei hun, ac yntef heb fod yn Offeiriad. 1 Sam. xiii. — Y Brenin *Uzziah* hefyd, ym malchder ei galon, a aeth i mewn i'r Demi ag Arogldarth yn ei law, ar fedr cymmeryd arno ei han Swydd yr Offeiriad; eithr Duw a'i tarawödd ef â gwahanglwyr; ac efe a barhaodd yn wahanglwyr fus, ac a dorwyd ymmaith o Dŷ'r Arglwydd dros byth. 2 Cron. xxvi. 16—23. — *Dathan* ac *Abiram*, a'r dau cant a deg a deugain a lynodd wrthunt, a ddifethwyd mewn modd dychrynadwy, am eu rhyfylg yn cymmeryd arnunt y Swydd Offeiriadol, i offrymmu Arogldarth. Num. xvi. — Canys Duw a ddywedasai wrth *Foses* ym mlaen llaw, *Urddi di Aaron* a'i feibion i gadw eu hoffeiriadaeth: a'r dieithr ddyn a ddelo yn agos a roddir i farw. Num. iii. 10. — A'r Prophwydi a lefarent o'u dychymmyg eu hunain, ac heb i'r Arglwydd eu danfon, ni wnaent lès i'r bobl; a Duw oedd yn eu herbyn hwy. Canys fel hyn y dywaid yr Arglwydd:

— Jer. xxiii. 32. *Wele si yn erbyn y rhai a broplwyllant freuddwydion celwyddog, medd yr Arglwydd, ac a'u mynegant, ac a budant fy nhobla'u celwyddau, ac a'u gwagedd, a mi heb eu gyrru hwynt, ac heb orchymwyn iddunt: am hymny ni unant ddim lles i'r bobl hyn, medd yr Arglwydd.* Jer. xiv. 14, 15. xxviii. 15—17.

2. Gwrthgiliad Gweinidogion oddi wrth Adduned eu Hurddiad, a Duwjoldeb Buchedd, heb edrych am anrhodeddu Duw, a gynhyrfodd Ddigofaint Duw i felldithio'r Offeiriad gynt, a'u gwneuthur yn ddirmygus gan bawb; ac o herwydd hyn y daeth dinystr hefyd ar Eglwys Duw. — Mal. ii. 1, 2, 8, 9. Ac yr awr hon, chwi offeiriad, i chwi y mae'r gorchymwyn bwn. Oni wrandewch, ac oni ystyrriwch,

riwch, i'r oddi anrhydedd i' m Henw i, medd Arglwydd y lluoedd; yna mi a anfonaf felldith arnoch chwi, ac a felldigaf eich bendithion chwi: ie myfi a'u melldigais ei-sioes, am nad ydych yn ystyriaid. Chwi a giliasoch allan o'r ffordd, ac a barasoch i laweroedd dramgywyddo wrth y gyfraith; llygrasoch gyfammod Lefi, medd Arglwydd y lluoedd. Am hynny minnau besyd a'ch gwneuthym chwi yn ddirmygus, ac yn ddiystyr gan yr holl bobl. — Am bechoda'u ei phropbwyd, ac anwiredd ei bofeiriad, y tywallodda Duw ei ddiglonedd, ac a gynneuodd dan yn Sion, yr hwn a ddifaodd ei seiliau hi. — Y gwrthwynebu'r a'r gelyn a ddaeth i mewn i byrth Jerusalem. — Soriant yr Arglwydd a'u gwasgarodd hwynt. Galar. iv. 11, 12, 13, 16.

3. Esgeulusdra, ac Ysgafnder, a Diystyrwch Gweinidogion, yn gadel y Bobl i fyw'n anwybodus, a dynn Ddigasedd Duw arnunt, ac ar eu Plant ar eu hól hwynt. — Hof. iv. 6. Fy mbobl a ddifethir o eisiau gwybodaeth: am it' ddiystyr u gwybodaeth, minnau a'th ddiystyraf dithau, fel na bydd-ech offeiriad i mi; ac am it' anghofio cyfraith dy 'Dduw, minnau a anghofiaf dy blant dithau besyd.

4. Gwenjaith Gweinidogion, yn llesaru pethau esmwyth wrth y Bobl, heb eu rhybuddio hwynt yn fywjog o'u Perygl, na dangos iddunt eu Cyflwr truenus, sy'n tynnu ar y cyfryw Weinidogion anffyddol a swrthlyd Edigofaint Duw, a Gwaed Eneidjau colledig. — Ezec. iii. 17, 18. Mab dyn, mi a'r wneuthym di yn wiliedydd i dy Isräel: am hynny gwrando'r gair o'm genau, a rhybuddia hwynt oddi wrthys fi. Pan daywedwyf wrth y drygionus, Gan farw y byaddi farw; oni rybuddi ef, oo oni leseri i rybuddio'r drygionus o'ddi wrth ei ddrygffordd, fel y byddo byw; y drygionus hwn a fydd marw yn ei anwiredd: ond ei waed ef a osynnaf fi ar dylaw di. Jer. viii. 10—12. Ezec. xxxiii. 7, 8. xiii. 9, 10, 13.

5. Awydd drachwantus Gweinidogion i Elw'r Byd, yn lle Atudrwydd awyddus o Wybodaeth brofiadol, a Goleuni ysbrydol, i fedru rhybuddio a dysgu'r Bobl, a gyfrödd Duw i achwyn ac ymddial ar y cyfryw gynt. — Esay lvi. 10, 11. Deillion yw ei wiliedyddion: ni wyddant hwy oll ddim; cŵn mudiad ydynt hwy oll, heb fedru cyfarth; yn cyfgu, yn gorwedd, ac yn caru heppian. Ie cŵn gwangus ydynt, ni chydnaabyddant a'u digon, a bugeiliaid ydynt ni fedrant ddyall; wynebant oll at eu fforad eu hun, pob un

at ei elw ei bun o'u cwrr. — Jer. viii. 10. Am hynny y rhoddaf eu g-wragedd hwynt i eraill, a'u meusydd i'r rhai a'u meddianno: canys o'r lleias hyd y mwyaf, pob un sy'n ymröi i gybydd-dod; o'r prophwyd byd at yr offeiriad, pawb sydd yn gwneuthur ffalsder. Mal. i. 10. Eze. xxii. 25, 26, 31. 1 Sam. ii. 12—17. iv. 11.

6. Bugeiliaid y Bobl gynt a gyffroisant Ddigofaint Duw yn eu herbyn, ac a barafant iddo i ymwrthod â hwy, oherwydd eu Hanghymmedroldeb yn pesgi'r Cnawd, yn lle porti'r Praidd. — Eze. xxxiv. 2, 3, 10. — Gwae fugeiliaid Isräel, y rhai sydd yn eu portbi eu bunain: oni phortha'r bugeiliaid y praidd? X brasder a fwyteuch, a'r gwylân a wisgwch, y brâs a leddwch; ond ni phorriwch y praidd. Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw; Wele fi yn erbyn y bugeiliaid: a gofynnaf fy mbraidd ar eu dwylaw hwynt. Esay xxviii. 7. lvi. 12. Lef. x. 1, 2, 3, 8, 9.

7. Y mae Buncheddau annuwjol, a drwg Esamplau Gweinidogion, yn eu gwneuthur hwy yn chwydog yng ngolwg Duw; ag a fydd yn chwerw jawn idduant yn y diwedd: canys oddi wrth hyn y mae Anwiredd yn ymdannu fwyfwy ar lêd, a'r Drygionus yn ymgaledu yn eu Drygioni. — Jer. xxiii. 14, 15. Ar brophwydi Jerusalem y gweilais beth erchyll; torri priodas, a rhodio mewn celwydd: cynhortkwyant hefyd ddwylaw y drygionus, fel na ddychwel neb oddi wrth ei ddrygioni: y mae y rhai hyn oll i mi fel Sodoma, a'i thrigolion fel Gomorrah. Am hynny fel byn y dywed Arglwydd y lluoedd am y prophwydi; Wele mi a'u bwydaf hwynt â'r wermod, ac a'u diodaf hwynt â ddyfr busl: canys oddi wrth brophwydi Jerusalem yr aeth lledrith allan i'r holl dir.

8. Y mae'n Euogrwydd 'sgeler, i Weinidogion ddioddef Pechod yn ddigerydd yn eu Plant a'u Teulu: o berwydd hyn y daeth Barn a Digofaint Duw yn echrydus jawn ar Eli'r Offeiriad. — 1 Sam. iii. 11—14. A dywedodd yr Arglwydd wrth Samuel, Wele fi yn gwneuthur perth yn Isräel, yr hwn pwy bynnag a'i clywö, fe a ferwina ei adwy glust ef. Xn y dydd hwnnw y dygas i ben yn erbyn Eli yr hyn oll a daywedais am ei dý ef; — o berwydd i'w feibion haeddu idduant felldith, ac na's gwaharddodd efe iddunt. Ac am hynny y tyngais wrth dý Eli, na wnaир jawn am anwiredd ty Eli ag aberth, nac â bwyd offrwm byth.

9. Mae'

9. Mae'r Gynfigen a'r Digasedd diachos a fytho gan *rat* *Gweinidogjon* tu ag at *Weinidogjon eraill*, yn Bechod na ddiangc yn ddigôsb. *Pasur* yr Offeiriad, o gynfigen i'r Prophwyd *Jeremi*, a'i tarawödd, ac a'i rheddodd yng ngharchar; a Duw a'i gwnaeth yntes yn ddychrynn iddo ei hun, ac i bawb a'i carai ef, ac a barodd iddo ef a hwyntau farw yng ngwlâd eu gelynjon. *Jer.* xx. 1—6. — Offeiriad yr *Juddewön*, a draddodasant Crist o gynfigen, ac a gynhyrfa sant y bobl i grochlesain ar *Bilat* am ei groeshoelio ef, a dynnasant Ddinystr arnunt eu hunain, ac ar eu Hoffeiriadaeth hefyd. *Marc* xv. 8—13. — *T* *Gwâs a guro ei gydweision*, gan fwyta ac yfed gyd â'r meddwön, *Arglwydd y gwâs hwnnw a ddaw yn ddifymmwth*, ac a'i grawhana ef, ac a esyd ei ran ef gyd â'r anffyddlonjaid. *Luc* xii. 45, 46.

10. Bydd Gwae i'r *Gweinidogjon* sy'n byw'n absennol, neu'n ffôi oddi wrth eu Praidd, pan fo'n angenrheidjol i edrych am danunt hwy. — *Zech.* xi. 17. *Gwae'r eulyn bugail*, yn gadel y *praid*; y cleddyf fydd ar ei fraich, ac ar ei lygad dehau: ei fraich gan wywo a wywa, a'i lygad dehau gan dywyllu a dywyllta. *Joan* x. 11, 12, 13.

Cw. Pa beth yw'ch Dyled chwi tu ag at eich *Gweinidogjon*?

Att. 1. Ein Dyled yw, gweddio'n ddifrifol ar Dduw, am y cyfryw *Weinidogjon* ag y fyddo'n addas i weithio yng Nghynhauaf mawr yr Efengyl. — *Math.* ix. 37, 38. *Crist a ddywedodd wrth ei ddifgyblion*, *T cynhauaf yn ddianysydd fawr, ond y gweithwyr yn anaml*. Am hynny atrolygwch i *Arglwydd y cynhauaf anfon gweithwyr i'w gynhauaf*.

2. Ein Dyled yw, eu derbyn hwy yn barchus, fel *Gweinidogjon Duw*, ac ymostwng yn ufudd i'r Athrawjaeth jachus a roddant i ni allan o Air Duw. — *Hebr.* xiii. 17. *Ufuddbhêwch i'ch blaenorïaid*, ac ymddarostyngwch. *O blegid y maent hwy yn gwilio dros eich eneidjau chwi*, megis rhai a fydd rhaid iddunt roddi cyfrif. — *I Dim.* v. 17. *Cyfrifer yr henurjaid sy'n llywodraethu yn dda*, yn dei-lwng o barch daudyblyg; yn enwêdig y rhai sy yn poeni yn y gair a'r athrawjaeth. *Deut.* xvii. 9, 10, 11. *I Cor.* iv. 1. *xvi. 16.* *I Thess.* v. 12, 13. *iv. 8. ii. 13.* *I Joan* iv. 6. *Luc* x. 16. *Jago* i. 21, 22. *Math.* xxiii. 2, 3.

3. Ein Dyled yw, ymddwyn yn addas i Athrawjaeth ein Gweinidogion; fel na chablit hwynt o'n hachos ni. — 2 Cor. vi. 3. *Heb roddi dim achos tramgwydd mewn dim, fel na feier ar y weinidogaeth.* 1 Cor. x. 32. Eph. iv. 1. Phil. i. 27. ii. 15, 16. 1 Thess. ii. 11, 12.

4. Ein Dyled yw, cydgyfrannu â'n Gweinidogion tu ag at eu Cynhaliaeth; fel y bônt yn rhydd oddi wrth trafferth y byd, i Iwyr-ymroddi i Waith y Weinidogaeth. — Gal. vi. 6. *Cyfranned yr hwn a ddysgwyd yn y gair, â'r bwn sydd yn ei ddysgu, ym mhob peth da.* — 1 Cor. ix. 7, 14. *Pwy sydd un amser yn rhifela ar ei draul ei bun? pwy sydd yn plannu grwinllan, ac nid yw yn bwytta o'i ffrwyth hi? neu pwy sydd yn portbi praid, ac nid yw yn bwytta o laeth y praid?* *Felly befyd yr ordeiniodd yr Arglwydd, i'r rhai sy'n pregethu'r efengyl, fyw wrth yr efengyl.* 1 Dim. v. 18. Math. x. 9, 10. Gen. xlvi. 20, 22. Deut. xii. 19. Ecclus. vii. 29—31.

5. Ein Dyled yw, bod yn gariadus ac yn serchog tu ag at ein Gweinidogion; ac na dderbyniom anair nac achwyniad disail yn eu herbyn. — 1 Dim. v. 19. *Yn erbyn benurjad na dderbyn achwyn, oddieithr dan ddauneu dri o dystion.* — 2 Cor. viii. 24. *Dangoswch iddunt hwy hysbysrwyad o'ch cariad.* Gal. iv. 14.

6. Ein Dyled yw, achub ein Gweinidogion rhag eu gelynjon, a phob peryglon, cyn belled ag a allom ni; a chyddioddef â hwy dan eu blinderau. — Act. ix. 23, 25. *Cydymgyngorodd yr Fudderwon i ladd Paul.* Tna y disgynblion a'i cymmerasant ef o byd nôs, ac a'i gollynngasant i wared dros y mur mewn basged. Am yr Hebrewaid y dywed yr Apostol fel hyn: — Hebr. x. 34. *Chwi a gyddioddefasoch â'm rbwymau i befyd, ac a gymmerasoch eich hysbeilio am y pethau oedd gennych yn llawen; gan wybod fod gennych i chwi eich bunain olud gwell yn y nefoedd, ac un parhaüs.* Act. xix. 29—31. Jer. xxvi. 24. xxxviii. 6—13. 2 Dim. i. 8. iv. 14—17.

7. Ein Dyled yw, cydgynhorthwyo'n Gweinidogion yn eu Gwaith, ym mhob peth ag allom. — 3 Joan 8. Ni a ddylem gan hynny dderbyn y cyfryw rai, fel y byddom gydagynhorthwyr i'r gwirionedd. — Phil. iv. 3. *Ac yr ydweyf yn dymuno arnat titbau, fy ngwîr gymmar, cymorth*

morth y gwragedd bynny, y rhai yn yr efengyl a gydla-furiasant â mi, — a'm cydweithwyr eraill, y rhai y mae eu henwau yn llyfr y bywyd. Rhuf. xvi. 3, 4. Barn. v. 23.

8. Ein Dyled yw, gweddio yn brudd dros ein Gweinidogion, am gymmorth a llwyddiant yn eu Gwaith, ac ym-wared oddi wrth eu gwrt hwynebwyr. Felly y dymunodd Paul i'r bobl wneuthur drosto ef: — Rhuf. xv. 30, 31. Yr wyf yn attolwg i chwi, frodyr, er mwyn ein Harglwydd Jesu Crist, ac er cariad yr Ts'bryd, a'r gydymdrech o honoch gyd â myfi mewn gweddiau drosof fi at Duw; fel y'm gwareder oddi wrth y rhai anufudd yn Judea, ac ar fod fy ngweinidogaeth, yr hon sydd gennys i Jerusalem, yn gymmeradwy gan y saint. — 2 Thess. iii. 1, 2. Bellach, frodyr, gweddiwch drosm ni, ar fod i air yr Arglwydd reueg, a chael gogoneidd, megis gyd â chwithau; ac ar ein gwareder ni oddi wrth ddynjon anhywaith a drygionus: canys nid oes ffydd gan bawb. Eph. vi. 18, 19. Col. iv. 2—4. Act. xii. 5—7. 2 Cor. i. 11.

9. Ein Dyled yw, gochelyd pob dadleuon ansuddjol ac ymbleidiau, a fo'n digaloni ac yn rhwystro'n Gweinidogion yn eu Gwaith. — Diar. xix. 27. Fy mât, paid â gwrando'r addysg a bair i ti gyfeiliorni oddi wrth eirjau gwybodaeth. — 1 Cor. i. 10.

Tr ydwyf yn attolwg i chwi, frodyr, trwy Enw ein Harglwydd Jesu Crist, ddywedud o bawb o honoch chwi yr un peth, ac na byddo ymbleidio yn eich plith; eithr bod o honoch wedi eich cyfangyssylltu yn yr un meddwl ac yn yr un farn. — Rhuf. xvi. 17. Ac yr wyf yn attolwg i chwi, frodyr, graffu ar y rhai sy yn peri anghydffordd a rhwystrau, yn erbyn yr athrawjaeth a ddyfgafodch chwi, a chilgwch oddi wrthunt. — 2 Dim. iv. 3, 4. i. 15. 1 Dim. iv. 1. 2 Pedr ii. 1, 2. Math. xvi. 6, 12. Joan vi. 60, 66.

10. Ein Dyled yw, parhau'n gyttun â'i gilydd, ac yng Ngrâs a Chariad Duw, er Gorfoedd i'n Gweinidogion yn Nydd yr Arglwydd Jesu. Canys fel hyn mae Paul, trwy'r Ysbryd Glân, yn gorchymmyn: — Phil. ii. 1, 2, 16. Od oes gan bynnny ddim diddanwch yng Nghrist, od oes dim cyffur cariad, od oes dim cymdeithas yr Ts'bryd, od oes dim ymysgaroedd a tkosturiaethau; cyflawnwch fy llawenydd, fel y byddoch yn meddwl yr un peth, a'r un cariad gennych, yn gyttun, yn synnied yr un peth. Tn cynnal gair y bywyd; er gorfoedd i mi yn nydd Crist, na redais yn ofer,

ofer, ac na chymmerais boen yn ofer. 1 Theff. ii. 19, 20.

2 Cor. i. 14. xiii. 9. 2 Theff. i. 3, 4.

Cw. Pa rai yn bennaf yw'r Pechodau a wneir yn arferol yn erbyn Gweinidogion, a'r Gôsb sydd yn dyfod o'u plegid?

Att. 1. Dibrifio a gwirthod Athrawjaeth ein Gweinidogion; ag sy'n dwyn Damnedigaeth fwy nag ar bobl eraill na chlywsant Air Duw erioed. — Math. x. 14, 15. A phwy bynnag ni'cb derbynio cbwi, ac ni wrandawö eiob geirjau, pan ymadawöch o'r tŷ bwnnw, neu o'r ddinas bonno, ysgydwch y llwch oddi wrth eich traed. Tn wr meddaf i cbwi, Esmwythach sydd i dir y Sodomjaid a'r Gomorriaid yn nydd y farni nag i'r ddinas bonno. 2 Cron. xxv. 15, 16.

Luc x. 16. Diar. v. 11—13. Neh. v. 13.

2. Attal neu gadw oddi wrth Weinidogion y peth sy ddyledus tu ag at eu Cynhaliaeth: yr hyn sydd megis pe baem yn ysbeilio Duw ei hun, ac yn tynnu Melldith Duw, ac Afliwydd arnom. — Mal. iii. 8, 9. A ysbeilia dŷn Dduw? etto chwi a'm bysbeiliafoch i. Ond chwi a ddywedwch, Ym mha beth y'th ysbeiliason? Tn y degwm a'r offrwm. Melldigedig ydych trwy felldith; canys cbwi a'm bysbeiliafoch i.

3. Tremygu a gwawdio'n Gweinidogion, gan wâg siarad yn ddirmygus am danunt: yr hyn a dynnodd Ddiglonedd a Dinystr echrydus ar yr Fuddewön gynt. — 2 Cron. xxxvi. 16, 17. Tr oddynt hwyl yn gwarwar cenhadau Duw, ac yn tremygu ei eirjau ef, ac yn gwawdio ei brophwydi, nes cyfodi o ddigofaint yr Arglwydd yn erbyn ei bobl, fel nad oedd jachâad. Am bynni efe a ddygodd i synu arnunt hwyl frenin y Caldeaid, yr bwn a laddoda eu gwyr jeuangc hwyl â'r cleddyf yn nhŷ fy nghyffegr, ac nid arbedodd na gŵr jeuangc, na morwyn, na hên, na'r bwn sy'n commu gan eedran: efe a'u rhodaodd hwylt oll yn ei law ef. Galar. iv. 16. Luc x. 16. 2 Cor. x. 10. 3 Joan 9, 10.

4. Gadel ein Gweinidogion duwol, er tristwch a digalon-did iddunt, a myned ar ôl Athrawön eraill: yr hyn sydd argoel o dymmer anwadal, ac nad ydyw'r cyfryw o nifer Pobl Dduw. — 1 Joan ii. 19. Oddi wrthym ni yr aethant hwyl allan, eithr nid oddynt o honom ni: canys pe buasant o honom ni, hwyl a arbosasant gyd â ni: eithr byn a fu, fel yr eglurid nad ydynt hwyl o bononi ni. —

Jago

Jago i. 8. *Gŵr dauddyblyg ei feddwl sydd anwastad yn ei holl ffyrrdd.* 2 Dim. iv. 3, 4.

5. Esgeuluso cynhorthwyo'n Gweinidogion yng Ngwaith yr Arglwydd, trwy'n Gweddiau, a phob ffordd arall ag a allom ni: a'r rhai a ballant gynhorthwyo Gwaith Duw, a felldithir. — Barn. v. 23. *Melldigwch Feroz (eb angel yr Arglwydd) gan felldigo melldigwch ei thrigolion: am na ddaethant yn gynhorthwyo i'r Arglwydd, yn gynhorthwyo i'r Arglwydd yn erbyn y cedyrn.*

6. Ymgaledu dan Geryddon ein Gweinidogion: yr hyn a ddwg Ddinyftr disyammwth arnom. — Diar. xxix. 1. *Gŵr a gerylder yn fynych, ac a galeda ei warr, a ddryllir yn ddifynnwth, fel na byddo meddyginaeth.* 2 Cron. xxv. 15, 16.

7. Hoffi athrawjaeth esmwyth a siommedig; ac annioddefgarwch i dderbyn Argyoeddiad a Cherydd: yr hyn sydd arwydd amlwg o Annuwjoldeb mawr, ac o Farn Duw yn agos. — Efay xxx. 10, 13. *T'rhai a ddywedant wrth y gweledyddion, Na welwch; ac wrth y prophwydi, Na phrophwydwch i ni bethau unjon; treuthwch i ni wenjaith, prophwydwch i ni siommedigaeth: am hynny y bydd yr anwiredd kyn i chwi fel rhwygiad chwyaddedig mewn mur uchel ar syrthio, yr hwn y daw ei ddrylliad yn ddifynnwth heb attreg.* Jer. v. 31.

Cw. Beth yw Dyled Rhieni, sef, Tadan a Mamau, tu ag at eu Plant?

Att. 1. Dyled Rhieni yw, dwyn eu Plant at Crist, i gael eu bendithio, a'u derbyn i Eglwys Duw: canys Crist a ddywed, fod Teyrnas Dduw, sef ei Eglwys ef, yn eiddo hwy; ac ni ddylai neb eu difeddiannu o'r Hawl y mae Crist ei hun yn ei roddi iddunt. — Marc x. 13, 14. *A hwy a ddygasant blant bychain arto, fel y cyffyrddai efe a hwynt: a'r disgyblion a gerydasant y rhai oedd yn eu dwyn hwynt. A'r Jesu pan welodd hynny fu anfodlon, ac a ddywedodd wrthunt, Gedwch i blant bychain ddyfod attafi, ac na waberdarwch iddunt: canys eiddo y cyfriwr rai yw teyrnas Dduw.*

2. Dyled Rhieni yw, dysgu eu Plant yn ddyfal yng Ngair Duw, a'r pethau a berthyn i'w Jechydwriaeth hwy. — Sal. lxxviii. 5, 6. *Efe a sicrhaoedd dystiolaeth yn Jacob, ac a osododd gyfraith yn Isräel, y rhai a orchymmynnodd*

efe i'n tadau eu dysgu i'w plant. Fel y gwybyddai'r oes a ddöl, sef y plant a'enid: a phan gyfodent, y mynegen hwy i'w plant hwythau. Deut. vi. 6, 7. xi. 18, 19.

3. Dyled Rhieni yw, hyfforddi eu Plant yn gynnar mewn Duwjoldeb, tra syddont yn jeuaging; megis y dysgwyd *Timotheus* gan ei Famgù a'i Fam, pan oedd yn sachgen, i wybod yr Ysgrythur Lân. 2 Dim. i. 5. — Diar. xxii. 6. Hyfforddia blentyn ym mhen ei ffordd: a phan beneiddio, nid ymedy â hi. Diar. viii. 17.

4. Dyled Rhieni yw, llefaru wrth eu Plant am Weithred-oedd yr Arglwydd, a'i Ddajoni ef iddunt, yn yr amser a aeth heibio. — Deut. iv. 9. *Gochel arnat, a chadw dy enaid yn ddyfal, rhag anghofio o honnt y petbau a welodd dy lygaid, a chilio o honunt allan o'th galon di holl ddyddjau dy einioes: ond hysbysa hwynt i'th feibion, ac i feibion dy feibion.* Deut. vi. 21, 22. Sal. xxxiv. 11.

5. Dyled Rhieni yw, ymresymmu â'u Plant, a'u perfwadio'n garuaidd ac yn serchog; fel Mam *Lemuel Frenin*. Canys sel hyn y dywedai hi wrtho: — Diar. xxxi. 2, 3. *Pa beth, fy mât? pa beth, mât fy ngŵrþ? ie pa beth, mât fy addunedau?* Na ddyro i wragedd dy nerib; na'th ffyrdd i'r hyn a ddifetha frenhinoedd.

6. Dyled Rhieni yw, ceryddu eu Plant, heb arbed eu cosbi, pan syddo'n angenrheidjol er llès iddunt. — Diar. xiii. 24. *Tyr hwn a arbedo'r wialen, sydd yn casáu ei fab: ond yr hwn a'i car ef, a'i cerydd a mewn amser.* — Diar. xxiii. 13, 14. Na thyn gerydd oddi wrth dy blentyn: o's curi ef â gwialen, ni bydd efe farw. *Cûr ef â gwialen, a thi a achubi ei enaid rhag uffern.* Diar. xix. 18. xxii. 15. xxix. 15, 17. Eccl. vii. 23.

7. Dyled Rhieni yw, rhoddi Esamplau da i'w Plant: canys anhawdd gan ddynjon i ymadel oddi wrth yr arferion drwg a ddysgasant gan eu Rhieni. Y bobl a ddywedodd wrth *Jeremii*, *Am y gair a lefaraist ti wrthym yn Enw'r Arglwydd, ni wrandawn ni arnat.* Ond gan wneuthur y gwnâwn ni bob peth a'r a ddelelo allan o'n genau, gan arogl-darthus i frenhines y nefoedd, a rhywallt iddi hi ddiodydd-offram, megis y gwnaethom, nyni a'n tadau. Jer. xliv. 16, 17. 2 Bren. xvii. 34, 41.

8. Dyled Rhieni yw, edrych na roddont hwy ormod o'u Seich ar eu Plant, i attal un mesur o'u Cariad i Dduw. —

Math.

Math. x. 37. *Yr hwn sydd yn caru'r tâd neu sam yn fwy nô myfi, nid yw deikwng o honosi: a'r neb sydd yn caru mân neu ferch yn fwy nô myfi, nid yw deikwng o honosi.*

Luc. xiv. 26.

9. Dyled *Rhieni* yw, dwyn eu Plant i fynu, yn ôl eu gradd a'u gallu, i ryw Waith neu Alwâd onest, a fo'n fwyaf cym-mwys iddunt yn ôl eu Dawn, ac yn lleiaf prosedigaethus; fel na byddont segur na diffrywth, eithr yn wasanaethgar yn eu cenhedlaeth. Un o blant *Adda*, Tywyfogion cyntaf a Blaenorïaid y byd, oedd *Uasurwr*, a'r llall oedd *fugail defaid*. **Gen. iv. 2.** — **i Cor. vii. 20.** *Pob un yn yr alwëdigaeir y galwyd ef, yn honno arhosed.*

10. Dyled *Rhieni* yw, gweddio beunydd dros eu Plant. — **Job i. 5.** — *Job a anfonai, ac a'u sancteiddiai hwynt (sef ei blant) ac a gyfodai'n forau, ac a offrymmai boeth-offrymmau yn ôl eu rhifedi hwynt oll.*

11. Dyled *Rhieni* yw, byw'n dduwjol eu hunain; fel y dêl Bendith Duw ar eu Plant, yn ôl ei Addewid ef. — **Deut. xii. 28.** *Cadw a gwrando'r holl eirjau hyn yr ydwyf f, yn eu gorchedd i ti; fel y byddo dajoni it', ac i'r feibion ar dy ôl byth.* — **Sal. cxii. 2.** — *Cenbedlaeth y rhai unjawn a fendithir.* **Diar. xx. 7.** — **Gen. 26, 4, 5.** **2 Bren. x. 30.**

12. Dyled *Rhieni* yw, gwneuthur eu gorau i beri i'w Plant ymgadw yn Ffordd Duw, ar ôl iddunt hwy eu hunain fyned o'r byd. Felly y gwnaeth *Abraham*: Duw a ddywedodd am dano, *Mi a'i hadwaen ef, y gorchedd i'w blant, ac i'w dylwyth ar ei ôl, gadw o honunt ffordd yr Arglwydd.* **Gen. xviii. 19.** — A *Dafydd* a orchymmynnodd i *Salomon* ei fâb, gan ddywedud, *Myfwyf yn myned ffordd yr holl ddabar: am hynny ymnertba, a bydd wr.* A chadw gadwriaeth yr Arglwydd dy 'Dduw, i rodio yn ei ffyrdd ef. **1 Bren. ii. 2, 3.**

13. Dyled *Rhieni* yw, priodi eu Plant â'r cyfryw ag y fo o Deulu'r Ffydd. *Abraham* a orchymmynnodd, na chymmerid gwraig i'w fâb o ferched y *Canaaneaid*; ond a anfodd i geisio priod iddo o'i Dylwyth ei hun. **Gen. xxiv. Ecclius. vii. 25.** **2 Cor. vi. 14.** **Barn. iii. 5—7.** **1 Bren. xi.**

4. **Gen. vi. 1—3.** **Sal. cvi. 35—37.**

14. Dyled *Rhieni* yw, ymddwyn yn ddyallus ac yn wedd-aidd; fel na roddont achos i'w Plant i ddiglonni, na digloni. —

Roni. — Eph. vi. 4. *A chwithou, dadau, na yrrwch eich plant i ddigio, ond maerbwob bwynt yn addysg ac atbrazejaeth yr Arglwydd.* — Col. iii. 21. — *Na chyffrowch eich plant, fel na ddigalonnont.*

15. Dyled Rhieni yw, gwneuthur rhagoriaeth rhwng eu Plant, yn ôl eu hymddygiad ; a dangos eu hanfodionrwydd i'r neb a fyddo'n annuwjol o honunt. *Jacob wrth farw, a felldigodd greulondeb Simeon a Lefi, am iddunt ladd Hemor a Sichem ; ac a ddierifeddodd Reuben o'i enedi-gaethfrant, am iddo halogi gweby ei dâd.* Gen. xlvi. 3—7. ■ Cron. v. 1, 2.

Cw. Pa rai yn bennaf yw Pechodau Rhieni yn erbyn y Pummed Gorchymwyn, a'r Gôsb sy'n dyfod o'u plegid ?

Att. 1. Esgeulufo Magwriaeth eu Plant, a'u gadel heb edrych am danunt : yr hyn sydd fwy annaturiol nà bwystfilod yr anialwch. — Galar. iv. 3, 4. *Y dreigiau a dynnant allan eu bronnan, ac a roddant sŵn i 'w censwön ; merch fy mbobl a aeth yn greulon, fel yr estrysiad yn yr anialwch.* Tafod y plentyn sŵn sydd yn glynw wrth daftod ei enau gan syched : y plant a osynnant fara, ond nid oedd i dorrai iddunt.

2. Goddef eu Plant i fyw yn anw'arudd ac yn ddigerydd mewn Drygioni. Hyn a dynnodd Ddigofaint Daw ar Eli, a Dinystr ar ei Dy ef. Eli a syrthiodd o'i eisteddle, ac a dorrodd ei wddf : ei ddau fab a fuant feirw yr un dydd, a'i hiljogaeth a dorwyd oddi wrth yr Offeiriadaeth. 1 Sam. ii, iii, a'r iv. ben.

3. Gormod o Serch a Mawrder i 'w Plant, neu i raj o'u Plant yn rhagorach nà'r lleill, sy'n arferol i ddwyn i 'w Rhieni Ofid a Blinder oddi wrthunt. Yr oedd yn fawr jawn ac yn hoff gan y Brenin Dafydd am Absalom, ac am Adonijah ; a hwynthwy ill dau a wrthryfelasant yn erbyn Dafydd eu Tâd. 2 Sam. xv—xviii. 1 Bren. i. 5, 6.

4. Esgeulufo hyfforddi eu Plant yn ddiwyd i ryw Waith neu Alwâd a fo cysaddas iddunt : canys Syrthni a Segurdra, a Gwibio neu Rodienna oddi amgylch, sy'n tywys i Brofesigaeth a Dinystr. Pan oedd Dafydd yn segur, y temtiwyd ef i Odineb a Galanasdra. 2 Sam. xi. — Pan oedd Dina merch Jacob yn rhodio'n segur oddi amgylch i weled merched y wlad, hi a dreifiwyd gan Sichem ; yr hyn a barodd lawer o Ddistryw a Melldith. Gen. xxxiv. — *Wele, hyn hefyd*

hefyd oedd an-wiredd Sodoma, a losgwyd â thân o'r nefoedd; sef, Balchder, digoneda bara, ac amlder o seguryd, oedd ynndi, ac yn ei merched. Ezec. xvi. 49. Gen. xix. 24, 25. Diar. xxi. 25.

5. Mae pob esgeulufiad o Foddion Grâs, ac o Addoliad Duw yn y Teulu, a phob drwg arferion a gwrthwynaeth i Dduwjoldeb, a fo'n rhwystr i Jechydwriaeth eu Plant, yn Bechoda'u sgeler yn y Rhieni. — Luc xvii. 1, 2. — Ni all na ddêl rhwystrau; ond gwae efe trwy'r hwn y deuant. Gwell fyddai iddo pe rhoddid maen melin o amgylch ei wddf ef, a'i daflu i'r môr, nag iddo rwyfro un o'r rhai bychain byn.

Cw. Beth yw Dyled Plant i'w Rhieni?

Att. 1. Ein Dyled yw, cyfarch yn barchus i'n Rhieni, a rhoddi Anrhydedd dyledus iddunt ar bob achos; megis y mae Esampl y Duwjoljon yn ein dysgu. — Ecsod. xviii. 7. Moses a aeth allan i gyfarfod â'i obwegrwn, ac a ym-grymmodd, ac a'i cusannodd ef; a chyfarchasant well bob un i'w gilydd. Pan ddaeth Mam y Brenin Salomon atto, y brenin a gododd i'w chyfarfod hi, ac a ostyngodd iddi, ac a'i gosododd i eistedd ar orseddfaingc ar ei ddebeulaw ef. I Bren. ii. 19. Eph. vi. 2, 3. Diar. xxiii. 22.

2. Ein Dyled yw, uffuddhâu i Eirchion cyfreithlon eñ Rhieni; megis yr uffuddhaodd Crist i'w Rieni, ac a fu ostyngedig iddunt. — Col. iii. 20. *Y plant, uffuddhêwch i'ch rhieni ym mhob peth: canys byn sydd yn rhyngu bodd i'r Arglwydd yn dda.* Luc ii. 51. Eph. vi. 1. Barn. xi. 36.

3. Ein Dyled yw, mawrhau'n Rhieni yn eu Henaint a'u Hangen; gan dalu'r fwyth iddunt: canys byn sydd dda a chymmeradwy ger bron Duw. I Dim. v. 4. — Joseph a gynbaliodd ei dâd, a'i frodyr, a holl dylwyth ei dâd, â bara, yn ôl eu reuluoedd. Gen. xlvii. 12. — Dafydd, pan ydoedd mewn dirfawr berygl ei hun, a ofalodd am ei Dâd a'i Fam; ac a ddywedodd wrth frenin Moab, *Deled artolwg fy nhâd a'm mam i aros gyd â chwi, hyd oni wypwyf beta a wñel Duw i mi.* I Sam. xxii. 3. — Ruth a gyffuroedd ei Mam-yng-nghyfraith, ac a lynodd wrthi mewn adfyd a llymder; a Duw a'i gwnaeth hi yn Wraig ac yn Fam enwog yn Isräel. Ruth i—iv. — Crist wrth farw, a orchym-mynnodd ei Fam i amgeledd Joan yr Apostol. Joan xix. 26, 27. Eccl. vii. 27, 28. iii. 5—12, 13, 16. Diar. x. 1, xxiii. 22.

4. Ein

4. Ein Dyled yw, perswadio'n Rhieni yn serchogaidd yn erbyn pob bwriad a gweithred ddrwg; a'u rhagflaenu, o's yw boffibl, rhag pechu yn erbyn Duw. Pan fwriadodd Saul i ladd Dafydd, Jonathan (ei fâb) a ddywedodd yn dda am Dafydd wrth Saul ei dâd, gan ddywedud wrtho, Na pheched y brenin yn erbyn ei wâs, yn erbyn Dafydd: o berwydd ni phechodd efe i'th erbyn di, ac o berwydd bod ei weithredoedd ef yn dda iawn i ri. Canys efe a osodes ei einioes yn ei law, ac a darawödd y Philistiad, a'r Arglwydd a wnaeth jechydwriaeth mawr i holl Isräel; ti a'i gwelaist, ac a lawenychaist: pa ham gan hynny y pechi yn erbyn gwaed gwirion, gan ladd Dafydd yn ddiachos? A Saul a dyngodd, Fel mai byw'r Arglwydd, ni leddir ef.

1 Sam. xix. 4—6.

5. Ein Dyled yw, derbyn a chadw'n ofalus holl Addysg a Chyngorion duwjol ein Rhieni; fel y bo'n dda i ni. — Diar. i. 8, 9. Fy mât, gwrando addysg dy dâd, ac nac ymado â chyfraith dy fam: canys cynnydd grâs a fyddant hwy i'th ben, a chadwyni am dy wddf di. Diar. iii. 1, 2. vi. 20.

6. Ein Dyled yw, ofni ein Rhieni yn barchedig, ac ymosflwng i'w Ceryddon hwy. — Lef. xix. 3. Ofnwch bob un ei fam, a'i dâd. — Diar. xv. 5. Dŷn ffîl a ddiystyria addysg ei dâd; ond y neb a ddioddefo gerydd, sydd gall.

7. Ein Dyled yw, ymddwyn yn dduwjol ac yn ddoeth ym mhob peth, er Cyffur i'n Rhieni. — Diar. xxiii. 24. Tâd y cyflawn a orfoledda yn fawr; a'r neb a genbedlo fab doeth, a lawenhâ o'i blegid. — Diar. x. 1. — Mât doeth a wna dâd llawen; a mât ffîl a drîstâ ei fam. Diar. xvii. 21, 25.

8. Ein Dyled yw, gweddio ar Dduw dros ein Rhieni. — 1 Dim. ii. 1. Cyngori yr ydwyf am hynny, ym mlaen pob peth, fod ymbiliau, gweddiau, deisysfiadau, a thalu diolch, dros bob dŷn.

9. Ein Dyled yw, gofyn Cyngor a Chydsyniad ein Rhieni, pan feddyliom fyned i 'Stâd Briodas. Samson a ddaeth, ac a fynegodd i'w dâd a'i fam, am gymmeryd un yn Wraig iddo. Barn. xiv. 2. — Isaac a briododd yn ôl ewyllys ei Dâd; a Duw a'i bendithiodd ef yn helaeth. Gen. xxiv.

10. Ein Dyled yw, dechrau byw yn dduwjol yn gynnar: canys Duwjoldeb a'n dysg i gyflawni pob Dyledswyddau'n gydwybodol tu ag at ein Rhieni, a phawb eraill. Y Brenin Josiah

Josiah a ddechbrenodd geisio Duw, tra'r ydoedd efe erro yn fachgen. 2 Cron. xxxiv. 3. — *A Thimothēus yn fachgen oedd yn gwybod yr ysgrythur lân.* 2 Dim. iii. 15. — *Obadiah oedd yn ofni'r Arglwydd o'i febyd.* 1 Bren. xviii. 12. — *A'r Brenin Dafydd oedd â'i obraith yn Nuw, ac a ddysgwyd gan Dduw o'i jeuengctid.* Sal. lxxi. 5, 17.

Cw. Pa rai yn bennaf yw Pechodau Plant yn erbyn y Pummed Gorchymmyn, a'r Gôsb sy'n arferol o'u canlyn?

Att. 1. *Gwrthod Ceryddon eu Rhieni; ag sy'n argoel echrydus fod Duw wedi eu rhoddi hwynt i tynu i Ddinyfr, am eu Pechodau o'r blaen, fel Plant Eli.* — 1 Sam. ii. 23, 25. *Efe a ddywedodd wrthunt hwy, Pa ham y gwnaethoch y petbau byn? canys clywaf gan yr holl bobl byn ddryg-air i chwi.* O's gŵr a becha yn erbyn gŵr, y swyddogion a'i barnant ef: ond o's yn erbyn yr Arglwydd y pecha gŵr, fwy a eirjol drosto ef? *Ond ni wrandawfiant ar lais eu tâd, am y mynnai'r Arglwydd en lladd hwynt.*

2. *Cymmeryd Meddiant eu Rhieni heb eu Ceonad; ag sy'n dwyn ar y cyfryw Blant Euogrwydd mawr a Gwradwydd.* — Diar. xxviii. 24. *Y neb a ysbeilio ei dâd, neu ei fam, ac a ddywed, Nid yw hyn gamwedd, sydd gymmar i dlinystriwr.* — Diar. xix. 26. *Mib gwradwyddus gwarthus a anrheithia ei dâd, ac a grr ei fam ar grwydr.*

3. *Cyndynrwydd ac Anufudd-dod i'w Rhieni; gan fyw yn ddrygionus, heb wrando ar lais eu Tâd a'u Mam: y cyfryw blant a labyddid gynt i Farwolaeth, er rhybudd i eraill.* — Deut. xxi. 18, 21. *O bydd iŵr fab cyndyn, ac anufudd, heb wrando ar lais ei dâd, neu ar lais ei fam; a phan geryddant ef, ni wrendy arnunt: yna holl ddynjon ei ddinas a'i llabyddiant ef â mein, fel y byddo farw.* Rhuf. i. 28, 30. 2 Dim. iii. 1, 2.

4. *Dirmygw neu wawdio eu Rhieni; ag sy'n tynnu ar Blant Felldith Duw, a Cheryddon erchyll.* — Deut. xxvii. 16. *Melldigedig yw'r hwn a ddirmyggo ei dâd, neu ei fam: a dyweded yr holl bobl, Amen.* — Diar. xxx. 17. *Llygad yr hwn a warwaro ei dâd, ac a ddiystyro ufuiddbau ei fam, a dynn cigfrain y dyffryn, a'r cywjon eryrod a'i brwyty.*

5. *Melldithio, neu daro Tâd, neu Fam; yr hyn a gosbid gynt â Marwolaeth.* — Ecsod. xxi. 15. *Y neb a darawò ei dâd, neu ei fam, rhodder ef i farwolaeth.* — Lef. xx. 9. *O's bydd neb a felldigo ei dâd, neu ei fam, lladder ef yn farw:*

farw : ei dâd, neu ei fam, a felldigodd efe ; ei waed sydd arno ei bun. —— Diar. xx. 20. *T neb a felldithio ei dâd, neu ei fam, ei ganwyll a ddiffoddir yn y tywyllwch du.*

6. Trachwantu Etifeddiaeth eu *Rhieni* yn anghyflawn, yn amser eu bywyd. *Absalom a chwennychodd Frenhiniaeth ei Dâd Dafydd*, ac a geisiodd, trwy wrthryfel, ei dwyn oddi arno : yr hyn a barodd *laddfa farwr i ugain mil o'r rhai a'i canlynasant ef*; ac *Absalom ei hun a ddaliwyd ynghrôg ym mûig derwén*, hyd oni laddwyd ef. 2 Sam. xviii. 7 — 9, 14, 15.

7. Mynegi wrth eraill Wradwydd eu *Rhieni*, yn lle ei orchguddio a'i gelu : hyn a ddygodd Felldith ac Afwydd ar un o feibion Noah. —— Gen. ix. 22, 24, 25. *Cam rât Canaan a welodd noethni ei dâd, ac a fynegodd i'w ddau frod yr allan. A Noah a ddeffrôdd o'i wîn, ac a wybu beth a wnaethai ei fab jeuangaf iddo. Ac efe a ddywedodd, Mell-digedig fyddo Canaan, gwâs gweision i'w frod yr fydd.*

8. Priodi heb Gyngor a Chydsyniad eu *Rhieni*; ag sy'n chwanegu Pechod, ac yn tynnu Barn a Gofidiau trymmion. *Meibion Duw*, sef y rhai oedd ynt yn arddel Crefydd yn yr hên fyd, a briodasant yn ôl chwant eu llygaid â merched dynion, a fu'n achos i Bechod gynhyddu yn ddifawr; nes dyfod y Diluw o'r diwedd i'w boddi hwynt. Gen. vi. 1 — 7. vii. *Esau a briododd heb Gyngor a Chydsyniad ei Dâd a'i Fam*; a'r peth fu'n chwerwder ysbyrd, ac yn ofid mawr iddunt; ac yntef a gollodd y Fendith, a'i Enedigaethfraint. Gen. xxvi. 34, 35. xxvii.

Cw. Beth yw Dyled *Meistr*, a *Phennau Teuluoedd*, tu ag at eu Gwasanaethwyr, a *Thylwyth* eu *Tŷ*?

Art. 1. Dyled *Meistr* a *Phennau Teuluoedd* yw, addoli Duw, a'i wasanaethu yn ddyfal; a pheri i'w Tylwyth, hyd ag a allont hwy, i wneuthur felly hesyd. —— Jos. xxiv. 15. *Josua a ddywedodd, Myf i'm tylwyth a wasanaethwn yr Arglwydd.* —— Act. x. 2. Cornelius oedd wr desfisionol, ac yn ofni Duw, yngyd â'i holl dŷ, ac yn gwneuthur lawer o elusenau i'r bobl, ac yn gweiddio Duw yn waftadol.

2. Dyled *Meistr* a *Phennau Teuluoedd* yw, dewis iddunt Deulu duwjol; sel y llwyddo eu gwaith, trwy Fendith Duw arno. Meistr Joseph a'i gwnaeth ef yn olygwyr ar ei dŷ. Ac er pan wnaethai efe ef yn olygwyr ar ei dŷ, ac ar yr hyn oll oedd eiddo, bu i'r Arglwydd fendithio tŷ'r Aipbriad, er mwyn Joseph: ac yr oedd bendith yr Arglwydd

glwydd ar yr hyn oll oedd eiddo ef yn y tir, ac yn y mae.

Gen. xxxix. 4, 5.

3. Dyled Meistred a Phennau Teuluoedd yw, gyrru oddi wrthunt yr Annuwjolion, na fynno ddiwygio; rhag iddunt lygru'r lleill. — Sal. ci. 6, 7. *Dafydd sy'n dywedud, Fy llygaid sydd ar ffyddlonjaid y tir, fel y trigone gyd â mi : yr bwn a rodio mewn ffordd berffaith, bwnnw a'm gwasanaetha i. Ni thrig o fewn fy nhŷ yr un a wneolo dwyll : ni thrig yn fyngolwg yr un a ddywedo getwydd.*

4. Dyled Meistred a Phennau Teuluoedd yw, gwilio'n ofalus, ar i bob un o'u Tŷ gadw'r Sabbôth yn ddihalog i Dduw. — Ecsod. xx. 10. *T seithfed dydd yw Sabbôth yr Arglwydd dy Dduw : na wna ynddo ddim gwaith, tydi, na'th fab, na'th ferch, na'th wasanaethwr, na'th wasanaethferch, na'th anifail, na'th ddeithbr dlyn a fyddo o fewn dy byrth.*

5. Dyled Meistred yw, dwyn eu Teulu i Ordinhadau ac Addoliad Duw gyd â hwynt. Pan dderbyniodd Abramam sêl weledig y Cyfammod, efe a ddygodd ei Deulu dan y Cyfammod gyd ag ef. — Gen. xvii. 26, 27. *O fewn corib y dydd bwnnw'r enwaedwyd Abramam, ac Ismäel ei fab. A holl ddynjon ei dy ef y rhai a anesid yn ry, ac a brynesit ag arjan gan neb dieithr, a enwaedwyd gyd ag ef.*

6. Dyled Meistred yw, darparu Lluniaeth ac Ymborth, a phob peth angenheidjol a chyfaddas at Gynhaliaeth eu Tylwyth. — 1 Dim. v. 8. *Ac od oes neb heb ddarvod dros yr eiddo, ac yn enwediog ei deulu, efe a wadodd y ffydd, a gwaeth yw nâ'r diffydd.*

7. Dyled Meistred yw, delio'n gyflawn â'u Gwasanaethwyr ym mhob peth; a thalu eu Cyflogaon pan fyddont yn ddyledus. — Col. iv. 1. *T meistred, gwnêrwr i'ch gweision yr hyn sydd gyflawn ac unjawn, gan wybod fod i chwitrâu Feisir yn y nesoedd. — Deut. xxiv. 14, 15. Na orthrymma wâs cyflog tlawd ac anghenus, o'th frod yr, neu o'th ddeithbr ddy'n a fyddo yn dy dir, o fewn dy byrth di. Yn ei ddydd y rhodd iiddo ei gyslog, ac na facbluded yr haul arno, canys tlawd yw, ac â hyn g mae yn cynnal ei einioes: fel na lefo ar yr Arglwydd yn dy erbyn, a bod peckod ynnor. Lef. xix. 13.*

8. Dyled Meistred yw, ymddwyn yn hynawsaidd ac yn dirion, nid yn fygythus ac yn draws, tu ag at eu Gwasanaethwyr.

naethwyr. — Eph. vi. 9. *A chwithau, feistred, gwnêrwb yr un pethau tu ag attunt hwy; gan roddi bygwth heibio: gan cybod fod eich Arglwydd chwi a hwythau yn y nesoedd; ac nid oes derbyn wyneb gyd ag ef.* Ief. xxv. 39, 40, 43.

9. Dyled *Meistred* yw, tosturio wrth eu Gwasanaethwyr, pan fyddo neb o honunt mewn Blinder neu Gyfudd. Job dduwjol a ddywaid, Job xxxi. 13—15. *O's diysyrais achos syngwâs a'm gwasanaethferch, pan ymrysonent â mi: pa beth gan bynny a wnaf pan godo Duw? a phan ymwelo efe, pa beth a atebaf iddo?* Onid yr hwn a'm gwnaeth i yn y grôth, a'i gwnaeth yntef? ac onid yr un a'n lluniodd yn y bru? Y Canwriad defosiynol a aeth at Grist dros ei Wâs a oedd yn glâf, i ymofyn Jachâad iddo. Math. viii. 5—13.

10. Dyled *Meistred* yw, rhwymo eu Gwasanaethwyr, hyd ag allont, i gadw yn Ffordd Duw; nid yn unig tra fyddont gyd â hwynt, ond hefyd yn ôl llaw. Duw a ddywedodd am Abraham, *Mi a'i hadwaen ef, y gorchymmyn efe i'w blant, ac i'w dylwyth ar ei ôl, gadw o honunt ffordd yr Arglwydd, gan wneuthur cyfiawnder a barn.* Gen. xviii. 19.

11. Dyled *Meistred* yw, rhoddi Esampl fucheddol o flaen eu Gwasanaethwyr: canys pob Penteulu a ddylai ddywedud gyd â Dafydd, *Byddaf ddyallus mewn ffordd berffairb: — rhodiad mewn perfeithrwydd fy ngâlon o fewn fy nhŷ.* Sal. ci. 2.

Cw. Pa rai yn bennaf yw Pechodau *Meistred* yn erbyn y Pummed Gorchymmyn, a'r Perygl neu'r Gôsh o honunt?

Act. 1. Gorchymmyn i'w Gwasanaethwyr y peth sy'n anghyfreithlon; megis gwaith neu negesau afreidjol ar y Sabbath, neu beth bynnag sy'n wrthwyneb i Orchymmynnion Duw. — *Act. v. 29.* — Rhaid yw usuddhâu i Duw yn fwy nag i ddynion. Brenin *Affuria* a anfonodd Rabsaceb i fygwth *Isræel*, ac i gablu'r Duw byw; ac ar ôl bynny Duw a'i distrywiodd ef. *Esay* xxxvii.

2. Delio'n greulon, a dodi'n rhy galed wrth eu Gwasanaethwyr. *Pharao a ddeliodd yn greulon â Phobl Isræel, gan benni iddunt wneuthur priddseini heb wellt;* a'i ddiweddfu, boddi yn y *Môr Coch*. Ecsod. v, xiv. — *Nabal* oedd feistr caled a sarrug, yn fab *Belial*, na ellid ymddiddan ag ef;

ef; a Duw a'i tarawödd, fel y bu efe farw. 1 Sam. xxv.

3. Attal eu Cyflogau, ac oedi eu Taledigaeth pan sytho ddyledus; yngylch yr hyn y dug Duw ei hun Dystiolaeth yn eu herbyn. — Mal. iii. 5. *Ami a nesaf atroch cbwi i farn, a byddaf dyst cyflwm yn erbyn yr budolion, ac yn erbyn y godinebwyr, a o yn erbyn yr anudonwyr, ac yn erbyn camatallwyr cyflog y cyflogedig.* — Jago v.4. *Wele, y mae cyflog y gweithwyr a fedasant eich meusydd cbwi, yr hwn a gamartaliwyd gennych, yn llesfain: a llesfain y rhai a fedasant a ddaeth i mewn i glustiau Arglwydd y lluoedd.*

4. Esgeulufo dysgu a hyfforddio eu Gwasanaethwyr yn Ofn yr Arglwydd; a byw heb Addoliad Duw yn eu Teiau, er Adeiladaeth i'w Teulu: ye hyn a dyn Lîd a Melldith Duw arnunt. — Jer. x. 25. *Tywalt dy lîd ar y cenhedloedd ni alwasant ar dy Enw.* — Diar. iii. 33. *Melldith yr Arglwydd sydd yn nhî'r annuwjol: ond efe a fendithia drigfa'r cyflawn.*

Cw. Pa rai yw Dyledswyddau Gwasanaethwyr tu ag at eu Meistred, a gynhwysir yn y Pummed Gorchymmyn?

Att. 1. Dyled Gwasanaethwyr yw, dewis iddunt eu hunain Feistred duwjol a fo'n ofni Duw: canys mae'n anghyffurus ac yn beryglus, i fyw gyd â'r annuwjol a fo'n cablu Duw. *Dafydd a ddywedai, Gwae fi fy mod yn preswylio ym Meslech, yn cyfaneddu ym mbebyll Cedar.* Sal. cxx. 5. — A Joseph a ddysgodd dyngu yn Llys Pharao. Gen. xlvi. 15. — 1 Cor. xv. 33. *Na thwyller cbwi: y mae ymddiddanion drwg yn llygru moesau da.*

2. Dyled Gwasanaethwyr yw, usuddhau yn ddinâg i'w Meistred, a'u gwafanaethu yn ewyllysgar ac yn ddidwyd yn Ofn Duw. — Eph. vi. 5—7. *X gweision, usuddhewch i'r rhai sydd arglwyddi i cbwi yn ôl y cnawd, gyd ag ofn a dychrynn, yn symtrwydd eich calon, megis i Crist; nid â golwg-wafanaerb, fel bodlonwyr dynjon, ond fel gweision Crist, yn gwneuthur gwafanaeth megis i'r Arglwydd, ac mid i ddynjon.* Col. iii. 22—25.

3. Dyled Gwasanaethwyr yw, rhoddi Parch dyledus ac Anhydedd i'w Meistred; fel na ddygont ammarch i Enw Duw, trwy ymddwlyn yn ddibarch i'w Meistred. — 1 Dim. vi. 1. *Cynnifer ag sy wasanaethwyr dan y jau, tybiant eu meistred eu hun yn deilwng o bob anrhydedd; fel na chabler Enw Duw, a'i athrawjaeth ef.* Mal. i. 6.

4. Dyled Gwasanaethwyr yw, bod yn ofalus i ryngu bodd eu Meistred yn dda; nid yn wrthwyneb nac yn anoneist mewn dim, eithr yn usudd ac yn ffyddlon ym mhob peth.

— Dit. ii. 9, 10. Cyngthora weision i fod yn ddarostyngedig i'w meistred eu hun, ac i ryngu bodd iddunt ym mhob perth; nid yn gwrthddywedud, nid yn darnguddio, ond yn dangos pob ffyddlondeb da; fel yr harddon atbrawjaeth Dduw ein Jachawdwr ym mhob perth.

5. Dyled Gwasanaethwyr yw, ymddwyn yn osyngedig tu ag at eu Meistred, pa fath ddynjon bynnag y fyddont; gan fod yn ammyneddus pan dioddefont ar gam. — i Pedr ii. 18. Y gweision, byddwch ddarostyngedig gyd â phob ofn i'ch meistred, nid yn unig i'r rhai da a chyweithas, eithr i'r rhai anghyweithas hefyd.

6. Dyled Gwasanaethwyr yw, cyflawni Cennadwri a Negesau eu Meistred yn ddoeth ac yn ffyddlon. — Diar. xxv. 13. Megis oerder eira yn amser cynhauf, yw cennad ffyddlon i'r rhai a'i gyrrant: canys efe a larwenycha enaid ei feistred. — Diar. xiii. 17. Cennad annurwyl a syrth i ddrygioni; ond cennad ffyddlon sydd jeckyd.

7. Dyled Gwasanaethwyr yw, rhoddi eu bryd i fod yn ofalus ac yn ddiwyd yn eu Gwasanaeth; fel na byddo Colled i'w Meistred mewn dim, trwy eu Diofalwch a'u Hesgeulusrdrwy: megis y tytiolaetha Jacob am ei Ddysfalwch onest dros ugain mlynedd yng ngwasanaeth Laban. — Gen. xxxi.

38—41. Myfi bellach a fum ugain mlynedd gyd â thi; dy ddefaid a'th eifr ni ertbylasant; ac ni fwyeais byrddod â braidd. Ni ddygum ysglyfaeth attat ti; myfi o'i gwnaeon ef yn dda; o'm llaw i y gosynnit hynny, yr hyn a ledrattéid y dydd, a'r hyn a ledrattéid y nos. Bum, y dydd gwrës a'm treuliodd, a'r hew y nos; a'm cwsg a giliodd oddi wrth fy llygaid. Felly y bum i ugain mlynedd yn dy dydi.

8. Dyled Gwasanaethwyr yw, ewyllysto'n dda i'w Meistred, a gwneuthur eu gorau i'w diflino hwy o'u Tralled, a rhagflaenu Niwaid iddunt. Trwy fynegaeth ei gwâs yr aeth Abigail i ostegu digofaint Dafydd, ag a oedd taiogrwydd Nabal ei gŵr wedi ei gyffroi i ddigllonedd mawr jawn; ac felly yr achubodd hi ei hun a'i holl dylwyth rhag eu diflrywio cyn y borau drannoeth. — Sam. xxv. — Trwy gyfarwyddyd morwyn fychan, yr aeth Naaman, tywysog Ilu Brenin Assyria, at y Prophwyd yn Isræl, i gael ei jachâu o'i

o'i wahanglwyr; a thrwy gyngor doeth ei weision y hu, na ddychwelodd Naaman yn ei ôl yn ddigofus heb ei jachâu o'i glefyd. 2 Bren. v.

9. Dyled Gwasanaethwyr yw, gweddio dros eu *Meistred*, ac am Fendith Duw a Llwyddiant yn eu Gwaith a'u Hachos hwynt. *Gwâs Abraham*, pan oedd yn myned ar gennadwri-aeth ei Feistr, oedd yn gweddio Duw ar hyd y ffordd am lwyddiant yn achos ei Feistr. — Gen. xxiv. 12. *Efe a ddywedodd, O Arglwydd Darw fy meistr Abraham, atrolwg, pár i mi lwyddiant beddyw; a gwñâ drugaredd â'm meistr Abraham.*

Cw. Pa rai yn bennaf yw Pechodau Gwasanaethwyr yn erbyn y Pummed Gorchymmyn, a'r Perygl neu'r Gôsb o honunt?

Att. 1. Taiogrwydd, a Gwrthddywedud, ac Anufudd-dod i'w Meistred; yr hyn ni ddiangc yn ddigerydd. I'r rhai sydd gynhennus y bydd llid a digofaint. — Eph. v. 6. Na th-wyllled neb chwi â geirjau ofer: canys o blegid y pethau hyn y mae digofaint Duw yn dyfod ar blant yr anufudd-dod.

2. Anghyfiawnder, neu Anonestrwydd, ac Anffyddlondeb, yng Ngwasanaeth eu *Meistred*. — Luc xii. 46. *Daw Arglwydd y gwâs hwnniw mewn dydd nad yw efe yn gwybol, ac a'i gwahana ef, ac a esyd ei ran ef gyd â'r anffyddlonjaid.* — Rhuf. i. 18. *Canys digofaint Duw a ddadguddwyd o'r nef, yn erbyn pob annuwjoldeb ac anghyfiawnder dynjon.*

3. Llyfelu a dywedud Anwiredd wrth eu *Meistred*, neu wrth eraill yn enw ac achos eu *Meistred*. *Gebezi, gwâs Eli-sêus y Prophwyd, a ddywedodd gelwydd yn enw ei Feistr wrth Naaman, a suafai'n wahanglwysus; a gwahanglwyr Naaman a lynnodd wrth Gebezi, a'i bâd yn dragwydd.* 2 Bren. v. 20—27.

4. Diofalwch a Syrthni yng ngwaith ac achosion eu *Meistred*; ag y ddylai ddwyn ar gôf iddunt Eirjau'n Har-glywydd Jesu yn Nammeg y Talentau: — *Ha, wâs drwg a diog!* — *Cymmerwch y dalent oddi wrtho, — a bwriwch allan y gwâs anfuddiol i'r tywyllwch eithaf: yno y bydd wylo-fain a rhingcian dannedd.* Math. xxv. 26—30.

5. Dilyn Afreolaeth a Gwylltineb y Cnawd, yn wrthwneb i Gynghorion da a Cheryddon eu *Meistred*: yr hyn a

ddug Ddinystr arnunt yn y diwedd. — Diar. xxix. 1. *Gŵr a gerydder yn fymych, ac a galeda ei warr, a ddryllir yn ddisymmwth, fel na byddo meddyginaeth.* Diar. v. 11—13.

Cw. Beth yw'ch Dyled tu ag at y rhai sydd hynach a gwell nā chwi?

Att. 1. Ni a ddylem ymddwyn yn ostyngedig ac yn barchus tu ag attunt. — Lef. xix. 32. *Cyfod ger bron penwynni; a pharcha wyneb benurjad.* — 1 Pedr v. 5. *Trun ffenyd jieuangc, byddwch ostyngedig i'r benurjaid. A byddwch barb yn ostyngedig i'w gilydd.*

2. Ni a ddylem fod yn bwyllog, ac nid yn rhy chwannog i chwedleua'n thesymmau ein hunain, o flaen ein gwell, a'r cyfryw a fo'n hynach, neu'n fwy anrhydeddus a dyallus nā ni. — Job xxxii. 4, 6, 7. *Elihu a arhosafai ar Job nes darfod iddo lefaru: canys — Elihu — a ddywedodd, Jeuangc ydwyf o oedran, chwithau ydych hēn jawn: am hynny'r arswydais, ac yr ofnais ddangos fy meddwl i chwi. Dywedais, Dyddjau a draethant, a lliaws o flynyddoedd a ddysgant ddoethineb.* Diar. xvii. 27. Jago i. 19.

3. Ni a ddylem roddi'r blaen a'r lle uchaf iddupt, pan fyddom yn eu cymdeithas hwy. — Luc xiv. 8. *Pan y'th wahodder gan neb i neithior, nac eistedd yn y lle uchaf, rhag bod un anrhydeddusach nā thi wedi ei wahodd ganddo.*

4. Ni a ddylem gynghori'r rhai oedrannus, a phawb o'n gwell, yn garuaidd ac yn addfwyn, fel ein Tadau a'n Mammau, o's byddant yn feius mewn dim, ac nid eu cerddu yn anserchog neu'n ddigofus. — 1 Dim. v. 1, 2. *Na cheryddha bynafwr, eithr cynghora ef megis tâd; a'r rhai jieuangc, megis brodyr; yr hen wragedd, megis mammau; yr rhai jieuangc, megis chwiorydd, gy'd â phob purdeb.*

Cw. Beth yw Dyled y rhai oedrannus ac anrhydeddus tu ag at y rhai sydd yn is, neu jieuangach nā hwynt?

Att. 1. Hwy a ddylent roddi Esampl dduwjol, ac Athrawjaeth dda, i'r rhai sydd jau ac yn is nā hwynt; megis y mae'r Apostol yn cynghori: — Dit. ii. 2—4. Bod o'r bynafgyr yn sobr, yn oneft, yn gymbesur, yn jach yn y ffydd, yng ngbariad, mewn ammynedd: bod o'r bynafwragedd yr un ffenyd mewn gmeddygiad, fel y gweddai i sancteiddrwydd; nid yn enllibaidd, nid wedi ymroi i wîn lærer, yn rboi askrawjaeth o ddajoni; fel y gallont wneuthur

wneuthur y gwragedd jeuaiingc yn bwyllog, i garu eu gwyr, i garu eu plant.

2. *Hwy a ddylent fod yn serchog ac yn hawddgar yn eu hymddygiad tu ag at y rhai sydd yn jau ac yn is na bwynt; ac nid ymddwyn yn draws ac yn frochus tu ag attunt.* — Math. xviii. 10. *Edrychwch na ddirmygoch yr un o'r rbai bychain byn.* — 1 Sam. ii. 3. *Na'chwanegwch lefaru yn uchel uchel; na ddeued allan ddim balch o'ch genou: canys Dirw gwybodaeth yw'r Arglwydd, a'i amcanion ef a gyflawnir.*

3. *Hwy a ddylent gynhorhwyd a chynnal y rhai sydd is, ac yn wannach; a chydgyfrannu â hwy yn ôl eu gallu.* — Rhuf. xv. 1. *Nyni y rhai ydym gryfion, a ddylem gynnal gwendid y rbai gweinjaid, ac nid rbyngu ein bodd ein bunain.* — 1 Pedr iv. 10. *Pob un megis y derbyniodd rodd, cyfrenwch â'i gilydd, fel dajonus oruchwilwyr amryw râs Duw.*

4. *Hwy a ddylent chwilio am y rhai sydd mewn Tristwch a Thrallod, i'w cyffuro a'u diddanu.* — Jago i. 27. *Crefydd bur a dihalogedig ger bron Duw a'r Tad yw byn; I'mweled â'r amddifaid a'r gwragedd gweddwon yn eu hadfyd, a'i gadw ei hun yn ddifrycheulyd oddi wrth y byd.*

Cw. Beth yw'ch Dyled tu ag at eich Cydraddau, ac i bawb yn gyffredinol?

Att. 1. Ein Dyled yw, gwneuthur ein gorau i dynnu ei gilydd oddi wrth Bechod; canys y gwaethaf o bob drygau yw. — Lef. xix. 17. *Na chasâ dy frawd yn dy galon: gan geryddu cerydd dy gymmydog, ac na ddioddef bechod ynddo.* Diar. xxvii. 5, 6. xxviii. 23.

2. *Ein Dyled yw, annog a chymhell ei gilydd yn y blaen i bob Dajoni, a Gweithredoedd da.* — Hebr. x. 24, 25. *A chydystriwn bawb ei gilydd, i ymannog i gariad a gweithredoedd da: heb esgeuluso ein cydgynhulliad ein bunain, megis y mae arfer rbai; ond annog bawb ei gilydd: a hynny yn fwy, o gymaint a'ch bod yn gweled y dydd yn nesâu.* — Hebr. iii. 13. *Cyngorwch ei gilydd bob dydd, tra y gelwir hi, Heddyw; fel na chaleder neb o honoch trwy ddyll pechod.* Diar. xxvii. 9. Col. iii. 16.

3. *Ein Dyled yw, delio'n gywir ac yn ffyddlon, yn gyfawn ac yn oneft, â'i gilydd, ym mhob peth.* — Math. vii. 12. *Pa bethau bynnag oll a ewyllystoch au ganeutbur*

o ddynjon i chwi, felly gwnêwch chwithau iddunt hwy : canys hyn yw'r gyfraith o'r prophwydi. Luc xvi. 10. Hebr. xiii. 18.

4. Ein Dyled yw, ymddwyn yn ostyngedig i'w gilydd, ac i bawb. — i Pedr v. 5. — Byddwch bawb yn ostyngedig i'w gilydd, ac ymdrwsiwch oddi fewn â gostynggeiddrywydd : o blegid y mae Duw yn gwrthwynebu y beilchion, ac yn rhoddi grâs i'r rhai gostyngedig. — Phil. ii. 3. Na wneler dim-trwy gynnen neu wâgogoniant, eithr mewn gostynggeiddrywydd, gan dybiaid eu gilydd yn well nà chwi eich hunain. Rhuf. xiii. 16. Eph. v. 21.

5. Ein Dyled yw, byw'n gyttun ac yn heddychol â'i gilydd ; gan ymwrthod â phob Amrafaelion cynhennus a Chynfigen. — i Theffl. v. 13. — Byddwch dangnafeddus yn eich plith eich hunain. — Gal. v. 26. Na syddwch wâgogoneddar, gan ymannog ei gilydd, gan ymgynfigennu wrth ei gilydd. Phil. ii. 2, 3.

6. Ein Dyled yw, ceisio Llesiant ac Elw ei gilydd, ac nid bob un ei Lês ei hun yn unig. — Phil. ii. 4. Nac edrych-wch bob un ar yr eiddoch eich hunain, eithr pob un ar yr eiddo eraill befyd. i Cor. xiii. 5. x. 24.

7. Ein Dyled yw, perchi a gwafanaethu ei gilydd yn garaidd ac yn ferchog, a maddau i'w gilydd yn garedig ; fel na byddo na Llîd na Digter yn cael lle yn ein mysg. — Rhuf. xii. 9, 10. Bydded cariad yn ddiragrith : casewch y drwg, a glynwch wrth y da. Mewn cariad brawdol byddwch garedig i'w gilyda, yn rhoddi parch yn blaenorï ei gilydd. — Eph. iv. 31, 32. Tynner ymmaith bob chwerwedd, a llid, a dig, a llefain, a chabedd, gyd â phob drygioni. A byddwch gymmwynasgar i'w gilydd, yn dosuriol, yn maddau i'w gilydd, megis y maddeuodd Duw er mwyn Crist i chwithau. Col. iii. 12, 13. i Pedr iii. 8. iv. 8. Jago iii. 13-17.

8. Ein Dyled yw, caru ei gilydd fel Brodyr, ac nà syddo'n wrthwyneb gennym, i garu ein Gelynjon. — i Cor. xvi. 14. Gwneler eich holl berthau chwi mewn cariad. — Math. v. 44, 45. — Cerwch eich gelynjon, bendithiwrch y rhai a'ch melldithiant, gwnêwch dda i'r sawl a'ch cásaint, a gweddiwrch dros y rhai a'wnel niwaid i chwi, ac a'ch erlidiant ; fel y byddoch blant i'ch Tâd yr bwn sydd yn y nefoedd.

9. Ein Dyled yw, gweddio ar Dduw yn ddyfal dros ei gilydd ; a diolch i Dduw am Drugareddau ei gilydd. —
1 Dim. ii. 1. *Cynggori yr ydwyf am bwnny, ym mlaen pob petb, fod ymbiliau, gweddiau, deisfyfiadau, a thalu diolch, dros bob dyn.* Jago v. 16.

Cw. Beth yw'r Chweched Gorchymwyn?

Att. Na ladd.

Cw. Ynghylch pa beth y mae'r Chweched Gorchymwyn?
Att. Mae'r Chweched Gorchymwyn ynghylch Diogelwch ein Heinioes ni ; ac yn gofod Rhwymedigaeth ar bawb, na bo i'r naill Ddŷn i ladd, na drygu Bywyd un arall ; nac ychwaith i ddisfrywio na drygu ei Fywyd ei hun.

Cw. A ellir ddim yn ddibechod i gymmeryd Bywyd un-dyn oddi wrtho ar nebrhyw achos oll ?

Att. Fe ellir cymmeryd Bywyd Dŷn oddi wrtho yn ddibechod ar yr achofion hyn.

1. Mae'n ddyledus i Farnwyr roddi i Farwolaeth y cyfryw Ddrwgweithredwyr, ag y fo'n haeddu marw yn ôl Gorchymwyn Duw. — Deut. xix. 21. *Nac arbeded dy lygad : bydded einioes am einioes, llygad am lygad, dant am ddant, llaw am law, troed am droed.* Gen. ix. 6. Lef. xxiv. 17.

2. Mae'n gyflawn i ladd ein Gelynjon mewn Rhyfel cyfreithlon, yn amddiffynniad ein Crefydd a'n Gwlâd, pan fônt yn ymosod arnom i'n difetha. Canys y mae'r Arglwydd yn cynghori ei Bobl, pan elont i Rysel yn erbyn eu Gor-thrymwyr, i ganu alarwm mewn udgorn ; ac yn addo cosio am danunt i'w hachub rhag eu Gelynjon. Num. x. 9. — Ac yn yr Efengyl y cynghorir Milwyr, nid i adel eu Swydd, ond i ymddwyn ynthi yn ddiargyoedd. Luc iii. 14. vii. 2-9. Joan xviii. 36. Barn. v. 23. Jer. xlvi. 10.

3. Y mae'n ddieuog y neb a ddigwyddo i ladd Llofrudd neu Leidr, yn amddiffynniad ei Fywyd ei hun. — Ecsod. xxii. 2. *O's cair lleidr yn torri tŷ, a'i daro fel y byddo farw, na choller gwaed am dano.*

4. Y mae'r cyfryw, yn ôl Cyfraith Duw, yn ddieuog o Farwolaeth, a ddigwyddo i ladd un arall mewn Amryfusedd heb wybod iddo, ac heb Fwriad drwg na Chafineb atto o'r blaen. — Deut. xix. 5. *Megis pan elo un gyd â'i gym-*

mydog i'r coed, i gymmynu pren, ac a estyn ei law d'r fwyall i dorri'r pren, a syribio'r baiarn o'r menybr, a chyrhaeddyl ei gymmydog fel y byddo farw, efe a gaiff ffoi i un o'r dinasoedd byn, a byw. Deut. iv. 41, 42. Ec-sod. xxi. 12, 13.

Cw. Pa Bechodau a waherddir yn y Chweched Gor-chymmyn?

Att. Fe waherddir, nid y weithred o Lofruddjaeth yn unig, eithr hefyd pob math o Bechodau ag y fo'n tueddu tu ag at hynny.

1. Fe waherddir i ni lettua Meddyliau pechadurus yn ein Calonnau. — Math. xv. 19. Canys o'r galon y mae meddyliau drwg yn dyfod allan, lladdiadau, tor-priodasau, gordinebau, lladradau, camdystiolaethau, cablau. Diar. vi. 12, 14. Rhuf. i. 29.

2. Fe waherddir pob rhyw Anwydau poethion a gwylt; sef, Llîd, a Digter, a Chafineb: canys tueddu y maent i Lofruddjaeth. — Math. v. 21, 22. Clywsoch ddywedud gan y rhai gynt, Na ladd: a phwy bynnag a laddo, euog sydd o farn. Eithr yr ydwyf si yn dywedud i chwi, Pob un a ddigio wrth ei frawd heb ystyr, a fydd euog o farn. — I Joan iii. 15. Pob un ag. sydd yn casâu ei frawd, lleiddiad dyn yw: a chwi a wyddoch nad oes i un lleiddiad dyn fywyd tragicwyddol yn aros ynnddo. Preg. vii. 9. Col. iii. 8.

3. Fe waherddir i ni bob Cyfeillach â Dynjon drwg a digofus: canys tuedd eu tymmer sydd i dywallt Gwaed. — Diar. i. 15, 16. Fy mab, na rodia yn y ffordd gyda hwynt; attal dy droed rhog eu llwybr bwy. Canys eu traed a redant i ddrygioni, ac a brysurant i dywallt gwaed. Diar. xxii. 24, 25. Esay lix. 7.

4. Fe waherddir i ni gynfigennu o herwydd Dajoni neu Ddedwyddwch rhai eraill. Hyn a gynhyrsodd Cain i ladd Abel ei frawd. A pha ham y lladdodd ef? O blegid bod ei weithredoedd ef yn ddrwg, a'r eiddo ei frawd yn ddq. — I Joan iii. 12. — Trwy Gynfigen y cydfwriadodd biod yr Joseph ei ladd ef; ond Duw a'i gwareddodd ef o'u dwylaw hwy. Gen. xxxvii. 18. Act. viii. 9. Jago iii. 14—16.

5. Fe waherddir i ni chwennych Ymddial am y drwg a wnelo un arall i ni; yr hyn a fu lawer gwaith yn achos o Fwrdra. — Rhuf. xii. 19. Nac ymddielwch, rai annwyl, ond rhoddwch le i ddigofaint: canys y mae yn sgrifeni-

Sgrifennedig, I mi y mae dial; myfi a dalaſ, medd yr Arglwydd. Diar. xx. 22. xxiv. 29. Hebr. x. 30.

6. Fe waherddir i Farnwyr roddi cam Farn; rhag i'r Gwirion ddioddef Marwolaeth, neu Niwaid, yn gamweddus. — Ecsod. xxiii. 6. 7. *Na w̄yra farn dy dlawd yn ei ymrafael.* Tmgadw ym mhell oddi wrth gam-faster: *Na ladd ychwaith na'r gwirion na'r cyfiau:* camys ni chyflawnhaf si'r annwyl. Deut. xxvii. 19. i. 17. Lef. xix. 15.

7. Fe waherddir i ni ddwyn cam Dystiolaeth yn erbyn neb; trwy'r hyn y dygwyd Bywyd llawer oddi arnunt. Trwy gam Dystiolaeth y *Waddwyd Naboth*, a *Stephan*, a *Christ* ei hun, a llawer eraill. i Bren. xxii. Aet. 7. Marc xiv. 55, 60.

8. Fe waherddir i ni fod yn Athrodwyr, trwy ddywedud neu dderbyn Enllib a Chwedlau anwir am neb; ag sy'n peri Cynnen ac Ymladdau'n fynych, a Mwrddra weithjau. — Lef. xix. 16. *Na rodia yn athrodwyr ym mysg dy bobl:* na saf yn erbyn gwaed dy gymmydog: yr Arglwydd ydwyf si. Ecsod. xxiii. 1. Ezec. xxii. 9. Diar. xxvi. 20, 22. xxv. 23. 2 Cor. xii. 20. Gal. v. 15.

9. Fe waherddir i ni achlesu Chwantau pechadurus y Cnawd a'r Byd hwn; ses, Balchder, Cybydd-dod, meddw-dod, a'r cyffelyb; ag sy chwannog i fagu Amrafael, ac Ymladdau, ac ysgatfydd Laddfa hesyd. O Falchder ei galon, a Gwâgogoniant, y ceisiodd Haman ddifetha Mordecai a'i holl Genedl ar unwaith. Cybydd-dod a barodd i Abab a Jezabel fwreddro Naboth; ac i Judas fradychu Crist. Diar. i. 19. — Rhai a laddasant eraill, a rhai a gawsant eu lladd, mewn Meddwdod. Jago iv. 1. Diar. xiii. 10. xxiii. 29, 30. Deut. xxxii. 33.

10. Fe waherddir i bawb, dan berygl o fod yn eusg o Waed, i wneuthur dim a fo'n achos o Ddistrwy Baban yng Nghorth y Feichjog, trwy beri iddi golli ei Llwyth, ac i esgor cyn ei Hamser. — Ecsod. xxi. 22, 23. O's ymrafaelia dynjon, a thano o bonunt wraig feichjog, fel yr él ei beichjogi oddi wrthi, ac heb fod marwolaeth; gan gosbi cosber ef, fel y gosodo gŵr y wraig arno, a rbodded bynnu trwy farnwyr. Ac o's marwolaeth fydd; rodder einioes am einioes.

Cw. Pa Esamplau sydd yn yr Ysgrythur o Gôsb am Ffurddra, a'r cyfryw Bechodau eraill ag fy'n tywys iddo?

Att. Llawer jawn; megis y rhai hyn.

1. Y Brenin *Dafydd* a ddyfeisiodd i ladd *Uriah* yn y Rhyfel â'r *Ammorjaid*; a Duw a ddywedodd wrtho, — 2 Sam. xii. 9, 10. — *Ti a'i lleddaisf ef â chleddyf meibion Ammon.* *Tn awr gan hynny nid ymedy'r cleddyf â th dý da bytb.* Ac felly y bu: tri o feibion *Dafydd* a laddwyd â cleddyf; ac un o honunt a laddodd ei frawd ei hun; ac a fwriadodd i ladd *Dafydd* ei Dâd, gan wrthryfela yn ei erbyn.

2. *Haman* a fwriadodd ddifetha *Mordecai*, a'r holl *Judewön*; ond, trwy Farn Duw, efe ei hun a grogwyd yn gyfiawn ar y pren a godafai efe i grogi *Mordecai*'n gam-weddus. (Megis y darllenir yn Llyfr *Esther*.)

3. *Jehoram* Brenin *Juda* a laddodd ei frodwr: a Duw a gyffrôedd y *Taleithjau* oedd dan ei law, a'r *Philistiaid* hefyd o amgylch iddo, i wrthryfela yn ei erbyn; ac a'i cosbodd ef yn echrydus yn ei bobl, a'i olud, a'i wragedd, a'i blant; ac a'i tarawödd yntef ei hun â chlefyd mawr jawn a blîn, fel yr aeth ei amysgaroedd a'i goluddjon allan o'i gorff, nes iddo farw yn druenus. 2 Cron. xxi.

4. *Agag* Brenin yr *Amaleciaid* a laddafai amryw; a *Samuel* a ddywedodd, Fel y diblantodd dy gleddyf di wragedd, felly y diblentir dy fam dithau ym mysg gwragedd. A *Samuel* a ddarniodd *Agag* ger bron yr *Arglwydd* yng *Ngilgal*. 1 Sam. xv. 33.

5. *Joas* Brenin *Juda* a barodd ladd *Zechariah* fab *Jeboiada*, am ei rybuddio ef o blegid ei Bechod: o herwydd pa ham y dygodd Duw ar *Joas* ym mhen y flwyddyn Lu'r *Syriaid*; a hwy a ddifethasant *Juda* a *Jerusalem*: a Duw a roddodd yn eu dwylaw hwy Lu mawr jawn *Joas*, ac a'i tarawödd ef â chlefydau mawrion; a'i weision ei hun a gydfwriadasant i'w erbyn, o herwydd gwaed meibion *Jeboiada* yr Offeiriad, ac a'i lladdasant ef ar ei wely. 2 Cron. xxiv.

6. *Pharo* Brenin yr *Aipht* a orchymmynnodd i fwrw Plant Gyrrywaid *Isräel* i'r afon, a'u boddi, gynted ag y genid hwy: gwedi hynny, *Pharao* ei hun, a'i feirch, a'i farchogion, a'i holl fyddin, a foddyd yn y *Môr Côcb*; ni adawyd o honunt gymaint ag un. Ecsod. i. 22. xiv. 26, 27, 28.

7. *Zimri*, gwâs *Asa* Brenin *Juda*, a laddodd ei seistr, pan oedd e'n feddw, ac a laddodd ei geraint ef, gan deyrnasu yn ei le ef dros un wythnos yn unig: canys Barn ddioed a ddaeth arno ym mhen y seithfed diwrnod; efe a yrrwyd, mewn arswyd a chyfyngder, i losgi ei hun yn nhŷ'r Brenin.

i Bren. xvi.

8. Yr oedd i Fwrddwyr ddioddef Angau'n ddiarbed, wrth y Gyfraith wladol a roddodd Duw ei hun i Bobl Isræl. — Gen. ix. 6. *A dywallto waed dyn, trwy ddyn y tywelltir ei waed yntef: o berwydd ar ddelw Duw y gwnaeth efe ddyn.* — Ecsod. xxi. 12. *Rhodder i farwolaeth y neb a darawô'r wr fel y byddo marw.* Diar. xxviii. 17.

9. Mae Llofruddjaeth yn gweiddi am Ddial; ac y mae Duw yn arferol o'i ddadguddio a'i ddwyn i oleuni, pan wnelir ef yn ddirgel. Wedi i *Gain ladd Abel* ei frawd, *Duw a ddywedodd wrtho, Beth a wnaethost?* llef gwaed dy frawd sydd yn gweiddi arnaf fi o'r ddaear. Gen. iv. 10. — Esay xxvi. 21. *Wele'r Arglwydd yn dyfod allan o'i fangre, i ymweled ag anwiredd preswylwyr y ddaear: a'r ddaear a ddadguddia ei gwaed, ac ni chuddia mwyach ei lladdedigion.*

10. Mae Llofruddjon yn ffiaidd ger bron Duw, a'u Gweddu'n chwydog; Plant y Diafol y cyfrifir hwynt, oni wir edi-farhâant. — Sal. v. 6. — *Tr Arglwydd a ffieiddia y gŵr gwaedlyd, a'r twyllodrus.* — Esay i. 15. — *Pan weddioch lawer, ni wrandawâf: eich dwylaw sydd lawn o waed.* — Joan viii. 44. *O'ch tâd diafol yr ydych chwi, a tbrachwantau eich tâd a fynnwch chwi eu gwneuthur.* *Lleidadiad dyn oedd efe o'r dechreuad.*

Cw. Pa Ddyledswyddau sy rwymedig arnom oddi wrth y Chweched Gorchymmyn?

Att. Mae 'n rhwymedig arnom, 1. Y cyfryw Ddyledswyddau ag a berthyn i Ddiogelwch ein Bywyd ein hunain. Ac, yn 2. Y cyfryw Ddyledswyddau ag a berthyn i Ddiogelwch Bywyd ac Einioes Dynjon eraill.

Cw. A ydyw yn Bechod mawr i Ddŷn ddistrywio ei Fywyd ei hun?

Att. Ydyw'n ddiammau yn Bechod mawr jawn: Canys,

1. Eiddo Duw yw Hoedl pob Dŷn, ac ar Ddelw Duw y gwnaed ef; fel nad oes iddo ef ei hun, na neb arall, ei ddistrywio yn anghysfreithlon: canys efe a ddywedodd, *Na ladd*

(dy)

(dy hun, nac arall ychwaith.) — Act. xvi. 28. — Na wna
i ti dy bun ddim ni'r waid.

2. Y Mwrddwr wr mwyaf annaturiol yw'r hwn a laddo ei
hun. — Eph. v. 29. Canys ni chasaodd neb erioed ei gnawd
ei hun, eithr ei fagu a'i feithrin y mae. — Job ii. 4. —
Groen am groen, a'r byn oll sydd gan iwr, a ddyry efe am
ei einioes.

3. Mae'n drymmach Pechod nā lladd Dŷn arall: canys,
caru'n Cymmydogion fel ein buuain, yw Swm a Rheol ein
holl Ddyled i Ddynjon eraill; ac felly y mae'r hwn a
ddiftrywio ei hun, fel pe fai'n diftrywio pawb oddi amgylch
iddo. — Math. xxii. 39. — Câr dy gymmydog fel ti dy bun.

4. Wrth ddiftrywio ei Gorph, y mae'n debygol jawn i
ddamnio ei Enaid hefyd; gan farw yn y weithred o Bechod;
ac felly yn difuddjo ei hun o amser i edifarhâu. Canys yr
Arglywydd a ddywaid, — Onid edifarbwch, chwi a ddi-
ferbir oll yn yr un modd. Luc xiii. 3.

Cw. Pa Ddyledswyddau a orchymmynnir i chwi yn y
Chweched Gorchymmyn, yngylch eich Bywyd eich hun?

Ans. Pob Ddyledswyddau ag sy'n tuedd yn unrhyw sforod
tu ag at Gadwraeth ein Bywyd ni: megis y pethau a gan-
lyn.

1. Ni a ddylem dderbyn ac arferyd yn ddiolchgar y Tru-
gareddau y mae Duw yn eu rhoddi i gynnal ein Bywyd; sef,
Ymborth, a Lluniaeth. — Diar. xxv. 16. — Bwyta a'th
wasanaetho. — I Dim. v. 23. — Arfer ychydig win, er
mwyn dy gylla, a'th fynych wendid. Deut. xii. 20, 21.
Sal. xxii. 26.

2. Ni a ddylem arferyd ein Lluniaeth gyd â Symledd
Calon, yn Ofn Duw; gan ddeisyf Bendith arno, fel y bytho'n
jachusol i ni. Canys Melldith Duw sydd ar does a chawell
yr annuwjol, ac ar ffrywyth eu tir, a'u holl anifeiljaid. Deut.
xxviii. 17, 18. — Eithr y Bwydydd a greodd Duw i'w dder-
byn gan y Ffyddlonjaid a sancteiddir gan air Duw a gweddi.
I Dim. iv. 3, 5.

3. Ni a ddylem fod yn gymhedrol yn yr Arferiad o Fwyd
a Diod: canys y mae Gormodedd o honunt yn niweidiol i'n
Jechyd a'n Hoedl ni, ac yn tuedd dynjon i ddirmygw
a digio Duw. — Diar. xxiii. 1, 2, 3. Pan eisteddych i fwyta gyd
a thywysog, ystyria yn ddyfal beth sydd ger dy fron: a
gosod

gofod gyllell ar dy gêg, o's byddi ddyn blysig. Na ddeisfy ei ddanteitbion ef: canys bwyd iwyllodrus ydyw. — Deut. viii. 12, 14. Rhag it' fwyta, a'th ddigomi; — ac yna ymddyrrbafu o'th galon, ac anghofio o bonot yr Arglwydd dy Dduw. Hos. xiii. 6 — 8. Deut. vi. 11, 12. xxxii. 15. 1 Cor. x. 31.

4. Ni a ddylem arferyd Physygwriaeth, o's gallwn ei gael, pan fyddom yn glâf; a deisfy Bendith Duw arno, fel y byddom jach, a byw. Pan oedd y Brenin duwjol Hezecriab yn glâf, y Prophwyd Esay a ddywedodd, Cymmerwch swp o ffigys. A hwy a gymmerasant, ac a'i gofodasant ar y cornwyd, ac efe a aeth yn jach. Esay xxxviii. 21.

5. Ni a ddylem fod o Dymmer lawenychus, gariadol, a diddig, dan Ysbrydoliaeth Cariad Duw; gan ochelyd Digasedd, a Chynfigen, a Thristwch gosidus y Byd; ag sy'n ddinystriol jawn i'n Jechyd a'n Heinioes ni. — 2 Cor. vii. 10. — Tristwch y byd sy'n gweithio angau. — Diar. xvii.

22. Càlon lawen a wna lês fel meddyginaeth: ond meddwïl trwm a sych yr esgyrn. — Diar. xiv. 30. Càlon jach yw bywyd y cnawd: ond cynfigen a bydra'r esgyrn. Diar. xii. 25. xv. 13.

6. Ni a ddylem, trwy ddyfal Weddiau, osod ein hunain dan Ofal Duw ddydd a nôs: canys miloedd o beryglon all ddwyn ein Bywyd oddi arnom, oni warchod Duw drosom. — Sal. cxxi. 7, 8. Yr Arglwydd a'th geidw rhag pob drwg: efe a geidw dy enaid. Yr Arglwydd a geidw dy frenediad, a'th ddyfodiad, o'r pryd byn hyd yn dragrwydd. Sal. xxxiv. 17, 20. xci. 11, 12. cxxvii. 1.

7. Ni a ddylem, yn bennaf dim, ddyfsgu byw 'n dduwjol yn Ofn Duw; rhag i Satan un amfer gael manrais i'n temtio ni i ddistrywio ein hunain. Abitophel, pencynggorwr, gan faint ei falchder, ac nad oedd yn ofni Duw, a ddigiodd pan groeswyd ei gyngor ef; a'r diafol a'i temtiodd ef i ymgrogi. 2 Sam. xvii. 23. — Saul Brenin Isræl, wedi iddo bechu ymmaith Ysbryd yr Arglwydd, pan oedd mewn cyfyngder a dychrynn, a syrthiodd ar ei gleddyf, ac a laddodd ei hun. 1 Sam. xxxi. 4. — Judas Iscarior, wedi i Satan lenwi ei galon ef i bechu'n rhyfygus, gan fradychu Crist, a syrthiodd i Anobaith, ac a grogodd ei hun. Math. xxvii. 5. Act. i. 18.

8. Ni a ddylem ymddwyn yn ostyngedig, yn bwyllog, ac yn swynaidd; o blegid fod Ymadroddion ffromllyd, poeth, a chyndyn, yn magu Ymryson ac Ymladdau, ag sy weithjau'n achos o Lofruddjaeth. Taiogrwydd *Nabal* a ddygasai Farwolaeth arno ef ei hun, a'i holl dylwyth, oni buasai i arawch pwyllog a doethineb *Abigail* ei wraig. — *Sam.* xxv.

— *Sal.* xxxiv. 12, 13. *Pwy yw'r gŵr a chwennych fywyd, ac a gâr hir ddyddjan, i weled dajoni?* *Cadw dy dafod rhag drwg; a' th wefusau rhag traethu twyll.* — *Diar.* xiii. 3. *T neb a geidw ei enau, a geidw ei einioes:* ond y neb a ledo ei wefusau, a ddinystir. — *Diar.* xviii. 7, 21. *Genau'r ffîl yw ei ddinystir;* a'i wefusau sydd fagl i'w enaid. *Augau a bywyd sydd ym meddiant y rafod:* a'r rhai a'i hoffant ef, a fwytaant ei ffrwyth ef. — *Diar.* xii. 13, 18. xvii. 20. *Preg.* x. 12. *Jago* iii. 6, 8. *Barn.* viii. 1—3. *Gal.* v. 15. *Diar.*

XV. I.

9. Ni a ddylem farwhâu Trachwant pechadurus y Byd hwn; o blegid fod Serch awyddus i Gyfoeth y Byd yn dwyn Dinystyr yn fynych ar y Corph a'r Enaid. — *i Dim.* vi. 9, 10. *T rhai sydd yn ewyllyso ymzyfoethogi,* sydd yn syrthio i brofedigaeth, a magl, a llawer o chwantau ynsyd a niweidiol, y rhai sy yn boddi dynjon i ddinystir a cholledigaeth. *Canys gwreiddyn pob drwg yw ariangarwch:* yr hon, a rhai yn chwannog iddi, hwy a gyfeiliornasant oddi wrth y ffydd, ac a'u gwanasant eu bunain â llawer o ofidiau. — *Diar.* i. 18, 19. *T maent yn cynllwyn am eu gwaed eu bun:* am eu heinioes eu bun y maent yn llechu. *Felly y mae llwybrau y rhai oll sydd chwannog i elw;* yr hwn a ddwrg einioes ei berchennogion.

10. Ni a ddylem fföi oddi wrth Ddynjon lliodiog a digllon, nes dosi Poethder eu Cynddaredd; rhag i'r diafol eu temtio i dywallt ein Gwaed. — *Math.* x. 23. *Pan y'eb erlidiant yn y ddinas hon, ffôruch i un arall.* — *Diar.* xiv. 7. *Dôs ymmaith oddi wrth iwr ffôl, pan wypech nad oes ganddo wefusau gwybodaeth.* *Jacob*, pan oedd *Esau* yn ei fygwth, a ffödd at *Laban* ei ewythr, nes ciliodd digofaint ei frawd oddi wrtho. — *Gen.* xxvii. 41—45. — *Diar.* xvii. 12.

Cw. A ellwch chwi gydysynio â rhyw Bechod er mwyn cadw eich Bywyd, pan tyddoch mewn perygl o'i golli o eisiau gwneuthur felly?

Att. Na allwn: Canys,

1. Mae esampl y Ffyddlonjaid yn dysgu i ni ddioddef y Farwolaeth waethaf, yn hytrach na phechu yn erbyn Duw. Y tri llang a ddioddefasant eu rhwymo, a'u tafu'n rhwym i ffwrn danllyd boeth, yn hytrach nag yr ymagrymmeat i Ddelw aur *Nabuchodonosor*. *Dan.* iii. — *Daniel* a ddioddefodd ei daflu i ffau'r llenwöd, yn hytrach nag y peidiai efe â gweddio dros un diwrnod. *Dan.* vi. — Miloedd o Seint-jau a ferthyrwyd gan eu Herlidwyr, a miloedd o Brotsianjaid a boenydiwyd yn greulon i Farwolaeth trwy ddwy-law gwaedlyd y Pabyddjaid, o herwydd na synnent gydysynio â'u Cyseiliornadau hwynt. A *Pbawl* a ddywedodd, — *Parod wyp si, nid i'm rbwymo yn unig, ond i farw bafydl yn Jerusalem, er mwyn Enw yr Arglywydd Jesu.* *Act.* xxi. 13. xx. 24.

2. Ni ddichon neb fod yn wir Crist'nogjon, heb fod yn fodlon i ddioddef yn Achos Crist, a marw er ei Fwyn, yn hytrach na phechu yn ei erbyn. — *Luc.* xiv. 26, 27. *O's daw neb attafi, ac ni chasao ei dâd, a'i fam, a'i wraig, a'i blant, a'i frodyr, a'i chwiorydd, ie a'i einioes ei hun bafydl, ni all efe fod yn ddisgybl i mi.* A phwy bynnag ni ddycoco ei groes, a dyfod ar fy dîl i, ni all efe fod yn ddisgybl i mi.

3. Nid yw neb ar eu colled, o golli eu Heinioes er Mwyn Crist yn y byd hwn; canys hwy a gânt Fwyd gwell gyd â Christ yn y Byd tragywyddol. — *Math.* xix. 29. *Pob un o'r a adawò dai, neu frodyr, neu chwiorydd, neu dâd, neu fam, neu wraig, neu blant, neu diroedd, er mwyn fy Enw i, a dderbyn y can cymaint, a bywyd tragywyddol a etifedda efe.* 2 *Dim.* ii. 12. *Rhuf.* viii. 28.

Cw. Pa beth sydd ddyledus arnom, oddi wrth y Chweched Gorchymmyn, ynghylch Bywyd a Diogelwch Dynion eraill?

Att. 1. Ni a ddylem wneuthur gymaint ag a allom i gyflawnhâu a chynhorthwyo y rhai a ddioddefasant yn gam-weddus. — *Diar.* xxxi. 8, 9. *Agor dy enau dros y mûd, yn achos holl blant dinysfr.* *Agor dy enau, barn yn gyflawn; a dadleu dros y tlawd a'r anghenus.* — *Sal.* lxxxii. 4. *Gwaredwch y tlawd a'r anghenus: achubwch bwyt o law y'rhai annwylol.* *Diar.* xxiv. 11, 12.

2. Ni

2. Ni a ddylem ragflaenu Niwaid a Dinystr eraill, hyd ag allom. *Reuben* a berfwadiodd ei frodyr yn erbyn tywallt *Gwaed Joseph*, pan oedd yd yn bwriadu ei ladd; ac a'i gwareddodd ef o'u dwylaw hwy. *Gen.* xxxvii. 19-22. — *Y Bobl*-a waredodd *Jonathan*, pan oedd *Saul* ei dad yn bwriadu ei ladd ef. *I Sam.* xiv. 45. — *Michal* gwraig *Dafydd* a'i cynhorhwyodd ef i ddiangc trwy'r ffenestr, pan oedd *Saul* ar fedr ei ladd ef drannoeth. *I Sam.* xix. 11-17. — *Ebedmelech* yr *Ethiopjad* a ymbiliodd a'r Brenin, ac a waredodd *Jeremi* o'r daeardy tomyd. *Jer.* xxxviii. 4-13. — A Thywysogion y-bobl a'i gwaredasant ef rhag ei ladd bryd arall gan yr Offeiriad. *Jer.* xxvi. 8, &c.

3. Ni a ddylem anturio mewn Perygl o'n Bywyd, dros Fywyd y rhai a fo'n fwy gwasanaethgar na ni. — *I Joan* iii. 16. *Tn*-*byn* yr adnabuomi gariad *Duw*, o blegid dod i o hono ef ei einioes drosom ni: a ninnau a ddylem ddodi ein heinioes dros y brodyr. *Obadiab*, *Penteulu Abab*, a guddiodd gant o Brophwydi'r Arglwydd mewn ogof, ac a'u porthodd hwynt yno, mewn perygl o'i Fywyd, pan oedd *Jezabel* yn eu lladd hwy. *I Bren.* xviii. 3, 4. — *Esther* y Frenhines a anturiodd ei Bywyd, i achub ei Chenedl, sef yr *Juddewön*, rhag eu distrywio trwy ddichell *Haman*. *Est.* iv. 16. — *Priscila* ac *Acwila* a ddodasant eu gyddfaeu eu hunain i lawr dros Fywyd *Paul.* *Rhuf.* xvi. 3, 4.

4. Ni a ddylem ochelyd Cymdeithas Dynjon annuwjol, poethwylt, a digofus; rhag iddunt ein hudo i Lofruddjaeth gyd a hwynt. — *Diar.* i. 10, 16. *Fy* māb, o's pechadur-jaid a'th ddenant, na chytuna. *Canys* eu traed a redant i ddrygioni, ac a brysurant i dywallt gwaed. *Diar.* xxii. 24, 25. *Na* fydd gydymmaith i'r diglon; ac na chydgerdd a gŵr llidiog: rhag i ti addysgu ei lwybrau ef, a'chael magl i'th enaid.

5. Ni a ddylem edrych, na adawöm ni Dramgydd ar ffordd neb, er Niwaid iddunt; megis camfa ar lwybr, heb gymmorth i'r llesg i fyned drosto yn ddiberygl; neu bwll heb gau, neu bontbren heb ganllaw, a'r cyffelyb; thag i Niwaid, neu *Farwolaeth*, ddigwyddo i neb o achos hynny, a'u Gwaed i orwedd arnom ni. — *Deut.* xxii. 8. *Pan* adeiladech dy newydd, yna y gwnâi ganllawjau o amgylch i'th neu, fel na osodych waed ar dy dy, pan syrthio neb oddi arno. *Ecsod.* xxi. 33, 34. O's egyr gŵr bydew, neu o's cloddia

cloddia un bydew, ac heb gau arno ; a syrthio yno ych neu asyn, perchen y pydew a dil am danunt. Lef. xix. 14.

6. Ni a ddylem fod yn haeljonus i'r Tlawd, ac i'r Clât, a'r Anghenus ; fel na fyddont farw, nac ychwaith yn dioddef Poen na Diffyg, o eisiau'r Trugaredd ag y fo ar ein dwylaw ni i ddangos iddunt. Y Samariad, yn y Ddammeg, a aeth at y Truan a'r Archolledig, ac a rwymodd ei Archollion, ac a'i hymgeleddodd ef ; a'n Harglwydd Jesu a ddywaid wrth bob dŷn, Dôs, a gwñâ ditbau yr un modd. A Job dduw-jol a ddywaid, — Job xxxi. 17, 19, 20, 22. O's bwyteais sy mwyd yn unig, ac oni fwytaodd yr amddfifad o hono : o's gwelais neb yn marw o eisiau dillad ; a'r anghenog heb wîf : o's ei lwyfan ef ni'm bendithiasant, ac oni chyn-hesodd efe gan gnu sy nefaid i : syrthied sy mraich oddi wrth sy ysgwydd ; a rhorrer sy mraich oddi wrth y cymal.

7. Ni a ddylem ochelyd pob Achosion o Gymmen ac Am-rafael ; ac na ddelom yn agos iddunt. — Diar. xxvi. 17. Y neb wrth fyned heibio a gymyrro â chynwen ni ptherbyn iddo, sydd megis un yn cymmeryd ci erbyn ei glustjau. — Rhuf. xii. 18. O's yw bossbl, byd y mae ynnoch cbwi, bydd-wch heddyblawn â phob dŷn.

8. Ni a ddylem wneuthur gymaint ag a allom dros Jechydwriaeth eraill ; rhag i ni, trwy esgeuluso hynny, fod yn euog o'u Marwolaeth tragicwyddol hwy. — i Dim. v. 22. — Na fydd gyfrannog o bechoda u rhai eraill : cadw dy bun yn bur. — Jago v. 20. Gwybydded y bydd i'r bun a drôdd bechadur oddi wrth gyfeiliorni ei ffordd, gadaw enaid rhag angau, a chuddio lliaws o bechoda u. Dan. xii. 3. Lef. xix. 17.

9. Ni a ddylem garu pawb ; canys Cariad a'n cymhell i ddangos pob Trugaredd, ac i roddi pob Cymorth i eraill ag a allom ni ; megis y mae Duw yn gorchymwyn : — i Joan iii. 11, 12, 18, 19. Hon yw'r gennadwri a glywsoch o'r dechreuaud ; Bod i ni garu ei gilydd. Nid fel Cain, yr hen oedd o'r drwg, ac n laddod ei frawd. — Fy mblant bychain, na charwn ar air, nac ar dafod yn unig, eithr mewr gweithred a gwirjoneidd. Ac wytb hy'n y gwyddom ein bod o'r gwirjoneidd, ac y sicrhawn eln calonau ger ei fron ef. — i Jean iv. 7, 21. Rhuf. xiii. 10.

Cw. Beth yw y Seithfed Gorchymmyn?

Att. Na wna odineb.

Cw. Ynghylch pa beth y mae'r Seithfed Gorchymmyn?

Att. Ynghylch Ffyddlondeb Gwyr a Gwragedd i'w gilydd; a'r Dîweirdeb dihalogedig a ddylai fod ym mhob Dŷn.

Cw. Pa ham y gosodir y Gorchymmyn hwn, ynghylch Dîweirdeb, yn nesaf at y Gorchymmyn, *Na ladd?*

Att. O herwydd, yn nesaf at ein Heinioes, Dîweirdeb dihalog a ddylai fod annwylaf gennym; a'r Camwedd mwyaf, nesaf at fwreddro Dŷn, yw halogi ei Ddiweirdeb.

Cw. Pa Bechodau a waherddir yn y Seithfed Gorchymmyn?

Att. Pob math o *Odineb*, ac *Anlladrwydd*, a *Putteindra*, mewn Meddyliau, Geirjau, Ymarweddiad, a Gweithred; a phob rhyw Bechodau ag y fyddo yn tuedd tu ag at hynny.

Cw. Adroddwch yn fwy neillduol, pa Bechodau a waherddir yn y Seithfed Gorchymmyn?

Att. Fe waherddir,

1. Y Pechod ffiaidd a elwir yn bennodol, yn *Odineb*; sef, yr Afleidid a wnele pan fo'r ddau, neu un o'r ddau, yn briod. — Lef. xviii. 20. *Na cbydor-wedd gyd â gwraig dy gymmydog, i fod yn afian o'i phlegid.* Deut. xxii. 22. Eph. v. 3.

2. *Putteindra*; sef, Afleidid rhwng dau a fytho yn sengl, ac heb fod yn briod. — Deut. xxiii. 17. *Na fydded putram o ferched Ifräel*; ac na fydded putteiniwr o seibyon Ifräel. Deut. xxii. 23, 24, 28, 29. Eph. v. 5. Hebr. xii. 16.

3. *Llosgach ffiaidd ac annaturiol y Gwrrywgydwyr.* — Lef. xx. 13. *Y gwâr a orwedd o gŵr, fel gorwedd gyl â gwraig, ffieidd-dra a twaethant ill dan: lladder bwyt yn farw; eu gwaed fydd arnunt eu bunain.* Rhuf. i. 26, 27. Lef. xviii. 22.

4. *Priodasau anllad ac anghyfreithlon rbwng Ceraint agos*; ag y mae Cyfraith Duw yn wahardd. — Lef. xviii. 6, 29. *Na nesäed neb at gyfnaf ei gnaws, i ddinoethi eu noerhui: myfi yw'r Arglwydd.* Canys pwys bynnag a wñel ddim

ddim o'r holl ffiaidd bethau hyn, torrir ymmaith yr eneid-
jau a'i gwneilo o blith eu pobl.

5. Priodi ychwaneg nag un; sef, i't Gŵr briodi dwy
Wraig, neu i Wraig briodi dau Wr, tra fytho'r ddau yn
fyw. — Cor. vii. 2. Rhag godineb, bydded i bob gwyr ei
wraig ei hun, a bydded i bob gwraig ei gwyr ei hun. Mal.
ii. 15.

6. Tmadel yn ôl Priodi, heb gydwyw yn ôl glân Ordin-
hâad Duw. — Math. xix. 4, 5, 6. — Oni ddarllenafodd, i'r
bwn a'u gwnaeth o'r dechrau, eu gwnenthur hwy yn
wrifyw a benyw? Ac efe a ddywedodd, O blegid hyn y
gât dyn dâd a mam, ac y glyn wrth ei wraig: a'r ddau
fyddant yn un cnaawd. O herwydd pa ham, nid ydynt
mwy yn ddau, ond yn un cnaawd. Yn peth gan hynny a
gyffylldodd Duw, na ysgared dyn. Math. v. 32.

7. Y Cymysgedd anifeilaidd, ag y mae Cyfraith Duw
yn wahardd. — Lef. xx. 15, 16. Lladder yn farw y gwyr
a yngydio ag anifail; lladdant befyd yr anifail. A'r
wraig a'el at un anifail i orwedd dano, lladd di'r wraig
a'r anifail befyd: lladder hwynt yn feirw; eu gwaed fydd
arnunt eu hunain. Deut. xxvii. 21. Lef. xviii. 23.

8. Trais, neu halogi neb o'i hanfodd. — Deut. xxii. 25.
O's mecen maes y cafodd y gwyr y llanges wedi ei dyweddio,
a'i rheisio o'r gwyr, a gorwedd gyd â hi: yna bydd farw
y gwyr a orweddodd gyd â hi. Sichem mab Hemor a dreis-
odd Dina; ac efe a'i holl dylwyth, pob gwrryw o honunt,
a laddwyd â'r cleddyf. Gen. xxxiv. 2, 25—29. — Amnon
a dreisiodd Tamar; ac yntef hefyd a laddwyd. 2 Sam.
xiii. 14, 28, 29.

9. Mae pob Hunan-halogiad dirgel, difwriad, yn Bech-
od; eithr Halogiad gwirsodd, sef, Pechod Onan, sydd yn fwy
gresynus. — Lef. xv. 16. O's gwyr a ddarw oddi wrtho ddis-
gyniad hâd; yna golched ei holl gnawd mewn dwfr, a
bydd afian hyd yr hwyr. — Gen. xxxviii. 9, 10. — Onan a
gollai ei hâd ar y llawr. — A drygionus oedd yr hyn a
wnaethai efe yngolwg yr Arglwydd: am hynny efe a'i
lladdodd ef. Deut. xxiiii. 10.

10. Pob Gwyn a Chwantau ofan yn y Meddwl oddi
mewn. — Math. v. 27, 28. Clywsoch ddywedud gan yrbai
gynt, Na wna odineb. Eithr yr ydwyf si yn ddywedua i
chwi, fod pob un sydd yn edrych ar wraig, i'w chwen-

nych hi, wedi gwneuthur eisioes odineb a bi yn ei galon.
Col. iii. 5. 1 Pedr ii. 11. Iago ii. 14, 15.

11. Ymadroddion masweadgar ac anllad; ag sy'n cyfrroi
Gwynjau astan. — Eph. iv. 29. Na ddeued un ymadrodd
llygredig allan o'ch genau cswi. — Eph. v. 3. Eithr godi-
neb, a phob astendid, neu gybydd-dra, na enwér chwaith
yneich pltb. 1 Cor. xv. 33.

12. Gwisgoedd ac Traddfygiad anweddus a choegfach, a
phaentio'r Wyneb; neu Bictwrav anllad: canys magu
Chwantau, a themtio i Aflendid, a wnant. — Esay iii. 16, 17.
Yr Arglwydd a ddywedodd, O herwydd balchis o ferched
Sion, a rhodio â gwâdf esynnedig, ac â llygaid gwiymal,
gan rogio, a rhwyngu wrth gerdded, a thrystio â'u traed:
am hynny y clafra'r Arglwydd gorynnau merched Sion; a'r
Arglwydd addinoetha eu gwarthle hwynt. — Ezeq. xxiii.
14, 16. Am yr Odinebus y dywed Duw, iddi chwanegu ar
e. phuiteindra: canys pan welodd wrir wedi eu llunio
ar y pared, delwau'r Caldeaid wedi eu llunio â fermi-
lion: — hi a ymferchodd ynddunt pan eu gwelodd â'i
llygaid, ac a anfonodd genhadau attunt i Galdea. 1 Dim.
ii. 9, 19.

13. Segurdra, a phesgi'r Cnawd: canys Mammaeth
Godineb ydyw. Hyn a wnaeth y Sodomiaid yn anllad, ac
yn ejddfed i Ddinystr. — Ezeq. xvi. 49, 50. Wele, byn
oedd anwiredd dy chwaer Sodoma; Balchder, digoneedd
bara, ac amlder o seguryd, oedd ynddi, ac yn ei merched,
ac ni chryfbaodd hi law'r anghenog a'r tlawd. A hwy a
ymddyrrchafasant, ac a wnaethant ffieidd dra o'm blaen i:
am hynny y symudais hwynt, fel y gwelais yu adda. —
Jer. v. 7, 8. — Pan ddlewellais hwynt, gwnaethant odineb,
ac a beidiasant i dyr buttain. Oddynt-fel meirch porthi-
annus y borau; gwerystrent bob un ar wraig ei gym-
mydog.

Cw. Beth a ddywedir yn yr Ysgrythur am y Drwg a'r
Côsb o Odineb a Phuiteindra?

Att. 1. Pechod 'sgeler ydyw, yn llawn Drwg, ag sy'n
anrheithio Dynjon fel Tan yssol. — Gen. xxxix. 9. — Pa
fodd gan hynny y gallaf zeneuthur y mowrddrwg hwn, a
phebci yn erbyn Duw? — Job xxxi. 9, 11, 12. O'stwyll-
ed sy nghalon gan wraig; ac o's cynllwynais wrth ddrws
sy nghymydog: 'sgelerder ydyw hyn, ac anwiredd ydyw, i'w

gosbi gan farwyr. Canys tân ydyw a yffa oni anrheithio; ac efe a ddadur reiddia fy holl ffrwyth.

2. Yr oedd Godinebwr i'w rhoddi i Farwolaeth gynt, yn ôl Cyfraith Duw, yr un gyffelyb a Mwrdwyr. — Lef. xx. 10. A'r gwâr a odinebo gyd â gwraig gwâr arall, sef yr hwn a odinebo gyd â gwraig ei gymddydog, lladder yn farw y godinebwr a'r odinebwraig. Deut. xxii. 22.

3. Mae Godineb yn troi ymmaith Serch Pechadurjaid, oddi wrth Dduw; a Serch Duw oddi wrthunt hwythau. — Hos. iv. 11. Godineb, a gŵin newydd, a dluog y galon ymماith. — Diar. xxii. 14. Ffôs ddfn yw genau gwragedd dieithr; y neb y byddo'r Arglwydd yn ddig wrtho, a syrh yno. Preg. vii. 26. Rhuf. i. 26, 27.

4. Mae Godineb yn halogi Teml Dduw, ac Aelodau Crist; i beri i Ysbryd Duw gilio oddi wrthunt, ac i Fâb Duw eu gwrthod hwynt. — i Cor. iii. 16, 17. Oni wyddoch chwi, mai teml Dduw ydych, a bod Ysbryd Duw yn trigo yn noeb? O's llygra neb deml Dduw, Duw a lygra hwnnw. Canys sanctaidd yw teml Dduw; yr hon ydych chwi. — i Cor. vi. 15. Oni wyddoch chwi fod eich cyrph yn aelodau i Crist? Gan hynny a gymmeraf fi aelodau Crist, a'u gwneuthur yn aelodau puttai? Na ato Duw.

5. Mae Godineb yn dwyn Tlodi, a Gwarth, a Chlefydau blin; a'r Diwedd o hono a fydd yn chwerw jawn. — Diar. vi. 26, 33. O blegid y senyw butteinig y daw dyn i dam-maid o fara; a gwraig gwâr arall a bela yr enaid gwerth-fawr. Archoll a gwarth a gaiff efe; a'i gywilydd ni ddikair. — Diar. v. 3, 4, 5, 8—11. Gwefusau y ddieithr a ddiferant fel y dil mîl, a'i genau sydd lyfnach nag olew: ond ei diwedd bi a fydd chwerw fel y wermod, yn llym fel cleddyf dausniog. Ei thraed bi a ddifgynnant i angau; a'i cheraddediad a fang usfern. Cadw dy ffordd yna mhell oddi wrthi hi, ac na nesâ at ddrws ei thŷ hi: rhag i ti roddi dy harddwrch i eraill, a'r h flwyddoedd i'r creulon: rhag llenwi'r esron a'r gyfoeth di, ac i'r tasur fod yn nhî y dieithr; ac o'r diwedd i ti ochain, wedi i'r gnawd a'r gorff gurio. Diar. xxxi. 3. vii. 22, 23. xxix. 3.

6. Mae Duw yn ymosod mewn modd enwedigol i gosbi Godineb. — Jer. v. 7—9. — Pan ddiwellaïs breynt, gwnaethant odineb, ac a heidasant i dî'r buttein. Oddynt fel meirch portbannus y boran; gweryrent bob un ar wraig ei

ei gymmydog. Onid ymwielaſ am y perbau byn? medd yr Arglwydd: oni ddial ſy enaid ar gyfryw genedl a bon? Hebr. xiii. 4.

7. Bydd Duw ei hun yn Dyst yn erbyn Godinebwyr; a Melldith Duw sydd ar eu holl Feddiant. — Mal. iii. 5. Mi a nesaf attoch chwi i farn, a byddaf dyst cyflym yn erbyn yr budoljon, ac yn erbyn y godinebwyr. — Job xxiv. 18. — Melldigedig ydyw eu rbandir hwy ar y ddaear. Col. iii. 5, 6.

8. Mae Godineb yn diſtrywio dau Enaid ar unwaith; canys Hudoljaeth y Buttain a rwyſtra iddunt ddychwelyd. — Diar. ii. 18, 19. Y mae ei thŷ bi yn gŵyro at angau, a'i llwybrau at y meirw. Pwy bynnag a elo i mewn atti bi, ni ddychwelant; ac nid ymafaelant yn llwybrau'r bywyd. — Diar. vii. 26, 27. Llawer a gwympodd hi yn archolledig; ie gwyr grymmus lawer a laddodd hi. Ffordd i uffern yw ei thŷ bi, yn disgyn i 'stafelloedd angau. Diar. xxiii. 27, 28. vi. 32.

9. Nid â Godinebwyr na Phutteinwyr i Deyrnas Nefoedd; eithr hwynthwy a fernir i Gôsb dragwyddol yn Nydd y Farn. — i Cor. vi. 9, 10. Oni wyddoch chwi, na chaiff y rhai angbyfawn etifeddu teyrnas Duw? Na thwyller chwi; ni chaiff na godinebwyr, nac eulynaddolwyr, na thorruwr priodas, na masweddwyr, na gwrryweddwyr, na lladron, na chybyddion, na meddrwon, na difenwyr, na chribadeilwyr, etifeddu teyrnas Duw. 2 Pedr ii. 9, 10, 14. Dad. xxi. 8. xxii. 15.

10. Llaweroedd a goswyd yn echrydus, trwy gyflawn Farn Duw, yn y byd hwn, o blegid Godineb a Phutteindra. Duw a darawödd Pharao Brenin yr Aipht, a'i deulu, a phlâau mawrion, am gymmeryd Sarai Gwraig Abram i'w dŷ, er na halogwyd hi; ac a fygythiodd ladd Abimelec Brenin Gerar o'i hachos hi. Gen. xii. 14—20. xx. 3.

— Samson, trwy wenjaith ei ordderchwraig, a golloedd ei nerth, a'i lygaid, a'i fywyd. Barn. xvi. — Pedair mil ar hugain o bobl a laddwyd â'r plâ mewn un dydd, o achos Godineb Zari a Chosbi; a hwyntau eu hunain a wanwyd â gwaywffon trwy eu ceudod yng ngweithred eu Godineb. Num. xxv. 6—9. — Deugain mil o wyr Isräel, a phum mil o wyr Benjamin, a laddwyd â'r cleddyf, o achos eu Godineb, un noswaith. Barn. xix. a'r xx. ben. — Nabuchodonosor

chodonosor Brenin Babilon a rosiodd wrth y tan ddau gan
briophwyd, am eu Godineb a'u Drygioni. *Jer.* xxix. 22, 23.
— *Sodom a Gomorrah*, a'r dinasoedd o'u hamgylch, am eu
Pattieindra, a osodwyd yn esampl, gan ddioddef dialedd Tan
tragywyddol. *Jud.* 7.

Cro. Pa Ddyledswyddau sy'n orchymwynnedig; c yn ddy-
ledus arnoch oddi wrth y Seithsed Gorchymmyn, ynghylch
Diweirdeb?

Att. 1. Ni a ddylem gyflwyno ac addunedu 'n Cyrph a'n
Heneidjau i Wasanaeth a Gogoniant Duw; ac nid i Afleidid
a Godineb. — *Rhuf.* vi. 13. — *Rhoddwch eich hunain i
Dduw, megis rbai o feirw yn fyw, a'ch aelodau yn arfau
cyfarwander i Dduw.* — *1 Cor.* vi. 20. — *Gogoneddwch
Dduw yn eich corff, ac yn eich ysbryd, y rbai sydd eiddo
Dwre.* *Rhuf.* xii. 1.

2. Ni a ddylem ymgais yn orchesol yn ôl gwîr Sancteiddiad; fel na haloger ni â Chwantau a夫an. — *1 Theff.* iv. 3.
*Hyn yw ewyllys Dwre, sef eich sancteiddiad cbwi, ar ym-
gadw o honoch rhag godineb.* — *2 Cor.* vii. 1. — *Xmlan-
bawn oddi wrth bob halogrwydd onawd ac ysbryd, gan ber-
feithio sancteiddrydd yn ofn Dwre.*

3. Ni a ddylem ochelyd Cymdeithas Dynjon anllad ac
ansoefol; rhag iddunt hwy fod yn Dramgydd ac yn Fagl
i ni. — *1 Cor.* v. 11. — *O's bydd neb a enwir yn frawd
yn odinebwyr, neu yn gybydd, neu yn eulynaddolwr, neu yn
feddw, neu yn gribdeiliwr; gyd a'r cyfrwyd ddyn na chyd-
fwyta chwaith.* — *Eph.* v. 11, 12. *Na sydded i cbwi gyd-
gyfeillach â gweithredoedd anffrwythblawn y tywyllwch,
etibr yn bytrach argyoeddwch buynt.* *Cany's brent yw
adrodd y perthau a wneir ganddunt bwy yn ddirgel.* *2 Theff.*
iii. 6. *2 Dim.* iii. 1—5.

4. Ni a ddylem weddio Duw am Gymmorth i wilio'n
holl Synhwyrau oddi allan, a'u cadw'n ddiesgeulus oddi wrth
Wrthrychiau prosedigaethus. — *Sal.* cxix. 37. *Tro beibia
sy llygaid, rhag edrych ar wagedd: a bywba si yn dy ffyrdd.*
— *Job* xxxi. 1. *Myf a wneuthum ammod â m llygaid; pa
bam gan hyunny y meddyliwn am forwyn?* *Efa a edrych-*
*odd ar degwch ffrwyth y Pren gwaharddedig; ac yna hi
a'i chwennychedd, ac a fwytaodd o hono.* *Gen.* iii. 6. —
*Gwraig Putiphar a ddyrchafodd ei golwg ar Joseph, yr hwn
oedd*

oedd dêg o bryd ; ac a'i temtiodd ef i Afleiddid. Gen. xxxix.

6, 7. 2 Pedr ii. 14. Math. v. 28.

5. Ni a ddylem ddyfal-warchod yn erbyn pob dychym-mygion a Chwantau cnawdol, yn ein Meddyliau oddi mewn : canys Llerteion Satan a Godineb ydynt. — Jago i. 14, 15. Yna y temtir pob un, pan y tynner ef, ac y llithier, gan ei chwant ei hun. Yna chwant, wedi ymddwyn, a esgor ar bechod : pechod besyd, pan orphenner, a esgor ar farwolaeth. — Mal. ii. 16. — Gan hynny gwiliwrch ar eich ysbryd, na fyddoch anffyddlon. Math. xv. 19. 1 Pedr ii. 11. Eze. xxiii. 19.

6. Ni a ddylem bellhâu oddi wrth bob Prosedigaethau i Afleiddid ; ac na ddelom yn wybodel yn agos attunt. —

2 Dim. ii. 22. Chwantau jeeuengetid, ffô oddi wrthunt. — Diar. v. 3, 8. Canys gwehusau y ddieithr a ddiferant fel y dîl mêl, a'i genau sydd lyfnach nag olew. Cadw dy ffordd ym mhell oddi wrthi bi, ac na nesâ ar ddrws ei thŷ bi. — Diar. vi. 27, 28, 29. A ddiclon gŵr ddwyn tan, n ei synwes, ac heb losgi ei ddillad ? A ddiclon gŵr rodio ar byd marwor, ac heb losgi ei draed ? Felly, pwy bynnag a él at wraig ei gymmydog ; y neb a gyffyrddo â bi, ni bydd glân.

7. Ni a ddylem fod yn sym, yn sobr, a thymherus yn ein Lluniaeth, ac yn ddiwyd yn ein Galwediagaethau : canys Achles Chwantau a Thanwedd Godineb, yw Segurdra, Moethau, a phob Anghymmedroldeb. — Rhuf. xiii. 14. — Na wnezech ragddarbod dros y cnawd, er mwyn cyflawni ei chwantau ef. Paul a ddywedai, Tr wyl si yn cosbi sy nghorff, ac yn ei ddiwyn yn gaeth ; rhag i mi — fod yn anghymmeradwy. 1 Cor. ix. 27. Diar. xxiii. 1, 2, 3. 1 Pedr v. 8. Luc xxi. 34. Eph. v. 18. 2 Theff. iii. 8.

8. Ni a ddylem ymddwyn yn weddaidd, fel y perthyn i Ddiweirdeb, yn ein Geirjau, a'n Gwisgoedd, a phob rhan o'n Hymarweddriad ; fel na chyffrôm Wýnjau anllad ynnom ein hunain, nac yn neb arall. — 1 Pedr iii. 2—4. — Ymarweddriad diwair yngbyd ag ofn. Trwsiad y rhai bydded nid yr un oddi allan, o blerhiad gwalt, ac amgylchosodiad aur, neu wisgad dillad : eithr bydded cuddiedig ddyn y gât, mewn anlygredigaeth ysbryd addfwyn a llonydd, yr bun sydd ger bron Duw yn werthfawr. 1 Dim. ii. 9. Eph. iv. 29. V. 4. Col. iv. 6. Seph. i. 8.

9. Ni

9. Ni a ddylem ymostwng yn usudd i bob Cyngor duwjol yn erbyn Chwantau'r Cnawd, mewn pryd; rhag i ni osfio'n chwerw am esgeuluso hynny, pan fyfho'n rhy ddiweddar,

— Diar. v. 1, 9, 11—13. Fy mab, gwrandd ar fy noethineb, a gofuring dy glust at fy nyall: rhag i ti rodai dy harddwch i eraill, a' th flynyddoedd i'r creulon; ac o'r diweddf i ti ochain, wedi i'th gnawd a' th gorff gurio, a dywedud, Pa fodd y caseais i addysg! pa fodd y dirmyodd fy nghalon gerydd! ac na wranderwais ar lais fy athrawon, ac na osiyngais fy nghlust i'm dysgawdwyr!

Diar. vi. 23, 24, 25. vii. 1, 5, 11, 12, 25—27.

10. Ni a ddylem, yn bennaf o bob peth, edrych am syw mewn Cymmundebyl ysbrydol â Duw; fel na chaffo Satan, na'r Cnawd, Fantais yn ein herbyn. — Gal. v. 16.—Rbodiwr yn yr Ysbryd, ac na chyflawniwr drachwant y cnawd.

— Rhuf. viii. 13. O's byw yr ydych yn ôl y cnawd, meirw fyddwr; eithr o's ydych yn marweiddio gweithredoedd y corff trwy'r Ysbryd, byw fyddwr.

11. Fe ddylai y rhai nid oes ganddunt ddawn Diweirdeb, briodi: canys fe ordeiniodd Duw Ysdâd Briodas yn Feddyginaeth rhag Godineb. — 1 Cor. vii. 2, 9. Rhag godineb, bydded i bob gwâr ei wraig ei bun. Oni allant ymgadw, priodant: canys gwell yw priodi nag ymlosgî. 1 Dim. v. 14.

12. Mae'r Seithsed Gorchymwyn yn dodi Rhwymedig-aeth ar bawb sy'n briod, i gyflawni'n gydwytihadus y Dyled sydd arnunt i'w gilydd; sef, y Gwyr i'w Gwagedd, a'r Gwagedd i'w Gwyr.

Cw. Beth yw Dyled Gwyr priod i'w Gwagedd?

Ans. 1. Dyled Gwyr priod yw, mawrhau a charu eu Gwagedd. — Eph. v. 25, 28, 33. T' gwyr, cerwch eich gwagedd, megis ag y carodd Crist yr eglwys, ac a'i rhoddes ei bun drosti. Felly y dylai y gwyr garu eu gwagedd, megis eu cyrff eu bunain. — Felly cared pob un a honoch ei wraig, fel ef ei bun.

2. Dyled y Gwyr yw, ymgadw'n bur oddi wrth bob Afendid a Godineb. — Hebr. xiii. 4. Ankydeddus yw priodas ym mhawb, a'r gwely dihalogedig: eithr puttein-wyr a godineb-yrr a farna Duw. — Diar. v. 19. Bydded (dy Wraig dy hun i ti) fel ewig gariadus, ac fel iwrch hawddgar: gad i'w bronau hi dy lenwi bob amser, ac ymfodlonia yn ei chariad hi yn waftadol.

3. Dyled

3. Dyled y Gwyr yw, cydwyw a'u Gwragedd, heb adel i un achos o Ysgar nac Ymadawiad dyfu rhynghunt. — 1 Pedr iii. 7. *T* gwyr yr un ffenyd, cydgyfanedd wch a bwyt yn ol gwybodaeth. — Math. xix. 5, 6. — O blegid hyn y gâd dyn dâd a mam, ac y glŷn wrth ei wraig: a'r ddau fyddant yn un cnaowd. O berwydd pa bam, nid ydynt mwy yn ddou, ond yn un cnaowd. *T* perth gan hynny a gyffylltodd Duke, na ysgared dyn.

4. Dyled y Gwyr yw, bod yn dyner o Enw da ac Oneisrwydd eu Gwragedd; ac na roddont Anair cam weddus iddunt. — Deut. xxii. 13, 14, 18. O chymmer gŵr wraig, ac wedi myned arri, ei chasîu; a gofod yn ei berbyn anair, a rhoddi allan enw drwg iddi: — henurjaid y ddinas honno a gymmerant y gŵr, ac a'i cosbant ef. Math. i. 19.

5. Dyled y Gwyr yw, perchi eu Gwragedd; ac nid eu dirmygu. — 1 Pedr iii. 7. — Gan roddi parch i'r wraig, megis i'r lestr gwannaf, fel rbai sy gydetifeddion grâs y bywyd; rhag rhywystro eich gweddiau. Diar. xi. 16.

6. Dyled y Gwyr yw, theoli eu Gwylltineb a'u Nwydau diglon, i fod yn dirion ac yn garuaidd i'w Gwragedd. — Col. iii. 19. *T* gwyr, cerwch eich gwragedd, ac na fyddwch ebwerwön writhunt. Eph. v. 25.

7. Dyled y Gwyr yw, rhoddi i'w Gwragedd ddyledus Ewyllys da, a phob Ymgeledd angenheidjol. — 1 Cor. vii. 3—5. Rhodded y gŵr i'r wraig ddyledus ewyllys da; a'r un wedd y wraig i'r gŵr. Nid oes i'r wraig feddiant ar ei chorff ei hun, ond i'r gŵr; ac yr un ffenyd, nid oes i'r gŵr feddiant ar ei gorff ei hun, ond i'r wraig. Natrwyd i gilydd, oddieithr o gydsyniad dros amser, fel y galloch ymrôi i ympryd a gweddi: a deuwch drachefn yngnid, rhag iemio o satan chwi o berwyda eich anlladrwydd.

8. Dyled y Gwyr yw, arferyd eu Gwragedd yn barchus. — 1 Theff. iv. 4, 5. Ar fedru o bob un o honoch feddiant ei lestr ei hun mewn sancteiddwyd a pharch; nid mewn gwŷn trachwant, megis y cenbedloedd y rbai nid adwaenant Dduw. Lef. xx. 18.

9. Dyled y Gwyr yw, cysfuro eu Gwragedd dan eu Blinderau, a phob Profedigaeth; megis y gwnaeth Elcanab i Hannab ei Wraig: — 1 Sam. i. 6, 8. Gwrtwyneb wraig Hannab

Hannah a'i cyffrodd hi i'w cbytbraddo, am i'r Arglwydd gan ei bru hi. Tna Elcanah ei gw̄r a dlywedodd wrthi, Hannah, pa ham yr wyli? a pha ham na fwytai? a pha ham y mae yn flwm ar dy galon? onid wyf si yn well i ti nā deg o feibion?

10. Dyled y Gw̄yr yw, cynhorthwyo eu Gwragedd (megis y dylai'r Gwragedd hefyd gynhorthwyo eu Gw̄yr) yng Ngwaith eu Jechydwriaeth, a Gwasanaeth Duw. — 1 Cor. vii. 16. Beth a wyddost ti, wraig, a gedwi di dy wr? a pheth a wyddost i'r hau, wr, a gedwi di dy wraig? Z̄acharias ac Elisabeth ei Wraig oedd ynt ill dau yn gyflawn ger bron Duw, yn rhodio yn holl orchymmynnion a deddfau'r Arglwydd yn ddiargyoedd. Lūc i. 6.

Cw. Beth yw Dyled Gwragedd i'w Gw̄yr?

Att. 1. Dyled y Gwragedd yw, usuddhau'n ostyngedig i'w Gw̄yr; ac nid ymawdurdodi, neu reali drostunt. — Gen. iii. 16. Wrth y wraig y dywedodd Duw, Gan amlhau yr amlhdaaf dy boenau di a'th seichjogi: mewn poen y dygi blant, a'th dymuniaa fydd at dy wr, ac efe a lywodraetha arnat ti. — Eph. v. 22—24. Y gwragedd, ymostyngwch i'ch gw̄yr priod, megis i'r Arglwydd. O blegid y gw̄r yw pen y wraig, megis y mae Crist yn ben i'r eglwys; ac efe yw Fachawdwur y corph. Ond fel y mae'r eglwys yn ddar-ostyngedig i Crist, felly besyd bydded y gwragedd i'w gwȳr priod ym bob petb. Col. iii. 18.. 1 Dim. ii. 11, 12.

2. Dyled y Gwragedd yw, dangos Parch i'w Gw̄yr; ac nid eu diystyru. — Eph. v. 33. Ond chwithau besyd cymaint un, felly cared pob un o honoch ei wraig, fel ef ei bunan; a'r wraig, edryched ar iddi berchi ei gw̄r. 1 Pedr iii. 6.

3. Dyled y Gwragedd yw, gwneuthur a allont, i'w Gw̄ir fod yn gymmeradwy ac yn anrhyydeddus ym mysg pawb eraill. — Diar. xii. 4. Gwraig rynamus (sef, Gwraig neweddus) sydd goron i'w gw̄r; ond y waradwyddus sydd megis pydri yn ei esgyrn ef. — 1 Cor. xi. 7—9. — Y wraig yw gogoniant y gw̄r. Canys nid yw y gw̄r o'r wraig, ond y wraig o'r gw̄r. Ac ni chrewyd y gw̄r er mwyn y wraig, eithr y wraig er mwyn y gw̄r.

4. Dyled y Gwragedd yw, bod yn beddychol ac yn garuidd tu ag at eu Gw̄yr, a'u Tylwyth; nid yn anynad ac yn ddigillon. — Diar. xxi. 9, 19. Gwell yw bod mewn congl

congl ym nem iñ, nā bod gyd â gwraig anynad mewn 33
ekang. Gwell yw aros yn yr amalwch, nā chyd â gwraig
anynad ddigion. Diar. xxv. 24. xxvii. 15, 16.

5. Dyled y Gwragedd yw, dilyn Sobrwydd, ac Ymarwe-
ddiad da: nid enllibio, a rhodienna oddi amgylch; eithr
gwarchod Garref, a rhoddi Esampl dda. —— Dit. ii. 3 — 5.
Bod o'r hynafuragedd yr un ffynyd mewn ymddygiad, fel
y gweiddai i sancteiddrwydd, nid yn enllibardd, nid wedi
ymroi i wñ lawer, yn rhei atbrawjaeth o ddajoni; fel y
gallont wneuthur y gwragedd jeuatingc yn bwyllog, i garu
eu gwyr, i garu eu plant, yn sobr, yn bur, yn gwarchod
gartref, yn dda, yn ddarostyngedig i'w gwyr priod, fel na
chabler gair Duw. — Dim. iii. 11.

6. Dyled y Gwragodd yw, ymddwyn yn ofsyngedig, ac
yn weddaidd yn eu Tymmer a'u Trwsiad, gan fyw'n dduw-
jol ym mhob peth; fel yr ennillont eu Gwyr i ddilyn Duw-
joldeb gyd â bwynt. —— i Pedr iii. 1 — 4. Tr un ffynyd,
bydded y gwragedd ofsyngedig i'w gwyr priod; fel od oes
rbai heb gredu i'r gair, y galler, trwy ymarweddriad y
gwragedd, eu hennill bur y gair, wrth edrych ar eich
ymarweddriad diwair cbwi ynghyd ag ofn. Trwsiad y rbai
bydded mit yr un oddi allan, o blethiad gwalt, ac am-
gylchosadiad our, neu wisgad dillad; eithr bydded cuddi-
edig ddyn y galon, mewn antlygredigaeth ysbryd addfwyn a
llonydd, yr hwn sydd ger bron Duw yn werthfawr. — Dim.
ii. 9 — 11. Esay iii. 16 — 26.

7. Dyled y Gwragedd yw, ymgadw'n ddiwair ac yn ffydd-
don i'w Gwyr priod; megis y mae Cyfraith Duw yn gor-
chymmyn, dan berygl Marwolaeth. —— Deut. xxii. 23, 24.
O bydd llangces o forwyn wedi ei dyweddio i'wr, a chael
o'wr hi mewn dinas, a gorwedd gyd â hi: yna y dygwch
bwynt ill dau i borth y ddinas honno, ac a'u llabyddiwch
bwynt â mein, fel y byddont feirw.

8. Dyled y Gwragedd yw, bed yn fodlon, ac nid ymddig-
io, pan na fytho Duw yn rhoddi iddunt Blant. Rachel a
ddywedodd wrth Jacob ei Gŵr, Dyro i mi seibjan; ac
onid è, mi a syddaf farw. Rachel a gafodd fab; ac ar
enedigaeth yr ail hi a fu farw, ac a alwödd ei enw ef Ben-
oni; ses, Mâb ei galar. Gen. xxx. 1, 23. xxxv. 16 — 19.

9. Dyled Gwragedd yw, rhoddi'r Cyngor a'r Cymorth
gorau ag a allont i gyffuro a diflino eu Gwyr, pan syddont
mewn

mewn Blinder neu Berygl. Pan oedd Jacob dan flinder o herwydd trawsder Laban, Rachel ei Wraig a roes Gyngor grafol iddo, gan ddywedud, *Yr hyn oll a ddywedo Duw wrthyt, gwnâ.* Gen. xxxi. —— Abigail Gwraig Nabat, trwy bwyll a challineb, a achubodd ei Gŵr a'i Thylwyth rhag cael eu ladd. 1 Sam. xxv. —— Michal Gwraig Dafydd a'i helpiodd ef i ddiangc, pan oedd Saul ei rhâd yn ceisio ei ladd ef. 1 Sam. xix. —— Gwraig Manoah a gyffurodd ei Gŵr, pan oedd dan lawer o fraw ac ofn o blegid y Weledigaeth a welsai. Barn. xiii. —— Gwragedd ffôl a diras a wnânt yn y gwrthwyneb i hyn. Gwraig Job a'i han-nogodd ef, yn ei drallod, i felldithio Duw, a marw. Job ii. 9. —— Gwraig Moses a'i galwödd ef yn ôr gwaedlyd, am iddo enwaedu ei fab yn ôl Gorchymmyn Duw. Ecs. i. iv. —— A Gwraig Dafydd, bryd arall, a'i gwatwarodd ef, am ddawnfio o flaen yr Arch; a'r Arglwydd a ddigiodd wrthi, ac a'i cosbodd. 2 Sam. vi. —— A Jezabel, Gwraig Abab, a ddysgodd i'w Gŵr wneuthur Drygioni galanaf-fawr; yr hyn a dynnodd Farn echrydus arnunt. 1 Bren. xxi. —— Ananias a'i Wraig Saphira a gyttunasant i ddywedud celwydd; a buont feirw ill dau ger bron yr Arglwydd. Att. v. 1—10.

10. Dyled y-Gwragedd yw, edrych yn ddyfal ac yn ffyddlon at Achosion eu Gwyr, a'u Tylwyth; a dyfgu'n awyddus holl Gynheddfau da Gwragedd rhinweddol. —— Diar. xxxi.
 10—13, 20, 23, 26, 27. *Pwy a fedr gael gwraig rinweddol? gwerthfa-wroccach yw hi nâ'r carbwncl. Calon ei gŵr a ymddiried yndi, fel na bydd arno eisiau anrbaith. Hi a xenâ iddo lês, ac niid drwg, holl ddyddjau ei bywyd. Hi a gais wlân a llîn, ac a'u gweithia d'i dwylaw yu ewythrifgar. Hi a egyr ei llaw i'r llawd; ac a estyn ei dwylaw i'r anghenius. Hynod yw ei gŵr bi yn y pyrth, pan eisteddo gyd â henurjaid y wlad. Hi a egyr ei genau yn ddoeth; a chyfraith trugaredd sydd ar ei thafod bi. Hi a graffu ar ffyrrdd tylwyth ei rhŷ: ac ni fyrti bi fara seguryd.*

Cw. Beth yw'r Wythfed Gorchymmyn?

Att. Na ladratta.

Cir. Ynghylch pa beth y gefodit Rwymedigaeth arnom yn yr Wythfed Gorchymmyn?

Att.

Att. Mae'r Wythfed Gorchymyn yn gosod Rhwymedig-aeth arnom, i fod yn gywir ac yn onest mewn perthynas i Feddiannau bydol pob Dŷn; ac nā bo i ni gamgolledi neb, eithr ceisio Llēs ac Elw gyfreithlon eraill, fel yr eiddo'n hunain.

Cw. Pa fawl peth y mae'r Wythfed Gorchymyn yn ddal allan?

Att. Y tri pheth hyn.

1. Fod Duw yn caniattâu i bob Dŷn Hawl neilidol o'r Meddiant cyfreithlon sy gantho. Wedi llygru Natur Dŷn trwy'r Cwmp, nid adawödd Duw i ddaeoedd y byd hwn fod yn gyffredin mwyach; eithr efe a roddodd ran pob Dŷn i'w Feddiant ei hun: efe a bwyntiodd *Fynydd Seir* i *Esau*, a Gwlâd *Canaan* i *Isräel*; ac a rannodd y Wläd shwng y deuddeg Llwyth.

2. Nad yw'n gyfreithlon i neb, i ysbeilio na cholledu y naill y llall; eithr bod i bawb oll geisio Elw a Meddiant ei gilydd, fel y byddai Cariad rhynghunt; a phob un i lasurio am Feddiant cyfreithlon o'u heiddo eù bun tu ag at eu Cynhaliaeth; fel na hyddai na diffyg arnunt, na neb yn anoneft.

3. Fod Duw, yn ddiammau, yn pennodi'r Gwaith a ddy-lai pawb wneuthur â'u Moddjon, ac i roddi Cyfrif am da-nunt yn y Farn ddiweddaf; o herwydd pa ham y mae Duw yn gwahardd i gymmeryd Moddjon neb oddi wrtho yn anghyfreithlon.

Cw. Pa Bechoda u waherddir yn bennaf yn yr Wythfed Gorchymyn?

Att. Mae'r Wythfed Gorchymyn yn gwahardd pob Anghyflawnder, a Thwyll, a Chamwedd, ag fy'n colledu, neu'n rhwystru Elw gyfreithlon Dynjon eraill, neu'r eiddo ni ein hunain; ac nid yn unig yr hyn a elwir yn gyffredin yn *Lledrad*.

Cw. Enwch yn fw̄y neilidol y Pechoda u waherddir yn bennaf yn yr Wythfed Gorchymyn.

Att. 1. *Cyffegrysbeiliad*; sef, cymmeryd ymtraith, neu gadw yn ôl, y peth a roddwyd i Ogoniant a Gwasanaeth Duw: — *Y Lledrad* mwyaf 'sgeler, o blegid mai ysbeilio Duw ydyw. — Mal. iii. 8, 9. *A ysbeilia dyn Duw? erro cbwi a'm bysbeiliastoch i.* Ond obwi a ddywedwch, *Tm mba beth y'th ysbeiliastom?* *Tn y degwm a'r offrwm.* *Melldigedig ydych trwy feldiñ;* canys cbwi a'm bysbeiliastoch

afocb i, sef yr holl genedl kon. Diar. xx. 25. Rhuf. ii. 22.

2. Cam Farn, a cham Dystiolaeth; trwy ddywedud Anwir, neu gelu'r Gwîr; trwy yr hyn y colledir rhai neu gilydd yn eu Meddiant, ac y dioddefant Anghysfiawnder a Cham. — Lef. xix. 15. Na wñewch gam mewn barn na dderbyn wyneb y tlawd, ac na pharcha wyneb y cadarn; barna dy gymmydog mewn cyfarwnder. — Diat. xiii. 17. Y neb a ddywedo'r gwîr, a ddengys gyfarwnder: ond gau dyst a draethâ dwyli. Diar. xxv. 18.

3. Delio'n hoccoedus a dichellgar wrth Brynu a Gwerthu: canys Lledrad a Gorthrymder yw. — Lef. xxv. 14. Pan wertbeck ddim i'th gymmydog, neu brynu ar law dy gymmydog, na orthrymmwoh baub ei gilydd. — Eccles. xxvii. 2. Rbwng cyffwlli cerrig y gyrrir boel; a rbwng prynu a gwerthu y glŷn pechod. Eccles. xxvi. 29. Diar. xx. 14, 17. xxi. 6. Hos. xiii. 7. Amos viii. 4 - 7. Math. xxi. 12, 13.

4. Celu'r Camwedd a wnelo rhai eraill, heb eu hargy-oeddi, na mynegi am dano. — Sal. i. 18. Pan welaist ledr, cyttunaist ag ef. — Diar. xxix. 24. Y neb a fo cyfrannog â lleidr, a gasâ ei enaid ei bun: efe a wrendy ar felldith, ac ni's mynega.

5. Cam Fesurau, a cham Bwysau; sef, Pwys neu Fesur rhŷ brin wrth Werthu, a mynnu mwy nag sy'n ddyledus wrth Brynu. — Diar. xx. 10, 23. Amryw bwysau, ac amryw fesurau, ffiidd gan yr Arglwydd bob un o'r ddau. Ffiaidd gan yr Arglwydd amryw bwysau; a chlorian twyllodrus nid ysw dda. Lef. xix. 35, 36. Diar. xi. 1. Mic. vi. 10, 11. Deut. xxv. 13 - 16.

6. Nactâu talu yr byn a fenthyceiom; neu oedi talu'r perth sydd ddyledus: canys ysbeilio eraill yw hyn. — Lef. xix. 13. Na chamarra ol/li wrth dy gymmydog, ac na gysbeilia ef: na thriged cyflog y gweithwr gyd â tbi byd y boran. — Sal. xxxvii. 21. Yr annwylol a echwyna, ac ni' thâl adref. Deut. xxiv. 14. Jago v. 4. Rhuf. xiii. 7, 8.

7. Pob Chwiwiatta, a Darngeuddio, ac Anffyddlondeb, er na bo ond mewn pethau bychain; neu Blant yn chwiwiatta oddi ar eu Rhieni. — Luc xvi. 10. Y neb sydd anghysfiawn yn y lleiaf, sydd anghysfiawn besyd mewn llawer. — Diar. xxviii. 24. Y neb a ysbeilio ei dad, neu ei fam, ac

a adywed, *Nid yw kyn gamwedd;* sydd gymmar i ddiwyfrwr. *Dit.* ii. 9, 10.

8. *Gortbrymmu'r Tlawd,* a'r *Angbenus,* neu ryw rai eraill, trwy fynnu Occreth a Gwyfyl, neu Usuriaeth anghyfreithlon; sef, mwy nag sy gyflawn am yr hyn a echwynir iddunt. — *Ecsod.* xxii. 25, 26. O's echwyni arion i'm pobl sy dlawd yn dy ymmyl, na sydd fel occrwr iddunt: na ddid usuriaeth arnunt. O's cymmeri ddilledyn dy gymmydog ar wylt, dyro ef adref iddo ef erbyn macbludo haul. *Diar.* xxii. 22, 23. *xxviii.* 8. *Deut.* xxiii. 19. *Job xxiv.* 2, 3, 7, 9, 10. *Lef.* xxv. 35—37.

9. *Trachwant awyddus i gydio Tiroedd a Meusydd ynghyd yn yr un llaw;* ac felly ysbeilio eraill o'u Bywjoljaeth. — *Esay v.* 8, 9. *Gwae y rbai sy yn oyssylltu ty at dy,* ac yn cydio maes wrth faes, hyd oni byddo eisiau lle, ac y trigoch chwi yn unig ynganhawl y tir. *Lle y clywais y dywedodd Arglwydd y lloedd,* *Tn ddiau bydd tai lawer, mawrjon, a thêg, yn anghyfannedd heb drigiannydd.* *Mic.* ii. 2, 3.

10. *Symmod Ffinian rhwng Tiroedd;* gan ddwyn rhyw gymmaint oddi wrth y naill, i'w chwanegu at yr ochr arall. — *Deut.* xix. 14. *Na symmod derfyn dy gymmydog,* yr hwn a derfynodd y rbai a fu o'r blaen, o fewn dy etifeddiaeth yr hon a feddienni, yn y tir y mae'r Arglwydd dy Dduw yn ei roddi i ti i'w feddiannu. *Diar.* xxiii. 10. *xxiii.* 28.

11. *Syrthni, a Segurdra:* canys y rhai ni weithiant yn eu Galwad cysfreithlon am eu Cynhaliaeth, ac am y Ffis neu'r Gyflog a dderbyniant, ydynt yn ddiammau yn bwyta Bara lledradaidd. — *Gen.* iii. 19. *Trwy chwys dy wyneb y buylai fara,* byd pan ddychwelech i'r ddaear. — *2 Theff.* iii. 10. — *Hyn a orchymmynasom i cbwi,* O's byddai neb ni fynnai weithio, na chai fwyta chwaith. — *Esay i.* 23. *Dy dywysoeon sydd gyndyn,* ac yn gyfrannogion a lladron; pob un yn caru rhaddion, ac yn dilyn gwobrau: ni farnant yr amddifad, a chwlyn y weddw ni chaiff ddyfod at-runt.

12. *Gloddesta;* sef, dilysn Glythineb, a Meddwdod, a Di-fyrrwch ofer, a Chwamaeon: canys felly y mae llawer yn ysbeilio eu Hunain, a'u Tylwyth, a'u Gofynwyr hefyd, a'r Tlodion,

Tlodian, o'r peth sy ddyledus iddunt. — Diar. xxiii. 20,
 21. *Na fydd ym mysg y rhai sydd yn meddwi ar wîn; ym
 mysg rhai glytbion ar gîg.* Canys y meddw a'r gwib a
 ddaw i dloidi: a chyfalu a bair fyned mewn gwisg garpiog.
 — Diar. xxi. 17. *T neb a garo ddifyrwch, a ddaw i dlo-
 di: a'r neb a garo wîn ac olew, ni bydd cyfoethog.* i Dim.
 v. 8.

13. *Mechniaeth fyrbwyl dros eraill; trwy'r hyn y mae
 rhai Dynjon yn ysbeilio eu Hun, a'u Gwragedd, a'u Plant.*
 — Diar. xxii. 26, 27. *Na fydd un o'r rhai a roddant eu
 dwylaw, o'r rhai a fechniant am ddyled.* Oni bydd gennyt
 i dalu, pa ham y cymmerai efa dy wely oddi tanat? Diar.
 vi. 1, 2. xi. 15.

14. *Tymmer gybyddus, a Chynhildeb trachwantus yng-
 hylch Elw'r Byd, a grwgach yn erbyn Gweithredoedd o
 Gariad a Thrugaredd, sydd fel Lledrad yngolwg Duw.* O
 herwydd hyn y mae'r Ysgrythur yn galw *Judas Iscariot* yn
 lleidr, am ei dymmer gybyddus, yn grwgach yn erbyn y
 Wraig a enneiniodd Draed Crist ag Ennaint. — Joan xii. 6.
*Hyn a ddywedodd ef, — am ei fod yn lleidr, a bod ganho
 y pwrs, a'i fod yn dwyn yr hyn a furid ynddo.*

15. *Pob math o Drwyll a Chamwedd; trwy yr hyn y
 cymmerir neu y cedwir Eiddo neb oddi wrthunt, neu y caffo
 neb eu colledu yn eu Meddiant yn unrhyw ffordd anghyflawn.*
 — Lef. xix. 11. *Na ledrattewch, ac na ddywedwch gel-
 wydd, ac na thwyllwch bob un ei gymmydog.* — Deut.
 xxv. 16. *Ffiaid gan yr Arglywydd dy Dduw bob un a
 wñelo hyn, sef pawb a'r a wñel anghyflawnder.* i Theff.
 iv. 6. Col. iii. 25.

Cw. Pa beth a ddywedir yn yr Ysgrythur am y Drwg a' t
 Côsb o Ledrad, a'r Pech odau eraill a berthyn iddo?

Att. 1. Mae'r sawl sydd o Dymmer gybyddus, ag sy'n
 tywys i Ledrad a Chamwedd, yn terfysgu eu hunain yn ofid-
 us: y maent yn ddigyflurus yn eu Meddiant, ac megis Ge-
 lynjon i'w Heinioes eu hunain. — Diar. xv. 27. *T neb a
 fyddo draebwannog i elw, a derfysga ei dj.* — Diar. i. 18, 19.
*Ac y maent bwy yn cypllwyn am eu gwaed eu bun: am
 eu heinioes eu bun y maent yn llechu.* Felly y mae
 llwybrau y rhai oll sydd cbwannog i elw; yr hwn a ddwg
 einioes ei berchennogion. Diar. xvi. 8.

2. Mae Lledrad, neu ddelio'n gamweddus, yn tynnu Mell-dich echrydus ar Feddiant Dynjon; ac weithjau'n byrhau eu Dyddjau hwy yn y Byd. — Zech. v. 3. Ac efe a ddywedodd wrebyf, *Dynma'r sellaith sydd yn myned allan ar wyneb yr holl ddaear: canys pob un a ledratto a dorrir ymماith, fel o'r tu ymما, yn ei hól hi.* — Jer. xvii. 11. Fel petris yn eistedd, ac heb ddeor, yw'r hwn a helio gyfleoeth yn annheilung: yn banner ei addyddjau y gedy hwynt, ac yn ei ddiwedd ynsyd fydd. Sal. lv. 23.

3. Mae Anghyfiawnder gorthrymmus a Thrais yn gwae-ddi am Ddialedd, ac yn cyfrroi Digofaint Duw yn echrydus. — Eze. xxii. 29, 31. *Pobl y tir a arferasant dwyll, ac a dreisasant drais, ac a orthrymmasant y truan a'r tlawd; y dieithr besyd a orthrymmasant yn angbyfawn.* Am bynn y tywelldais fy nigofaint arnunt, a thân fy llidiorg-rwydd y difethais hwynt: eu ffyrdd eu bun a roddais ar eu pennau hwynt, medd yr Arglwydd Dduw. Amos viii. 4—8. Jer. xxii. 13. Hab. ii. 11, 13.

4. Y rhai a orthrymmant yn greulon, ac a falant Wynebau y Tlawd a'r Gwirion, a adewir yn ddidosturi pan ddêl Cyfyngder arnunt. — Mic. iii. 2—4. *T'rhai ydych yn cas-âu'r da, ac yn hoffi y drwg, gan flingo eu croen oddi am danunt, a'u cîg oddi wrth eu hesgyrn: y rhai besyd a frwy-tânt gîg fy mbobl, a'u croen a flingant oddi am danunt, a'u hesgyrn a ddrylliant ac a friwânt megis i'r crochan, ac fel cîg yn y badell. Yua y llefant ar yr Arglwydd, ac ni's etryb hwynt: efe a guddia ei wyneb oddi wrtbunt y pryd hwnnw, fel y buant ddrwg yn eu gweithredoedd.*

5. Barn Duw a sýrthiodd yn drwm jawn yn y Byd hwn ar lawer o Anghyfiawnjon trachwantus a lladronaidd, er Esampla Rhybudd i eraill. *Achan, am ddwyn rhan o ysbail Jericho, a ddaliwyd yn ebrwydd, ac a labyddiwyd;* a Duw a barodd i Joshua gymmeryd Achan, — a'i seibyon besyd, a'i ferched, a'i wartheg, a'i asynnod, a'i ddefaid besyd, a'i babell, a'r hyn oll a feddai, — i w llösgî hwy a thân, wedi eu llabyddio a mein. Jos. vii. 24, 25. — Pan ddygodd Abab winllan Naborh oddi arno, a phan oedd yn myned i wared i'w meddiannu, mynegwyd iddo ar y ffordd, fod Dial Duw yn dysod arno, i'w dorri ef a'i holl hiljogaeth oddi ar y ddaear; ac y byddai i'r cŵn lyfu ei waed ef yn y fan lle llyfasant waed Naborh: ac felly y bu.

1 Bren. xxi. 17 — 2 Bren. ix. — Balaam mab Bosor a garodd wobr anghyfiawnder, ac a ewyllysiodd ennil cyn gwystl fawr gan Falac am felldithio Isräel; eithr ym mhen ychydig ar ôl hynny efe a laddwyd a'r cleddyf. Num. xxii, xxiii, ar xxxi. ben. 2 Peár ii. 15. Jos. xiii. 22. — Judas, y Bradwr lladronaidd, o Drachwant i Elw'r Byd, a werthodd Grifft am ddeg a'r hugain o Arjan; ond ni chaniattaodd Duw iddo amser i'w mwynhâu: canys yn ebrwydd ar ôl hynny ei Gydwybod a'i dychrynnodd, ac efe a grogodd ei hun.

6. Trachwant i Elw anghyfiawn y Byd hwn, yw'r Gwraidd a'r Achos o bob Drwg a Dinystr. — 1 Dim. vi. 9, 10. Y rhai sydd yn ewyllysfio ymgyfoethogi, sydd yn syrthio i brofedigaeth, a magl, a llawer o chwantau ynsyd a niweidiol, y rhai sy yn boddi dynjon i ddinystyr a cholledigaeth. Canys gwreiddyn pob drwg yw ariangarwch: yr hon, a rhai yn chwannog iddi, hwy a gyfeiliornasant oddi wrth y ffydd, ac a'u gwanasant eu hunain â llawer o ofidau. Eph. v. 5.

7. Yr holl Gybyddwyr, y Cribdeilwyr, a'r Anghyfiawn-jon lladronaidd o bob math, a gauir allan o Deyrnas Nefoedd.

— 1 Cor. vi. 9, 10. Oni wyddoch chwi, na chairff y rhai anghyfiawn etifeddu teyrnas Dduw? Na rhwyller chwi; ni chairff na godinebwyr, nac eulynaddolwyr, na rhorrwyr priodas, na masweddwyr, na gwrrywgydwyr, na lladron, na chybyddion, na meddwön, na disenwyr, na cribledeilwyr, etifeddu teyrnas Dduw.

Cw. Pa Ddyledswyddau sy'n rhwymedig arnoch oddi wrth yr Wythfed Gorchymwyn?

Att. Mae'n rhwymedig arnom, oddi wrth yr Wythfed Gorchymwyn, bob Dyledswyddau a berthyn i faentumio a diogelu Meddiant cyfreithlon pob Dŷn, yr eiddo ein hunain, a phawb eraill, hyd ag a allom ni.

Cw. Pa rai yw'r Dyledswyddau hynny?

Att. 1. Ni a ddylem edrych na fyfho i ni, ar un achos, ddrygu neb yn eu Meddiant, mewn Meddwl, Gair, na Gweithred. — Diar. iii. 29. Na feddwl ddrwg yn erbyn dy gymmydog, ac yntef yn trigo yn ddiofal yn dy ymmyl. Sal. xv. 1—3. 1 Thefl. v. 15.

2. Ni a ddylem ragflaenu Colledion rhai eraill, ac achub eu Meddiant rhag Niwaid, hyd ag a allom ni. — Deut. xxii. 1, 3, 4. Ni chai weled eidion dy frawd neu ei ddafad yn

*yn cyfeiliorni, ac ymguddia oddi wrthunt: gan ddwyn dwg
bwyt drachefn i' th frawd. Ac felly y gwnai i' w asyn ef,
ac felly ygwnai i' w ddillad ef; ac felly y gwnai i bob coll-
beth i' th frawd, yr bwn a gyll oddi wrtho ef, a thithau
yn ei gael: ni elli ymguddio. Ni chai weled asyn dy
frawd, neu ei jcb yn gorwedd ar y ffordd, ac ymguddio
oddi wrthunt; ond gan godi cyfod gyd ag ef.* Ecsod. xxiii. 4,5.

3. *Ni a ddylem geisio Llwyddiant a Mantais gyfreithlon
thai eraill, fel yr eiddo ein hunain.* — Phil. ii. 4. *Nac
edrychwr bob un ar yr eiddoch eich hunain, eithr pob un
ar yr eiddo eraill hefyd.* 1 Cor. x. 24.

4. *Ni a ddylem dalu'n ufudd, ac yn ddigymhell, yr hyn
fydd dyaledus i bawb: canys Anonestrwydd, a math o
Ledrau, yw cadw Eiddo neb oddi wrthunt.* — Rhuf. xiii.
7, 8. *Telwch gan hynny i bawb eu dyledjon: teyrned i'r
bwn y mae teyrned yn dyaledus; toll i'r bwn y mae toll;
osn i'r bwn y mae osn; parch i'r bwn y mae parch yn
dyaledus. Na fyddwr yn myled neb o ddim, ond o garu
bawb ei gilyda.* Math. xxii. 21.

5. *Ni a ddylem roddi drachefn i'r Tlodion y cyfryw
bethau angenheidjol at eu Cynhaliaeth, ag a roddasant hwy
i ni ya Wystl am Echwyn.* — Ecsod. xxii. 25, 26. *O's
echwyni arjan i'm pobl sy dlawd yn dy ymmyl, na fydd
fel occwr iddunt: na ddod usuriaeth arnunt.* O's cym-
meri ddilledyn dy gymmydog ar wystl, dyro ef adref iddo ef
erbyn machludo haul. Deut. xxiv. 12, 13.

6. *Ni a ddylem yn ddiammau dalu yn ôl drachefn pa beth
bynnag a gymmerasom, neu a gadwâsom yn gamweddus,
oddi wrth neb.* — Lef. vi. 2, 4. *O's pecha dyn, a gwneu-
thur camwedd yn erbyn yr Arglwydd, a dywedud celwydd
wrth ei gymmydog am yr byn a rodded atto i' w gadw, neu
am yr byn y rhoddes efe ei law, neu yn yr byn trwy
drawsder a ddygodd efe, neu yn yr byn y twyllodd ei gym-
mydog; yna, am iddo bechu a bod yn euog, bydded iddo
roddi yn ei ôl y traiss a dreisiodd efe, neu'r petb a gafodd
trwy dwyll, neu'r petb a addawyd i gadw gyd ag ef, neu'r
petb wedi ei golli a gafodd efe.* Luc xix. 8, 9. Num. v. 6—8.

7. *Ni a ddylem ymfodloni i'n Cyflyrau, er lleied a so
geunym. Y trachwantus a helaetha ei seddwl fel usfern,
ac y mae fel angau, ac ni's digonir.* Hab. ii. 5. — Hyn
fydd yn eu temtio i Anghyfiawnder, a Lledrad. — Hebr.

xiii. 5. *Bydded eich ymarwediad yn ddiariangar; gan fod yn fodlon i'r hyn sydd gennych.* — i Dim. vi. 8. *Ac o bydd gennym ymborth a dillad, ymfodlonwn ar hynny.* Diar. xvi. 8. xv. 16. xxiii. 4, 5. xxx. 8, 9. 2 Cor. xii. 10. Phil. iv. 11, 12.

8. Ni a ddylem gadw'n Synhwyrau oddi wrth olygu Eiddo eraill yn drachwantus, rhag i'r Brofedigaeth ein gorchfygu ni. Pan edrychodd *Achan ar y fantell Babilonig dêg, a'r llafn aur, efe a'u chwennychodd hwynt, ac a'u dygodd.* Jos. vii. 21. Diar. xx. 7. ix. 17, 18.

9. Ni a ddylem weithio'n ddiesgeulus yn ein Galwedigaeth am ein Cynhaliaeth, fel na'n temtier gan Angen i ledratta, na thwyllo neb. — Eph. iv. 28. *Yr hwn a ledrattaodd, na ledratted mwyaich; eitbr yn hytrach cymmered boen, gan weithio â'i ddwylaw yr hyn sydd dda, fel y byddo ganddo beth i'w gyfrannu i'r hwn y mae angen arno.* i Theff. iv. 11, 12. Diar. x. 4. xiii. 4. xx. 4. vi. 9—11. xxii. 29. Act. xx. 34, 35.

10. Ni a ddylem edrych yn ddiesgeulus am y Meddianau a fo gennym, ac na wnelom Wâs nac Afrâd o ddim; fel y caffom ein diwallu mewn ffordd gyfawn. — Diar. xxvii. 18, 23, 26. *Y neb a gadwö ei ffizysbren, a fwyty o'i ffrwyth ef; a'r neb a wafanaetho ei feistr, a ddaw i anrhydedd. Edrych yn ddyfal ar dy anifeiljaid; gofala am dy braidd. Trwyn a'th ddillada; ac o'r geifr y tei werth tir.* — Diar. xxviii. 19. *Y neb a lafurio ei dir, a ddigonir o fara: ond y neb a ganlyno oferwyr, a gaiff ddigon o dodi.* Joan vi. 12.

11. Ni a ddylem ystyriajd Gwagedd y Byd hwn, ac ymddiddynu oddi wrtho: canys Chwant y Byd fy'n hudo i Anonestrwydd. — Preg. ii. 11, 20. *Mi a edrychais ar fy boll weithredoedd a wnaethai fy nwylaw, ac ar y llafur a lafurais yn ei wneuthur; ac wele, hyn oll oedd wagedd a gorthrymder ysbryd, ac nid oedd dim budd dan yr haul. Am hynny mi a droais i beri i'm calon anobeithio o'r boll lafur a gymmrais dan yr haul.* — Preg. vi. 11. *Gan fod llawer o bethau yn amlbâu gwagedd, beth yw dŷn well?* Preg. v. 13—16. Diar. xi. 28.

12. Ni a ddylem, o wir Gariad i Dduw, fod yn hael-jonus i'r Tlawd a'r Anghenus; fel na fyddont dan Brofedigaeth i ledratta o Newyn. — i Joan iii. 17. *Yr hwn sydd*

Sydd ganddo ddâ'r byd hwn, ac a welo ei frawd mewn eisiau, ac a gauo ei dosuri oddi wrtho; pa fodd y mae cariad Duw yn aros ynddo ef? Esay lviii. 10, 11. Deut. xv. 7, 8. iii. 9, 10, 27, 28. xi. 24—26.

13. Ni a ddylem ymddwyn yn onesf ym mhob peth, gan wneuthur i bawb yr un ffunyd ag yr ewyllysiem iddunt hwy wneuthur i ni. — Math. vii. 12. Pa bethau bynnag oll a ewyllystochein gwneuthur o ddynjon i cbwi, felly gwnewch cbwita'u iddunt bwy: canys byn yw'r gyfraith a'r propwydi. Deut. xxxiii. 15. Esay xxxiii. 15, 16. Hebr. xiii. 18.

Cw. Beth yw'r Nawsed Gorchymmyn?

Att. Na ddwg gam dystiolaeth yn erbyn dy gymmydog.

Cw. Ynghylch pa beth y gofodir Rhwymedigaeth arnoch yn y Nawsed Gorchymmyn?

Att. Mae'r Nawsed Gorchymmyn yn gofod Rhwymedigaeth arnom, i roddi Tyftiolaeth gywir ym mhob peth, i faentumio ac amddiffyn Hawl gyfreithlon ac Enw da pob Dŷn, yr eiddo'n hunain, ac eraill hefyd.

Cw. Ynghylch pa sawl peth neillduol y mae'r Nawsed Gorchymmyn?

Att. Ynghylch y pedwar peth hyn.

1. Ynghylch ein Dyled i lynu wrth y Gwirjonedd ym mhob peth; ac na wyrrom oddi wrtho mewn dim. — Eph. iv. 25. — Gan fwrv ymmaith gelwydd, dywedwcb y gwir bob un wrth ei gymmydog: o blegid aelodau ydym i'w gilydd. Zech. viii. 16.

2. Ynghylch ein Dyled i roddi Tyftiolaeth gywir ym mhob Achos o Amrafael rhwng Dynjon a'i gilydd. — Diar. xii. 17. T neb a ddywedo'r gwir, a ddengys gyfawnder: ond gau dyst a draetha dwyll.

3. Ynghylch ein Dyled i faentumio ac amddiffyn Enw da a Bri dyledus ein Cymmydog yn ddiogan, hyd ag allom ni. — Pedr ii. 17. Perobwch bawb. Cerwcb y brawdol jaeth.

4. Ynghylch ein Dyled i faentumio ac amddiffyn ein Henwau c'a'n Bri dyledus ein hunain yn ddiogan. — Preg. vii. 1.

vii. 1. *Gwell yw enw da nôg ennaint gwerthfawr.* —
Diar. xxii. 1. *Mwy dymunol yw enw da nô chyfoeth lawer.*
Cw. Pa Bechoda u a waherddir yn y Nawfed Gorchym-myn?

Art. 1. Fe waherddir pob cam Lw, neu dyngu 'n anudon, a phob cam *Dystiolaeth*, ag y fo'n wrthwneb i'r Gwir-jonedd. — Llef. xix. 12. *Na rhwyngwch i'm Henw i yn anudon, ac na haloga Enw dy Dduw: yr Arglwydd ydwyf fi.* — Math. v. 33. *Clywsoch ddywedud gan y rhai gynt, Na rhwng anudon; eisbr tal dy luron i'r Arglwydd.* Diar. xxv. 18.

2. Cyflogi Dynjon eraill i dyngu 'n anudon am Arjan a Gwobrau: megis y cyflogodd gwraig *Abab* gau *Dystion* i ddwyn bywyd a gwinllan *Naboth* oddi arno. — Bren. xxi. — Ac megis y ceisiodd yr archoffeiriad au dystion yn erbyn Crist, fel y rhodderit ef i farwolaeth; ac y rhodaasant hefyd arjan i'r milwyr, am wadu Adgyfodiad Crist, a dy-wedud, mai ei ddisgyblion a'i dygasant o'r bedd tra'r oedd-ynt hwy yn cysgu. Math. xxvi. 59. xxviii. 11—15.

3. Cam *Dystiolaeth*, er Air neu Lw, tiwy wyo a chandroi, neu gelu than o'r Gwirjonedd, neu chwanegu atto. Felly y gwnaeth gan *Dystion* anwireddus yn erbyn yr Arglwydd Jesu, o herwydd i Crist ddywedud unwaith wrth yr *Juddewon*, *Dinystriwch y deml hon* (ses, ei Gorff ef) ac mewn tridianu y cyfodaf hi: hwy a dygasant, iddunt ei glywed ef yn dywedud, *Mi a ddinystriaf y deml hon o waith dwylaw* (ses, Teml Dduw yn *Jerusalem*), ac mewn tridianu yr adeiladaf arall heb fod o waith llaw: ac felly y dygasant gam *Dystiolaeth* anudonaidd yn ei erbyn ef. Joan ii. 19. Marc xiv. 58.

4. Cam *Dystiolaeth*, trwy osod *Istyriaeth* gam senniol, neu falsois, ar Weithredoedd rhai eraill. Pan yr oedd Crist yn bwrb allan gytbreuljaid, yr *Juddewon* a haerasant, mai trwy *Feezebub*, pennaeith y cytbreuljaid, yr oedd eis yn gwneuthur felly. Math. xii. 22—24.

5. Cymmeryd achlysur i lefatu yn ddrwg ac yn wradwyddus am eraill, oddi wrth ryw bethau ag y fyddo 'n ddi-niwaid. O herwydd fod Crist yn eistedd i fwyta weithjau gyd â rhai a'i gwahoddasai ef i'w teiau, yr *Juddewon* a ddywedasant, mai 'm glwrb, ac yswr gwân, ac mai cyfaill publicaned a phechadurjaid, ydoedd. — Math. xi. 19.

Pan oedd yr Apostolion *yn llesaru â thafodau dieithr, trwy ddisgyniad yr Isbryd Glân arnunt, rhai o'r bobl a ddywedasant, eu bod yn llawn o wîn newydd, neu'n feddw.* Act. ii. 4, 13.

6. Achwynion maleisus a chelwyddog am rai Dynjon wrth Ddynjon eraill, er Niwaid iddunt. Felly y camdystiolaethodd yr Iuddewôn yn erbyn Paul o flaen Ffeslus. Yr Iuddewôn a ddaethant o Jerusalêm i wared, a safasant o'i amgylch, ac a ddygasant lawer o achwynion trymiant yn erbyn Paul, y rhai m'i galent eu profi. Act. xxv. 1. — Felly hefyd y camachwynodd Haman yn erbyn yr Iuddewôn o flaen Abasferus, o fwriad maleisus i ddifetha'r holl Genedl. Est. iii. 8. Luc. iii. 14.

7. Mae Tyftiolaeth wirjoneddus o Fwriad drwg, am Ddynjon diniwaid wrth eu Gelynjon maleisus, weithjau yn bechadurus jawn. — Diar. xxiv. 28. Na fydd dyst heb achos yn erbyn dy gymmydog. Däeg yr Edomjad a dysliodd wrth Saul, i Abimelech yr Offeiriad roddi bara, a chleddyf Goliath, i Ddafydd, pan yr oedd efe yn ffôi o wydd Saul; a'r Dystiolaeth hym (er ei bod yn wir) a fu achos o Lanafra mawr jawn a Dinystr: canys digofaint Saul a gyfrôdd, ac efe a barodd ladd bump a phedwar ugain o offeiriad yr Arglwydd, ac a darawëdd ddinas yr offeiriad, yn wir, ac yn twraig, yn ddyn bach, ac yn blentyn suggno, yn fach, ac yn afyn, ac yn oen, a min y cleddyf. 1 Sam. xxii. 9—20. Titl y Sal. iii. a'r adn. 1, 2, 3, 4, 5. Diar. xi. 13. xxv. 9. Lef. xix. 16.

8. Mae barnu a beio eraill yn fyrbwyl ac yn anghariadol, yn gam Dystiolaeth waharddedig. — Math. vii. 1, 2. Na ffernwc, fel na'ch barner. Canys â pha farn y barnoch, y'ch bernir; ac â pha fesur y mesuroch, yr adfesurir i chwithau. Jago iv. 11. Joan vii. 24. Rhuf. xiv. 10, 13.

9. Pob cam Anghlod, Drwgabsen, ac Enllib, a ddywetto Dynjon am ei gilydd ynghefnau naill y llall. — Ecsod. xxiii. 1. Na chyfad enllib; na ddôd dy law gyd â'r annurwol i fod yn dyst anwir. — Deut. xxvii. 24. Melldigedig yw'r hwn a darawësi gymmydog yn ddirgel: a dywedet yr holl bobl, Amen. — Dim. v. 13.

10. Gwrando, a derbyn, ac adrôdd drachefn, y cyfryw Chwedlau anwireddus a ddywetto Dynjon segur, ag y bair Athrod a Digafedd rhwng Dynjon a'i gilydd. — 1 Sam.

xxiv. 9.

xxiv. 9. A Dafydd a ddywedodd wrth Saul, Pa ham y
gwrandewi eirjau dynjon, gan ddywedud, Wele y mae Da-
fydd yn ceisio niwaid i ti? — Lef. xix. 16. Na rodia yn
atbrodwr ym mysg dy bobl. Diar. xxv. 9, 10. Eccl. xix.
6—10.

11. Pob Ymadroddion anwiredus, a ddywetton'r Genau
yn wrthwyneb i Feddwl y Galon; megis y mae arfer Rhag-
rithwyr a Dynjon ddauwynebog i lefaru. —— Jer. ix. 8, 9.
Saeth lem yw eu tafod hwy, yn dywedud twyll: a'i enau
y traetba un beddwrch wrth ei gymmydog, eithr o'i ferw
y gesyd gynllwyn iddo. Onid ymwelaf a hwyt am byn?
medd yr Arglwydd: oni ddial fy enaid ar gyfryw genedl a
bon? Sal. xii. 2. xxviii. 3. lv. 21. lxii. 4. Math. xxii.
15, 16.

12. Cam Dystiolaeth ddrygionus, a llawn o Bechod, yw
condemno a chablu'r Da, neu gyfiawnhau a chanmol y
Drwg, gan ochri at rai yn fwy nag eraill. —— Diar. xvii.
15. T' neb a gyfiawnhau'r drygionus, ac a gondemno'r
gwirjon; ffraidd gan yr Arglwydd ydynt ill dau. —— Diar.
xxviii. 21. Nid da derbyn wyneb: canys y cyfryw wr am
dammaid o fara a wna gam. Esay v. 20, 23, 24. Diar,
xxiv. 23, 24.

Cw. Pa beth a ddywedir yn yr Ysgrythur am Gôsb y
Pechodau a waherddir yn y Nawfed Gorchymwyn?

Att. 1. Ni dioddef Duw i'r gau *Dystion*, a gam dystio-
laethau yn erbyn y Gwirjonedd, ddiangc yn ddigosb. ——
Diar. xix. 5. Tyf celwyddog ni bydd dieuog: a lluniwr cel-
wyddau ni ddiango. Jer. ix. 8, 9.

2. Mae Cyfraith Duw yn barnu, i wneuthur i'r gau
Dystion, megis yr oeddynt hwy yn bwriadu gwneuthur i
eraill. —— Deut. xix. 18, 19. Tmofyned y barnwyr yn dda;
ac o's y tyf fydd tyf ffals, ac a dystiolaetha ar gam yn
erbyn ei frawd: yna gwneurh iddo fel yr amcanodd
wneuthur i'w frawd; a rhyn ymmaint y drug o'r fyfog.

3. Pobl ragrithiol yw y rhai a enlibiant eu *Cymydogion*;
a Dinyfr ddychrynllyd a ddaw arnunt. —— Diar. xi. 9.
Rhagrithinor a'i enau a lygra ei gymmydog. —— Sal. lxiv.
3, 4, 5. T'rhai a bogant eu tafod fel cleddyf, ac a ergydiant
eu saethau, sef geirjau cbwerwön; i saethu'r perffaith yu
ddirgel: yn adisynnwtb y saethant ef, ac nid ofnant. Eithr
Dwyr

Duw a'u saetha hwynt: a fachb ddifymwrh yr archollir hwynt. — Sal. i. 20 - 22.

4. Mae Dynjon enlibiog ac Absenwyr yn drygu pawb oddi amgylch iddant; fel na fydd neb yn cwynfan o'u plegid pan ddöl Dinystr arnunt. — Sal. iii. 4 - 6. Hoffaist bob geiriau distryw, O dafod twyllodrus. Duw a'r ddiffrisiau aithau yn dragwydd: efe a'r gipia di ymماith, ac a'r dyn allan o'r babell, ac a'r ddiffrisiau o dir y rhai byw. Y cyfarwen hefyd a welant, ac a osnant, ac a chwarddant am ei ben.

5. Duw ei hun a fydd Dyst yn y Faro yn erbyn gau Dystion, ac Anudonwyr; a'i Felldith ef a ddifa eu Teiau hwynt. — Zech. v. 4. Dygaf hi allan, medd Arglwydd y lluoedd (sef, ei Felldith ef) a bi a ddaw i dy'r llethr, ac i dy'r neb a dyngo i'n Henw i ar gam: a bi a erys yng ngbanol ei dŷ ef, ac a'i disfa ef, a'i goed, a'i gerrig. — Mal. iii. 5. A mi a nesâaf atroch chwi i farn, a byddaf dyst cyflwm yn erbyn yr budolion, ac yn erbyn y godinebwyr, ac yn erbyn yr anudonwyr, — medd Arglwydd y lluoedd.

6. Elw anfuddjol a dibarhâad, y mae gan Dystion yn ennill wrth draethu Anwired. — Diar. xxi. 6. Trysorau a gasgler a thafod celwyddog, a chwelir megis gwagedd gan y neb sydd yn ceisio angau. Diar. x. 2.

7. Dynjon ffiaidd gan Ddw, a chyffelyb i'r Diafol, yw'r Enlibwyr, ac Absenwyr, a gan Dystion celwyddog. — Diar. xii. 22. Ffiaidd gan yr Arglwydd wetsfan celwyddog. — Joan viii. 44. O'ch tâd diafol yr ydych chwi, a thrachwantau eich tâd a fymrowch chwi eu gwneuthur. Lleiddiad dyn oedd efe o'r dechreuaed, ac m'n safodd yn y gwirionedd, o blegid nid oes gwirionedd ynddo ef. Pan yw yn dywedid celwydd, o'r eiddo ei bun y mae yn dywedid: canys y mae yn gelwyddog, ac yn dâd iaddo. Act. v. 5.

8. O achos Athrodwyr, Enlibwyr, Absenwyr celwyddog, a gan Dystion, y dioddefodd llaweroedd Ddigafedd mawr a Gorthrymder yn gamweddus; ac y'sbeiliwyd llawer o'u Meddiannau, a'u Bywyd hefyd. Trwy gam Dystiolaeth y Sarph am ffrwyth y Pren gwaharddedig, yr hudwyd y Dŷn cynraf i Bechod a Cholledigaeth. Trwy gam Dystiolaeth yr ysbeiliwyd Naboth o'i winllan a'i fywyd ar unwaith. Trwy gam Dystiolaeth y bu agos i holl genedl yr Iuddeu-

on gael eu difetha yn amser *Abasferus*. Crist ei hun, a' e Merthur Cristionogol cyntaf *Stephan*, a miloedd o Dduw-joljon, a ddioddefasant Erledigaeth greulon, a Marwolaeth, trwy gam *Dystiolaeth* eu Gelynjon.

9. Barnau Duw a ddaethant yn echrydus ar lawer o An-nuwjoljon yn y Byd hwn, o blegid gau *Dystiolaeth*. Y gwyr a ddylanfonodd Moses i chwilio gwlâd *Canaan*, ac a roddasant air drwg i'r wlâd, a laddwyd â'r plâ yn y diffeithwch. Num. xiv. — *Tywysogion meibion Ammon a gamdystiasant* am y cenhadau a ddylanfonafai *Dafydd* i gyfluro'r Brenin ar farwolaeth ei dâd, gan ddywedud mai o fwriad drwg y dylanfonafai *Dafydd* hwy; a *meibion Ammon* a boenydiwyd yn chwerw o blegid hynny: canys hwy a osodwyd dan lisiau, a than ogau beiyrn, a than fwyill beiyrn, ac a fwriwyd i'r odynau calch. 2 Sam. x. 1—5. xii. 26—31. — Jezebel gwraig *Abab*, am gyflogi gau *Dystion* yn erbyn *Naboth*, a daflwyd y maes trwy'r ffenestr, ac a ddamseiniwyd i farwolaeth dan draed meirch *Jebu*, a'r cŵn a fwytasant ei chnawd hi. 1 Bren. xxi. 1—14. 2 Bren. ix. 30—37. — Haman a gamdystiolaethodd wrth *Abasferus* y Brenin yn erbyn yr *Juddewon*; ac efe a grogwyd ar y crogbren a gyfodasant efe o falais i *Fordecau*. (Llyfr *Efther*.) — Amaziah Offeiriad *Betbel* a gamachwynodd wrth *Jeroboam* Brenin *Isræl* yn erbyn *Amos* y Prophwyd; ei wraig a aeth yn buttain, ei seibjon a'i ferched a laddwyd â'r cleddyf, ac yntef ei hun a fu farw dan gaethiwed mewn gwlâd ddiethir. Amos vii. 10—17. — *Ananias a Saphira* ei wraig a suant feirw ill dau yn ddisfyd am roddi *Tystiolaeth* anwireddus i'r Apostol ynglych y tir a werthasant. Act. v.

10. Anudonwyr, a gau *Dystion*, a gauir allan o *Deyrnas Nefoedd*. — Dad. xxi. 8. — A'r boll geluyddwyr, y bydd eu rhan yn y llyn sy'n llosgî â thân a brwmstan; yr hwn gw'r ail farwolaeth. Dad. xxii. 15.

Cw. Pa Ddyiedswyddau sy'n rhwymedig arnoch oddi wrth y Nawfed Gorchymmyn?

Att. 1. Mae'n ddyledus arnom, i fod yn rhwydd-ewyllys-gar i roddi *Tystiolaeth* gyflawn a chywir rhwng Dynjon a'i gilydd; heb dystio mwy na llai, na chuddio dim o'r Gwironedd, na gwyro yn un ffordd oddi wrtho byd eithaf o'n Gwybodaeth; fel na ddioddefo neb Gamwedd o'n hachos ni. — Diar. xii. 17. Y neb a ddywed o'r gwir, a ddengys gyflawn-

gyfiawnder: ond gau dyf a draetha dwyll. — Diar. xiv. 5.
Tyf fwyddlon ni ddywed gelwydd: ond gau dyf a draetha
gelwyddau.

2. Mae'n ddyledus arnom, i berchi'n garuaidd y Bri dy-
ledus a'r Enw da a berthyn i bawb. — 1 Pedr ii. 17.
Petechwch bawb. — Rhuf. xii. 10. *Mewn cariad brawdol*
bydiwch garedig i'w gilydd, yn rhoddi parch yn blaenor i
eu gilydd. Phil. ii. 4.

3. Mae'n ddyledus arnom, i gadw ac i faentumio ein
Bri dyledus ein hunain, a'r Enw da a berthyn i ni, er Go-
goniant i Enw Duw; gan arwain Bywyd disrycheulyd, fel
na allo neb feio arnom, na'n gogau'n gyfiawn. Gelynjon
Daniel a ddywedasant, na allent gael dim achlysur yn ei
erbyn, oddieithr am ei Usudd-dod i Gyfraith Duw. *Dan.*
vi. 5. — Ac am *Ddemetrius* y dywed yr Apostol, fod
iddo air da gan bawb, a chan y gwirjonedd ei bun. 3 Joan
12. Diar. xxiii. 1. Preg. vii. 1. 2 Cor. xi. 12. Phil. iv. 8.
3 Dim. v. 14. Dit. ii. 7, 8. 1 Pedr ii. 12. iii. 15, 16.

4. Mae'n ddyledus arnom, i ymogelyd rhoddi na derbyn
Enllib, neu Ddrwgabsen anwireddus am neb; na chynnwys
Athrodwyr a fo'n tannu Chwedlau goganus ar lèd. — Sal.
xv. 1 — 3. *Arglywydd, pwyl a drig yn dy labell? pwyl a*
breswyllia ym mynydd dy sancteiddrwydd? Yr bwn a ro-
dia yn berffaith, ac a wñel gyfiawnder, ac a ddywed wr̄
yn ei galon. *Heb absennu â'i dafod, heb wneuthur drwg*
i'w gymmydog, a heb dderbyn enllib yn erbyn ei gymmy-
dog. Diar. xxvi. 20, 22. xxv. 23. Sal. ci. 5.

5. Mae'n ddyledus arnom, i orchguddio'n gariadus Ffael-
edd a Gwendid eraill, hyd y bo'n gyfreithlon i wneuthur
felly; ac nid cyhoeddi eu Beiau yn diachos, er Gwradwydd
iddunt. — Diar. x. 12. *Casineb a gysyd gymbennau: ond*
cariad a guddia bob camwedd. — Diar. xvii. 9. *Y neb a*
guddia bechyd, sydd yn ceisio cariad; ond y neb a adne-
zydda fai, sydd yn neillduo tywysogion. Math. xviii. 15.

6. Mae'n ddyledus arnom, na dderbyniom Wynebau neb
mewn Tyf tiolaeth, i farnu yn bartiol am neb; eithr chwilio
allan y Gwirjonedd yn osalus. — Preg. viii. 5. — *Edlon y*
doeth a edwyn amser, a barn. — Sal. lxxxii. 2. *Pa byd y*
bernwch ar gaen? ac y derbyniwch wyneb y rbai annuw-
jol? Joan vii. 24.

7. Mae'n

7. Mae'n ddyledus arnom, i gyflawnhâu ac amddiffyn Enw da, a Diniweidrwydd, y neb a fo'n dioddef Enllib gôganus a Digafedd yn gamweddus. Felly y darfu Jonathan gyflawnhâu ac amddiffyn Diniweidrwydd **Dafydd** o flaen Saul ei dâd, pan yr oedd ei dâd yn ceisio lladd **Dafydd**. —

I Sam. xix, 4—6. *Jonathan a ddywedodd yn dda am Dafydd wrth Saul ei dâd, ac a ddywedodd wrtho, Na pbeched y brenin yn erbyn ei wâs, yn erbyn Dafydd: o herwydd ni pbechodd efe i'th erbyn di, ac o herwydd bod ei weisbred-oedd ef yn dda iawn i ti.* Canys efe a osodes ei einioes yn i law, ac a darawödd y Phlîstiad, a'r Arglwydd a enaer y eichydwríaeth mawr i holl Istrael; ti a'i gwelajist, ac a lawenyichaist: pa ham gan hymny y pechi yn erbyn gewnaed gwirion, gan ladd Dafydd yn ddiachos? A Saul a wrandasaxödd ar lais Jonathan; a Saul a dynodd, Fel mai byw'r Arglwydd, ni leddir ef. I Sam. xxii. 14.

8. Mae'n ddyledus arnom, i lefaru yn gydwybodol ar bob achos; ac na ddywedom Anwedd na Chelwydd mewn dim: canys cam Dystiolaeth yw. — Eph. iv. 25. *O bellwydd pa ham, gan fwrtw ymmaith gelwydd, wywedwch y gwîr bob un wrth ei gymmydog: o blegid aelodau ydym i'w gilydd.* Zech. viii. 16, 17. Lef. xix. 11. Sal. xv. 2. Esay lxiii. 8. Col. iii. 9. Diar. xii. 22.

9. Mae'n ddyledus arnom, i fod yn bwyllog yn ein Hymadrodd am bawb, rhag i ni gamdystiolaethu am danuon; canys Hunandwylwyr a Dynjon digrefydd yw'r Dynjon ta-fodrydd a safnrhwth eu Geirjau. — Diar. x. 19. *Tn amlder geirjau ni bydd pall ar bechod: ond y neb a attalio ei wefusau, sydd sfnbwyrrol.* — Jago i. 19, 26. *O achos byn, sy mrodyr annwyl, bydded pob dŷn esgud i wrando; diog i lefaru, diog i ddigofaint.* O's yw neb yn eich mysg yn cymmeryd arno fod yn grefyddol, heb attal ei dafod, ond i wyllo ei galon ei hun; ofer yw crefydd hwn. Sal. xxxix. 5. Jago iii. 5, 6, 8. Math. xii. 36, 37.

10. Mae'n ddyledus arnom, i wilio na ddywedom yn gabl-eddus am neb yn ddiachos. — Jago iv. 11. *Na ddywedwch yn erbyn ei gilydd, fradyr.* — Dit. iii. 2. *Fod heb gablu neb, yn anymladdgar, yn dirion, gan ddangos pob addfwynder tu ag at bob dŷn.* I Pedr ii. 1. Deut. xxvii. 24. Sal. xxxiv. 12, 13.

11. Mae'n ddyledus arnom, i fod yn helaeth yn y Grâs o Gariad: canys hyn a bair na bôm yn angharuaidd i neb, mewn Meddwl, Gair, na Gweithred. — i Pedr iv. 8. O flaen pob peth, bydded gennych gariad betaeth tu ag at ei gilydd: canys cariad a guddia liaws o bechoda. i Cor. xiii. 4, 5.

12. Mae'n ddyledus arnom, i ddioddef yn ammyneddgar, gan ymddiried yn Nuw, pan y'n cebler yn gamweddus, ac y casmdystiolaethir yn ein herbyn, yn Achos Crist. — i Pedr ii. 20. — O's, a chwi yn guneurhir yn dda, ac yn dioddef, y byddwch dda eich ammynedd, hyn sydd rasol ger bron Duw. Sal. cxii. 1, 7. cxix. 69. Math. v. 11, 12. Luc. xxi. 39. i Pedr iii. 13—15.

Cw. Beth yw'r Degfed Gorchymmyn?

Att. Na chwennych dŷ dy gymmydog, na chwennych wraig dy gymmydog, na'i wasanaethwr, na'i wasanaethferch, na'i ych, na'i asyn, na dim a'r sydd eiddo dy gymmydog.

Cw. Ynghylch pa beth y mae'r Degfed Gorchymmyn?

Att. Megis y mae'r Gorchymmynion eraill o'r ail lech yn ein rhwymo yn fwyaf enwêdigol rhag trofoddu yn erbyn ein Cymmydog mewn pethau oddi allan; mae'r Degfed Gorchymmyn yn ein rhwymo i gadw'n Meddyliau oddi mewn rhag chwennychu dim yn bechadurus ag sydd eiddo eraill.

Cw. Pa fawl peth a ddylech ddal fulw arnunt yngbylch y Degfed Gorchymmyn?

Att. Tri pheth.

1. Bod y Gorchymmyn hwn yn rhagori ar holl orchymmynion a chyfreithiau dynjon; o blegid nad oes end Duw yn unig ag all osod Rhwymedigaeth ar Chwantau a Meddyliau'r Galon. — i Bren. viii. 39. — Canys ti yn unig a adwaenost galonnau holl feibion dynjon.

2. Bod Duw yn amlyu Ystyrydysbrydol y Gyfraith yn fwy eglur yn y Gorchymmyn hwn, er fod pob Trachwantau pechadurus oddi mewn yn waharddedig yn Ystyriaeth y Gorchymmynion eraill; eithr o herwydd ein dallineb ni, y mae Duw yn hysbysu hynny yn fwy amlwg yn y Degfed Gor-

Gorchymmyn, fel y gallo pob Dŷn adnabod Pechod ei Galon. — Rhuf. vii. 7. — Canys i'nd adnabuasun i drachwante, oni bai ddywedud o'r ddeddf, Na trachwanta. Math. xix. 16—20.

3. Bod Duw yn ein rhwymo i wrthwynebu pob Chwennychiad neu Chwant pechadurus oddi fewn; o blegid fod Calon Dŷn yn llawn o Drachwantau drygionus, ac mai'r Dechreuaid a'r Gwrâidd o bob Pechod ydynt. — Gen. vi. 5. A'r Arglwydd a welodd mai aml oedd drygioni dyn ar y ddaear, a bod bell furriad meddylfryd ei galon, yn unig yn ddrygionus bob amser. Jago i. 14, 15. Diar. iv. 23.

Cw. Pa sawl Rhan sydd yn y Degfed Gorchymmyn?
Att. Dwy Ran.

1. Y Weithred oddi mewn, yng Nghâlon Dŷn, ag ym ni yn rhwymedig i wrthwynebu; sef, Chwennych, neu Chwantu.

2. Y pethau enwêdigol na ddylem eu chwennych; sef, Tŷ neu Wraig, Gwâs neu Forwyn, Ych neu Asyn ein Cymydog, na dim arall a'r sydd eiddo.

Cw. A ellwch chwi chwennychu dim, heb bechu yn erbyn y Gorchymmyn hwn?

Att. 1. Cynneddf naturiol a blannodd Duw yn fy Enaid, yw, Chwennychiad, neu Chwant a Dymuniad; ac am hynny y mae yn ddibechod ac yn ddyledus i mi chwennych a dymunaid, mewn modd cyfreithlon, y cyfryw bethau cysfreithlon ag sy fuddjol ac angenheidjol i mi. — 1 Pedr ii. 2. — Chwennychwch ddidwyll laeth y gair, fel y cynryddoch trwyddo ef. — 1 Cor. xiv. 1. — Deis yfach ddonjau ysbrydol. 1 Cor. xii. 31.

2. Y mae'n Bechod 'sgeler, i chwennych unrhyw beth o eiddo'n Cymydog, na fyfho'n gyfreithlon i ni gael, nag yn gyfreithlon iddo yntef ganiattâu. Deut. v. 21.

3. Ni ddylem ni chwennych dim ag sy gyfreithlon, heb Gydsyniad gwirfodd ein Cymydog; nac ychwaith i chwennych dim ag sydd gyfreithlon i geisio gan ein Cymydog, gyd â Serch a Chwant anghymhedrol am dano; hyn a barodd i Abab glafychu, a phechu'n aruthr, pan ballodd. Naborth i werthu ei winlan iddo. 1 Bren. xxii.

Cw. Pa Bechoda'u neillduol a waherddir yn bennaf yn y Degfed Gorchymmyn?

Att. Fe waherddir, yn y Degfed Gorchymmyn, bob math o Bechod

o Bechd a'r sy'n tueddu i fagu ynnom unrhyw Chwant neu Chwennychiad drwg a llygredig: Megis,

1. Pob Meddyliau anesmwyth, ac Anfodlonrwydd i'r 'Stâd a'r Cyflwr tymhorol a drefnodd Duw i ni; o herwydd fod hynny yn chwannog i'n temtio i Chwennychiad neu Drachwant pechadurus. Anfodlonrwydd y Brenin *Ahab* a barodd iddo chwennych winllan *Naboth*. i Bren. xxi.— Ac Anfodlonrwydd *Haman* a barodd iddo chwennych Bywyd *Mordecai*. Est. v. 9—13.

2. Balchder a Gwâgogonian: canys y Balch a chwennych yr Anhydedd a berthyn i eraill; ac a chwennych Feddian-nau eraill, i borthi a chynnal ei Falchder. Efe a helaelha ei feddwl fel uffern; y mae fel angau, ac ni's digonir.— Efe a helaelha y petb nid yw eiddo; — ac a elwâ elw drwg i'w dy, i osod ei nyth yn uchel. Hab. ii. 5, 6, 9.

3. Cynfigen, a Drwg-lygad; neu ymddigio ynnom ein hunain o herwydd Llwyddiant, neu Barch a Dajoni eraill. O Gynfigen y chwennychodd plant *Jacob* ddistrywio *Joseph* eu brawd. Act. vii. 9. — O Gynfigen y chwennychodd *Saul* ladd *Dafydd*. i Sam. xviii. 5—11. Jago iii. 16. Math. xx. 15.

4. Serch awyddus i Elw'r Byd; ag sy'n magu Tymherau cybyddus, na's gellir byth eu bodloni, er maint a gaffont. — Preg. v. 10. Y neb a garo arjan, ni ddigonir ag arjan; na'r neb a boffo amldra, â chynnrych. Diar. xv. 27. Luc xii. 15. i Dim. vi. 9, 10. Dit. ii. 12. i Joan ii. 15, 16. Col. iii. 1, 2.

5. Porthi Chwantau'r Cnawd, trwy fwyta ac yfed yn rhy helaelha: canys felly y mae Bord y Glwth a'r Moethus yn rŵwyd, ac yn fagl, ac yn dramgyrdd, ac yn daledigaeth iddunt. Rhuf. xi. 9. — Rhuf. xiii. 14. — Na wnwch rag-darbol dros y cnawd, er mwyn cyflawni ei chwantau ef. i Pedr ii. 11.

6. Pob Cydfynniad yn ein Calonnau ag unrhyw Chwant neu Chwennychiad pechadurus: canys oddi wrth hyn y mae pob Drygau yn dysod. — Math. xv. 19. Canys o'r galon y mae meddyliau drwg yn dyfod allan, lladdiadau, tor-priodasau, godinebau, lladradau, camdystiolaethau, cablau.— Jago i. 15. Chwant, wedi ymddwyn, a esgor ar bechd: pechd besyd, pan orphenner, a esgor ar farwolaerb. Deut. xv. 9. Zech. viii. 17. i Joan ii. 16.

7. Pob Annuwjoldeb, pa fath hynnag y fyfho: canys y mae'n tueddu Dynjon i chwennych neu ddymunaif yr hyn sy ddrwg. — Diar. xxi. 10. Enaid yr annuwjol a ddeisif ddrwg: nid grafol yw ei gymmydog yn ei olwg es. Jago iv. 5.

Cw. Beth mae'r Ysgrythur yn ddywedud am Ddrwg a Chôsb Trachwant pechadurus, ag a waberddir yn y Degfed Gorchymmyn?

Awr. 1. Mae Chwantau pechadurus yn niweidiol i Ef-mwythder, a Jechyd, a Bywyd Dynjon. Drwg-lygad, a Chwennychiad cynfigennus Haman tu ag at Fordesai, a barodd nad oedd ei holl olud a'i ddyrhefaiad ei hun yn llefhâu dim iddo. Es. v. — Trachwant Abab a'i gofidiodd mor flin, nes iddo gadw ei wely'n glaf; ac ym mhen amser ar ôl hynny, i farw'n anhappus. i Bren. xxi, xxii. Esay lvii. 20.

2. Mae Chwantau cybyddus y Byd yn gwneuthur Dynjon yn rhagriethiol yn Addoliad Duw, ac yn rhwystro iddunt gael Lîes oddi wrtho; megis y dywaid Duw am wrandawyr Ezeziel: — Ezec. xxxiii. 31. Deuant attad fel y daw y bobl, ac eisteddant o'th flaen fel sy mholb; gwrandawänt hefyd dy eiriau, ond ni's gwnant hixy: canys â'u geneuaau y dangosant gariad, a'u calon sydd yn myned ar ôl eu cybydd-dod. — Marc iv. 19. Y mae gofalon y byd bren, a hudoñaeth golud, a chwantau ong berbau eraill, yn dyfod i mewn, ac yn tagu'r gair, a myned y mae yn ddiffrywth.

3. Mae Chwantau pechadurus y Cnawd yn milwrio yn erbyn ein Heneidjau, ac yn gwirthwynebu Ysbryd Duw. —

i Pedr ii. 11. Annwylyd, yr wyf yn atsolwg i chiwi megis dieithriaid a phererinion, ymgodwch oddi wrth chwantau cnawadol, y rhai sy yn rhyfela yn erbyn yr enaid. — Gal. v. 17. Canys y mae'r cnawd yn chwennychu yn erbyn yr Ysbryd, a'r Ysbryd yn erbyn y cnawd: a'r rhai hyn a wrthwynebant ei gilydd, fel na alloch wneudur berth bynnag a ewyllysioch. Rhuf. vii. 23.

4. Mae Chwantau pechadurus y Cnawd yn rhwystro'n Gweddiau ni. — Jago iv. 3. Gofyn yr ydych, ac nid ydych yn derbyn, oherwydd eich bod yn gofyn ar gam, fel y galloch eu treulio ar eich meluschwantau. Joan ix. 31. Job xxvii. 8, 9.

5. Mae Trachwantau pechadurus yn tynnu Digofaint Duw arnom. — Col. iii. 5, 6. Marwhêrwyd gan hynny eich aelodau,

Iodau, y rhai sy ar y ddaear, godineb, afendid, gwŷn, drygchwant, a chybydd-dod, yr hon sydd eulynaddoliaeth: o achos yr byn bethau y mae digofaint Durw yn dyfod ar blant yr anifudd-dod. Rhuf. viii. 7. Esay lvii. 17.

6. Oddi wrth Chwantau neu Chwennychiad pechadurus y Cnawd y mae'r holl Ddrygau yn dyfod, ag sy'n cau Dynjon allan o Deyrnas Nefoedd. — Gal. v. 19—21. Hefyd amwg yw gweithredoedd y cnawd; y rhai yw, Tor-priodas, godineb, afendid, anlladrwydd, delwâddoliaeth, swyngysaredd, casineb, cynhennau, gwynsydau, llid, ymrysonau, ymbleidio, heresiau, cynfigennau, llofruddjaeth, meddwdod, cyfeddach, a chyffelyb i'r rhai byn: am y rhai yr wyf si yn rhagddywedud wrthych, megis ag y rhagddywedais, na chaiff y rhai sy'n gwneutbur y cyfryw bethau etifeddu teyrnas Duw.

7. O blegid Trachwantau neu Chwennychiad pechadurus y daeth Barnau trymmion ar lawer yn y Byd hwn. Trwy Chwant Ymddial y lladdodd Cain Abel; ac yr aeth fel gwibiad a chrwydrad ar wyneb y ddaear. Gen. iv. — O Serch pechadurus i'r pethau a adawödd hi yn Sodom, yr edrychodd gwraig Lot yn ôl; a hi a dröwyd yn golofn baten. Gen. xix. 26. — Trachwant Gehazi a'i twyllodd i ddywedud celwydd; a Gwahanglwyl Naaman, trwy Earn Duw, a lynodd wrtho ef a'i hdd yn dragwydd. 2 Bren. v. 27. — Chwant neu Chwennychiad pechadurus pobl Ifræel, yn blysto am gîg, a dynnodd Blâ mawr arnunt. Num. xi. 4, 33. Sal. lxxviii. 30, 31. 1 Cor. x. 6.

Cw. Pa Ddyledswyddau sydd rwymedig arnoch oddi wrth y Degfed Gorchymwyn?

Att. Mae'r Degfed Gorchymwyn yn rhwymo arnaf bob Dyledswydd ag sy wrthwyneb i'r Pechod a waherddir ynddo; sef, pob Dyledswydd ag sy fuddiol i'm cadw rhag chwennych Eiddo eraill yn anghyfreithlon.

Cw. Pa Ddyledswyddau ydyw'r rheini?

Att. 1. Mi a ddylwn fodloni i't 'Stâd a'r Meddiant a drefnodd Duw i mi, er na bo gennys ond ychydig: canys Dynjon anfodlongar sy'n chwennych Eiddo eraill. — 1 Dim. vi. 8. O bydd gennym ymborth a dillad, ymfodlonwn ar hynny. — Phil. iv. 14. — Myf a ddysgais, ym mba gyflwr bynnag y byddwys, fod yn fodlon iado. Hebr. xiii. 5. 2 Cor. xii. 10.

2. Mi

2. Mi a ddylwn dynnu sy Serch, ac ymddiddysnu oddi wrth wâg Elw'r Byd, ag sy'n temtio Dynjon i Drachwant.

— Sal. lxii. 10. — O's cynnydda golud, na roddwch eich calon arno. — Sal. cxxxii. 2. Gosodais, a goflegais fy enaid, fel un wedi ei ddiddysnu oddi wrth ei fam: fy enaid sydd ynnof fel un wedi ei ddiddysnu. 1 Joan ii. 15. Preg. vi. 11.

3. Mi a ddylwn roddi sy Serch ar Dduw, a'i gymmeryd ef yn Rhan sy Etifeddiaeth: canys y Mwynhâad o Dduw yn unig a rydd i'm Henaid gyflawn Fodlonrwydd, fel na bo i Drachwant le ynnof. — Sal. xvi. 5, 6. Yr Arglywydd yw rhan sy etifeddiaeth i a'm phiol: ti a gynbeli sy nghanolbren. Y llinynnau a syrthiodd i mi mewn lleoedd byfryd; ie y mae i mi etifeddiaeth dêg. Sal. lxxiii. 25. Joan iv. 14. vi. 35.

4. Mi a ddylwn weddio ar Dduw, i ddwyn fy Nghalon dan Reolaeth ei Air ef, a'i Râs; gan roddi fy holl Ofal arno am bob peth sydd raid i mi. — Sal. cxix. 36. Gofiwng fy nghalon at dy dystiolaethau, ac nid at gybydd-dra. — 1 Pedr v. 7. Gan furw eich holl ofal arno ef; canys y mae efe yn gofalu drosoch chwi. Sal. xxxvii. 5. Math. vi. 31—33.

5. Mi a ddylwn lafurio'n ddiesgeulus am Burdeb Calon, a gwilio'n ddyfal na chynheswyf Chwantau anghyfiawn ynddi. — Diar. iv. 23. Cadw dy galon yn dra diesgeulus; canys allan o honi y mae bywyd yn dysfod. Jer. iv. 14.

6. Mi a ddylwn gosbi fy Nghorff, a'i ddwyn yn gaeth, trwy Hunanymwadiad ac Ymprydiau, i farwhâu pob Chwantau a Chwennychiad anghyfiawn. — Gal. v. 24. Canys y rhai sydd yn eiddo Crist, a groesboeliasant y cuaud, a'i wyliau, a'i chwantau. Rhuf. vi. 6. viii. 13. 1 Cor. ix. 27.

7. Mi a ddylwn weithio'n ddiwyd yn fy Ngaliwâd, i ennill fy Mara beunyddiol a'm Cynhaliaeth yn oneist; fel na'm dyger gan Dlodi ac Angen i chwennych Eiddo eraill. — Eph. iv. 28. Yr hwn a ledrattaodd, na ledrassed mynyach; eithyr yn hytrach cymmered baen, gan weithio â'i ddrwy-law yr hyn sydd dda. 1 Thess. iv. 11, 12. 2 Thess. iii. 11, 12.

8. Mi a ddylwn warchod mor ddyfal dros fy Meddyliau, ag y gailwyd yn ddibryder appelio at Dystiolaeth pawb a'm hadwaenart, pa un a chwennychais ddim o Eiddo neb

yn anghyfreithlon. — *Samuel a ddywedodd wrth yr holl bobl, Wele fi, dystiolaethwch i'm herbyn ger bron yr Arglywydd, a cher bron ei enneiniog: Tch pwy a gymmerais? neu a syn pwy a gymmerais? neu pwy a dwyllais? neu pwy a orthrymmais i? neu o law pwy y cymmerais wrth i ddallu fy llygaid ag ef? a mi a'i talaf i chwi.* 1 Sam. xii. 3. — *Paul hefyd, wrth ymadel â'r bobl, a ddywedodd, Arjan, neu aur, neu wsg neb, ni chwennychais.* Act. xx. 33.

9. Mi a ddylwn gyfaddef ger bron Duw, ac edifarthau o blegid pob Chwennychiad pechadurus a gafodd le ynnof un amser yn ddirgelaidd, na's dichon Dynjon dystiolaethu am dano. — Diar. xx. 9. *Pwy a ddichon ddywedud, Mi a lanbeais fy nghalon; glân wyf oddi wrth fy mhechod?* — Sal. xix. 12. *Pwy a dylill ei gamweddau? glanhâ fi oddi wrth fy meiau cuddiedig.* Diar. xxiv. 9. Esay lv. 7. Act. viii. 22.

10. Mi a ddylwn edrych, nid yn unig na chwennychwys Eiddo eraill i'm boddio fy hun; eithr hefyd chwennychu i eraill yr hyn sytho da i'w boddio hwy. — Rhuf. xv. 2. *Boddbæd pob un o honom ei gymmydog, yn yr byn fy dda iddo er adeiladaeth.* 1 Cor. x. 33. Phil. ii. 4.

Cw. Beth yr wyt ti yn ei ddysgu yn bennaf wrth y Gorchymwynnion hyn?

Att. Yr ydwyt yn dysgu dau beth: fy nyled tu ag at Dduw, a'm dyled tu ag at fy Nghymmydog.

Cw. Pa beth yw dy ddyled tu ag at Dduw?

Att. Fy nyled tu ag at Dduw yw,

1. Credu ynddo. — 2 Cron. xx. 20. — *Credwch yn yr Arglywydd eich Dduw, a chwi a sicrheir.*

2. Ei ofni. — Preg. xii. 13. — *Ofna Dduw, a chadw ei orchymwynnion: canys byn yw holl ddyled dyn.*

3. Ei garu â'm holl galon, â'm holl feddwl, â'm holl enaid, ac â'm holl nerth. — Luc x. 27. — *Ti a geri yr Arglywydd dy Dduw â'th holl galon, ac â'th holl enaid, ac â'th holl nerth, ac â'th holl feddwl.*

4. Ei addoli ef. — Math. iv. 10. — *Yr Arglywydd dy Dduw*

Dduw a oddoli, ac ef yn unig a wasanaethi. Sal. xciv. 6.
Joan iv. 24.

5. Diolch iddo. — 1 Theff. v. 18. *Ym m bob dim diolchwrch: canys byn yw ewyllys Duw yng Nghrist Jesu tu ag attoch chwi.* Sal. xcii. 1.

6. Rhoddi fy holl ymddiried ynddo. — Diar. iii. 5. *Gobeithia yn yr Arglwydd â'ib holl galon; ac nac ymddiried i'ib adyall dy hun.*

7. Galw arno. — 1 Theff. v. 17. *Gweddiwrch yn ddi-baid.* Esay iv. 6. Jer. xxix. 12, 13.

8. Anrhydeddu ei Enw sanctaidd ef, a'i Air. — Sal. xxix. 2. *Moeswrch i'r Arglwydl ogoiant ei Enw.* — Sal. lvi. 10. *Tu Nuw y molianaf ei air: yn yr Arglwydd y molianaf ei air.* Sal. cxxxviii. 2. Jer. xv. 16. Lef. xix. 12. Sal. cxix. 161.

Ac, 9. Ei wasanaethu yn gywir holl ddyddjau sy mywyd. — Hebr. xii. 28. — *Bydded gennym ras, trwy'r hen y gwasanaethom Dduw wrth ei fodd gyd â gwyldeir a pharchedig ofn.* Luc i. 74, 75.

Cw. Pa beth yw dy ddyled tu ag at dy Gymmydog?

Att. Fy nyled tu ag at sy Nghymmydog yw,

1. Ei garu ef fel fi fy hun. — Math. xxii. 59. *A'r ail sydd gyffelyb iddo; Cár dy gymmydog fel ti dy hun.*

2. Gwneuthur i bob dŷn, megis y chwennychwñ iddo wneuthur i minnau. — Math. vii. 12. *Am hynny, pa bethau bynnag oll a ewybyliwrch eu gwneuthur o ddynion i chwi, felly gwnêwrch chwithau iddant hwy: canys byn yw'r gyfraith a'r prophwydi.*

3. Caru o honof, anrhydeddu, a chymorth sy Nhâd a'm Mam. — Math. xv. 4. *Canys Duw a orchymynnod, gan ddyweddud, Anrhydedda dy did a'ib fam.*

4. Anrhydeddu, ac usuddhau i'r Brenin, a'r Swyddogion. — 1 Pedr ii. 13, 14. *Tmddarostyngwrch o blegid hyn i bob dynol ordinbaud, o berwydd yr Arglwydd: pa un bynnag ai i'r brenin, megis goruchaf; ai i'r llyw-iaredwyr, megis trwyddo ef wedi eu danfon, er diaf ar y drwg weithredwyr, a marel i'r gweithredwyr da.*

5. Ymddarostwng i'm holl Lywiawdwyr, Dysgawdwyr, a'm Bugeiliaid ysbrydol. — Hebr. xiii. 17. Usuddwrch i'ch blaenoraid, ac ymddarostyngwrch: o blegid ymaent hwy yn gwilio dros eich enei. iau cwwi, megis rhai a fydd rbaid iddunt roddi cyfrif: fel y galloni wneuthur hynny yn llawen, ac nid yn drift: canys difudd i cwwi yw hynny.

6. Ac ymddarostwng i'm Meistred, a'm Hathrawon. — I Pedr ii. 18. Yr gweision, byddwrch ddarostyngedig gyd â phob ofn i'ch meistred; nid yn unig i'r rbai da a chweithas, eithr i'r rbai anghyweithas hefyd.

7. Ymddwyn o honof yn ostyngedig, gan berchi pawb o'm gwell. — I Pedr v. 5. Yr un ffunyt yr ieuangec, byddwrch ostyngedig i'r henurjaid. Phil. ii. 3.

8. Na wnelwyf niwaid i neb, ar air, na gweithred. — Phil. ii. 15. Fel y byddoch ddiargyoedd, a diniwaid, yn blant difeius i Dduw. Math. v. 44.

9. Bod yn gywir ac yn unjawn ym mhob peth a wnelwyf. — Phil. iv. 8. — Pa bethau bynnag sydd wr, pa bethau bynnag sydd onest, pa bethau bynnag sydd gyfawn; — meddyliwrch am y pethau byn. I Theff. iv. 6. Hebr. xiii. 18.

10. Na bo na châs na digasedd yn fy nghâlon i neb. — Col. iii. 8. — Rhoddwch chwithau ymmaith yr holl bethau byn; Digter, llid, drygioni. Eph. iv. 31. Lef. xix. 17. I Joan iii. 15.

11. Cadw o honof fy nwylaw rhag chwilen a lledratta. — Eph. iv. 28. Yr hwn a ledrattaodd, na ledratted mwyach; eithr yn hytrach cymmered boen, gan weithio â'i ddwylaw yr byn sydd dda.

12. Cadw fy nhafod rhag dywedud celwydd, cableirjau, na drwgabsen. — Col. iii. 9. Na ddywedwrch gelwydd wrth ei gilydd. — Dit. iii. 2. Bod heb gablu neb. — Sal. ci. 5. Torraf ymmaith yr hwn a enllibio ei gymydog yn ddirgel. Eph. iv. 25. Jago i. 26.

13. Cadw fy nghorff mewn cymhedroldeb, sobrwydd, a diweirdeb. — Luc xxi. 34. Ac edrychwch arnoch eich bunain,

bunain, rhag i'ch calonnau un amser drymbâu trwy lyth-neb, a meddwod. — Rhuf. xiii. 13. Rhodiwn yn weddus, megis wrth liw dydd; nid mewn cyfeddach a medd-wdod, nid mewn cydor-wedd ac anlladrwydd. Dit. ii. 12. 1 Theff. iv. 3, 4.

14. Na chybyddwyf ac na ddeisyfwyf ddâ na golud neb arall. — Hebr. xiii. 5. Bydded eich ymar-weddiad yn ddiarjanger; gan fod yn fodlon i'r byn sydd gennych.

15. (Ac, yn olaf) Dysgu a llasurio'n gywir, i gefisio ennill fy mywyd, ac i wneuthur a ddylwyf, ym mha ryw fuchedd bynnag y rhyngo bodd i Dduw fy ngalw. — 1 Theff. iv. 11. A rhoddi o honoch eich bryd ar fod yn llonydd, a gwneuthur eich gorchwylion eich bunain, a gweithio â'ch dwylaw eich bunain. — 1 Cor. vii. 20, 24. 'Pob un yn yr alwêdigaeth y galwyd ef, yn honno arboset. Yn yr byn y galwyd pob un, yn hynny arboset gyd â Duw.

Cw. Pa beth sydd i chwi ddysgu oddi wrth yr *Esboniad* byn o'r *Deg Gorchymwyn*?

Att. 1. Mi a ddylwn weled mor gynnwys mewn geirjau, ac mor heliath mewn ystyr, yw Cyfraith Duw; gan fod pob math o Bechodaun yn waharddedig, a phob Dyledswyddau a berthyn i Foesoldeb yn orchymmynnedig, yn y *Dengair Deddf*. — Sal. cxix. 96. — *Dy orchymmyn di* sydd dra ebang.

2. Mi a ddylwn ryseddu Tiriondeb Dajoni Duw, yn fy Amddiffynniad rhag bob Perygl: canys nid oes un Drwg, na Niwaid, a ddichon Dynjon wneuthur i'm Bywyd, na'm Meddiant, na'm Henw da, mewn Meddwl, Gair, na Gweithred, nad ydyw Duw yn gwahardd iddunt. — Hebr. ii. 6. — *Pa beth yw dyn, i ti i feddwl am dano?*

3. Mi a ddylwn ystyriaid, gan fod Trofediadau y *Gorchymmynion* mor aml ac amrywjol, mor aneirif yw fy Mhechodaun i yn erbyn Duw a Dynjon. — Rhuf. iii. 20. — *Canys trwy'r ddeddf y mae adnabod peched.* Sal. xl. 12. Esay lxiv. 6. Diar. xx. 9.

4. Mi a ddylwn weled, wrth mor aml yw'n Trofedd ni yn erbyn Cyfraith Duw, mor ammhossibl yw i mi fod yn gyfiawn

gyfiawn a chymmeradwy yngolwg Duw trwy sy Ngweithredoedd fy hun. — Rhuf. iii. 20, 23. — Trwy weithredoedd y daeddf ni cyfiawnheir un canad yn ei olwg ef: canys trwy'r ddeddf y mae adnabod pechoda. O blegid pawb a bechasant, ac ydynt yn ôl am ogoiant Duw. Sal. cxliii. 2. cxxx. 3. Job xv. 14—16. xxv. 4. Gal. ii. 16.

5. Mi a ddylwn weled y Rhwymedigaeth sydd arnaf i glodfori Cariad Duw am yr Arglwydd Jesu, trwy'r hwn yn unig y mae Cyfiawnhâad a Maddeuant, er amled yw sy Nhrofeddau yn erbyn Cyfraith Daw. — Joan iii. 16. Canys felly y carodd Duw y byd, fel y rhoddodd efe ei uniganedig Fab, fel na chollwr pwy bynnag a gredo ynddo ef, ond caffael o hono sy-wyd tragwyddol. — Act. xiii. 38, 39. — Byadded hysbys i chwi, ba wyr frodyr, mai trwy bwn yr ydys yn pregethu i chwi faddeuant pechoda: a thwrwy bwn y cyfiawnheir pob un sydd yn credu, oddi wrth yr holl berbau, y rhai ni allech trwy gyfraith Moses gael eich cyfiawnhâu oddi wrthunt.

6. Mi a ddylwn weled y Cyflwr tosturus yr wyf si ac eraill ynddo, tra fyddom heb Ran yng Nghrist trwy Ffydd, ac yn gorhwyrs ar ein Gweithredoedd ein hunain. — Gal. iii. 10. Canys cynnifer ag y sy o weithredoedd y ddeddf, dan fell-dith y maent: canys ysgrifennwyd, Melldigedig yw pob un nid yw yn aros yn yr holl bethau a sgrifennwyd yn llyfr y ddeddf, i'w gwneuthur hwynt. — Joan iii. 36. Yr hwn sydd yn credu yn y Mab, y mae ganddo sywydd tragwyddol: a'r hwn sydd heb gredu i'r Mab, ni wêl fynys; eithyr y mae digofaint Duw yn aros arno ef. Rhuf. vi. 23.

7. Mi a ddylwn ddiolch i Dduw, am Eglwysâad o Feddwl y Gorcymwynnion; o blegid mai Ufudd-dod Efangyllaidd iddunt, trwy Ffydd yng Nghrist, yw'r Rheol a ordeiniodd Duw o'n Buchedd ni yn y Byd hwn, ac yn Dystiolaeth i ni o Fywyd tragwyddol, trwy Crist, yn y Byd a ddaw. — Dad. xxii. 14. Gwyn eu byd y rhai sy yn gwneuthur ei orchymwynnion ef, fel y byddo iddunt fraint ym mbren y bywyd, ac y gallont syned i mewn trwy'r pyrrh i'r ddinas. — Hebr. v. 9. Ac wedi ei berfeithio, efe a wnaeth pwyd yn Awdur iechydwriaeth dragwyddol i'r rhai oll a ufudhâant iddo.

